sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# OFCOM
# ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL
## 2021/22




Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021
i 31 Mawrth 2022

# ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL Y SWYDDFA GYFATHREBIADAU

**Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022**

Wedi'i gyflwyno i Senedd y DU yn unol â Pharagraffau 11 a 12 Atodlen 1 Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002

Wedi'i orchymyn gan Dŷ'r Cyffredin i gael ei argraffu ar 21 Gorffennaf 2022

Wedi'i roi gerbron Senedd Yr Alban gan Weinidogion Yr Alban

Wedi'i roi gerbron Senedd Cymru gan y Gwir Anrh  Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru

Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon gan Gordon Lyons MLA, Gweinidog dros yr Economi yng Ngogledd Iwerddon

© Hawlfraint Ofcom 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom yn ofcomcontactcentre@ofcom.org.uk.

ISBN 978-1-5286-3497-7
E02761634 07/22
SG/2022/117

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Wedi'i argraffu yn y DU gan Hobbs the Printers Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi


# CYNNWYS

## TROSOLWG


2 Neges gan y Cadeirydd

3 Adroddiad y Prif Weithredwr

5 Pwerau a dyletswyddau

## ADRAN A PERFFORMIAD


9 Adolygiad o berfformiad


45 Y prif risgiau a materion sy'n peri ansicrwydd

49 Gwaith yn y Gwledydd a'n hymgysylltiad rhyngwladol

59 Adolygiad ariannol

64 Cyfrifoldeb corfforaethol

68 Adroddiad cynaladwyedd

## ADRAN B ATEBOLRWYDD


73 Llywodraethu

99 Ein gweithwyr

102 Adroddiadau taliadau

109 Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Senedd y DU Senedd yr Alban, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon




## ADRAN C DATGANIADAU ARIANNOL


114 Datganiad incwm a gwariant


114 Datganiad incwm cynhwysfawr net

115 Datganiad o'r sefyllfa ariannol

116 Datganiad o newidiadau mewn ecwiti

117 Datganiad o'r llifoedd arian parod

118 Nodiadau i'r cyfrifon

## ADRAN C ATODIADAU


158 A1. Adran 400

159 A2. Datganiadau rheoleiddio

164 A3. Rhaglen ymchwiliadau

165 A4. Cwynion, achosion a sancsiynau darlledu

177 A5. Peirianneg a gorfodi sbectrwm

178 A6. Trwyddedu sbectrwm

183 A7. Cynaladwyedd




# WRTH EIN CADEIRYDD

## YR ARGLWYDD GRADE, CBE



Er mwyn i bobl barchu ac i gredu yn Ofcom, mae'n rhaid iddynt ymddiried yn y gwaith a wnawn.

**Gyda balchder a chyffro, dechreuais ar fy swydd fel Cadeirydd ym mis Mai 2022, wrth i Ofcom baratoi i gychwyn ar esblygiad sylweddol yn ei rôl fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau.**

I ennyn parch y cyhoedd at Ofcom, mae angen medru ymddiried yn ein gwaith. Mae hynny'n golygu gweithredu er budd y cyhoedd bob amser. Felly, mae'n rhaid i'n Bwrdd barhau i ymrwymo i warchod annibyniaeth a didueddrwydd Ofcom.

Rydym yn herio'n annibynnol ac yn wrthrychol ar draws cylch gwaith cyfan Ofcom, heb ddylanwad personol, gwleidyddol na masnachol. Mae Ofcom yn atebol i'r Senedd Brydeinig ac i bobl y Deyrnas Unedig. Mae cyfathrebu'n effeithiol hefyd yn golygu gwrando, ymateb a rhoi sylw i anghenion ac agweddau pobl tuag at y cyfryngau wrth iddyn nhw newid. Mewn sector cyfathrebiadau sy'n newid yn gyflym, mae angen i ni ragweld ac ymateb yn gyflym i newidiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen.

Rydym yn gofyn am farn y cyhoedd yn gyson er mwyn cyfeirio penderfyniadau rheoleiddio a gwella ein dealltwriaeth, gan ddefnyddio ein rhaglen ymchwil sydd o safon fyd-eang.

Rydym yn paratoi ar gyfer her newydd, sef ein rhan ni yn y broses o weithredu deddfwriaeth arwyddocaol. O dan Fil Diogelwch Ar-lein y llywodraeth y DU – y deddfau cyntaf o'u math yn y byd – byddwn yn cael pwerau newydd i ddal rhai o gwmnïau technoleg mwyaf a mwyaf pwerus y byd yn atebol, gan sicrhau eu bod yn rhoi diogelwch yn gyntaf ac yn cymryd cyfrifoldeb dros ddiogelu eu defnyddwyr rhag cynnwys niweidiol.

Rydym yn awr yn gweithio gyda chwmnïau technoleg i sicrhau eu bod yn deall y cyfrifoldeb a ddaw gyda'r pŵer sydd ganddynt. Yn ystod hydref 2022, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad cyntaf ar sut mae llwyfannau rhannu fideos yn cyflawni dyletswyddau newydd o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

Wrth i'n rôl hanesyddol fel corff gwarchod cyfathrebiadau ehangu, mae'n rhaid i ni sicrhau bod Ofcom yn barod ac yn gymwys i ymateb i'r heriau a osodir gan y Senedd Brydeinig. Nid yw'r cyhoedd yn disgwyl dim llai gennym. Mae'r Bil newydd yn ddeddfwriaeth hynod gymhleth ac arloesol, ac mae'n anochel y bydd yn cymryd amser i fagu gwreiddiau. Mae'r disgwyliadau'n uchel y bydd y Bil, pan ddaw i rym, yn ymdrin â llawer o'r sgil-effeithiau niweidiol sy'n gysylltiedig â bod ar-lein. Ni all hyn ddigwydd dros nos. Ond, bydd Ofcom yn barod i wneud ei ran i sicrhau bod gwasanaethau ar-lein yn deall eu dyletswyddau i leihau niwed ar-lein.

Ar yr un pryd rydym wedi ymrwymo i ddiogelu cryfderau ein sector cyfryngau, sydd gyda'r gorau yn y byd, ac i hyrwyddo buddsoddiad yn seilwaith cyfathrebiadau'r Deyrnas Unedig.

Mae aelwydydd o dan bwysau aruthrol yn ariannol, a'n tasg ni yw sicrhau bod pob cwsmer cyfathrebiadau'n cael gwasanaeth da a chytundeb teg.

Mae gan Ofcom enw da am wneud penderfyniadau cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a rhaid cynnal hyn. Wrth i'n cylch gwaith ddatblygu, bydd ein dyletswydd graidd – hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr – yn dal yn gwbl ganolog i'r ffordd rydym yn gweithredu. Yn aml iawn, mae hynny'n golygu cael cydbwysedd rhwng rheoleiddio'n effeithiol a rhyddid mynegiant. Felly y dylai fod.

Yn olaf, ac ar ran y Bwrdd a'n holl gydweithwyr, mae'n bleser gennyf ddiolch yn gyhoeddus i Maggie Carver, ein Cadeirydd dros dro am 16 mis, am ei harweinyddiaeth a'i hymrwymiad diflino i'r sefydliad.

**Michael Grade, CBE**
Cadeirydd

# WRTH EIN PRIF WEITHREDWR

## Y FONESIG MELANIE DAWES,DCB



Wrth i'r byd cyfathrebiadau barhau i gydgyfeirio ac esblygu ar garlam, mae Ofcom wedi datblygu ei harbenigedd i ymateb i'r newidiadau hynny a pharatoi ar gyfer dyletswyddau newydd.

Gyda phob wythnos sy'n mynd heibio mae'r gwasanaethau, y sgriniau a'r safleoedd sy'n rhoi gwybodaeth ac adloniant i bobl, ac yn ein helpu ni i weithio a chysylltu â'n gilydd, yn esblygu ac yn cynyddu mewn nifer.

Mae'r byd go iawn a'r byd rhithwir yn dod ynghyd. Mae elfennau ffisegol rhwydweithiau telathrebu, fel gwifrau a mastiau, bellach yn cynnal elfennau ar-lein fel cyfrifiadura cwmwl a gweithio o bell. Mae pobl yn newid yn rhwydd rhwng darllediadau traddodiadol neu alwadau ffôn symudol, i wasanaethau ar y rhyngrwyd fel Netflix, YouTube, Zoom a WhatsApp, yn aml ar yr un ddyfais.

Mae angen i reoleiddwyr ddeall yr economeg, y technolegau a'r ymddygiadau sydd wrth wraidd y newidiadau hynny. Mae gwaith Ofcom ei hun yn datblygu hefyd. Yn ystod y flwyddyn diwethaf rydym wedi dechrau rheoleiddio gwefannau ac apiau fideo fel TikTok a Snapchat. Rydym wedi ysgwyddo rôl ehangach i sicrhau bod cwmnïau telathrebu'n cadw eu rhwydweithiau'n ddiogel. Ac rydym wedi dwysáu ein paratoadau i oruchwylio cyfryngau cymdeithasol a pheiriannau chwilio, gyda'r dasg o sicrhau eu bod yn diogelu eu defnyddwyr yn well.

I gyflawni'r holl dasgau newydd hyn, mae Ofcom wedi bod yn adeiladu ar ei gryfderau. Mae staff da yn gwbl ganolog i'n holl waith, felly rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein timau, ein sgiliau a'n galluoedd. Mae gennym eisoes wybodaeth dechnegol sylweddol ar draws y sefydliad, mewn meysydd fel peirianneg sbectrwm, economeg a'r gyfraith. Dros y flwyddyn diwethaf, rydym wedi bod yn datblygu ein harbenigedd mewn technolegau digidol, dadansoddi data a seiberddiogelwch. Rydym hefyd wedi mynd yn sefydliad mwy amrywiol, wrthi i ni gyflawni ein targedau eleni ac ar yr un pryd, cydnabod bod mwy o waith i'w wneud wrth i ni ddenu sgiliau a doniau o amrywiaeth eang o gefndiroedd.

I adeiladu ar y cyflawniadau hyn, rydym wedi pennu tri nod uchelgeisiol newydd ar gyfer ein gwaith gyda'r sectorau cyfathrebiadau rydym yn eu rheoleiddio. Rydym eisiau i bawb gael rhyngrwyd ddibynadwy; cyfryngau maen nhw'n ymddiried ynddyn nhw ac yn eu gwerthfawrogi; a'r cyfle i fyw bywyd mwy diogel ar-lein.

Mae pobl yn disgwyl cael band eang cyflym a fforddiadwy, ond maen nhw hefyd eisiau i'r cysylltiadau hyn fod yn rhai dibynadwy, cadarn a diogel. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn dechrau rhoi'r Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) ar waith, ochr yn ochr â hyrwyddo buddsoddiad mewn gwell rhwydweithiau a thegwch i gwsmeriaid.

O ran cyfryngau y mae pawb yn ymddiried ynddyn nhw ac yn eu gwerthfawrogi, rydym am ddiogelu a hyrwyddo cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a sicrhau bod pawb yn y Deyrnas Unedig yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli yn y rhaglenni maen nhw'n eu gweld neu'n eu clywed. Mae gan Ofcom enw da am gynnal safonau o ran cynnwys ar deledu a radio; byddwn yn parhau i weithio i gefnogi cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac i gynnal safonau yn y BBC.

Yn olaf, rydym eisiau i bawb yn y Deyrnas Unedig allu byw bywyd mwy diogel ar-lein. Dylai pob plentyn ac oedolyn allu codi eu ffôn neu lechen, gan wybod na fydd y gwefannau a'r apiau maen nhw'n eu defnyddio yn eu targedu gyda chynnwys niweidiol neu anghyfreithlon. O'r flwyddyn nesaf bydd Ofcom yn goruchwylio rheolau newydd i helpu i gyflawni hynny.

Ochr yn ochr â'r tri maes blaenoriaeth hyn, byddwn yn parhau i oruchwylio gwasanaeth post cyffredinol y Deyrnas Unedig a'n sbectrwm radio di-wifr – dau adnodd cenedlaethol hanfodol sy'n dal i gysylltu pobl bob dydd.

Ym mhopeth a wnawn, rydym yn hyderus y gallwch chi ymddiried yn Ofcom fel sefydliad cadarn i sicrhau cysylltiadau cyflymach, mwy dibynadwy a mwy diogel rhwng pobl a busnesau ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig. Rydym yn barod ar gyfer y dyfodol, ac yn ailddatgan ein hymrwymiad i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

**Y Fonesig Melanie Dawes, DCB**
Prif Weithredwr

Ym mhopeth a wnawn, rydym yn hyderus y gallwch ymddiried yn Ofcom fel sefydliad cryfach i sicrhau cysylltiadau cyflymach, mwy dibynadwy a diogel rhwng pobl a busnesau ar draws y DU .

# TROSOLWG

## EIN PWERAU A'N DYLETSWYDDAU

Fel rheoleiddiwr y Deyrnas Unedig, ein gweledigaeth ni yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

**Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr**
Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol.[1] Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, rhaid i ni gyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau sy'n ymwneud â chyfathrebiadau, cystadleuaeth a diogelu defnyddwyr.

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth y DU a'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio, ac mae ein dyletswyddau wedi'u gosod mewn statud, sy'n golygu ein bod yn atebol i'r Senedd Brydeinig a'r llysoedd.

**Ein dyletswyddau cyfreithiol sy'n tywys cyfeiriad ein gwaith**
Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw sicrhau bod:

- gan y Deyrnas Unedig amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig;
- sbectrwm radio – tonnau awyr di-wifr y Deyrnas Unedig – yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol;
- amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o safon yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, sy'n apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu; a
- gwasanaeth post cyffredinol y Deyrnas Unedig yn cael ei ddiogelu.

Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran y cyhoedd, ond ni allwn ddatrys cwynion defnyddwyr unigol am wasanaethau post neu delathrebu. Rydym yn aml yn rhoi cyngor i bobl sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau datrys anghydfod amgen sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym. Trwy gyferbyniad, rydym yn delio â chwynion gan unigolion am wasanaethau teledu a radio.

**Ein gwerthoedd**
Er mwyn ein helpu gyda'n gwaith o hyrwyddo dewis, sicrhau safon ac atal niwed, mae angen i ni wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer yr holl ddefnyddwyr a dinasyddion yn y Deyrnas Unedig. I wneud hyn yn effeithiol, mae angen i'n sefydliad gyflogi amrywiaeth eang o ddoniau, a meithrin diwylliant cynhwysol. Rydym yn ceisio cyflawni hyn drwy ein gwerthoedd:

Mae'r pum gwerth hyn yn dylanwadu ar sut rydym yn trin ein gilydd; sut rydym yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid; sut rydym yn barnu perfformiad; a sut rydym yn cydweithio i gyflawni ein blaenoriaethau. Mae'r gwerthoedd yn ganolog i'n heffeithiolrwydd, ac yn cefnogi'r sefydliad rydym ni eisiau bod.

1 Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddfau yr Economi Ddigidol 2010 a 2017 a Deddf Gwasanaethau Post 2011. Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ffurf a gyfarwyddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol â Pharagraff 2 Atodlen 1 y Cyfarwyddyd Cyfrifon

Mae'r gwerthoedd yn ganolog i'n heffeithiolrwydd, ac yn cefnogi'r sefydliad rydym ni eisiau bod.

cydweithio

GRYMUSO

ystywythder

Rhagoriaeth

Parch



ADRAN A

# PERFFORMIAD

Mae'r adran hon yn nodi ein cynnydd dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf – yn benodol, sut rydym wedi perfformio yn erbyn yr amcanion a nodwyd yng Nghynllun Gwaith Ofcom. Edrychwn ar effaith ein gwaith ar ran pobl a busnesau yn y DU.



# ADOLYGIAD O BERFFORMIAD

## UCHAFBWYNTIAU AR GYFER 2021/22

Rydym wedi cefnogi budsoddi mewn rhwydweithiau band eang a symudol cyflymach, gan sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn fforddiadwy.



### Cynnydd ar gyflawni ein Cynllun Gwaith

**Mae'r adran hon yn egluro'r hyn rydym wedi'i gyflawni yn ein meysydd blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn, a beth mae hyn yn ei olygu i bobl ac i fusnesau.**

Rydym yn cyhoeddi Cynllun Gwaith Ofcom bob mis Mawrth. Mae'r Cynllun hwn yn egluro'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni dros y flwyddyn ariannol i ddod, er mwyn sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb ar draws y Deyrnas Unedig a'i gwledydd.

Amlinellodd y Cynllun Gwaith ein meysydd gwaith ar gyfer 2021/22. Mae'r rhain yn ystyried beth sy'n digwydd yn y farchnad cyfathrebiadau, ac anghenion newidiol pobl a busnesau. Rydym yn ymgynghori ar ein cynllun bob blwyddyn, ac mae'n adlewyrchu dyletswyddau Ofcom, yn ogystal â'r adborth a gawn gan bartïon â diddordeb.

## BUDDSODDI MEWN RHWYDWEITHIAU CRYF A DIOGEL

- **Gwell gwasanaethau band eang.** Rydym wedi dechrau gweithredu rheolau newydd, a sefydlwyd yn 2021 i siapio dyfodol rhwydweithiau telathrebu sefydlog y Deyrnas Unedig – y cwndidau, y polion a'r gwifrau sy'n darparu cysylltiadau band eang, llinellau tir a data i filiynau o gartrefi a busnesau ledled y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys mesurau diogelu i sicrhau bod band eang cyflym iawn yn dal yn fforddiadwy, a mesurau i hybu buddsoddiad mewn gwell rhwydweithiau. Ers i ni gyflwyno'r rhain, mae nifer y cartrefi sy'n gallu cael mynediad i fand eang ffeibr llawn gwibgyswllt wedi dyblu i oddeutu 10 miliwn.

- **Anghenion symudol.** Rydym wedi amlinellu gweledigaeth newydd, ac wedi cywain safbwyntiau, ynghylch sut mae marchnadoedd telathrebu symudol yn debygol o ddatblygu; a sut bydd angen i rwydweithiau symudol ddatblygu i ateb y galw yn y dyfodol am ddata wrth grwydro.

- **Rhwydweithiau cadarn.** Eleni, rydym wedi datblygu ein gallu i gyflawni dyletswyddau newydd gyda'r nod o sicrhau bod rhwydweithiau telathrebu'n ddiogel ac yn gadarn. Mae'r cyfrifoldebau hyn, a fydd yn dod i rym ym mis Hydref 2022, yn cael eu pennu gan Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021.

**85%**

**O'R WLAD**

gyda mynediad i rwydweithiau band eang cyfradd gigabit erbyn 2025

## CAEL CYSYLLTIAD I BAWB

- **Band eang cyffredinol.** Mae'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang, a sefydlwyd gan y Senedd Brydeinig, yn galluogi pobl i ofyn am well cysylltiad os nad ydyn nhw'n gallu cael cyflymder lawrlwytho o 10 Mbit yr eiliad o leiaf, a chyflymder uwchlwytho o 1 Mbit yr eiliad. Rydym wedi parhau i roi'r cynllun hwn ar waith, sydd wedi dod â band eang digonol i filoedd yn fwy o gartrefi.

- **Darpariaeth symudol gyffredinol.** Rydym wedi ailwampio rheoliadau i wella'r ddarpariaeth symudol dan do. Ac rydym yn goruchwylio'r broses o gyflwyno'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN) a fydd yn darparu 4G i 95% o dir y Deyrnas Unedig..

- **Galwadau ffôn digidol.** Yn y dyfodol, disgwylir i bob galwad llinell dir gael ei darparu dros dechnoleg ddigidol, 'llais dros IP', sy'n defnyddio cysylltiad band eang. Mae pob newid technolegol mawr yn cynnwys risg, ac rydym wedi sefydlu rhaglen fonitro ac ymgysylltu i helpu i sicrhau bod cwmnïau ffôn yn rheoli'r broses yn effeithiol.

- **Post fforddiadwy a dibynadwy.** Rydym wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol rheoleiddio post, gan amlinellu cynlluniau newydd i ddiogelu cwsmeriaid parseli a sicrhau bod ein rheolau'n cyd-fynd â marchnad sy'n newid. Rydym eisiau sicrhau bod defnyddwyr post yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau syml, fforddiadwy a dibynadwy sydd eu hangen arnynt.

**95%**

**SIGNAL 4G**

yn y DU erbyn 2025

## TEGWCH I GWSMERIAID

- **Biliau rhatach.** Yn 2020, yn dilyn rheolau newydd Ofcom, bu i ni sicrhau ymrwymiadau gan gwmnïau telathrebu mawr i leihau biliau nifer o gwsmeriaid y mae eu contract wedi dod i ben. Eleni, bu i ni adrodd ar effaith y newidiadau hyn ar gwsmeriaid ffôn a band eang.
- **Ffôn a band eang fforddiadwy.** Bu i ni archwilio fforddadwyedd gwasanaethau cyfathrebu, gan dynnu sylw at ba gwmnïau telathrebu sy'n cynnig 'tariffau cymdeithasol' â disgownt, ac wedi galw ar bob cwmni i wneud hynny a'u hyrwyddo.
- **Diogelu cwsmeriaid.** Bu i ni barhau â'n gwaith i ddiogelu cwsmeriaid agored i niwed. O fis Mehefin 2022 ymlaen, mae'n rhaid i ddarparwyr telathrebu ddarparu gwasanaeth cyfnewid fideo brys, sy'n galluogi pobl fyddar i gysylltu â'r gwasanaethau brys.
- **Proses newid symlach.** Bu i ni benderfynu'n derfynol ar y rheolau i symleiddio'r broses o newid darparwr band eang, a fydd yn golygu bod proses 'newid un cam' newydd ar waith ar gyfer cwsmeriaid band eang erbyn mis Ebrill 2023.
- **Taclo sgamiau.** Bu i ni ymgymryd â rhaglen waith fawr sy'n edrych ar negeseuon testun a galwadau sgam. Bwriad hyn yw lleihau niwed i ddefnyddwyr a gwella ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyfathrebu.
- **Mesurau diogelu i gwsmeriaid gwasanaethau parseli.** Bu i ni amlinellu mesurau diogelu newydd i sicrhau bod pobl sy'n anfon ac yn derbyn parseli yn cael eu trin yn decach gan gwmnïau danfon, gan ganolbwyntio'n benodol ar gwsmeriaid anabl.

**080**

**RHIFAU AM DDIM**

wedi codi nifer y galwadau

## CEFNOGI A DATBLYGU DARLLEDU YN Y DEYRNAS UNEDIG

- **Cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.** Bu i ni gwblhau ein hadolygiad sylweddol o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, sef Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, gyda phecyn o argymhellion manwl i Lywodraeth y DU i gefnogi a chynnal y cynnwys darlledu sy'n bwysig i bobl am flynyddoedd i ddod.
- **Cwynion y gynulleidfa.** Bu i ni asesu tua 100,000 o gwynion am deledu a radio, a oedd yn ymwneud yn bennaf â chynnwys tramgwyddus, gan roi naw sancsiwn a chwe chosb.
- **Rheoleiddio'r BBC.** Fel rhan o'n gwaith parhaus i ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol, bu i ni asesu safle BBC Sounds yn y farchnad a'i effaith ar y farchnad. Rydym hefyd wedi adolygu asesiadau'r BBC o ddau newid arfaethedig i'w gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus.
- **Cystadleuaeth rhwng cyfryngau.** Bu i ni gyflawni ein hadolygiad tair blynedd o reolau perchnogaeth ar y cyfryngau. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi lansio rhaglen waith i ddeall effaith newidiadau yn y farchnad newyddion ar-lein ar blwraliaeth y cyfryngau yn y Deyrnas Unedig.

**28**

**O YMCHWILIADAU**

wedi'u cwblhau a nodwyd bod 17 wedi torri ein rheolau

## PARATOI I REOLEIDDIO DIOGELWCH AR-LEIN

- **Bywyd mwy diogel ar-lein.** Cyflwynwyd y Bil Diogelwch Ar-lein yn y Senedd Brydeinig yn ystod gwanwyn 2022. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i helpu'r broses o gyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd, a hybu dealltwriaeth o'r ffordd mae pobl yn ymgysylltu ar-lein. Rydym wedi nodi meysydd pwysig i ddatblygu ac ehangu galluoedd technegol a gweithredol Ofcom.

- **Apiau a gwefannau fideo.** Rydym wedi dechrau rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos yn y Deyrnas Unedig, a hynny am y tro cyntaf, gan sefydlu fframwaith a nodi ein nodau a'n disgwyliadau ar gyfer y cwmnïau hyn.

- **Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.** Fel rhan o'n rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, rydym wedi cyhoeddi tair astudiaeth sy'n cynnig cipolwg ar ymddygiad ar-lein, gan ganolbwyntio'n benodol ar gamwybodaeth. Ochr yn ochr â'r ymchwil hon, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r diwydiant i annog egwyddorion dylunio da wrth ddatblygu gwasanaethau ar-lein; a chynnal rhaglen werthuso ar draws amrywiaeth o ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau i asesu beth sy'n gweithio orau i gynyddu dealltwriaeth pobl.

- **Cystadleuaeth ddigidol.** Bu i ni helpu llywodraeth y DU i asesu'r opsiynau ar gyfer rheoleiddio cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol. Bu i ni weithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i roi cyngor ar sut gellid defnyddio cod ymddygiad i ymdrin â phryderon am y berthynas rhwng llwyfannau ar-lein a chyhoeddwyr cynnwys.

**217**

**O FUNUDAU**

amser cyfartalog a dreulir ar-lein y person bob dydd

## CRYFHAU OFCOM AR GYFER Y DYFODOL

- **Ymateb i newid.** Rydym wedi lansio Grŵp Technoleg, Data ac Arloesi newydd, gan sicrhau bod arbenigedd technegol a gwybodaeth am y diwydiant yn cael lle blaenllaw wrth i ni ddatblygu polisi, yn enwedig yng nghyswllt diogelwch ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, cyd-reoleiddwyr, academyddion ac eraill.

- **Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig.** Rydym wedi rhagori ar ein targedau amrywiaeth a chynhwysiad ar gyfer 2021, a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf.

- **Hinsawdd a chynaladwyedd.** Rydym wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i helpu i leihau ymhellach effaith amgylcheddol ein busnes. Rydym wedi mabwysiadu amcanion a thargedau amgylcheddol newydd i'n helpu i leihau ein hôl troed (y tu hwnt i allyriadau carbon), ac i sicrhau ein bod yn gyson â Strategaeth Sero Net ac Ymrwymiadau Gwyrdd 2021-25 llywodraeth y DU.

**ISO14001**

Ardystiad ar gyfer ein system rheoli amgylcheddol

## DATBLYGU PARTNERIAETHAU NEWYDD

- Rydym wedi helpu i arwain, ymwreiddio a datblygu gwaith y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol, sy'n enghraifft eithriadol o gydweithio rhwng rheoleiddwyr ar-lein. Sefydlwyd y Fforwm yn 2020, ac mae'n hyrwyddo rhannu gwybodaeth ac arbenigedd rhwng Ofcom, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth er mwyn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd, yn ogystal â sicrhau newid sylweddol yn y ffordd rydym yn cydweithio i ymdrin â materion sy'n berthnasol i amrywiaeth o sectorau, er mwyn diwallu anghenion pobl a busnesau ar-lein yn well. Penodwyd Gill Whitehead yn Brif Weithredwr y Fforwm ym mis Tachwedd 2021.


## OFCOM + ICO

Gweithio ar y cyd i sicrhau bod cwmnïau'n diogelu data plant ar-lein



# BUDDSODDI MEWN RHWYDWEITHIAU CRYF A DIOGEL

Ni fu cysylltiadau o ansawdd uchel erioed mor bwysig.



## MEYSYDD GWAITH Â BLAENORIAETH

- **Gweithredu ein Hadolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol – rhoi cymhelliant i gyflwyno rhwydweithiau band eang ffeibr llawn**
- **Cefnogi arloesedd ym maes gwasanaethau di-wifr**
- **Diogelwch a chadernid rhwydweithiau – gweithio gyda darparwyr cyfathrebu i sicrhau bod rhwydweithiau'n ddiogel ac yn ddibynadwy**

## CANLYNIADAU I DDEFNYDDWYR

a) Ers i ni roi'r fframwaith newydd hwn ar waith ym mis Ebrill 2021, mae argaeledd band eang ffeibr llawn wedi dyblu bron, gan gyrraedd traean o gartrefi. Rydym yn disgwyl y bydd rhwydweithiau band eang cyfradd gigabit ar gael i o leiaf 85% o'r wlad erbyn 2025 – i fyny o ddim ond 3% yn 2017, a 66% ar hyn o bryd;

Rydym wedi amlinellu gweledigaeth newydd i egluro sut bydd angen i rwydweithiau ddatblygu o bosib er mwyn ateb y galw yn y dyfodol, a'r goblygiadau i sbectrwm di-wifr.

b) Rydym wedi gweithio gyda darparwyr cyfathrebu i sicrhau eu bod yn blaenoriaethu diogelwch a chadernid eu rhwydweithiau, a'u bod yn gallu delio â bygythiadau i ddiogelwch.

# Rydym eisiau i bawb allu cael rhwydweithiau cyflym, dibynadwy a diogel, ble bynnag y maen nhw'n byw neu'n gweithio.



## YR EFFAITH AR DDEFNYDDWYR

Mae cartrefi y Deyrnas Unedig yn defnyddio 40% yn fwy o ddata bob blwyddyn, drwy raglenni sy'n ffrydio cynnwys teledu, galwadau fideo a gemau ar-lein. Mae hyn yn rhoi mwyfwy o bwysau ar rwydweithiau cyfathrebu, ac mae'n hollbwysig buddsoddi'n barhaus mewn uwchraddio'r seilwaith hanfodol hwn.

Rhwydweithiau cyfradd gigabit, y gallwn ddibynnu arnyn nhw am ddegawdau i ddod, yw'r dyfodol. Mae'r rhwydweithiau gwibgyswllt hyn hyd at 30 gwaith yn gyflymach — ac yn llawer mwy dibynadwy — na llinellau band eang hŷn.

Mae cysylltiadau di-wifr hefyd yn hanfodol i fusnesau a defnyddwyr ledled y Deyrnas Unedig. Mae gwasanaethau di-wifr yn dibynnu ar sbectrwm radio, a'n gwaith ni yw rheoli'r adnodd cyfyngedig hwn yn effeithlon.

Oherwydd dibyniaeth y Deyrnas Unedig ar wasanaethau cyfathrebu, mae'n rhaid dibynnu ar rwydweithiau yn ystod cyfnodau heriol ac argyfwng, fel toriad yn y ddarpariaeth neu ymosodiadau seiber. Rhan o'n rôl ni yw sicrhau bod y diwydiant yn parhau i fuddsoddi mewn rhwydweithiau diogel a chadarn.

**Mae cartrefi y DU yn defnyddio**

**40%**

**YN FWY O DDATA BOB BLWYDDYN**

# BUDDSODDI MEWN RHWYDWEITHIAU CRYF A DIOGEL

## BETH RYDYM WEDI'I GYFLAWNI

**Gweithredu fframwaith newydd ar gyfer band eang gwell**
Yn 2021, bu i ni gyflwyno rheoliadau newydd ar gyfer y marchnadoedd telathrebu cyfanwerthol a fydd yn helpu i siapio dyfodol rhwydweithiau yn y Deyrnas Unedig.

Nod ein Hadolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol yw hybu cystadleuaeth a chymell BT a'i gystadleuwyr i fuddsoddi, er mwyn cyflwyno band eang ffeibr llawn cyflymach a mwy dibynadwy i bobl ar draws y Deyrnas Unedig. Byddwn hefyd yn monitro Openreach ymhellach, er mwyn sicrhau bod rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd yn cael eu datblygu a'u bod ar gael.

Wrth i'r rhwydweithiau newydd hyn ddod yn fwy cyffredin, mae angen yr wybodaeth iawn ar bobl a busnesau er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am y gwasanaethau band eang sy'n addas iddyn nhw. I gefnogi hyn, rydym wedi ffurfio gweithgor o randdeiliaid yn y diwydiant i ddatblygu telerau cyffredin ar gyfer gwahanol wasanaethau band eang.

Byddwn yn symud yn raddol oddi wrth reoleiddio cynnyrch hŷn, wrth i ffeibr newydd ddisodli hen linellau copr, gan gael gwared ar y costau sy'n gysylltiedig â rhedeg dau rwydwaith cyfochrog. Rydym hefyd wedi cyflwyno mesurau diogelu ar gyfer prisiau cyfanwerthol i sicrhau bod gwasanaeth band eang cyflym iawn sylfaenol yn dal yn fforddiadwy.

Mae cynnal arloesi wrth wraidd ein strategaeth newydd ar gyfer rheoli tonnau awyr y DU dros y ddegawd nesaf.

**Ymagwedd at sbectrwm a marchnadoedd symudol yn y dyfodol**
Mae'r galw am wasanaethau symudol wedi cynyddu'n gyflym dros y deng mlynedd diwethaf. Rydym wedi egluro sut y gallai marchnadoedd symudol ddatblygu, sut bydd angen i rwydweithiau ddatblygu o bosib er mwyn ateb y galw yn y dyfodol, a'r goblygiadau i sbectrwm di-wifr.

Rydym yn rhagweld y bydd daliadau sbectrwm symudol cyfredol, ynghyd â sbectrwm y mae cynlluniau eisoes ar droed i'w ryddhau, yn debygol o ddiwallu'r galw yn y dyfodol tan 2030 os bydd y farchnad yn datblygu yn y ffordd iawn. Mae hyn yn cynnwys cwmnïau yn gwneud yn fawr o'u daliadau sbectrwm, sbectrwm newydd yn cael ei ryddhau, uwchraddio technoleg a defnyddio mwy o safleoedd symudol.



## Diogelwch a chadernid rhwydweithiau

Mae pobl ar hyd a lled y Deyrnas Unedig yn disgwyl ac yn dibynnu ar rwydweithiau cadarn a diogel. Mae gan Ofcom rôl bwysig i wireddu hyn.

**Mynd ati i ddiogelu telathrebu**
Daeth Deddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021 yn gyfraith ym mis Tachwedd, gan gyflwyno pwerau newydd i ni i helpu i sicrhau bod rhwydweithiau telathrebu'r Deyrnas Unedig yn gadarn. Disgwylir i'r rheolau diogelwch newydd, a oruchwylir gan Ofcom, ddod i rym ar 1 Hydref 2022. Rydym wedi bod yn datblygu ein capasiti a'n gallu i baratoi ar gyfer y cyfrifoldebau hyn.

**Cadernid rhwydweithiau**
Mae cadernid y genhedlaeth nesaf o rwydweithiau telathrebu eto i gael ei brofi, wrth gymharu â'r 'rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus' (PSTN) traddodiadol.

Yn 2020, roeddem wedi helpu i sefydlu gweithgor cadernid yn y Grŵp Ymateb a Chadernid Cyfathrebiadau Electronig (EC-RRG). Eleni roeddem wedi parhau â'n gwaith gyda'r EC-RRG, ac rydym wedi cyfrannu at y canllawiau cadernid diweddaraf ar gyfer Darparwyr Seilwaith Telathrebu Cenedlaethol Critigol.

**Amrywiaethu gwerthwyr telathrebu**
Rydym yn dal i helpu i weithredu strategaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gynyddu nifer (neu 'amrywiaethu') y gweithgynhyrchwyr yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer gwasanaethau symudol 5G. Pwrpas hyn yw sicrhau bod y farchnad cyflenwi telathrebu'n gystadleuol, yn flaengar, yn ddiogel ac yn gadarn. Rydym yn monitro ac yn cydweithio â'r diwydiant i ddeall y sefyllfa o ran gwerthwyr a'r effeithiau posibl ar gystadleuaeth, arloesedd, diogelwch a chadernid. Mae canfyddiadau Labordai SONIC – cydweithrediad rhwng Digital Catapult ac Ofcom, sydd wedi cael dwy flynedd arall o gyllid – yn ganolog i'r gwaith hwn.

**Strategaeth rheoli sbectrwm**
Mae cefnogi arloesedd wrth wraidd ein strategaeth newydd ar gyfer rheoli tonnau awyr y Deyrnas Unedig dros y degawd nesaf. Rydym yn gweithio'n agos gyda busnesau, cyrff cyhoeddus ac eraill i wneud ein rhan i siapio dyfodol di-wifr y Deyrnas Unedig.

Ym mis Mawrth 2022 cyhoeddwyd ein map sbectrwm, sy'n amlinellu sut byddwn yn cyflawni ein strategaeth. Mae ein meysydd gwaith arfaethedig ar gyfer y dyfodol yn cynnwys cydgyfeirio a datblygu rhwydweithiau, cyflymu arloesedd a rhannu sbectrwm gyda rhaglenni profi 'blwch tywod', a gwell data ar gyfer rheoli sbectrwm yn well.

**Ffioedd trwyddedau blynyddol (cau allan)**
Ym mis Rhagfyr, roeddem wedi gosod ffioedd blynyddol newydd sydd i'w talu gan bob un o'r pedwar gweithredwr rhwydwaith symudol ar gyfer y sbectrwm maen nhw'n ei ddefnyddio. Ers 1 Ionawr 2022, mae'r gweithredwyr wedi bod yn talu ffioedd o £66.8m gyda'i gilydd (a fydd yn cynyddu'n unol â CPI ym mhob blwyddyn ddilynol) i gael mynediad at sbectrwm wedi'i baru yn y band 2100 MHz.

**Rhaglen datblygu llwyfannau trwyddedu**
Ym mis Mawrth 2022, roeddem wedi rhyddhau system trwyddedu sbectrwm newydd yn fyw am y tro cyntaf, yn seiliedig ar dechnoleg cwmwl, a fydd yn ein galluogi i gyflymu datblygiadau a gwelliannau yn y dyfodol gan ddod ag effeithlonrwydd i'r broses drwyddedu.

**Gweithio gyda'r diwydiant ar gysylltiadau di-wifr a sbectrwm**
Mae manteision cysylltiadau di-wifr yn cael eu cydnabod gan amrywiaeth ehangach o sectorau. Ym maes gweithgynhyrchu, mae cysylltiadau 4G a 5G preifat yn cael eu profi i gefnogi datblygiadau fel awtomeiddio yn y gweithle, a monitro peiriannau a chynnyrch o bell i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Ym maes trafnidiaeth, mae 5G yn cael ei ddefnyddio i gysylltu cerbydau hunan-yrru prototeip. Ym maes ynni, mae rhwydweithiau 4G preifat yn cael eu defnyddio ar gyfer gridiau cyfleustodau clyfar. Ac mae cwmnïau amgylcheddol yn treialu sut gellid defnyddio 5G i helpu i ddiogelu coedwigoedd.

Rydym wedi mynd ati i weithio i ddeall anghenion sbectrwm penodol gwahanol ddiwydiannau, ac mae'r canfyddiadau a gafwyd wrth weithio gyda'r diwydiant wedi cyfrannu at ein map sbectrwm.



## Sector y gofod yw un o'r defnyddwyr sbectrwm mwyaf. Mae'r datblygiadau hyn yn creu heriau newydd, mae angen i Ofcom benderfynu ble i hoelio ein hymdrechion.

**Strategaeth sbectrwm y gofod**
Un o'r sectorau sy'n defnyddio fwyaf o sbectrwm yw'r sector gofod, gan ddarparu band eang lloeren, gwasanaethau teledu darlledu, gwasanaethau lleoli byd-eang a chyfathrebu mewn sefyllfaoedd brys.

Mae gweithredwyr fel OneWeb a SpaceX yn defnyddio nifer fawr o loerenni orbit nad yw'n ddaearsefydlog (NGSO) i ddarparu band eang i gartrefi a busnesau mewn lleoliadau anghysbell yn y Deyrnas Unedig. Mae data sy'n cael ei gasglu gan loerenni arsylwi'r Ddaear yn mynd yn fwyfwy pwysig wrth daclo'r argyfwng hinsawdd.

Mae'r datblygiadau hyn yn creu heriau newydd ar gyfer rheoleiddio defnydd y sector gofod o sbectrwm, ac mae angen i Ofcom benderfynu ble i hoelio ein hymdrechion. I helpu i wneud hyn, rydym yn cydweithio â sefydliadau gan gynnwys adrannau ac asiantaethau llywodraeth y DU, gweithredwyr lloeren masnachol a chyrff rhyngwladol.

Eleni bu i ni ymgynghori ar adnewyddu ein strategaeth sbectrwm gofod, a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2017. Bu i ni amlinellu amrywiaeth o gynlluniau mewn meysydd lle rydym ni'n credu y bydd ein hymdrechion yn sicrhau'r budd mwyaf dros y ddwy i bedair blynedd nesaf – gan gynnwys cyfathrebu, llywio ac arsylwi'r ddaear.



# CAEL CYSYLLTIAD I BAWB



Rydym yn canolbwyntio ar daclo bwlch digidol y DU.

## MEYSYDD GWAITH Â BLAENORIAETH

- **Darpariaeth sefydlog a symudol**
- **Galwadau ffôn digidol – sicrhau bod defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig yn symud drosodd yn ddidrafferth**
- **Adolygiad o'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer effeithlonrwydd gweithredol y gwasanaethau post a'r Post Brenhinol**

## CANLYNIADAU I DDEFNYDDWYR

a) Bu i ni ddiwygio'r rheoliadau i wella'r ddarpariaeth dan do, ac rydym yn monitro'r gwaith o gyflwyno'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN), a fydd yn cynyddu darpariaeth 4G pob gweithredwr symudol i 95% o dir y Deyrnas Unedig.

b) Bu i ni sefydlu rhaglen fonitro ar gyfer symud i VoIP, gan weithio gyda'r darparwyr mwyaf i sicrhau eu bod yn rheoli'r broses yn effeithiol ac yn blaenoriaethu anghenion cwsmeriaid, yn enwedig pobl agored i niwed.

c) Bu i ni amlinellu cynigion ar gyfer dyfodol rheoleiddio post i wneud yn siŵr bod ein rheolau'n effeithiol, ac i sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad i wasanaethau post syml, fforddiadwy a dibynadwy.

I sicrhau bod gan bawb y gwasanaethau cyfathrebu sydd eu hangen arnynt, rydym yn canolbwyntio ar daclo'r bwlch digidol yn y Deyrnas Unedig, gan wella mynediad at wasanaethau yn y lleoliadau anoddaf eu cyrraedd.

Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.



## 96%

**O GARTREFI'R DU**

**yn gallu cael gafael ar wasanaethau band eang cyflym iawn**

### YR EFFAITH AR DDEFNYDDWYR

Mae tua 96% o gartrefi yn y Deyrnas Unedig yn gallu cael mynediad i wasanaethau band eang cyflym iawn (cysylltiad â chyflymder o 30Mbit yr eiliad o leiaf). Fodd bynnag, mae dros 120,000 o gartrefi yn dal yn methu cael band eang digonol (cyflymder lawrlwytho o 10Mbit yr eiliad o leiaf a chyflymder uwchlwytho o 1Mbit yr eiliad).

Ar yr un pryd, mae ymchwil Ofcom wedi nodi bod tua 1.1 miliwn o gartrefi yn cael trafferth fforddio eu gwasanaeth band eang cartref.

Mae mynediad i wasanaethau symudol yn gynyddol bwysig. Mae darpariaeth gan o leiaf un gweithredwr yn ymestyn i tua 92% o fàs tir y DU, ac mae'r arwynebedd hwn yn cwmpasu bron pob adeilad yn y DU.

# CAEL CYSYLLTIAD I BAWB

## BETH RYDYM WEDI'I GYFLAWNI

**Darpariaeth symudol**
Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid ar gyfer y Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Mae'r seilwaith symudol hwn yn cael ei adeiladu gan y pedwar gweithredwr rhwydwaith — EE, O2, Three a Vodafone. Nod y rhwydwaith yw gwella'r ddarpariaeth symudol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, drwy gynnig darpariaeth 4G i 95% o arwynebedd daearyddol y Deyrnas Unedig erbyn 2025 – i fyny o 79%-85% ar gyfer gweithredwyr unigol heddiw.

Gwelwyd rhywfaint o gynnydd yn y ddarpariaeth 4G yn ystod y flwyddyn diwethaf, yn deillio'n rhannol o ddefnyddio 46 o safleoedd newydd i fodloni ymrwymiadau trwydded y Rhwydwaith Gwledig a Rennir.

Mae'r ddarpariaeth 5G yn parhau i ehangu hefyd, gyda nifer y gorsafoedd sylfaen sy'n ei darparu wedi mwy na dyblu i ryw 6,000 yn y flwyddyn diwethaf. Mae hyn wedi cynnwys defnyddio rhannau newydd o'r sbectrwm 700 MHz a 3.6 GHz a arwerthwyd gan Ofcom ym mis Ebrill 2021. Rydym hefyd yn hwyluso'r broses o ddefnyddio rhwydweithiau symudol preifat 5G – nid dim ond gan weithredwyr rhwydweithiau symudol traddodiadol, ond hefyd gan werthwyr offer fel Nokia, darparwyr gwasanaethau a reolir ac integreiddwyr systemau fel Accenture, a chwmnïau mawr fel Amazon. Ers i reolau newydd gael eu cyflwyno yn 2019, rydym wedi cyhoeddi dros 550 o drwyddedau rhannu mynediad.

**95%**
**DARPARIAETH 4G**
yn y DU erbyn 2025

**Gwella'r ddarpariaeth symudol dan do**
Rydym wedi diwygio'r rheoliadau sy'n rheoli troswyr ar gyfer ffonau symudol dan do, gan ymestyn yr amrywiaeth o ddyfeisiau sydd ar gael i bobl eu prynu a'u gosod eu hunain er mwyn chwyddo eu signal symudol dan do, heb fod angen trwydded.

Hefyd, rydym wedi gosod amodau technegol i sicrhau nad yw'r troswyr yn amharu ar rwydweithiau symudol nac ar ddefnyddwyr eraill. Rydym wedi cyhoeddi rhestr o droswyr sy'n cydymffurfio â'n gofynion technegol, gan ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr wahaniaethu rhwng troswyr cyfreithlon a rhai anghyfreithlon.

**Gwella gwybodaeth i ddefnyddwyr**
Rydym wedi gweithio'n agos gyda gweithredwyr rhwydweithiau symudol i adrodd yn gywir ar y ddarpariaeth 5G a disgrifio ansawdd y perfformiad. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddwyd ein hasesiad meintiol cyntaf o'r ddarpariaeth 5G.

Ym mis Medi, cyhoeddwyd y diweddariad blynyddol o'n hadroddiad Materion Symudol, sy'n rhoi cipolwg ar brofiad cwsmeriaid a pherfformiad rhwydweithiau ymysg gwahanol weithredwyr a thechnolegau.



**Gwasanaeth band eang cyffredinol**
Yn 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang. Mae hyn yn rhoi'r hawl i bawb ofyn am gysylltiad band eang digonol a fforddiadwy, yn amodol ar feini prawf cymhwysedd penodol. O dan y cynllun, BT sy'n talu am y gost o gysylltu eiddo cymwys, pan fydd yn costio £3,400 neu lai. Os bydd y gwaith angenrheidiol yn costio mwy, gall y cwsmer ddewis talu'r gwahaniaeth.

Gan ddilyn ymchwiliad gan Ofcom, mae BT wedi newid y ffordd mae'n delio â dyfynbrisiau pan fydd y costau ychwanegol ar gyfer cysylltu eiddo yn £5,000 neu'n llai, gan leihau prisiau i'r cwsmer. Rydym hefyd wedi newid yr amodau rheoleiddio sy'n gysylltiedig â'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol. Mae hyn yn golygu y gall BT aros nes bydd ganddo gytundeb i adennill yr holl gostau cyn dechrau adeiladu, pan fydd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chysylltiad penodol yn fwy na £5,000 fesul eiddo.

## Y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO)

Rhwng y lansiad ym mis Mawrth 2020 a diwedd mis Medi 2021, mae BT wedi gweld dros 1,200 o archebion yn cael eu cadarnhau mewn perthynas â'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol, ac mae wedi adeiladu cysylltiadau sy'n gwasanaethu dros 3,700 o gartrefi. Mae BT hefyd wrthi'n adeiladu cysylltiadau ar gyfer 2,500 yn rhagor o adeiladau.

**1,200**

o archebion rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol wedi'u cadarnhau




**Diogelu blychau ffôn**
Mae gan y Deyrnas Uned ig tua 21,000 o flychau ffôn cyhoeddus. I bobl heb ffôn symudol, neu i bobl mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth symudol yn wael, mae blychau ffôn yn gallu bod yn achubiaeth.

Mae'r broses o newid i linellau ffôn digidol yn gofyn am fuddsoddiad i uwchraddio blychau ffôn. Mae'r broses bresennol ar gyfer asesu eu defnydd yn rhoi nifer o flychau ffôn mewn perygl o gael eu datgomisiynu, a allai effeithio ar ddefnyddwyr a chymunedau lleol.

Rydym wedi amlinellu rheolau a meini prawf cryfach i warchod blychau ffôn, gan ddiogelu tua 5,000 ohonyn nhw ar hyd a lled y Deyrnas Unedig. Er y gall BT gynnig cael gwared ar flychau ffôn nad ydynt yn bodloni'r meini prawf llym arfaethedig, byddai angen iddo'n awr ymgynghori'n ffurfiol â chymunedau lleol cyn gweithredu.

Rydym hefyd wedi cydnabod bod y gwasanaethau y mae ar bobl eu hangen gan flychau ffôn cyhoeddus yn newid. Wrth i nifer y galwadau leihau, mae BT yn cyflwyno cenhedlaeth newydd o hybiau stryd sy'n cynnig gwasanaethau fel Wi-Fi am ddim a gwefru am ddim. Felly rydym hefyd wedi cynnig rhoi mwy o hyblygrwydd i BT o ran yr ystod o wasanaethau y gall eu darparu yn ei flychau ffôn, er mwyn cyd-fynd ag anghenion pobl.

**Newid i wasanaethau ffôn digidol**
Yn draddodiadol, mae galwadau ffôn llinell dir wedi cael eu darparu dros y rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN), ond mae hyn yn dod yn anoddach ac yn ddrutach i'w gynnal. Mae BT wedi penderfynu rhoi'r gorau i ddefnyddio'r rhwydwaith hwn erbyn mis Rhagfyr 2025, ac mae darparwyr eraill yn bwriadu dilyn amserlen debyg.

Mae gwasanaeth llinell dir cwsmeriaid yn cael ei symud yn gynyddol i dechnoleg ddigidol o'r enw Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP), sy'n defnyddio cysylltiad band eang. Yn y dyfodol, rydym yn disgwyl y bydd pob galwad llinell dir yn cael ei darparu fel hyn.

Rydym wedi gosod rheoliadau a chanllawiau i helpu i wneud galwadau brys gan ddefnyddio VoIP. Rydym wedi cyhoeddi disgwyliadau ar gwmnïau ffôn i darfu cyn lleied â phosib ar eu cwsmeriaid. Rydym hefyd yn disgwyl iddyn nhw ddiogelu cwsmeriaid sydd o bosib yn dibynnu'n fawr ar eu llinell dir, er enghraifft oherwydd nad oes ganddyn nhw signal symudol da. Mae gennym raglen sefydlog i fonitro'r broses o symud i VoIP, ac yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r darparwyr mwyaf.

Yn gynharach yn y flwyddyn, penderfynodd BT ohirio rhywfaint o'r gwaith o symud cwsmeriaid presennol nad ydynt eisiau symud i'r dechnoleg newydd yn syth. Roeddem wedi mynegi pryder am y sefyllfa hon, ac rydym yn parhau i fonitro'n ofalus ganlyniadau'r prosesau symud prawf y mae Openreach wedi bod yn eu cynnal yng Nghaersallog a Mildenhall.

**Monitro'r farchnad bost a pherfformiad y Post Brenhinol**
Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw gwasanaeth post dibynadwy i bobl sy'n anfon ac yn derbyn llythyrau a pharseli. Felly rydym yn craffu'n ddi-dor ar effeithlonrwydd ac ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol, ac ar berfformiad ariannol y gwasanaeth post cyffredinol. Gallwn gymryd camau priodol os na fydd y Post Brenhinol yn cyrraedd y targedau blynyddol rydym wedi'u gosod ar gyfer ei berfformiad. Rydym hefyd yn monitro profiad defnyddwyr o'r sector post ac yn cyhoeddi adroddiad monitro blynyddol. Mae hyn i gyd yn helpu i sicrhau gwasanaeth post sy'n gynaliadwy, yn effeithlon ac yn fforddiadwy i bawb.

**Adolygu'r fframwaith rheoleiddio post ar gyfer y dyfodol**
Mae anghenion defnyddwyr post, a'r marchnadoedd sy'n eu gwasanaethu, yn newid. Mae nifer y llythyrau a anfonir gan ddefnyddwyr a busnesau yn parhau i ostwng, ond mae nifer y parseli'n cynyddu'n gyflym. Mae gweithredwyr post yn dal i addasu i'r newidiadau hyn.

Cafodd y fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer post ei sefydlu yn 2012 a'i adolygu ddiwethaf yn 2017. Ym mis Rhagfyr 2021, bu i ni gyhoeddi ymgynghoriad ar ddyfodol rheoleiddio post, i sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol ac yn gweddu i'r farchnad wrth iddi newid.

Fel darparwr y gwasanaeth cyffredinol, mae'r Post Brenhinol yn cael ei reoleiddio mwy na chwmnïau post eraill. Er enghraifft, mae'r fframwaith presennol yn gosod targedau blynyddol llym ar berfformiad danfon, ac yn gosod cap ar brisiau stampiau ail ddosbarth.

Yn ein hymgynghoriad, bu i ni gynnig cynnal y fframwaith cyffredinol presennol ar gyfer rheoleiddio'r Post Brenhinol, gan barhau i roi hyblygrwydd masnachol iddo ddarparu'r gwasanaeth cyffredinol, gan gadw mesurau diogelu pwysig ar gyfer defnyddwyr a chystadleuaeth. Rydym wedi cynnig cryfhau ein rheoliadau er mwyn deall yn well y rhagolygon tymor hwy ar gyfer cynaladwyedd y gwasanaeth cyffredinol.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol ar y fframwaith pum mlynedd newydd yn nes ymlaen eleni.



# TEGWCH I GWSMERIAID



Rydym am i gwsmeriaid gael bargen deg am y gwasanaethau maent yn eu defnyddio

## MEYSYDD GWAITH Â BLAENORIAETH

- **Cwsmeriaid agored i niwed – sicrhau bod cwmnïau telathrebu'n eu trin yn deg**
- **Fforddadwyedd – sicrhau bod cysylltiadau fforddiadwy ar gael i'r rhai sydd dan anfantais ariannol**
- **Proses symlach i newid darparwr – helpu cwsmeriaid band eang i newid darparwr drwy brosesau newid symlach**
- **Galwadau niwsans – diogelu cwsmeriaid rhag sgamiau dros y ffôn ac mewn negeseuon testun**
- **Prisiau a chontractau band eang – helpu defnyddwyr i ddelio â'r farchnad cyfathrebu**

## CANLYNIADAU I DDEFNYDDWYR

**Canllawiau ar Gwsmeriaid Agored i Niwed:** Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddwyd ein datganiad a fu'n mynnu i ddarparwyr telathrebu a reoleiddir ddarparu gwasanaeth cyfnewid fideo brys o fis Mehefin 2022 ymlaen. Ym mis Ionawr 2022, bu i ni gymeradwyo Sign Language Interactions fel darparwr gwasanaeth.

**Fforddadwyedd:** Rydym wedi cyhoeddi adroddiadau ar fforddadwyedd a phrisiau gwasanaethau cyfathrebu. Rydym wedi galw ar bob darparwr i gynnig a hyrwyddo tariffau cymdeithasol.

**Symleiddio'r broses o newid darparwr band eang:** Ym mis Medi 2021, cyhoeddwyd ein penderfyniad bod yn rhaid i'r diwydiant weithredu'r broses newid o'n dewis ar gyfer cwsmeriaid band eang a llais sefydlog preswyl ('newid un cam') erbyn mis Ebrill 2023.

**Taclo Sgamiau:** Ym mis Chwefror 2022, amlinellwyd sut rydym yn ymateb i alwadau a negeseuon testun sgam. Bwriad ein gwaith yw lleihau niwed i ddefnyddwyr, a gwella ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyfathrebu drwy leihau'r achosion o'u camddefnyddio.

**Prisiau:** Ym mis Tachwedd 2021, bu i ni gyhoeddi adroddiad cynnydd a fu'n amlinellu newidiadau yn y marchnadoedd band eang a symudol, ac yn ystyried effeithiolrwydd ac effaith hysbysiadau diwedd contract hyd yma.



## Mae ein rhaglen Tegwch i Gwsmeriaid yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn dda gan eu darparwyr, gyda chwmnïau band eang, ffôn a theledu drwy dalu mwyaf y Deyrnas Unedig yn ymrwymo i ymrwymiadau penodol.

### EFFAITH AR DDEFNYDDWYR

Mewn diweddariad cynnydd ym mis Mai 2021, gwelsom fod angen i gwmnïau telathrebu fynd ymhellach i ymdrin â phroblemau gwasanaeth i gwsmeriaid, er gwaethaf y cymorth roedden nhw wedi'i gynnig yn ystod y pandemig Covid-19. Nododd ein hadolygiad o gynnydd ar ein hymrwymiadau Tegwch i Gwsmeriaid fod llawer o gwmnïau'n darparu bargeinion tecach, gwybodaeth gliriach a gwell cefnogaeth i'w cwsmeriaid, ond bod angen iddyn nhw fynd ati ar frys i wella'r ffordd maen nhw'n delio â chwynion.

Yn gynharach yn y flwyddyn, bu i ni dderbyn ymrwymiad gan BT i barhau â'r capiau ar ei brisiau rhentu llinell a galwadau, sy'n golygu y bydd prisiau cwsmeriaid llinell dir yn unig yn dal i gael eu diogelu am y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn arbennig o bwysig i gwsmeriaid hŷn, gan fod bron i ddau draean o'r bobl sydd â llinell dir yn unig dros 65 oed, a doedd dros dri chwarter ohonyn nhw erioed wedi newid darparwr.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ymrwymodd Vodafone ac EE i'n cynllun iawndal awtomatig, sy'n caniatáu i gwsmeriaid gael arian yn ôl pan fydd pethau'n mynd o chwith.

# TEGWCH I GWSMERIAID

## BETH RYDYM WEDI'I GYFLAWNI

**Diogelu cwsmeriaid agored i niwed**
Yn ein gwaith i wella canlyniadau i gwsmeriaid, rydym yn arbennig o ymwybodol o ddiogelu cwsmeriaid sy'n agored i niwed. Rydym wedi gweld fod rhai pobl agored i niwed yn derbyn gwasanaeth anghyson wrth gysylltu â'u darparwr ffôn, band eang neu deledu drwy dalu.

Dywedom wrth gwmnïau y dylent hyfforddi staff yn well i nodi cwsmeriaid a allai fod yn agored i niwed a chynnig cymorth, cefnogaeth a gwasanaethau priodol.

Mae ein canllaw 'trin cwsmeriaid agored i niwed yn deg' yn mynnu bod darparwyr yn mabwysiadu arferion gorau drwy bwysleisio bod cymorth a chefnogaeth ar gael i bobl sy'n cael trafferth talu; cysylltu â chwsmeriaid mewn gwahanol ffyrdd; gweithio'n agosach gydag elusennau dyled; ac osgoi gorfodi cyfyngiadau ar wasanaethau er mwyn eu gorfodi i dalu. Rydym wedi gwahodd sylwadau ar ein canllawiau arfaethedig, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein penderfyniad terfynol yn yr hydref.

O dan reolau newydd, bydd yn rhaid i gwmnïau ffôn a band eang gynnig gwasanaeth cyfnewid fideo am ddim, sydd ar gael bob awr o'r dydd, er mwyn i ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydeinig gysylltu â'r gwasanaethau brys, drwy wefan ac ap symudol penodol. Bydd galluogi defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydeinig i ddefnyddio eu hiaith gyntaf yn ei gwneud yn haws iddynt gael help dros bobl eraill ac iddyn nhw eu hunain mewn argyfwng. Bydd yn haws iddynt ddisgrifio natur yr argyfwng a chael cyfarwyddiadau a allai achub bywyd gan y gwasanaethau brys.

**Arbedion i gwsmeriaid**
Mae angen i Ofcom wybod bod ein gwaith yn effeithiol ac yn darparu canlyniadau da i bobl. Rydym yn gwneud hyn drwy fonitro datblygiadau yn y farchnad a gwerthuso ymyriadau polisi penodol.

Yn 2019, daeth rheolau newydd Ofcom i rym a oedd yn mynnu bod darparwyr gwasanaethau ffôn, band eang a theledu-drwy-dalu yn rhybuddio cwsmeriaid pan fydd eu contract presennol yn dod i ben, ac yn esbonio beth y gallent ei arbed drwy ymrwymo i gytundeb newydd. Rydym wedi sicrhau ymrwymiadau gan gwmnïau telathrebu mawr i leihau biliau nifer o gwsmeriaid y mae eu contract wedi dod i ben.

Yn 2021, yn sgil newid rheolau Ofcom y flwyddyn cynt, gwelsom fod mwy o gwsmeriaid gwasanaethau band eang a symudol yn siopa o gwmpas, yn cael gwell bargeinion, ac yn arbed miliynau o bunnoedd iddyn nhw eu hunain.

Roedd nifer y cwsmeriaid band eang a oedd allan o gontract yn 2020 wedi gostwng tua 1.3 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y gostyngiad hwn yn bennaf oherwydd i bobl sicrhau contract newydd gyda'u darparwr presennol, yn hytrach na newid darparwr. Gostyngodd y prisiau cyfartalog am fand eang dros yr un cyfnod hefyd, o £39 yn 2019 i £38.10 yn 2020, wrth i gyflymder cyfartalog barhau i gynyddu.

Ers i'r ymrwymiadau hynny ddod i rym, mae mwy na thri chwarter y cwsmeriaid ffôn symudol a oedd yn dod at ddiwedd eu contract wedi llwyddo i sicrhau bargen newydd. Hefyd, mae maint y gordaliadau gan gwsmeriaid symudol sydd allan o gontract wedi'i fwndelu, wrth gymharu â chwsmeriaid ar gynlluniau SIM yn unig, wedi mwy na haneru – o £182m yn 2018 i £83m yn 2020.

Rydym hefyd wedi asesu effaith newidiadau sylweddol a wnaed gan Ofcom yn 2015 i reoleiddio galwadau i rifau nad ydynt yn rhai daearyddol. Gwelsom fod rhifau 080 yn rhad ac am ddim i bobl sy'n ffonio o ffonau symudol wedi cynyddu o ran nifer y galwadau. Mae hyn wedi galluogi darparwyr i gynnig galwadau am ddim i bob defnyddiwr. Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau hyn yng ngham nesaf ein hadolygiad o ddyfodol rhifau ffôn.

### Ei gwneud yn haws i gwsmeriaid newid darparwr telathrebu

Weithiau, nid yw mor hawdd i gwsmeriaid gael y bargeinion gorau oherwydd bod y broses newid yn peri digalondid iddynt. I helpu i oresgyn hyn, rydym wedi cyhoeddi proses newydd a fydd yn symleiddio ac yn cyflymu'r broses o newid darparwr band eang neu ffôn cartref. O dan y broses 'newid un cam', dim ond i gwblhau'r broses y bydd angen i gwsmeriaid gysylltu â'u darparwr band eang cartref newydd. Bydd y broses newid newydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2023, sy'n rhoi amser i ddarparwyr wneud newidiadau angenrheidiol i'w systemau.

**Ebrill 2023**

Ein Proses Newid Un Cam yn dod i rym



# Mae angen i Ofcom wybod bod ein gwaith yn effeithiol a'i fod yn sicrhau canlyniadau da i bobl.

**Diogelu cwsmeriaid parseli**
Mae anghenion defnyddwyr post yn newid, gyda llai o lythyrau'n cael eu hanfon a nifer y parseli'n cynyddu. Eleni bu i ni gynnig mesurau diogelu newydd i sicrhau bod pobl sy'n anfon ac yn derbyn parseli yn y Deyrnas Unedig yn cael eu trin yn decach gan gwmnïau danfon, gan ganolbwyntio'n benodol ar gwsmeriaid anabl.

Gwelsom fod bron i ddau draean o gwsmeriaid wedi cael problemau gyda danfoniadau. Mae tua chwarter yr anfonwyr yn teimlo ei bod yn anodd gwneud cwyn, neu gysylltu â chwmnïau parseli, pan fydd problem gyda'r broses ddanfon. Dywed dau o bob pump mai dim ond yn rhannol mae eu cwynion wedi cael eu datrys, a nid yw cwynion wedi'u datrys yn achos bron i un o bob deg.

Rydym wedi cynnig arweiniad newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni parseli dynhau ei brosesau delio â chwynion.

Bydd yn rhaid i gwsmeriaid gael sylw gan staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol, cael gwybod gyda phwy y dylent gysylltu, pa sianelau y gallant eu defnyddio i wneud cwyn, a pha mor hir y bydd yn ei gymryd i ddatrys eu cwyn.

Os na fyddwn ni'n gweld gwelliannau sylweddol mewn prosesau delio â chwynion neu wasanaeth i gwsmeriaid, byddwn yn ystyried camau gorfodi neu reoleiddio pellach.

**Ni all cwmnïau ffôn symudol werthu ffonau wedi'u cloi mwyach**
Rydym wedi cyflwyno rheolau newydd eleni sy'n gwahardd cwmnïau ffôn symudol rhag gwerthu ffonau sydd wedi'u cloi. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i bobl symud i rwydwaith gwahanol gyda'u ffôn presennol.

Mae mesurau newydd eraill yn cynnwys ymestyn ein rheolau sy'n cyfyngu contractau ffôn a band eang i ddim mwy na dwy flynedd, er mwyn iddyn nhw gynnwys bwndeli. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i gwsmeriaid newid heb gael eu cloi mewn cytundebau hir. Rydym hefyd wedi cryfhau ein gofynion presennol ar gwmnïau ffôn a band eang i ddarparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch, fel braille neu brint bras, i gwsmeriaid â nam ar eu golwg.

**Mesurau diogelu pellach**
Yn ystod y flwyddyn diwethaf, rydym wedi rhoi dirwy o £35,000 i ddau gwmni telathrebu am 'slamio', sef math ymosodol o gamwerthu lle mae cwsmeriaid yn cael eu symud o un cwmni i'r llall heb yn wybod iddyn nhw a heb eu caniatâd. Gwelsom fod Guaranteed Telecom a Met Technologies wedi slamio 43 a 67 o gwsmeriaid yn 2019, gyda llawer ohonyn nhw'n oedrannus neu'n agored i niwed. Roedd y cwmnïau hyn hefyd wedi atal o leiaf 52 o gwsmeriaid rhag newid i ddarparwr arall ar ôl iddyn nhw eu slamio. Rhoesom ddirwy o £10,000 i Guaranteed Telecom, a £25,000 i Met Technologies. Rhaid i'r cwmnïau hefyd ryddhau'r cwsmeriaid dan sylw o'u contractau heb gosb, ac ad-dalu'r rheini a oedd eisoes wedi symud a thalu ffioedd terfynu'n gynnar.

Yn ogystal ag ymyrryd pan fydd angen, rydym yn cyhoeddi data ar gwynion am ddarparwyr telathrebu a theledu-drwy-dalu, gan ddangos i gwsmeriaid ansawdd y gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl gan gwmnïau unigol.

**Helpu i ddelio â'r cynnydd mewn costau byw**
Y cynnydd mewn costau byw yw'r broblem fwyaf sydd wedi wynebu llawer o ddefnyddwyr dros y flwyddyn diwethaf. Mae llawer o hyn yn ymwneud â gwasanaethau ar gyfer y cartref, ac mae Ofcom am sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad i wasanaethau cyfathrebu fforddiadwy. Rydym wedi annog darparwyr gwasanaethau ffôn a band eang i gynnig a hyrwyddo 'tariffau cymdeithasol' i gwsmeriaid. Pecynnau rhad ar gyfer pobl sy'n cael budd-daliadau penodol gan lywodraeth y DU yw tariffau cymdeithasol. Ar hyn o bryd maen nhw ar gael i dros bedair miliwn o gartrefi yn y Deyrnas Unedig, ond dangosodd ein hymchwil mai dim ond 55,000 o gartrefi sydd wedi manteisio ar un o'r pecynnau hyn, sy'n golygu bod miliynau o bobl yn colli'r cyfle i arbed £144 y flwyddyn yr un ar gyfartaledd.

**45m**

**O BOBL YN Y DU**

wedi cael negeseuon testun neu alwadau ffôn a oedd o bosib yn sgam
Haf 2021

Mae Ofcom yn parhau i bwyso ar ddarparwyr i fabwysiadu tariffau cymdeithasol, ac mae llawer bellach yn cynnig y gwasanaeth i gwsmeriaid. Ym mis Ebrill 2022 cyhoeddodd Sky, y cwmni mwyaf sydd eto i gynnig tariff o'r fath, y byddai'n gwneud hynny. Ond mae mwy i'w wneud, yn enwedig o ran sut mae darparwyr yn hyrwyddo'r pecynnau hyn i gwsmeriaid cymwys. Byddwn yn parhau â'n gwaith i helpu pobl i gael mynediad i'r opsiynau fforddiadwy pwysig hyn, gan gynnig cyngor ynghylch costau, biliau a newid darparwr ar ein gwefan ac ar sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Bydd fforddiadwyedd yn dal yn ffocws pwysig i'n gwaith dros y flwyddyn i ddod.

**Diogelu pobl rhag sgamiau**
Mae pobl yn y Deyrnas Unedig wedi gweld cynnydd dychrynllyd mewn sgamiau, gyda thwyllwyr yn targedu pobl ddiniwed dros y ffôn, negeseuon testun ac e-bost. Dangosodd ein hymchwil ein hunain, dros gyfnod o dri mis yn ystod haf 2021, fod 45 miliwn o bobl yn y Deyrnas Unedig – neu tua wyth o bob deg person – yn cael negeseuon testun neu alwadau ffôn sgam.

Ym mis Chwefror 2022, bu i ni gynnig arweiniad a rheolau cryfach i daclo'r defnydd o rifau ffôn ffug (ffugio, neu 'sbŵffio', 'spoofing' fel mae'n cael ei alw'n Saesneg). Bydd disgwyl i'r holl rwydweithiau ffôn sy'n rhan o'r broses o drosglwyddo galwad rwystro rhifau sy'n amlwg wedi cael eu ffugio. Byddai'r rheol hon yn berthnasol i bob cwmni ffôn, gan sicrhau bod y warchodaeth yn berthnasol i filiynau o bobl. Roeddem hefyd wedi cynnig arweiniad newydd i helpu cwmnïau i atal sgamwyr rhag cael mynediad i rifau ffôn dilys, gan gynnwys archwiliadau o gwsmeriaid busnes i helpu i atal twyllwyr rhag camddefnyddio eu rhifau.

I helpu pobl i osgoi cael eu sgamio, rydym hefyd wedi darparu gwybodaeth a chyngor ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol, ac wedi cyfeirio pobl at gyrff ac asiantaethau perthnasol eraill yn y maes hwn. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos â'r diwydiant, yr heddlu, llywodraeth y DU a rheoleiddwyr eraill i sicrhau bod mesurau ar waith i daclo'r bygythiad a achosir gan negeseuon testun a galwadau sgam.

# CEFNOGI A DATBLYGU DARLLEDU YN Y DEYRNAS UNEDIG




Mae'r sector darlledu yn esblygu'n gyflym.

## MEYSYDD GWAITH Â BLAENORIAETH

- **Adolygiad dilynol o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus – adolygiad o wasanaethau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a'u cynaladwyedd wrth i dechnolegau digidol gael eu defnyddio fwyfwy**
- **Adolygiad o Reolau Perchnogaeth ar y Cyfryngau – argymhellion ar reolau perchnogaeth ar y cyfryngau, a sicrhau plwraliaeth y cyfryngau mewn byd ar-lein**
- **Adroddiad blynyddol ar y BBC**
- **Amrywiaeth ym maes darlledu – hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiad ar draws y maes darlledu**
- **Gosod safonau cynnwys a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Cod Darlledu**

## CANLYNIADAU I DDEFNYDDWYR

Yn ein Datganiad ym mis Gorffennaf 2021, amlinellwyd pecyn o argymhellion ar gyfer cefnogi a chynnal cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.


Ym mis Tachwedd 2021, bu i ni gyhoeddi Datganiad a fu'n argymell newidiadau i reolau perchnogaeth ar y cyfryngau, gan ddilyn adolygiad ac ymgynghoriad.

Cyhoeddwyd ein pedwerydd adroddiad blynyddol ar y BBC. Er i ni nodi bod y BBC yn dal i gyflawni ei chylch gwaith, ei bod yn dal yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd ac wedi addasu'n gyflym i'r pandemig Covid-19, gwelsom hefyd fod elfennau i'w gwella.

Ym mis Medi 2021, cyhoeddwyd ein hadolygiad pum mlynedd o amrywiaeth a chyfle cyfartal ym myd teledu a radio, a oedd yn galw ar ddarlledwyr i wneud cynhwysiad yn rhan graidd o'u sefydliadau.

Rhaglenni teledu a radio sydd wedi denu'r mwyaf o gwynion eto eleni (99.6K yn 2021/22 o'i gymharu â 142.7K yn 2020/21), ac maen nhw'n ymwneud yn bennaf â chynnwys tramgwyddus. Arweiniodd hyn at 9 o sancsiynau a 6 chosb.

# Mae gwell rhwydweithiau band eang, gwasanaethau ffrydio newydd a datblygiadau technoleg yn gweddnewid y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn dod o hyd i gynnwys.



## YR EFFAITH AR DDEFNYDDWYR

Mae tirwedd darlledu'r Deyrnas Unedig yn gymysgedd pwerus o gwmnïau cyhoeddus a masnachol, bach a mawr, o'r BBC a Sky i sector cynhyrchu annibynnol bywiog. Mae ein darlledwyr yn gwasanaethu cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig gyda chynnwys unigryw sy'n adlewyrchu bywyd yn y Deyrnas Unedig, ac mae eu gwaith yn ganolog i'n diwylliant, ein heconomi greadigol a'n llais ar draws y byd. Ac eto, er bod natur fyd-eang y sector yn darparu cynnwys newydd cyffrous i wylwyr a gwrandawyr, mae hefyd yn her i wasanaethau lleol.

Rydym yn cefnogi sector cyfryngau bywiog y Deyrnas Unedig, gan gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau ansawdd a safonau cynnwys i gynulleidfaoedd. Hefyd, rydym yn adrodd ar berfformiad y BBC i sicrhau ei fod yn cyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus.

# CEFNOGI A DATBLYGU DARLLEDU YN Y DU

## BETH RYDYM WEDI'I GYFLAWNI

**Moderneiddio cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus**
Ym mis Gorffennaf 2021 cyhoeddwyd casgliadau Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, sef trafodaeth genedlaethol ac adolygiad o sut i adnewyddu system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y Deyrnas Unedig ar gyfer y deng mlynedd nesaf. Rydym wedi cyflwyno argymhellion i Lywodraeth y DU ar newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol.

Rydym wedi galw am foderneiddio'r system gwasanaeth cyhoeddus er mwyn iddi barhau i ganolbwyntio ar ddarparu rhaglenni fel newyddion dibynadwy a chywir; yn ogystal ag amrywiaeth eang o raglenni difyr a llawn gwybodaeth, sydd wedi cael eu creu yn y Deyrnas Unedig ac sy'n adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig ac yn cefnogi ein heconomi greadigol. Gan adlewyrchu'r newidiadau cyflym mewn arferion gwylio, rydym hefyd wedi argymell rheolau sy'n ceisio sicrhau bod pobl yn y DU yn gallu dod o hyd i gynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn hawdd. Ar 28 Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn a fu'n amlinellu ei weledigaeth ar gyfer y sector darlledu, gan gynnwys cynigion i ddeddfu i ddarparu fframwaith rheoleiddio newydd.[1]

**Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC**
Rydym yn dal y BBC i gyfrif ar ran cynulleidfaoedd drwy ddarparu prosesau rheoleiddio teg, cadarn ac annibynnol.

Mae ein cyfrifoldebau'n cwmpasu tair elfen allweddol: goruchwylio perfformiad y BBC i sicrhau ei bod yn cyflawni ei Chenhadaeth a'i Dibenion Cyhoeddus; diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol; a sicrhau safonau o ran cynnwys yn rhaglenni'r BBC.

Ym mis Tachwedd 2021 cyhoeddwyd ein pedwerydd adroddiad blynyddol ar y BBC, a nododd bedair elfen y mae angen i'r BBC ganolbwyntio arnynt neu eu gwella:

- sicrhau didueddrwydd dyladwy, sy'n dal yn her gymhleth i'r BBC;
- sicrhau perthnasedd i bob cynulleidfa;
- blaenoriaethu cynnwys unigryw a gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig; ac
- ymwreiddio tryloywder fel ffordd o weithio.

Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC wedi amlinellu cynlluniau i ymdrin â'r materion hyn.

**Asesiadau cystadleuaeth**
Bu i ni ystyried cynnig y BBC i ail-lansio BBC Three fel sianel deledu. Ar ôl ymgynghori, daethom i'r casgliad ym mis Tachwedd 2021 y dylid caniatáu i'r BBC fwrw ymlaen, gan i ni gredu bod y gwerth cyhoeddus yn cyfiawnhau'r effaith debygol ar y farchnad. Yn benodol, daethom i'r casgliad y gallai'r ail-lansiad gynnig gwerth cyhoeddus ychwanegol i gynulleidfaoedd ifainc yr ydym yn pryderu nad yw'r BBC yn eu gwasanaethu ddigon. I wneud yn siŵr bod y BBC yn cadw at ei chynnig, rydym wedi gosod amodau newydd yn y Drwydded Weithredu ac wedi sefydlu gwell prosesau monitro ac adrodd. Rydym hefyd wedi egluro ein disgwyliad y bydd y BBC yn disgrifio, mewn ffordd dryloyw, sut bydd yn cyflawni'r hyn y mae wedi ymrwymo iddo yn y cynigion, ac wedyn yn adrodd ar ei pherfformiad.

Bu i ni edrych ar leoliad BBC Sounds yn y farchnad a'i effaith, ac roeddem yn fodlon nad yw'r llwyfan sain yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydym hefyd wedi adolygu a chymeradwyo asesiadau perthnasedd y BBC o ddau newid arfaethedig i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus: ychwanegu ffrwd Radio 1 Relax at BBC Sounds.

**Adolygiad o BBC Studios**
Rydym wedi adolygu sut roedd y BBC wedi gweithredu ein rheolau ar sut mae'n cyflawni ei gweithgareddau masnachol a gwnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau ym mis Mehefin 2022. Mae dau dau faes arwyddocaol lle nad ydym yn fodlon ar hyn o bryd bod y BBC â mesurau rheoli a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau ei bod yn gweithredu yn unol â'n rheoleiddio: gwerthu cynnwys eilaidd, a chyflenwi a phrisio nwyddau a gwasanaethau. Disgwyliwn i Fwrdd y BBC gymryd camau i ymdrin â'r rhain.

Mae cangen gynhyrchu BBC Studios wedi parhau i esblygu, gyda'r BBC yn rhannu BBC Global News Limited, is-gwmni masnachol, rhwng Studios a'i hadran newyddion gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r BBC hefyd wedi symud cynyrchiadau plant o wasanaeth cyhoeddus y BBC i BBC Studios. Bu i ni asesu'r newidiadau hyn yn fanwl, a chytuno â'r BBC nad oedden nhw'n berthnasol o ystyried bod ein rheolau'n parhau i gael eu gweithredu.

1 https://www.gov.uk/government/publications/up-next-the-governments-vision-for-the-broadcasting-sector

**Ymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol Channel 4 Television Corporation**
Mae Channel 4 Television Corporation yn llunio Datganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol, sy'n esbonio sut mae wedi cyflawni ei chylch gwaith o ran gwasanaeth cyhoeddus a'i ddyletswyddau yng nghyswllt cynnwys cyfryngau, yn ogystal â sut mae'n bwriadu gwneud hynny yn y flwyddyn i ddod. Rhaid i Channel 4 ymgynghori â ni, a byddwn ni'n cyhoeddi ymateb bob blwyddyn.

Bu i ni gydnabod bod y camau cyflym a gymerwyd gan Channel 4 i ymateb i effaith y pandemig Covid-19 yn dangos hyblygrwydd a chadernid ei fodel busnes. Cafodd toriadau cyllideb effaith enfawr, ond roedd Channel 4 wedi cynnal darpariaeth greadigol i gynulleidfaoedd, gan roi rhaglenni newydd ar y sgrin yn gyflym. Roedd ei chynnwys newyddion hefyd yn gwneud yn dda ar deledu darlledu ac ar-lein, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Er i ni gydnabod y cynnydd y mae Channel 4 yn ei wneud o ran arloesedd digidol, rydym wedi galw am strategaeth glir ynghylch buddsoddi mewn darpariaeth o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc yn eu harddegau.

**Safonau a diogelu cynulleidfaoedd**
Yn ystod y flwyddyn diwethaf rydym wedi derbyn ac wedi asesu nifer fawr o gwynion darlledu, fel y llynedd pan dderbyniwyd y nifer uchaf o gwynion darlledu ers i ni gael ein sefydlu. Unwaith eto, roedd y mwyafrif helaeth yn ymwneud â chynnwys a fu'n peri tramgwydd i gynulleidfaoedd.

Gwnaethom dderbyn 99,562 o gwynion ynghylch 11,932 o achosion. Bu i ni gynnal 28 o ymchwiliadau, gydag 17 yn nodi bod ein rheolau wedi'u torri]

At hynny, eleni, gwnaethom ddirymu trwydded RT i ddarlledu yn y DU.

Ceir dadansoddiad llawn o'n prosesau safonau, ynghyd â dadansoddiad o'r cwynion ar dudalennau 165-176 yn Atodiad A4.

# 99,562

## O GWYNION WEDI'U DERBYN


ynghylch 11,932 o achosion

**Polisi a rheoleiddio hysbysebion**

**Cydreoleiddio**
Rydym yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu i helpu i ddiogelu cynulleidfaoedd rhag hysbysebion ar deledu, radio a gwasanaethau ar-alw a allai fod yn niweidiol. Yn sgil ein cyfrifoldeb rheoleiddio newydd ar gyfer llwyfannau rhannu fideos yn y Deyrnas Unedig, bu i ni gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021 y byddai'r Awdurdod Safonau Hysbysebu hefyd yn gweinyddu'r gwaith o reoleiddio hysbysebion penodol ar y llwyfannau hyn ar sail bob dydd.

**Hysbysebu cynnyrch sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgr**
Mae Deddf Iechyd a Gofal 2022 yn cyflwyno cyfyngiadau newydd ar hysbysebu cynnyrch sy'n cynnwys llawer o fraster, halen neu siwgr. O fis Ionawr 2024 ymlaen, ni fydd gwasanaethau teledu ac ar-alw yn gallu dangos hysbysebion ar gyfer rhai cynhyrchion sy'n cynnwys llawer o fraster, halen neu siwgr rhwng 5.30am a 9pm, a bydd gwaharddiad llwyr ar hysbysebu ar-lein.

Mae Ofcom yn gyfrifol am weithredu a gorfodi'r cyfyngiadau newydd hyn. Byddwn yn ymgynghori ynghylch sut rydym yn bwriadu cyflawni'r dyletswyddau newydd hyn, ar ôl i lywodraeth y DU gyhoeddi'r is-ddeddfwriaeth.





Ffordd rad i orsafoedd leol masnachol, cymunedol, ac arbenigol ddarlledu

# DAB GRADDFA FACH

## TECHNOLEG FLAENGAR

Wedi'i datblygu gydag Ofcom

Mae chwyldro ar droed ym maes radio lleol, diolch i DAB graddfa fach — technoleg arloesol, a ddatblygwyd yn Ofcom, sy'n cynnig ffordd rad i orsafoedd masnachol, cymunedol ac arbenigol lleol ddarlledu ar radio digidol daearol. Yn y pen draw, bydd ein rhaglen drwyddedu yn ei gwneud yn bosib i lansio tua 200 o amlblecsau (neu grwpiau o sianeli), a bydd pob un ohonyn nhw'n gallu cludo tua 25 o orsafoedd radio ar gyfer pedair gwlad y Deyrnas Unedig. Yn dilyn cyfnod llwyddiannus o ddarllediadau treialu, lansiwyd DAB graddfa fach gennym ym mis Medi 2020, ac rydym bellach wedi trwyddedu 25 o amlblecsau mewn gwahanol leoliadau ar hyd a lled y Deyrnas Unedig.

Mae'r grŵp cyntaf o sianeli i gael ei lansio, ym mis Rhagfyr 2021, yn cynnwys ardal Tynemouth a South Shields. Mae'r gorsafoedd radio mae'n eu cludo yn cynnwys gwasanaethau sy'n targedu gwrandawyr hŷn (Memory Lane Radio, Angel Radio); y gymuned LHDTC+ (Pride Radio); a'r gymuned Asiaidd leol (Spice Radio). Mae llawer o wasanaethau cerddoriaeth arbenigol ar yr awyr hefyd, gan gynnwys gorsafoedd cerddoriaeth ddawns yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, Dance a Frisk Radio; gwasanaethau â naws leol, gan gynnwys Sun FM a Radio Shields; a gorsaf radio benodol ar gyfer iechyd a llesiant gwrandawyr (Together Radio).

## Gwnaethom argymell i Lywodraeth y DU y dylai hygyrchedd gwasanaethau ar-alw fod yn ofyniad cyfreithiol.



**Adolygu'r rheolau perchnogaeth ar y cyfryngau**

Rydym wedi cynnal ein hadolygiad tair blynedd o reolau perchnogaeth ar y cyfryngau. Gwnaethom argymell bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cadw, am y tro, y Rheol Perchnogaeth Ar Draws y Cyfryngau a'r Rheol Darparwr Newyddion Penodedig sy'n berthnasol i Channel 3. Daethom i'r casgliad fod y mesurau diogelu hyn yn dal i chwarae rhan bwysig wrth ddiogelu plwraliaeth. Ond er mwyn adlewyrchu sut mae pobl yn defnyddio ac yn dod o hyd i newyddion heddiw, roeddem yn argymell bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ehangu cwmpas y fframwaith presennol ar gyfer Prawf Budd y Cyhoedd yng nghyswllt y Cyfryngau y tu hwnt i ddarlledwyr a phapurau newydd print, er mwyn cynnwys ystod ehangach o ddarparwyr sy'n creu newyddion.

Ochr yn ochr â'r adolygiad o reolau perchnogaeth ar y cyfryngau, ym mis Mehefin 2021 roeddem wedi dechrau edrych ar yr effaith y gallai newidiadau yn y farchnad newyddion, drwy lwyfannau ar-lein, ei chael ar blwraliaeth y cyfryngau yn y Deyrnas Unedig. Ym mis Mai 2022 cyhoeddodd llywodraeth y DU ein cyngor ar y cyd (gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd) ar sut y gellir gwneud y berthynas ariannol rhwng y llwyfannau digidol mawrion a chyhoeddwyr newyddion yn decach.

**Hygyrchedd ar-alw**

Roeddem wedi parhau i fonitro hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni darlledu ac ar-alw i bobl sydd â nam ar eu golwg a/neu ar eu clyw. Gwnaethom argymell i Lywodraeth y DU y dylai hygyrchedd gwasanaethau ar-alw fod yn ofyniad cyfreithiol.

**Monitro amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y byd darlledu**

Mae Ofcom yn adrodd bob blwyddyn ar amrywiaeth y gweithlu teledu a radio yn y Deyrnas Unedig. Mewn adolygiad o ddata'r pum mlynedd diwethaf, roeddem wedi nodi argymhellion i ddarlledwyr, gan alw arnynt i wneud cynhwysiad yn rhan graidd o'u sefydliadau. Yn 2022 byddwn yn gofyn am fewnbwn i adolygu a diweddaru'r data rydym yn ei gasglu a'r ffordd rydym yn ei gasglu, a fydd yn ein galluogi i barhau i ddal darlledwyr i gyfrif am ehangu eu gweithluoedd ac agor y drws i'r ystod ehangaf bosib o ddoniau ymuno â'r diwydiant.

# CRYFHAU OFCOM AR GYFER Y DYFODOL

Gyda'r cynnydd cyflym mewn gwasanaethau ar-lein, mae angen i ni sicrhau ein bod yn cynnal ac yn meithrin ein gallu i ddarparu gwasanaeth da i'r holl sectorau rydym yn eu rheoleiddio.



## MEYSYDD GWAITH Â BLAENORIAETH

- **Amrywiaeth a chynhwysiad yn Ofcom**
- **Archwiliadau cyflog cyfartal a chyflog y rhywiau / ethnigrwydd**
- **Lleihau ôl troed carbon – rhaglen i leihau effaith Ofcom ar yr amgylchedd.**

## CANLYNIADAU I DDEFNYDDWYR

Ym mis Ionawr 2021, bu i ni amlinellu ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad newydd dros bum mlynedd. Rydym wedi cyrraedd targedau heriol y flwyddyn gyntaf (swyddi uwch yn y categorïau rhyw, ethnigrwydd ac anabledd ar draws Ofcom). Rydym yn dal i sicrhau ein bod yn amrywio ein gweithlu fel rhan o'n cynllun twf.

Rydym wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i helpu i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Rydym wedi adolygu gweithrediadau busnes i wella ein dealltwriaeth o'n heffaith ar yr amgylchedd, ac wedi mabwysiadu Polisi Amgylcheddol newydd i wella perfformiad amgylcheddol Ofcom.

# PARATOI I REOLEIDDIO DIOGELWCH AR-LEIN




## Rydym eisiau i bawb yn y DU i allu byw bywyd mwy diogel ar-lein

### MEYSYDD GWAITH Â BLAENORIAETH

- **Diogelwch Ar-lein – gwaith paratoi ar gyfer rheoleiddio diogelwch ar-lein**
- **Llwyfannau Rhannu Fideos – gweithredu dyletswyddau Ofcom ar gyfer Llwyfannau Rhannu Fideos**
- **Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau – Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (MSOM) – cefnogi oedolion a phlant yn y Deyrnas Unedig ar-lein, drwy waith ymchwil a chydweithio â rhanddeiliaid**
- **Marchnadoedd Ar-lein – gwaith ar gystadleuaeth ar-lein, gan gynnwys pwerau cyfredol a strategaeth ar-lein ar gyfer y dyfodol.**

### CANLYNIADAU I DDEFNYDDWYR

Rydym eisiau i bawb yn y Deyrnas Unedig allu byw bywyd mwy diogel ar-lein, ac i lwyfannau gymryd mwy o gyfrifoldeb dros ddiogelu eu defnyddwyr.


Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar baratoi at y rheoliadau newydd a fydd yn cael eu cyflwyno, a hybu dealltwriaeth o sut mae pobl yn ymgysylltu ar-lein. Fel rhan o'r cyfrifoldebau newydd hyn rydym wedi nodi elfennau pwysig lle mae angen i ni ddatblygu a chynyddu ein galluoedd technegol a gweithredol.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein fframwaith rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos, sy'n egluro ein disgwyliadau o lwyfannau rhannu fideos a'n hamcanion cyffredinol ar gyfer 2022.

Roedd ein rhaglen ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar-lein wedi parhau drwy gyhoeddi tri adroddiad, a oedd yn rhoi cipolwg newydd ar ymddygiad ar-lein, gyda phwyslais penodol ar gamwybodaeth.

Rydym hefyd wedi helpu llywodraeth y DU i asesu'r opsiynau ar gyfer rheoleiddio cystadleuaeth yn y farchnad ddigidol, gan roi cyngor ar sut gellir defnyddio cod ymddygiad i ymdrin â phryderon ynghylch y berthynas rhwng llwyfannau ar-lein a chyhoeddwyr cynnwys.

# Mewn byd sy’n mynd yn fwyfwy digidol, rydym am i bawb yn y Deyrnas Unedig allu byw bywyd mwy diogel ar-lein, ac yn disgwyl i gwmnïau technoleg gymryd mwy o gyfrifoldeb dros ddiogelu eu defnyddwyr.



## YR EFFAITH AR DDEFNYDDWYR

I’r rhan fwyaf ohonom, mae defnyddio gwasanaethau ar-lein yn rhan sylfaenol o’n bywydau bob dydd. Yn 2020, roedd pob un ohonom yn treulio 3 awr 37 munud y dydd ar gyfartaledd ar ffonau clyfar, llechi a chyfrifiaduron.

Mae bod ar-lein yn dod â manteision enfawr, ond mae pedwar o bob pum person yn poeni am hynny. Mae diogelu pobl pan fyddant ar-lein yn mynd yn gynyddol bwysig.

Dywedodd tua 76% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn y Deyrnas Unedig eu bod wedi dod i gysylltiad â niwed posib ar-lein o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn diwethaf, gyda dros hanner y bobl ifanc 12-15 oed yn dweud iddynt gael profiad negyddol. Canfu ein hymchwil hefyd fod 70% o’r rheini sy’n gwylio gwasanaethau fideo cymdeithasol wedi gweld neu wedi profi rhywbeth a allai fod yn niweidiol.

# PARATOI I REOLEIDDIO DIOGELWCH AR-LEIN

## BETH RYDYM WEDI'I GYFLAWNI

**Llwyfannau rhannu fideos**
Mae llwyfannau rhannu fideos (VSP) yn fath o wasanaeth fideos ar-lein sy'n caniatáu i ddefnyddwyr lwytho fideos i fyny a'u rhannu â'r cyhoedd. Ers mis Tachwedd 2020, mae'n rhaid i lwyfannau rhannu fideos a sefydlir yn y Deyrnas Unedig gydymffurfio â rheolau newydd sy'n ymwneud â diogelu defnyddwyr rhag fideos niweidiol.

Ym mis Hydref 2021, bu i ni amlinellu disgwyliadau manwl o ddarparwyr llwyfannau rhannu fideos. Gosodwyd amcanion gennym i godi safonau ar gyfer diogelu defnyddwyr; canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio a mynd i'r afael â hwy ar unwaith; gwella tryloywder ar draws y diwydiant; a pharatoi Ofcom a chwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio ar gyfer y deddfau diogelwch ar-lein mwy cynhwysfawr sydd ar y gweill.

Rydym wedi cydweithio'n eang â grwpiau diwydiant a chymdeithas sifil yn ystod blwyddyn gyntaf y drefn llwyfannau rhannu fideos. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill drwy'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol.

Mae ein gwaith wedi'i strwythuro o amgylch pum thema:

- lleihau'r risg o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol;
- trechu casineb a therfysgaeth;
- diogelu'r rhai o dan 18 oed;
- gosod y sylfeini ar gyfer dilysu oedran ar wefannau i oedolion; a
- sicrhau bod prosesau fflagio ac adrodd priodol ar waith.

Rydym wedi dechrau gweithio ar ein hadroddiad cyntaf ar lwyfannau rhannu fideos, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn 2022.

**Paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein**
Cyflwynwyd y Bil Diogelwch Ar-lein yn y Senedd Brydeinig yn ystod Gwanwyn 2022. Dyma oedd cam nesaf y Bil tuag at fynd yn gyfraith, a rhoi pwerau i Ofcom helpu pobl i fyw bywyd mwy diogel ar-lein.

Llywodraeth y DU a'r Senedd Brydeinig fydd yn penderfynu ar ffurf y drefn newydd, ond mae Ofcom yn rhoi cyngor technegol ar sut gall hynny weithio.

Rydym wedi bod yn paratoi'n fanwl ar gyfer y rheoliadau newydd a fydd yn cael eu cyflwyno, ac yn hybu dealltwriaeth o sut mae pobl yn treulio amser ar-lein. Rydym wedi nodi elfennau pwysig lle rydym yn datblygu ac yn ehangu ein galluoedd technegol a gweithredol.

Rydym hefyd wedi creu safle newydd ym Manceinion sy'n ein galluogi i fanteisio ar weithlu sydd â llawer o sgiliau technegol, i wella ein galluoedd ymhellach, ac i ddefnyddio cryfderau ymchwil prifysgolion o'r radd flaenaf a'u cronfa ddofn o raddedigion dawnus.

Ers Tachwedd 2020, mae'n rhaid i lwyfannau rhannu fideos a sefydlir yn y DU gydymffurfio â'r rheolau newydd.

**Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau**

Mae gan Ofcom eisoes ddyletswyddau i hyrwyddo dealltwriaeth pobl o'r cyfryngau, ac mae'r gwaith hwn hefyd yn helpu i gyfeirio ein polisi. Eleni, wrth i ni baratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein, ail-lansiwyd ein rhaglen ar-lein ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau gyda phum maes gwaith craidd:

- gweithio gyda diwydiant;
- prosiectau sy'n canolbwyntio ar gymunedau ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig nad ydynt wedi'u gwasanaethu'n ddigonol;
- hybu egwyddorion dylunio sy'n arferion da wrth ddylunio llwyfannau a gwasanaethau;
- gwerthuso'r hyn sy'n gweithio ar draws amrywiaeth o ymyriadau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau; a
- pharhau i ehangu a dyfnhau ein sylfaen o dystiolaeth ymchwil.

Ym mis Mehefin 2021, bu i ni gyhoeddi tri adroddiad fu'n bwrw goleuni newydd ar y sector. Roedd y cyntaf yn edrych ar sut i gywain a chyfuno setiau data ar-lein. Roedd yr ail yn ystyried sut i ddeall arferion ac argraffau am gamwybodaeth. Adolygiad llenyddiaeth o ba agweddau ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau sy'n effeithiol wrth fynd i'r afael â chamwybodaeth oedd y trydydd adroddiad. Roeddem hefyd wedi parhau â'n harolwg tracio Covid tan fis Medi 2021, ac wedi cyhoeddi ein hadroddiadau ansoddol ac arolygon ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ymysg oedolion a phlant ym mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022.

Rydym yn cydweithio'n rheolaidd â diwydiant, cyrff rheoleiddio yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, yn ogystal â mudiadau trydydd sector ac academyddion. Drwy gydweithio â llywodraeth, rydym wedi cysoni ein rhaglenni gwaith ac anghenion y drefn diogelwch ar-lein mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

**Marchnadoedd ar-lein**

Rydym wedi helpu Llywodraeth y DU i asesu'r opsiynau ar gyfer rheoleiddio cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol. Gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, bu i ni roi cyngor ar y cyd i Lywodraeth y DU ar sut y gellir defnyddio cod ymddygiad i ymdrin â phryderon am y berthynas rhwng llwyfannau ar-lein a chyhoeddwyr cynnwys.

Bu i ni ffurfio'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol ym mis Gorffennaf 2020 i'n helpu i ddarparu ymagweddau mwy effeithlon a chydgysylltiedig ar gyfer gwasanaethau digidol. Yn ogystal ag Ofcom, aelodau'r Fforwm yw'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cadeirir y Fforwm gan y Fonesig Melanie Dawes. Ym mis Ebrill 2022 cyhoeddwyd adroddiad blynyddol cyntaf y Fforwm a chynllun gwaith y Fforwm ar gyfer 2022/23, sy'n egluro sut rydym yn bwriadu gwireddu'r nodau a'r uchelgeisiau hyn. Edrychwch ar dudalen 44 i gael rhagor o fanylion.



Gyda'r cynnydd cyflym mewn gwasanaethau ar-lein, mae angen i ni sicrhau ein bod yn cynnal ac yn adeiladu ein capasiti i gyflwyno gwasanaeth da i'r holl sectorau a reoleiddiwn.




## YR EFFAITH AR DDEFNYDDWYR

Gan adlewyrchu'r newid mewn marchnadoedd a'n cyfrifoldebau newydd, mae Ofcom yn datblygu arferion gweithio arloesol i sicrhau ein bod mor effeithiol ac effeithlon â phosib. Rydym yn parhau i gryfhau ein sgiliau a'n harbenigedd mewn meysydd fel dadansoddi data a thechnoleg ddigidol. Rydym hefyd yn datblygu ein cynrychiolaeth ar draws y Deyrnas Unedig i sicrhau bod gennym weithlu amrywiol sy'n adlewyrchu ac yn gwasanaethu pawb yn y Deyrnas Unedig.

# CRYFHAU OFCOM AR GYFER Y DYFODOL

## BETH RYDYM WEDI'I GYFLAWNI

**Trawsnewid gallu Ofcom ym meysydd peirianneg data, gwyddor data a dadansoddi data**
Rydym yn parhau i ddatblygu ein gallu ym meysydd peirianneg data, gwyddor data a dadansoddi data. Mae hyn yn cynnwys ein Canolfan Arloesi Data, sy'n rhoi cyngor ac arweiniad canolog i gydweithwyr ar ddefnyddio data ar draws y sefydliad. Rydym hefyd wedi cryfhau ein Canolfan Ymddygiadau er mwyn deall ymddygiad defnyddwyr yn well ar draws y meysydd rydym yn eu rheoleiddio ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

**Datblygu ein dealltwriaeth o'r technolegau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ar-lein**
Wrth i ni baratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein, mae'n dal yn flaenoriaeth i ni gadw ar y blaen i newidiadau yn y diwydiant. I sicrhau bod gennym y sgiliau a'r strwythurau cywir ar waith, rydym wedi buddsoddi mewn dysgu a datblygu, ac wedi recriwtio'n arbenigol. I wella ein dealltwriaeth o'r diwydiannau technoleg, rydym wedi cyflogi rhai o weithwyr Meta, Google a chyrff fel Internet Watch Foundation a'r NSPCC. Ym mis Hydref 2021 roeddem wedi croesawu Prif Swyddog Technoleg newydd, o Amazon, a oedd â'r dasg o oruchwylio twf ein swyddogaethau technoleg, peirianneg data a dadansoddi data.

Rydym yn meithrin dealltwriaeth ddofn o arloesedd yn ein sectorau. Er enghraifft, rydym yn parhau i ddatblygu Canolfan Rhyngweithredu Rhwydwaith Agored SmartRAN (Labordai SONIC) mewn partneriaeth â Digital Catapult. Mae'r cyfleuster hwn yn caniatáu i ni brofi atebion newydd posib, gan gyflenwyr presennol a newydd, i'w defnyddio yng nghadwyn gyflenwi telathrebu'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Bydd hyn yn gwneud seilwaith telathrebu'r Deyrnas Unedig yn llai dibynnol ar nifer bach o gwmnïau, ac yn fwy abl i wrthsefyll newidiadau yn y farchnad neu broblemau gyda chyflenwr penodol.

Wrth i ni baratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein, mae'n parhau yn flaenoriaeth i ni i aros ar y blaen i newidiadau i'r diwydiant.



**Cynaladwyedd a newid yn yr hinsawdd**
Mae gan Ofcom rôl i'w chwarae i hyrwyddo cynaladwyedd a helpu'r sector cyfathrebiadau i ymdrin â'r argyfwng hinsawdd. Rydym wedi comisiynu ymchwil i wella ein dealltwriaeth o allyriadau CO2 y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, ac wedi gweithio gyda rhanddeiliaid y diwydiant i ddeall beth maen nhw'n ei wneud i gefnogi'r broses o newid i allyriadau carbon sero net.

Mae'r ffordd mae pobl yn defnyddio dyfeisiau cyfathrebu yn cael dylanwad mawr ar ddefnydd cymharol technolegau o ynni. Rydym wedi cynnal ymchwil ymysg defnyddwyr i ddeall y ffordd orau o amcangyfrif faint o ynni mae'r dyfeisiau hyn yn ei ddefnyddio mewn cartrefi yn y Deyrnas Unedig.

Rydym hefyd yn parhau i gydweithio â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig i rannu arferion gorau o ran dulliau rheoleiddio i gefnogi targed carbon sero net y Deyrnas Unedig. Gweler tudalennau 68-70.

**Adroddiad blynyddol ar amrywiaeth**
Ym mis Gorffennaf 2021 cyhoeddwyd ein hadroddiad blynyddol ar Amrywiaeth yn Ofcom 2020/21 a Bwlch Cyflog 2020/21, yr adroddiad ystadegol cyntaf o dan ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad newydd. Roedd y canlyniadau'n dangos ein bod wedi cyflawni ein huchelgais gyffredinol i gael cydbwysedd rhwng y rhywiau (50%), ac wedi rhagori ar ein targed o 40% ar gyfer nifer y swyddi uwch sy'n cael eu dal gan fenywod (44%). Er i ni wneud cynnydd ar ein targed ar gyfer swyddi uwch yn y categori ethnigrwydd, nid oeddem wedi cyflawni ein huchelgais o sicrhau bod 13% o swyddi uwch yn cael eu dal gan bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, gan gyrraedd 11%.

Byddwn yn cyhoeddi diweddariad manwl ar berfformiad o dan ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad yn ail chwarter 2022.

**Lleihau ôl troed carbon**
Mae lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd yn eithriadol o bwysig i Ofcom, ac rydym wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i'n helpu i gyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu a mabwysiadu polisi amgylcheddol newydd, gan gynnwys atal llygredd drwy ein gweithrediadau ac ymrwymiad i wella ein system rheoli amgylcheddol yn barhaus, sydd bellach wedi cael ardystiad ISO14001.

Rydym wedi mabwysiadu amcanion a thargedau amgylcheddol newydd i'n helpu i leihau ôl troed Ofcom (y tu hwnt i allyriadau carbon), ac i sicrhau ein bod yn gyson â Strategaeth Sero Net ac Ymrwymiadau Gwyrdd 2021-25 llywodraeth y DU.



# DATBLYGU PARTNERIAETHAU NEWYDD



Rydym yn parhau i feithrin cysylltiadau â rheoleiddwyr, busnesau, arbenigwyr a llywodraethau yn y Deyrnas Unedig ac ar draws y byd, er mwyn i ni allu dysgu'n barhaus a rhannu arferion gorau i sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl yn y Deyrnas Unedig.

## MEYSYDD GWAITH Â BLAENORIAETH

- **Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol – tasglu ar y cyd o reoleiddwyr (Ofcom, CMA, FCA, ICO) i reoleiddio gwasanaethau digidol mewn modd cydlynol**

## CANLYNIADAU I DDEFNYDDWYR

Y llynedd, cyhoeddodd y Fforwm ei gynllun gwaith cyntaf ar gyfer 2021/22. Yn ystod y flwyddyn gyntaf hon, roedd pedwar aelod y Fforwm wedi meithrin cysylltiadau cryfion ac wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd i ddeall yn well anghenion y sectorau rydym yn eu goruchwylio, ac anghenion y defnyddwyr rydym yn eu diogelu.

# DATBLYGU PARTNERIAETHAU NEWYDD

## BETH RYDYM WEDI'I GYFLAWNI

**Y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol**
Wrth i reoleiddwyr yn y Deyrnas Unedig gynllunio ar gyfer cyfrifoldebau newydd a newidiol yn y byd digidol, mae angen i ni gydweithio'n agosach byth i sicrhau bod cwmnïau'n cystadlu'n deg, bod data pobl yn cael ei ddefnyddio'n briodol, a bod defnyddwyr ar-lein yn cael eu diogelu rhag niwed.

Ym mis Gorffennaf 2020 ffurfiodd Ofcom, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol. Mae'r tasglu newydd hwn yn enghraifft flaengar o reoleiddio digidol cydlynol, ac yn helpu ei aelodau i ddatblygu ymagweddau effeithlon a chydgysylltiedig at reoleiddio mewn byd digidol, lle mae nifer o amcanion polisi fel preifatrwydd, cystadleuaeth a chynnwys niweidiol yn rhyngweithio â'i gilydd.

Cyhoeddodd y Fforwm ei adroddiad blynyddol cyntaf, a'i ail gynllun gwaith blynyddol, ym mis Ebrill 2022. Yn ystod y flwyddyn diwethaf, mae aelodau'r Fforwm wedi ffurfio cysylltiadau pwerus sy'n newid y ffordd rydym yn ymdrin â rheoleiddio digidol. Rydym bellach yn rhannu gwybodaeth a sgiliau fel mater o drefn, yn cronni adnoddau, ac yn gweithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i dueddiadau a datblygiadau arloesol pwysig yn y diwydiant.

Mae'r tasglu newydd hwn yn enghraifft o gydlynu rheoleiddio digidol sy'n arwain y byd.

Roedd ein gwaith yn ystod 2021-2022 yn canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth:

1. Ymateb yn strategol i ddatblygiadau ym myd technoleg a diwydiant drwy sefydlu prosiectau strategol ar y cyd lle rydym yn helpu i roi eglurder i bobl a busnesau drwy gydweithio.
2. Dulliau cydgysylltiedig o sicrhau canlyniadau rheoleiddio cydlynol, lle mae gwahanol reoliadau'n gorgyffwrdd â'i gilydd.
3. Meithrin sgiliau a galluoedd, gan gynnwys dulliau ymarferol o rannu gwybodaeth, arbenigedd, galluoedd ac adnoddau.

Rydym eisoes yn gweld manteision y cydweithio hwnnw. Er enghraifft, yn Ebrill 2022 daeth pedwar aelod y Fforwm at ei gilydd i gyhoeddi safbwyntiau ar y cyd ar fanteision a niwed algorithmau ar draws ein sectorau, a dulliau archwilio algorithmig.

# PRIF RISGIAU A MATERION SY'N ACHOSI ANSICRWYDD

**Mae Cofrestr Risgiau Strategol Ofcom yn cofnodi risgiau a allai lesteirio ein gwaith a'n nodau. Yn ystod y flwyddyn, adnewyddwyd y gofrestr er mwyn cynnwys ein dyletswyddau newydd a'n cylch gwaith sy'n ehangu.**



**Mae polisi rheoli risg Ofcom yn ceisio:**

- cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Ofcom drwy gyfrannu gwybodaeth at y broses o wneud penderfyniadau;
- egluro egwyddorion Rheoli Risg yn Ofcom;
- diogelu arian cyhoeddus ac asedau adrannol y mae Ofcom yn gyfrifol amdanynt;
- hyrwyddo diwylliant lle mae derbyn risg priodol yn cael ei annog; a
- gwreiddio rheoli risg ym mhrosesau busnes eraill Ofcom fel sail ar gyfer llywodraethu corfforaethol da.

Mae'r gofrestr risg wedi'i threfnu o amgylch wyth prif faes.

| Y prif risgiau | Blaenoriaeth | Camau lliniaru |
|---|---|---|
| **Gwelir bod rheoleiddio yn fater annibynnol, diduedd a chyson**<br>Risg o niweidio enw da Ofcom am fod yn annibynnol ac am wneud penderfyniadau doeth y mae ein diwydiannau a rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys y Senedd Brydeinig a defnyddwyr, yn ymddiried ynddynt. |  | ▪ Rydym yn rhoi prosesau effeithiol ar waith ar gyfer llywodraethu a gwneud penderfyniadau, sy'n rhoi trosolwg cadarn o brosesau gwneud penderfyniadau Ofcom. Rydym yn adolygu'r rhain yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.<br>▪ Rydym yn sicrhau bod cydweithwyr yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd cynnal annibyniaeth Ofcom wrth ddelio â rhanddeiliaid, Llywodraeth y DU a'r Senedd Brydeinig.<br>▪ Rydym yn cynnal ymarfer adborth rheolaidd gan randdeiliaid, a bob blwyddyn byddwn yn ymgynghori'n agored ar ein Cynllun Gwaith. |
| **Arwain Syniadau**<br>Risg nad yw Ofcom yn cael ei ystyried yn arweinydd barn dibynadwy ac uchel ei barch ac yn un sy'n llunio'r farchnad yn y sector cyfathrebiadau. |  | ▪ Mae Pwyllgor Ymchwil mewnol Ofcom yn parhau i oruchwylio ymchwil arloesol.<br>▪ Roedd Ofcom wedi cymryd rhan mewn cynadleddau a digwyddiadau trafod yn y meysydd sy'n cael eu rheoleiddio gennym ni a chyda rheoleiddwyr eraill.<br>▪ Rydym wedi sefydlu fframwaith Moeseg Data i leihau'r risg y bydd Ofcom yn amharu ar breifatrwydd yn sgil gweithgareddau casglu data.<br>▪ Mae Ofcom, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gyda'i gilydd, wedi ffurfio'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol i helpu i gydlynu'r gwaith rheoleiddio mewn gwasanaethau digidol.<br>▪ Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ariannu Labordai SONIC Ofcom a Digital Catapult. Mae Labordai SONIC yn galluogi gwerthwyr mwy newydd i brofi eu technoleg mewn amgylchedd sy'n niwtral o safbwynt masnachol. Mae ein gwaith yn y Labordai SONIC wedi ennyn diddordeb amrywiaeth o Lywodraethau a Rheoleiddwyr ledled y byd, ac rydym yn parhau i rannu'r gwersi rydym wedi'u dysgu drwy sgyrsiau gwadd, sesiynau panel, ac ati. |
| **Diogelwch Ar-lein, Diogelwch Telathrebu, Llwyfannau Rhannu Fideos**<br>Risg nad yw Ofcom yn paratoi ar gyfer newidiadau go iawn a newidiadau posib i'w gylch gwaith. |  | **Gofynion Diogelwch Telathrebu**<br>▪ Cafodd Deddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021 Gydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2021.<br>▪ Bu'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ymgynghori'n ddiweddar ar Reoliadau a Chod Ymarfer drafft, ac rydym ninnau hefyd wedi ymgynghori ar ein Canllawiau Gweithdrefnol, gan amlinellu sut rydym yn bwriadu cyflawni ein rôl monitro a gorfodi.<br>**Diogelwch Ar-lein**<br>▪ Rydym wedi sefydlu rhaglen ar draws Ofcom i baratoi ar gyfer cyfrifoldebau newydd yn ymwneud â diogelwch ar-lein.<br>▪ Rydym yn darparu cyngor parhaus i'r Llywodraeth a'r Senedd Brydeinig i sicrhau bod y fframwaith statudol yn ymarferol ac yn effeithiol.<br>**Llwyfannau Rhannu Fideos**<br>▪ Rydym wedi cyhoeddi Cynllun a Dull Gweithredu ar gyfer Llwyfannau Rhannu Fideos sy'n cyfleu nodau Ofcom ar gyfer y drefn Llwyfannau Rhannu Fideos a'n blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod.<br>▪ Rydym yn meithrin cysylltiadau â'r diwydiant, cyrff anllywodraethol, rheoleiddwyr eraill a chyrff gorfodi'r gyfraith, i gynnal ymwybyddiaeth o niwed a chanfod problemau'n gynnar. |


**Allwedd i flaenoriaethau**

- Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel
- Cael cysylltiad i bawb
- Paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein
- Datblygu partneriaethau newydd
- Tegwch i gwsmeriaid
- Cefnogi a datblygu darlledu yn y DU
- Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol

**Y prif risgiau** | **Blaenoriaeth** | **Camau lliniaru**

**Strategaeth, Ymchwil a Sganio'r Gorwel**

Risg nad yw Ofcom yn buddsoddi ddigon yn ein strategaeth, ein hymchwil a'n gwaith ar sganio'r gorwel er mwyn deall datblygiadau yn ein sectorau yn y dyfodol, yng nghyd-destun datblygiadau macro trawsbynciol (gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technoleg, cyfreithiol ac amgylcheddol).



- Rydym wedi cryfhau a ffurfioli ein proses sganio'r gorwel drwy gydol y flwyddyn: gan ddefnyddio dadansoddiad PESTLE.
- Yn ein Diwrnod Strategaeth Bwrdd (fis Hydref) eglurwyd ein blaenoriaethau tymor hwy, ac rydym wedi defnyddio hyn i ddatblygu cynllun 3 blynedd mewnol cyntaf Ofcom.
- Rydym wedi buddsoddi adnoddau yn ein rhaglenni sganio'r gorwel: gan gynnwys Mewnwelediadau (Strategaeth ac Ymchwil) a Darganfod Technoleg (Technoleg).
- Rydym wedi nodi a datblygu meysydd prosiect penodol: newid yn yr hinsawdd, symud gwasanaethau darlledu a thelegyfathrebiadau i'r cwmwl, ymddiriedaeth ar-lein a thechnoleg diogelwch.

**Dealltwriaeth Fasnachol**

Risg nad oes gan Ofcom ddealltwriaeth fasnachol ddigonol o'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio, blaenoriaethau diwydiant busnesau sy'n cael eu gyrru gan gymhellion masnachol a datblygiadau technolegol, ac anghenion a gofynion newidiol defnyddwyr.



- Rydym yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â'r timau cynnyrch, technoleg, strategaeth rhanddeiliaid a chydag arbenigwyr pwnc eraill.
- Rydym wedi cryfhau ein hymchwil i anghenion a gofynion defnyddwyr, yn enwedig ar-lein: ee, gwybodaeth am ymddygiad, Panel Llwyfannau Rhannu Fideos, a Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (ymwybyddiaeth o'r cyfryngau).
- Rydym wedi ffocysu ein gwaith recriwtio i sicrhau ein bod yn denu cydweithwyr o safon uchel sydd â phrofiad masnachol cryf yn eu maes perthnasol ar gyfer uwch swyddi allweddol.

**Penderfyniadau Rheoleiddio**

Risg nad yw Ofcom yn gwneud penderfyniadau rheoleiddio priodol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac y gellir eu hamddiffyn yn gyfreithiol, yn unol â'i ddyletswyddau statudol, sy'n ystyried datblygiadau newidiol yn y farchnad.



**Ymyriadau yn y Farchnad Telathrebu.**

- Ar ôl cynnal yr Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol y llynedd, gan nodi'r fframwaith rheoleiddio i gefnogi'r gwaith o gyflwyno rhwydweithiau ffeibr llawn ledled y Deyrnas Unedig, rydym yn parhau i fonitro'r broses o weithredu hyn i sicrhau bod defnyddwyr yn elwa o farchnadoedd cystadleuol.
- Ym mis Chwefror 2022 cyhoeddwyd ein papur trafod ar ein hyamgwedd at farchnadoedd symudol yn y dyfodol.

**Derbyn Gwasanaeth Cyffredinol cynaliadwy gan y Post Brenhinol.**

- Rydym wedi cyhoeddi cynigion ar y ffordd y byddwn yn rheoleiddio'r sector post yn y dyfodol, sy'n ceisio darparu sicrwydd rheoleiddiol i fuddsoddwyr, gan roi'r cyfle gorau posibl i'r Post Brenhinol drawsnewid ei fusnes i gefnogi cynaladwyedd.

**Cefnogi Darlledu yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y Sector Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.**



- Rydym yn rhoi cyngor i Lywodraeth y DU ar sail ymchwil eang i'r gynulleidfa a chydweithio â rhanddeiliaid, ar draws datblygiadau a heriau masnachol a thechnolegol perthnasol.

**Argaeledd Sbectrwm**

- Rydym wedi cyhoeddi ein Map Sbectrwm, sy'n dangos sut byddwn yn rheoli'r sbectrwm yn y dyfodol ar sail anghenion newidiol y sefydliadau, y cwmnïau a'r bobl sy'n ei ddefnyddio.

**Allwedd i flaenoriaethau**

- Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel
- Cael cysylltiad i bawb
- Paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein
- Datblygu partneriaethau newydd
- Tegwch i gwsmeriaid
- Cefnogi a datblygu darlledu yn y DU
- Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol

| Y prif risgiau | Blaenoriaeth | Camau lliniaru |
|---|---|---|
| **Pobl**<br><br>Risg nad oes gan Ofcom y strategaethau pobl, yr arweinyddiaeth na'r diwylliant iawn i sicrhau bod gennym y bobl iawn sydd â'r sgiliau a'r amrywiaeth briodol o gefndiroedd ar yr adeg iawn i gyflawni'r Cynllun Gwaith. Nad yw ein harweinwyr a'n diwylliant yn creu amgylchedd gwaith cynhyrchiol, cynhwysol ac effeithiol, sy'n golygu bod y ddarpariaeth yn is na'r disgwyl neu'r potensial. |  | ▪ Bu i ni lansio system newydd ar gyfer rheoli perfformiad a gyrfa, sy'n cynnwys strwythur rheoli symlach, buddsoddi mewn arweinyddiaeth a datblygu'r doniau a'r sgiliau presennol.<br>▪ Rydym wedi datblygu cynigion ar gyfer modelau gweithio yn y dyfodol, sy'n adlewyrchu profiadau Covid, i sicrhau bod modd gweithio wyneb yn wyneb ac i ddefnyddio ein swyddfeydd mor effeithlon â phosibl<br>▪ Rydym yn monitro ein perfformiad yn erbyn ein targed 5 mlynedd newydd ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiad.<br>▪ Rydym yn adolygu cynllun y sefydliad ar gyfer Diogelwch Ar-lein, ac mae'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma wedi ein rhoi mewn sefyllfa gref i gynllunio talent a recriwtio'n amserol. |
| **Seiberddiogelwch a Diogelu Gwybodaeth**<br><br>Risg bod ymagwedd Ofcom at ymdrin â seiberddiogelwch yn aneffeithiol, gan arwain at ymosodiad seiber ar seilwaith hanfodol y busnes |  | ▪ Rydym wedi darparu hyfforddiant gorfodol ar seiberddiogelwch a diogelu gwybodaeth i bob cydweithiwr yn Ofcom.<br>▪ Rydym yn gweithio gyda'n sefydliadau partner i fonitro bygythiadau'n barhaus ac i roi mesurau diogelwch ar waith.<br>▪ Rydym wedi cynnal ymarfer digwyddiad mawr wedi'i hwyluso'n allanol a oedd yn seiliedig ar ddigwyddiad meddalwedd wystlo, ac wedi rhoi pob gwers ar waith. |

**Allwedd i flaenoriaethau**

 Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel


 Cael cysylltiad i bawb

 Paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein

 Datblygu partneriaethau newydd

 Tegwch i gwsmeriaid

 Cefnogi a datblygu darlledu yn y DU

 Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol

# YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

## EIN GWAITH YNG NGWLEDYDD A RHANBARTHAU'R DEYRNAS UNEDIG

**Wrth gyflawni ein dyletswyddau, rhaid i ni ystyried yr holl wahanol wledydd, rhanbarthau, diwylliannau, dwyseddau poblogaeth a thirweddau sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig.**

Mae ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin, Llundain, Warrington a Birmingham a'n swyddfa newydd ym Manceinion yn ein galluogi i ymgysylltu'n uniongyrchol â llywodraethau, cynrychiolwyr etholedig a rhanddeiliaid lleol, ac i sicrhau ein bod yn ystyried safbwyntiau, buddiannau ac anghenion pobl ar draws y Deyrnas Unedig.

Hefyd, mae gennym Bwyllgorau Cynghori statudol ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac aelodau Bwrdd ar ran Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, mewn ymgynghoriad ag Ysgrifennydd Gwladol y Deyrnas Unedig. Mae ein Bwrdd Cynnwys a'n Paneli Defnyddwyr hefyd yn cynnwys aelodau sy'n cynrychioli pob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Ofcom adroddiad ynghylch sut yr adroddwyd am Covid yn y newyddion ar draws y gwledydd datganoledig.

Er bod llawer o'n gwaith yn berthnasol ar draws y Deyrnas Unedig, rydym wedi tynnu sylw at waith penodol a wnaed ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig dros y flwyddyn diwethaf, ac yn nodi bod mwy o waith i'w gyflawni.



## Gogledd Iwerddon

Wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n ffurfioli ein hatebolrwydd lleol.

Wedi hwyluso'r gwaith o benodi Aelod cyntaf o Fwrdd Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, Karen Baxter.

Wedi parhau i fod yn rhan o weithgor Rhwydwaith Gwledig a Rennir Gogledd Iwerddon a gweithgor Cynllun Gweithredu Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar Ddarpariaeth Symudol, gan helpu i ddarparu gwell darpariaeth 4G a 5G ar draws Gogledd Iwerddon.

Wedi cydweithio â chyrff defnyddwyr ac adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn perthynas â Phrotocol Gogledd Iwerddon, a'r maes symud parseli rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Wedi darparu data a dadansoddiadau ar sectorau cyfryngau a chyfathrebiadau Gogledd Iwerddon drwy ein hadroddiadau blynyddol Cyfryngau'r Genedl a Cysylltu'r Gwledydd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Wedi gwahodd ceisiadau am drwydded amlblecs DAB graddfa fach yn ardal Belfast a Lisburn.

## Yr Alban

Yn unol â'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, rydym wedi cydweithio â Llywodraeth yr Alban, gan gynnal cysylltiadau rhwng uwch swyddogion gweithredol ac aelodau Bwrdd ac Ysgrifenyddion y Cabinet yn Llywodraeth yr Alban.

Wedi cynnal ein hymgysylltiad gwleidyddol ag Aelodau Senedd yr Alban, gan gynnwys drwy gyfarfodydd ar-lein, ymateb i waith achos, a bwletin blynyddol wedi'i dargedu at aelodau newydd yn dilyn etholiadau mis Mai.

Wedi darparu cyngor technegol a rheoleiddio i helpu Llywodraeth yr Alban i gyflawni prosiectau seilwaith digidol, a chynyddu ein hymgysylltiad â Llywodraeth yr Alban ar faterion sy'n ymwneud â chadernid rhwydweithiau telathrebu yn dilyn stormydd diweddar.

O ran ein dyletswyddau rheoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideos, rydym wedi datblygu partneriaethau â Heddlu'r Alban ac aelodau eraill o'r Grŵp Aml-Asiantaeth ar Atal Cam-drin a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant Ar-lein, er mwyn ehangu'r ddealltwriaeth o rôl bresennol Ofcom a'i gyfrifoldebau yn y dyfodol o dan y Bil Diogelwch Ar-lein.

Wedi arwain pob math o waith ymgysylltu ar ddarlledu, gan gynnwys cyfarfodydd gydag STV ar aildrwyddedu Channel 3, ac MG ALBA ar benodiadau i'w Fwrdd.





## Cymru

Wedi cwblhau ein hadolygiad o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Ofcom, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru. Yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, rydym wedi cynnal ein perthynas â Llywodraeth Cymru.

Wedi rhoi cyngor technegol a rheoleiddio i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys ei Thasglu Chwalu Rhwystrau, i helpu i leihau'r rhwystrau rhag cyflwyno a gwella rhwydweithiau cyfathrebu ymhellach.

Wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod pawb yn deall y broses o uwchraddio'r rhwydwaith ffôn, a goblygiadau hynny ar draws pob sector. Wedi ymgysylltu â nifer o fusnesau newydd ym maes technoleg yng Nghymru, yn ogystal â Chanolfan Ragoriaeth Fyd-eang Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheilffyrdd.

Wedi parhau i gydweithio â'r diwydiannau creadigol ynghylch dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Ar ôl cyhoeddi Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, bu i ni roi tystiolaeth i Senedd Cymru ar ei hargymhellion a chwrdd â Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd.

Wedi parhau i roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn effeithiol, ac amlinellu ein cynnydd yn Adroddiad Blynyddol Ofcom, a gyflwynwyd i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

## Lloegr

Wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Aelodau Seneddol lleol ac awdurdodau lleol, gan roi cyngor rheoleiddio a thechnegol.

Wedi cyhoeddi ein hadroddiadau Cysylltu'r Gwledydd a Cyfryngau'r Genedl yn benodol ar gyfer Lloegr.

Wedi agor ein swyddfa newydd ym Manceinion yn ffurfiol, a fydd yn ganolfan ar gyfer ein gwaith ar ddiogelwch ar-lein ac yn ein galluogi i fanteisio ar weithlu lleol hynod fedrus.

Wedi parhau i ymgysylltu â materion amrywiaeth a chanolbwyntio ar y rhai sy'n agored i niwed, yn enwedig y newid i brotocol llais dros y rhyngrwyd, ac ar gymunedau gwledig.





# EIN GWAITH YMGYSYLLTU RHYNGWLADOL

**Mae ymgysylltu rhyngwladol yn helpu i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb yn y Deyrnas Unedig. Mae ein gwaith rhyngwladol yn manteisio ar arbenigedd Ofcom i ddylanwadu ar y broses o ddatblygu polisïau ac arferion rheoleiddio rhyngwladol. Mae ein tîm Rhyngwladol hefyd yn ceisio cynnig gwybodaeth, dealltwriaeth a her i waith Ofcom, gan helpu Ofcom i gael effaith yn rhyngwladol ac yn y wlad yma.**

Rydym yn gweithio'n rheolaidd gyda rheoleiddwyr, diwydiannau a'r byd academaidd yn rhyngwladol i gyfnewid safbwyntiau ar bynciau fel diogelwch ar-lein, marchnadoedd digidol a thechnoleg ddatblygol, ochr yn ochr â'n rhaglen waith ehangach sy'n adlewyrchu'r sectorau mae Ofcom yn gyfrifol am eu rheoleiddio. Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgorau rheoleiddwyr ffurfiol ac anffurfiol. Gall y math yma o gydweithrediad rheoleiddiol helpu i sicrhau manteision fel osgoi gwahaniaethau diangen rhwng cyfundrefnau rheoleiddio cyfatebol yn y Deyrnas Unedig a thramor.

## Ewrop

Rydym yn dal i wynebu heriau tebyg i'n cymheiriaid yn Ewrop o ran y farchnad a rheoleiddio, yn y diwydiannau traddodiadol ac yn y sector ar-lein maen nhw'n uno ag ef. Mewn rhai achosion, bydd cyfraith yr UE yn dal yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig. O ystyried hyn, a natur ddi-ffiniol y marchnadoedd digidol, mae'n werth mynd ati i sicrhau cysondeb rhwng fframweithiau rheoleiddio newydd. Felly, mae'r angen i ymgysylltu'n rhyngwladol â chymheiriaid Ewropeaidd (ar y ddwy ochr ac fel grŵp) yn parhau.

Rydym yn parhau i ddilyn datblygiadau rheoleiddio yn yr UE, gan gynnwys y Ddeddf Gwasanaethau Digidol a'r Ddeddf Marchnadoedd Digidol, ac roeddem wedi ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus y Comisiwn Ewropeaidd ar Ddeddf Rhyddid Cyfryngau'r UE sydd ar y gweill. Rydym wedi parhau i gydweithio â rheoleiddwyr yn yr UE, gan gynnwys ar weithredu rheolau newydd sy'n berthnasol i lwyfannau rhannu fideos sy'n deillio o gyfraith yr UE (a fydd yn cael eu defnyddio gan y Deyrnas Unedig yn ogystal â rheoleiddwyr yn yr UE).

Rydym yn dal i gyfrannu'n frwd at drafodaethau rheoleiddio ehangach ar lefel Ewropeaidd, gan gynnwys drwy ein haelodaeth barhaus o'r Grŵp Rheoleiddwyr Annibynnol (IRG), sef grŵp o 37 o awdurdodau rheoleiddio telegyfathrebiadau Ewropeaidd yr ydym yn aelod o'i Fwrdd. Rydym hefyd yn Is-lywydd ar Lwyfan Ewropeaidd yr Awdurdodau Rheoleiddio (EPRA), sef rhwydwaith o 54 o reoleiddwyr darlledu Ewropeaidd lle'r ydym wedi arwain ar weithgareddau rhwydwaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.

## Y tu hwnt i'r UE

Wrth i gynigion deddfwriaethol gael eu gwneud a threfniadau rheoleiddio ddatblygu ar draws y byd y tu hwnt i Ewrop, yn enwedig yn y byd ar-lein, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein cysylltiadau byd-eang. Rydym wedi cymryd rhan mewn trafodaethau byd-eang â rhanddeiliaid ynghylch llywodraethu a rheoleiddio ar-lein, gan gynnwys yr IGF (Internet Governance Forum), Eurodig (European Dialogue on Internet Governance) ac Internet & Jurisdiction Policy Network.

Rydym wedi gweithio gyda llywodraethau a rheoleiddwyr ledled y byd ar faterion fel arallgyfeirio rhwydweithiau (gan gynnwys rhannu ein profiad o faes profi Open RAN Labordy SONIC) a heriau parhaus yn ymwneud â pholisïau telegyfathrebiadau, fel symud at alwadau ffôn digidol a diogelu defnyddwyr yn ehangach.

## Sefydliadau Rhynglywodraethol

Mae Ofcom yn Is-gadeirydd y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau (CEPT), y Grŵp Paratoi Cynhadledd CEPT a fydd yn gyfrifol am ddatblygu safbwyntiau Ewropeaidd ar gyfer y Gynhadledd Radio Byd ITU nesaf, sydd i fod i gael ei chynnal yn 2023.

Rydym hefyd wedi bod yn weithgar yn Sector Datblygu ITU, gan gynnwys paratoi i gymryd rhan yn nirprwyaeth y Deyrnas Unedig i Gynhadledd Datblygu Telegyfathrebiadau'r Byd, gan ganolbwyntio ar gefnogi seilwaith gwell mewn gwledydd sy'n datblygu.

Mae Ofcom yn cadeirio nifer o dimau prosiect a grwpiau astudio mewn gwahanol grwpiau rhyngwladol, O ran sbectrwm, Ofcom sy'n cadeirio'r Pwyllgor Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (ECC), y grŵp sbectrwm uchaf yn y Rydym yn gweithio ar draws ystod eang o faterion sy'n ymwneud â defnyddio sbectrwm – gan gynnwys band eang symudol a 5G, gwella cysylltedd defnyddwyr a busnesau gyda mwy o Wi-Fi, llywio a chyfathrebiadau lloeren, darlledu a thrafnidiaeth (gan gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd ac awyrennau).

Rydym yn cynorthwyo Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Post Cyffredinol (UPU), y corff rhynglywodraethol sy'n rheoli taliadau am bost rhyngwladol rhwng Darparwyr Gwasanaeth Post Cyffredinol. Mae hyn wedi cynnwys newidiadau i'r trefniadau talu terfynfeydd rhyngwladol, a'r bwriad i agor yr UPU i weithredwyr yn y sector ehangach.

Rydym yn parhau i gyfrannu at gyrff post Ewropeaidd a rhyngwladol, gan weithio'n agos gyda chyd-reoleiddwyr a gweinyddiaethau post rhyngwladol, gan gynnwys yn y Pwyllgor Rheoleiddio Gwasanaethau Post Ewropeaidd (CERP).

Mae Ofcom hefyd yn parhau i gyfrannu at waith datblygu polisi'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), gan eistedd ar y Pwyllgor Polisi Seilwaith a Gwasanaethau Cyfathrebu (CISP) a dilyn gwaith y Rhwydwaith Rheoleiddwyr Economaidd (NER).

Rydym yn gweithio'n rheolaidd â rheoleiddwyr, diwydiannau a'r byd academaidd yn rhyngwladol i gyfnewid safbwyntiau ar bynciau fel diogelwch ar-lein, technoleg sy'n dod i'r amlwg a marchnadoedd digidol.

# YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID ERAILL

## Defnyddwyr a dinasyddion

Mae deall buddiannau ac ymddygiad defnyddwyr a dinasyddion yn hanfodol i'n gwaith. Mae Ofcom yn defnyddio ymchwil marchnad yn helaeth i ddeall tueddiadau sy'n ymwneud â'r nifer sy'n prynu ac yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu ac ymddygiad a phryderon defnyddwyr.

Yn benodol, mae Ein Gwlad Ar-lein, Cyfryngau'r Genedl, Cysylltu'r Gwledydd, Defnydd Oedolion o'r Cyfryngau a'u Hagweddau Atynt, Defnydd Plant o'r Cyfryngau a'u Hagweddau Atynt – pob un ohonyn nhw'n adroddiadau blynyddol – yn tynnu sylw at y tueddiadau hyn ac yn eu dadansoddi.

Derbyniodd Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom 76,135 o alwadau, ffurflenni gwe, negeseuon e-bost a llythyrau yn uniongyrchol gan aelodau o'r cyhoedd yn 2021/22. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan bobl yn ein helpu ni i dargedu ein gwaith o lunio polisïau a gorfodi. Mae defnyddwyr hefyd yn cysylltu â ni drwy ein gwefan. Er na allwn ddatrys cwynion unigol am wasanaethau telegyfathrebu, rydym yn cynghori'r rheini sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfodau (ADR) sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym. Fodd bynnag, rydym yn delio â chwynion am raglenni teledu a radio.

Mae ein swyddfeydd ymhob gwlad yn y Deyrnas Unedig yn darparu gwybodaeth fanwl ac arbenigol i Ofcom am yr heriau a wynebir gan ddinasyddion a defnyddwyr yng ngwahanol ardaloedd y Deyrnas Unedig. Mae ein pwyllgorau cynghori ar gyfer pob un o wledydd y Deyrnas Unedig yn cynnig gwybodaeth a chyngor i Ofcom ar agweddau ar ei waith, a chyfathrebiadau yn gyffredinol, sydd o bwysigrwydd penodol i bob gwlad. Mae buddiannau cenedlaethol hefyd yn cael eu cynrychioli gan Aelodau Bwrdd Cynnwys a Phanel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom. Mae'r Fforwm Defnyddwyr Cyfathrebiadau, sy'n cynnwys dros 50 o aelodau o gyrff defnyddwyr, yn cwrdd ag Ofcom bob chwarter i drafod pynciau polisi sy'n berthnasol i ddefnyddwyr.

Rydym yn cynnal ymchwil reolaidd i anghenion ac ymddygiad defnyddwyr, sy'n helpu i gyfeirio ein gwaith ac yn rhoi cipolwg i ni ar sut mae'n effeithio ar ddefnyddwyr y cynnyrch a'r gwasanaethau rydym ni'n eu rheoleiddio.

Rydym hefyd yn cael cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd â sefydliadau rhanddeiliaid a defnyddwyr, yn ogystal â chyfarfodydd ymgynghori ar byncia penodol.

## Diwydiant a'r Llywodraeth

Mae Ofcom yn cydweithio ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau a chyrff y diwydiant yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, grwpiau defnyddwyr a defnyddwyr, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r sefydliadau datganoledig, cyd-reoleiddwyr a rheoleiddwyr eraill. Rydym yn aelodau o Rwydwaith Rheoleiddwyr y Deyrnas Unedig a Rhwydwaith Cystadleuaeth y Deyrnas Unedig, ac rydym yn gweithio gydag amryw o gyrff rheoleiddio a sefydliadau rhyngwladol.

## Cyd-reoleiddwyr a chyrff eraill

Mae gan Ofcom bartneriaeth gyd-reoleiddio gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA), a ffurfiwyd yn 2004. Mae'n delio â darlledwyr a hysbysebu ar wasanaethau fideo ar-alw. Mae'n rhaid i ddarlledwyr gydymffurfio â'r codau hysbysebu o dan eu trwyddedau darlledu a roddir gan Ofcom. Pan fydd yr ASA yn dyfarnu ar hysbyseb, bydd darlledwyr yn cydymffurfio â'r penderfyniadau ar unwaith o dan amodau eu trwyddedau. Pan fydd angen, gall yr ASA gyfeirio trwyddedeion at Ofcom.

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm (PRS), sy'n galluogi defnyddwyr i brynu nwyddau a gwasanaethau drwy godi'r gost ar eu biliau ffôn a'u cyfrifon talu ymlaen llaw. Yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn sy'n rheoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm o ddydd i ddydd ar ran Ofcom, drwy ei waith yn gorfodi cod ymarfer sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom. Rydym yn gweithio gyda'r Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn er mwyn trosglwyddo ei ddyletswyddau i Ofcom o bosib. Mae hyn yn dibynnu ar gael cymeradwyaeth bellach gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) bwerau cydredol o dan ddeddfwriaeth benodol i ddiogelu defnyddwyr, ac o fewn fframwaith cyfraith cystadleuaeth ar gyfer y sector cyfathrebiadau. Rydym yn gweithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i sicrhau y gweithredir yn gyson ac yn gydgysylltiedig mewn perthynas â'r materion lle mae gennym bwerau cydredol, ac rydym yn trafod pa gorff sydd yn y sefyllfa orau i arwain ymhob achos.

Bu i ni weithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i gynghori llywodraeth y DU ar sut gellid defnyddio cod ymddygiad i ymdrin â phryderon am y berthynas rhwng llwyfannau ar-lein a chyhoeddwyr cynnwys.

## Pryd y byddwn yn rheoleiddio

Yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 mae'n rhaid i ni ystyried egwyddorion rheoleiddio gwell: y dylai rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson a dim ond wedi ei dargedu at achosion lle mae angen gweithredu yn eu cylch. Pan sefydlwyd Ofcom, bu i ni adeiladu ar yr egwyddorion hyn drwy ddatblygu set fwy penodol o egwyddorion rheoleiddio a fyddai'n sail i'n gwaith beunyddiol. Am fod y sector cyfathrebiadau'n newid mor gyflym mae'n bwysig iawn fod gennym egwyddorion clir i'n tywys.

# EGWYDDORION RHEOLEIDDIO OFCOM



## PRYD Y BYDDWN YN RHEOLEIDDIO

Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen.

Bydd Ofcom yn ymyrryd pan fydd dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pennau eu hunain.

## SUT RYDYM YN RHEOLEIDDIO

Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ei amcanion.

Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw wrth eu hystyried ac o ran canlyniadau.

Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol a fynegir yn glir ac wedi'i adolygu'n gyhoeddus, gydag amcanion penodedig.

## SUT RYDYM YN CEFNOGI RHEOLEIDDIO

Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn ceisio aros ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol.

Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

## Rheoleiddio gwell

Rydym ni'n credu bod 'rheoleiddio gwell' yn golygu sicrhau bod rheolau'n cael eu targedu'n briodol; peidio â rhoi gormod o faich ar fusnesau; na chreu rhwystrau diangen rhag arloesi, buddsoddi a datblygu dewis a chystadleuaeth yn y farchnad.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf rydym wedi gwneud nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig, ond mae nifer y dogfennau a gyhoeddwn wedi aros yn weddol debyg. Mae Ffigur 1 isod yn rhoi trosolwg o'r ffordd y newidiodd y baich rheoleiddio ar randdeiliaid o ganlyniad i ddatganiadau a phenderfyniadau rheoleiddio Ofcom yn 2020/21. Roedd dau o'r penderfyniadau hyn yn ymwneud â'n dyletswyddau newydd ar gyfer llwyfannau rhannu fideos

**Ffigur 1: Effaith ein datganiadau ar y baich rheoleiddio ar randdeiliaid: 2021/22**

| O'r 69 Prif Ddatganiad a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn: | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd | 9 | 13% |
| Cymysg/dim newid/parhaus | 55 | 80% |
| Llai o reoleiddio | 4 | 6% |
| Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio | 1 | 1% |

Mae Atodiad 2 yn cynnwys trosolwg o'r datganiadau a'r penderfyniadau allweddol rydym wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn.

## Ymgynghoriadau

Drwy ymgynghoriadau cyhoeddus, mae rhanddeiliaid yn gallu rhoi sylwadau ar ein cynigion, ac ymateb iddynt, cyn i unrhyw benderfyniadau terfynol gael eu gwneud.

Os bydd y cyfnod ymgynghori'n rhy fyr, efallai na fydd gan y rheini sydd â barn bwysig i'w chyfleu ddigon o amser i baratoi eu hymatebion. Os bydd yn rhy hir, efallai y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Pan fyddwn yn penderfynu ar hyd cyfnod ymgynghori, mae angen i ni gael y cydbwysedd iawn rhwng y ddwy ystyriaeth yma. Yn gyffredinol, ceir tri chategori o ymgynghoriad:

- **Categori 1:** ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynlluniau polisi o bwys a/neu sydd o ddiddordeb i amrywiaeth eang o randdeiliaid (yn enwedig y rheini y bydd angen mwy o amser arnynt efallai ar gyfer ymateb); yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am ddeg wythnos.

- **Categori 2:** ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynigion polisi pwysig ond a fydd o ddiddordeb i nifer cyfyngedig o randdeiliaid a fydd yn ymwybodol o'r materion; yn yr achosion hyn byddwn fel arfer yn ymgynghori am chwe wythnos.

- **Categori 3:** ymgynghoriadau sy'n dod o fewn un neu fwy o'r categorïau canlynol, gyda'r cyfnod arferol ar gyfer ymgynghori yn fis

  - materion technegol;
  - pan fydd angen cwblhau prosiect o fewn amserlen benodol oherwydd datblygiadau yn y farchnad neu ffactorau eraill lle mae gofyn cwblhau'r prosiect mewn cyfnod byr;
  - lle mae'r mater eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad;
  - lle na chaiff y cynnig fawr o effaith ar farchnad; neu
  - lle nad yw'r cynnig ond yn fân newid i bolisi neu reoliad sy'n bodoli eisoes.

Mae ffigur 2 yn cynnwys dadansoddiad o hyd ein hymgynghoriadau fesul sector, fel y pennwyd gan ein categorïau o ymgynghoriadau.

**Ffigur 2: Dadansoddiad o hyd ymgynghoriadau: 2021/22**

| | Cyfnod ymgynghori o leiaf 10 wythnos o hyd | Cyfnod ymgynghori llai na 10 wythnos o hyd (gan gynnwys ymgynghoriadau cat 2 a chat 3) |
|---|---|---|
| Telathrebu | 2 | 14 |
| Darlledu | 0 | 15 |
| Sbectrwm | 4 | 5 |
| Post | 1 | 1 |
| Y Pwyllgor Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd | 0 | 45 |
| Arall | 0 | 3 |
| **Cyfanswm** | **7** | **83** |
| **% Cyfanswm** | **8%** | **92%** |
| % Cyfanswm (20/21) | **11%** | **89%** |

## Gwneud penderfyniadau'n brydlon

Rydym yn dadansoddi pa mor hir mae'n ei gymryd i ni gyhoeddi penderfyniad ar ôl i ymgynghoriad ddod i ben (gweler Ffigur 2). Yn 2021/22, cyhoeddwyd 92% o'n penderfyniadau o fewn ugain wythnos ar ôl cau'r ymgynghoriad.

## Asesiadau effaith

Mae asesiadau effaith yn rhan bwysig o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae Adran 7 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal asesiad effaith pan rydym yn bwriadu gwneud unrhyw beth er mwyn cyflawni ein swyddogaethau neu mewn cysylltiad â chyflawni ein swyddogaethau, a lle teimlwn fod y cynnig yn bwysig. Mae asesiadau effaith yn sicrhau, ymysg pethau eraill, ac yng nghyswllt ein penderfyniadau:

- bod ystod eang o ddewisiadau'n cael eu hystyried, gan gynnwys y dewis i beidio â rheoleiddio;
- bod y dewisiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n glir;
- bod effeithiau posib pob dewis yn cael eu dadansoddi'n ofalus; a
- bod y manteision yn fwy na'r costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ddewisir.

Ym mis Gorffennaf 2005, bu i ni gyhoeddi canllawiau – Better policymaking: Ofcom's approach to impact assessment – a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan greiddiol o'r broses o lunio polisïau, gan ddweud ein bod yn disgwyl cynnal asesiadau effaith ym mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi.

Rydym yn cyhoeddi rhestr o'r asesiadau effaith sydd wedi cael eu cynnal gennym yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhestr hon i'w gweld yn Atodiad 2.

**Ffigur 3: Dadansoddiad o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd**

| Nifer y dogfennau ymgynghori | Cyfanswm | Asesiad Effaith yn amlwg yn y ddogfen a gyhoeddwyd |
|---|---|---|
| Telathrebu | 16 | 12 |
| Darlledu | 15 | 6 |
| Sbectrwm | 9 | 7 |
| Post | 2 | 2 |
| Y Pwyllgor Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd | 45 | 45 |
| Arall | 3 | 0 |
| **Cyfanswm** | **90** | **72** |

Dengys Ffigur 3 fod 80% o ymgynghoriadau yn 2021/22 wedi cynnal asesiad effaith, yr oedd cyfeiriad penodol ato mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori. Dan rai amgylchiadau efallai na fydd cynnal asesiad effaith yn ofynnol, neu efallai na fydd yn briodol, neu efallai ei fod yn ymhlyg yn yr ymgynghoriad. Byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau effaith yn cael eu cynnal ac yn cael eu cyflwyno'n briodol ymhob achos perthnasol.

# ADOLYGIAD ARIANNOL

Er bod Ofcom yn uniongyrchol atebol i'r Senedd Brydeinig, daw ein cyllid o ffioedd a godir ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio. (edrychwch ar ffigur 4 ar dudalen 63).

Rydym bob amser yn ceisio bod yn sefydliad sy'n rhoi gwerth am arian ac yn ymwybodol o gostau. Dros y degawd diwethaf, mae cost rheoleiddio wedi gostwng yn sylweddol mewn termau real.

Rydym hefyd yn gyfrannwr net i Drysorlys EM. Casglodd Ofcom £421m o ffioedd a chosbau yn 2021/22, ac rydym wedi cadw £84.4m o'r arian hwnnw i ariannu ein gwaith rheoli sbectrwm a dyletswyddau perthnasol eraill. Trosglwyddwyd y balans i Drysorlys EM a'r Cronfeydd Cyfunol. Hefyd, ym mis Ebrill 2021 roeddem wedi cwblhau'r broses o arwerthu a dyfarnu'r 80 MHz o sbectrwm yn y band 700 MHz a'r 120 MHz o sbectrwm yn y band 3.6-3.8 GHz, gan godi £1,379m o dderbyniadau trwydded a gafodd eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol ym mis Ebrill 2021.

Mae ein cyfrifoldebau yn cynnwys casglu a throsglwyddo'r ffioedd trwydded a gasglwyd o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, rhifau ffôn daearyddol, taliadau ychwanegol gan ddeiliaid trwyddedau darlledu, a dirwyon a chosbau a roddwyd i randdeiliaid.

## Perfformiad ariannol

Yn 2021/22, roedd ein halldro arian parod o £146.9m 5.7% yn is na'n cyllideb o £155.7m, yn bennaf oherwydd recriwtio staff yn hwyrach nag a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â llai o gostau teithio a chyfarfodydd rhanddeiliaid o ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig.

| £m | Cyllideb | Alldro | Amrywiant |
|---|---|---|---|
| 2021/22 | 155.7 | 146.9 | 8.8 |
| 2020/21 | 135.0 | 129.8 | 5.2 |
| Amrywiant | 20.7 | 17.1 | 3.6 |

Mae'r £20.7m o gynnydd yng nghyllideb 2021/22 yn ymwneud â gwariant cynyddol ar ddyletswyddau newydd, gan gynnwys paratoi ar gyfer Niwed Ar-lein (£16.1m) a'r Bil Diogelwch Telegyfathrebiadau (£4.6m).

Mae 63% o gyfanswm ein sylfaen gostau yn ymwneud â chostau staff, ac mae rhan sylweddol (21%) o'r sylfaen gostau sy'n weddill yn sefydlog mewn perthynas â chostau eiddo a systemau.

Mae'r costau sy'n ymwneud â chlirio a dyfarnu Sbectrwm yn cael eu cyflwyno ar wahân gan Ofcom, er mwyn gwahaniaethu oddi wrth weithgareddau craidd Ofcom. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael ar dudalennau 119.

## Incwm gweithredu

Mae'r £149.7m (2020/21: £132.5m) o incwm a dderbyniwyd yn 2021/22 yn cynnwys cyfrifoldebau craidd Ofcom (heb gynnwys clirio a dyfarnu sbectrwm).

## Gwariant gweithredu

Gan eithrio costau staff, roedd y gwariant gweithredol a oedd yn ymwneud â chyfrifoldebau craidd Ofcom yn 2021/22 wedi cynyddu £5.4m i £55.8m (2020/21 £50.4m). Mae'r prif amrywiadau gweithredu ers y flwyddyn flaenorol yn deillio o'r canlynol:

- Cododd costau staff dros dro a recriwtio £2.4m oherwydd bod mwy o bobl wedi cael secondiad o sefydliadau allanol, a bod staff dros dro yn cael eu defnyddio i lenwi bwlch oherwydd yr oedi wrth lenwi swyddi parhaol. Roedd costau recriwtio'n deillio o ddyletswyddau newydd yn ymwneud â Diogelwch Ar-lein a Diogelwch Telegyfathrebiadau, yn ogystal ag ymgyrchoedd recriwtio ar gyfer swyddi Arbenigol ac Uwch Reolwyr;

- Roedd y Gwasanaethau Proffesiynol wedi cynyddu £1.8m, o ganlyniad i'r dyletswyddau newydd ar gyfer Diogelwch Ar-lein a chostau newidiadau sefydliadol;

- Cododd costau Gwybodaeth a Thechnoleg £0.9m o ganlyniad i drwyddedau ein system newydd ar gyfer cyllid a staff;

- Cododd costau Gwasanaethau a ddarperir yn allanol £0.6m wrth i ni fuddsoddi yn ein system gyllid a staff a'n dyletswyddau newydd ar gyfer Diogelwch Telathrebu a Diogelwch Ar-lein

- Cododd y costau Teithio a Chynhaliaeth £0.3m (o'i gymharu â chostau isel iawn yn 20/21 oherwydd Covid-19).

Mae hyn wedi'i wrthbwyso gan

- £0.7m o gostau is ar gyfer Ymchwil Technoleg gan fod 20/21 yn cynnwys prosiectau untro ac yn paratoi'r gwaith ar gyfer Diogelwch Ar-lein.

Cododd y costau staff £7.0m i £90.0m (2020/21 £83.0m). Roedd 1,102 o staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd (2020/21: 992 cyfwerth ag amser llawn). Mae'r cynnydd mewn costau o flwyddyn i flwyddyn yn ymwneud â'r twf yn ein timau sy'n cefnogi'r dyletswyddau newydd a amlinellir uchod.

## Gwarged/diffyg am y flwyddyn ariannol

**Gwarged neu ddiffyg cyllido**
Bydd y refeniw gweithredol sydd ei angen ar Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau a chyflawni ei raglen waith ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol yn cael ei gyfrifo ar sail datganiad egwyddorion codi ffioedd Ofcom. Mae'r ymagwedd hon yn pennu'r arian gwirioneddol y mae angen ei gasglu i dalu rhwymedigaethau ariannol yn ystod y flwyddyn. Bydd unrhyw arian dros ben a geir o ganlyniad i arbedion cyllidebol a sicrheir yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael ei ddychwelyd i'r rhanddeiliaid drwy leihau'r tariffau blynyddol a godir yn y ddwy flynedd ariannol olynol.

Mae Nodyn 2 y cyfrifon yn Adran C yn cysoni cyfanswm y gwariant gweithredu yn ôl y sector a reoleiddir, fel y cyflwynir yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr i alldro gweithredol gwirioneddol Ofcom.

Mae'r gwarged cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei nodi yn Nodyn 2 i'r cyfrifon, ac yn dod i gyfanswm o £7.7m (2020/21: £7.6m o warged).

**Gwarged neu ddiffyg cyfrifyddu**
Mae angen gwarged cyfrifyddu ar gyfer y gwariant nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, gan gynnwys gwariant cyfalaf a thaliadau i adennill diffyg sy'n ofynnol mewn perthynas â'r ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.

Mae diffyg cyfrifyddu'n digwydd pan fydd dibrisiant, amorteiddiad a thrafodiadau anariannol eraill yn fwy na'r incwm a dderbynnir i dalu costau arian eitemau cyfalaf a'r cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio.

Y gwarged cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth, a gofnodwyd yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn dan sylw, oedd £3.3m (2020/21: £1.5m o ddiffyg).

## Clirio sbectrwm

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chlirio a dyfarniadau Sbectrwm wedi'u hadrodd ar wahân i gyfrifoldebau craidd Ofcom yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhaglen clirio 700 MHz wedi clirio'r band sbectrwm yma i ddiwallu'r galw cynyddol am ddata symudol. Cafodd y sbectrwm a ryddhawyd ei arwerthu yn 2021, ac mae'r sbectrwm ar gael i'r cynigwyr llwyddiannus ei ddefnyddio.

Mae'r cyllid cymorth grant ar gyfer clirio a dyfarnu sbectrwm yn helpu i wneud y newidiadau angenrheidiol – ee, i'r seilwaith teledu daearol digidol, sy'n angenrheidiol i glirio'r band sbectrwm. Mae Llywodraeth y DU wedi darparu arian ar gyfer cynllun grantiau i ddosbarthu grantiau i hwyluso'r gwaith clirio.

Roedd y gwariant clirio a dyfarnu sbectrwm yn dod i £8.7m yn 2021/22 (2020/21: £22.7m), gyda'r gostyngiad yn adlewyrchu cyfnod cau'r rhaglen yn dod i rym o fis Medi 2021 ymlaen.

Derbyniom gyfanswm o £10m o incwm (2020/21: £26.5m). Mae'r gwarged o £1.3m wedi cael ei ohirio i'w ddefnyddio yn 2022/23.

# ARIAN YCHWANEGOL A GESGLIR AR RAN TRYSORLYS EM

Bydd Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar wahân at ddibenion Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Nid yw'r trafodiadau hyn wedi cael eu cynnwys yn y Datganiadau Ariannol. Adroddir ar y ffioedd, y taliadau a'r cosbau, ynghyd â rhagor o fanylion, yn y Datganiadau Ariannol hyn yn Nodyn 23 i'r cyfrifon, ac mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1 ar dudalen 158.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, roedd Ofcom wedi casglu £1,800.5m (2020/21: £415.5m) ar ran Trysorlys ei Mawrhydi. Mae hyn yn cynnwys £1,379.4m o'r arwerthiant sbectrwm a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2021. Mae rhagor o fanylion ar gael yng Nghyfrifon Adran 400. Roedd Ofcom wedi cadw £84.5m (2020/21: £68.3m) i ariannu rhai o gyfrifoldebau craidd Ofcom, gan gynnwys Rheoli Sbectrwm a gwaith paratoi ar gyfer ein dyletswyddau Diogelwch Ar-lein.

Trosglwyddwyd cyfanswm o £1,710.7m, sy'n cynnwys derbyniadau arwerthu sbectrwm, i gyfrifon Llywodraeth y DU yn y flwyddyn ariannol.

**Taliadau o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr**
**£1,698m**

**Ffioedd Llywodraeth y DU**
**£100m**

**Cosbau Ariannol**
**£0.6m**

**Taliadau Ychwanegol**
**£0.6m**

**Rhifau Daearyddol**
**£1.7m**

## Pensiynau

Mae Ofcom yn darparu buddion pensiwn drwy lwfans pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio sydd ar gael i bob cydweithiwr. Mae cydweithwyr yn Ofcom wedi'u cyflogi ar delerau sy'n cynnig aelodaeth o gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Gellir defnyddio'r lwfans i gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid Ofcom â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

Roedd gan gydweithwyr a ymunodd ag Ofcom o hen reoleiddwyr hawl i barhau i fod yn aelod o un o ddau gynllun pensiwn â'u buddion wedi'u diffinio.  Mae'r ddau gynllun ar gau i newydd-ddyfodiaid, a daeth y drefn cronni buddion i ben ar 31 Mai 2011. O'r adeg hon ymlaen, roedd yr holl aelodau cyfredol yn gallu ymuno â chynllun cyfranddeiliaid Ofcom.  Mae nodiadau 1(k) ac 20 i'r cyfrifon yn darparu rhagor o fanylion.

Roedd y prisiadau actiwaraidd ar gyfer y naill gynllun a'r llall ar ddyddiad y prisiad ffurfiol diwethaf, sef 31 Mawrth 2018, yn dangos gwarged o £0.4m yng nghyllid cyfun y ddau gynllun. Mae prisiad actiwaraidd Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom yn dangos gwarged o £0.4m. Mae holl rwymedigaethau prisiadau cynllun pensiwn Ofcom (ITC gynt) wedi cael eu prynu i mewn, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Disgwylir i'r prisiad ffurfiol â'r dyddiad 31 Mawrth 2021 gael ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 22.

Fodd bynnag, mae datganiadau ariannol 2021/22 yn dangos gwarged o £19.7m, yn rhannol oherwydd bod y rhwymedigaethau pensiwn o dan y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y sail bod y rhwymedigaethau'n cael eu disgowntio yn unol â'r arenillion ar fondiau o ansawdd uchel sydd, o dan amodau presennol y farchnad, yn wahanol iawn i'r dull sy'n cael ei ddefnyddio i bennu cyfraniadau Ofcom. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r symudiadau sylweddol mewn marchnadoedd ariannol ers dyddiad prisiadau'r actiwari.

Mae Ofcom yn gwneud taliadau ariannol i Gynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ac i gynllun pensiwn Ofcom (ITC gynt) ar sail y prisiadau actiwaraidd. Mae taliadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gwarged gweithredu, fel y'u cyfrifir o dan IAS19, yn cael eu cynnwys yn alldro'r gwariant gweithredu a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffau a godir ar gyfranddeiliaid bob blwyddyn.


Oherwydd y gwaith lliniaru risg rhwng Ofcom, Ymddiriedolwyr ac Actiwarïaid y ddau gynllun pensiwn, mae oddeutu 80% o rwymedigaethau'r cynlluniau yn cael eu cefnogi bellach gan flwydd-daliadau. Fel rhan o'r gweithgareddau parhaus i reoli ac i liniaru risgiau'r cynlluniau, bydd rhagor o gynlluniau prynu buddion i mewn gyda chefnogaeth yswiriant ar gyfer aelodau sy'n bensiynwyr yn cael eu hystyried yn y dyfodol.

## Tariffau

Cyhoeddodd Ofcom Dablau Tariff 2021/22 ar 26 Mawrth 2021. Mae cyllideb graidd Ofcom yn aros ar yr un lefel â'r flwyddyn ariannol flaenorol, sef £131.9m. Bydd y cap gwariant cyffredinol yn cynyddu £23.8m er mwyn cynnwys gwaith paratoi ar gyfer ein dyletswyddau rheoleiddio newydd h.y. Diogelwch Ar-lein a'r Bil Telegyfathrebiadau (Diogelwch) gwell. Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu hariannu drwy gadw derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA) ac nid drwy incwm rhanddeiliaid. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Nhablau Tariff 2021/22 ar ein gwefan.

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 4 isod, ac eithrio costau sy'n gysylltiedig â'n cyfrifoldebau newydd, mae'r tariffau cyffredinol ar gyfer pob sector rheoleiddio yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd 5 mlynedd.

### FFIGUR 4: GOLWG PUM MLYNEDD O ARIANNU'R SECTOR




Mae'r gwahaniaeth rhwng y tariffau a'r gyllideb ym mhob blwyddyn ariannol yn cynrychioli addasiadau cost y flwyddyn flaenorol y mae'n rhaid i ni eu hymgorffori mewn tariffau.

**Allwedd**

- Sbectrwm
- Telathrebu
- Teledu
- Rheoleiddio'r BBC
- Post
- Radio
- Ddim yn benodol i sector
- Llwyfannau Rhannu Fideos
- Deddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch)
- Diogelwch ar-lein

# CYFRIFOLDEB CORFFORAETHOL

## YMRWYMIAD OFCOM I GYFRIFOLDEB CORFFORAETHOL

**Fel cyflogwr cyfrifol, rydym yn canolbwyntio ar ein heffaith amgylcheddol ac ar gynorthwyo'r cymunedau lle rydym ni'n gweithio, yn enwedig pobl ifanc.**

I gyflawni hyn, byddwn yn:

- gweithio'n barhaus i leihau ein hôl troed carbon, gan sicrhau bod ein harferion yn gynaliadwy yn amgylcheddol (edrychwch ar yr adran Cynaliadwyedd ar dudalennau 68-71)
- meithrin cysylltiadau agosach â chymunedau lleol yn Llundain, Manceinion, Caeredin, Caerdydd a Belfast

Rydym yn annog cydweithwyr i gymryd rhan frwd mewn gweithgareddau cymunedol.



## Gwirfoddoli a chymuned ledled y Deyrnas Unedig

'Rydym yn gysylltiedig â chymunedau' yw un o chwe sylfaen ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad. Mae gwirfoddoli a gwaith cymunedol hefyd yn rhan bwysig o'n rhaglen llesiant sydd ar waith ar draws y sefydliad, sef Thrive@Ofcom.

Rydym yn annog cydweithwyr i gymryd rhan frwd mewn mentrau cymunedol a chyfleoedd gwirfoddoli ar hyd a lled y Deyrnas Unedig. Rydym yn eu helpu i wirfoddoli gydag unrhyw elusen gofrestredig drwy gynnig tri diwrnod o wyliau gwirfoddoli gyda thâl bob blwyddyn. I helpu'r wlad i ymateb i'r pandemig, rydym yn cynnig pum diwrnod ychwanegol ers 2020, gan ddod â'r cyfanswm i wyth diwrnod gwirfoddoli â thâl. Gwelsom fwy o ddefnydd o wyliau gwirfoddoli, wrth i gyfanswm yr oriau gynyddu o 217 awr yn 2020/21 i 301 awr yn 2021/22 .

**8**

**DIWRNOD GWIRFODDOLI Â THÂL**
YN Y FLWYDDYN

**Defnydd o absenoldeb gwirfoddoli**

| | |
|---|---|
| **2020/21** | **217 awr** |
| **2021/22** | **301 awr** |



Yn newydd i 2021, gwnaethon ni ffurfio partneriaeth gydag EY Foundation Smart Futures yn ein lleoliad ym Manceinion.



## Ysgolion a sefydliadau

Rydym wedi parhau â'n gwaith allgymorth helaeth mewn ysgolion, gan gyrraedd plant o 100 o ysgolion. Roeddem wedi rhoi cymorth i ysgolion a sefydliadau ar-lein, gan gynnal interniaethau a sesiynau profiad gwaith rhithwir mawr.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Speakers for Schools er 2018, gan gynnig wythnos o leoliad gwaith i fyfyrwyr o ysgolion y wladwriaeth, academïau a cholegau yn ystod gwyliau ysgol. Eleni, roeddem wedi cynnal tair wythnos o Brofiad Gwaith Digidol gyda Speakers for Schools, ac wedi rhoi profiad gyrfa i dros 50 o fyfyrwyr. Roedd y fformat ar-lein yn golygu ein bod yn gallu cynnig profiadau i fyfyrwyr ar draws y wlad na fyddent wedi gallu teithio i'n swyddfeydd fel arall. Roedd y rhaglen yn darparu:

- mentor gwirfoddol fel rheolwr llinell i weithio gyda phob myfyriwr a wnaeth gais
- cyfleoedd cyflwyno i fyfyrwyr ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio
- cipolwg arbenigol ar ein grwpiau Economeg, Technoleg a Pholisi

Hefyd, cynigiwyd profiad gwaith ar-lein i 16 o fyfyrwyr Safon Uwch o'r elusen addysg busnes, Career Ready, yn ystod misoedd yr haf. Mae Career Ready yn cysylltu cyflogwyr ag ysgolion a cholegau nad oes gan eu myfyrwyr fawr o gefndir teuluol o addysg uwch na gyrfaoedd proffesiynol, er mwyn rhoi cymorth, profiadau a gwybodaeth i bobl ifanc i roi hwb i'w dyfodol.

Yn 2021 roeddem wedi ffurfio partneriaeth newydd gyda rhaglen Smart Futures EY Foundation yn ein lleoliad ym Manceinion. Mae'r elusen annibynnol yma'n rhoi sgiliau, profiadau a chefnogaeth i bobl ifanc i'w helpu i gael y swyddi maen nhw wir eu heisiau, ac yn rhoi cyflogwyr mewn cysylltiad â phobl ifanc ddawnus ar hyd a lled y Deyrnas Unedig. Fel rhan o'r rhaglen, roeddem wedi helpu 20 o bobl ifanc (16 oed a hŷn) o gefndiroedd incwm isel ym Manceinion i ddysgu amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn rhoi dechrau da i'w gyrfa yn ein diwydiant. Bydd yr holl bobl ifanc yn ennill cymhwyster achrededig.

Mae gennym raglen barhaus i gynyddu amrywiaeth o ran rhyw ac ethnigrwydd yn ein swyddi Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM), a chynhaliwyd digwyddiad panel ar-lein ym mis Hydref 2021 ar gynorthwyo menywod ym maes technoleg darlledu. Roeddem hefyd wedi noddi gwobr Peirianwraig Ifanc y Flwyddyn 2021 y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg i gefnogi menywod ym maes peirianneg.

## Prentisiaethau ac interniaethau

**Prentisiaethau**

Ym mis Ionawr 2022, roeddem wedi sefydlu partneriaeth strategol â Visionpath. Mae'r bartneriaeth yn canolbwyntio ar yrfaoedd Ofcom sy'n targedu pobl ifanc sydd o dan anfantais gymdeithasol, yn targedu ysgolion yn yr ardaloedd daearyddol lle rydym am weld twf, ac yn annog pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol i fanteisio ar ein cyfleoedd prentisiaeth.

Ar hyn o bryd, rydym yn cyflogi 23 o brentisiaid mewn amrywiol feysydd proffesiynol. Disgwylir y bydd hyn yn cynyddu tua diwedd 2022, gyda 15 o brentisiaid eraill yn gweithio tuag at safonau prentisiaeth ym meysydd polisi, digidol a gwasanaeth i gwsmeriaid. Yn ogystal â hyn, ar hyn o bryd mae gennym 18 o gydweithwyr sy'n defnyddio'r Ardoll Brentisiaethau i ennill sgiliau ychwanegol fel cymwysterau proffesiynol CIMA (cyfrifeg), CIPD (Proffesiwn Pobl neu Adnoddau Dynol) a BEng (peirianneg).

**Interniaid**

Yn ystod haf 2021, roeddem wedi gweithio mewn partneriaeth â Bright Networks i gymryd rhan yn ei interniaeth ar-lein dros dair wythnos ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed. Bu i ni weithio gyda'r sector cyhoeddus, ffrydiau elusennol a pholisi, a chynhaliodd ein graddedigion sesiwn rwydweithio ar-lein gyda Bright Networks.

Ffurfiodd ein tîm Cyfreithiol bartneriaeth â rhaglen Pathways to Law Ymddiriedolaeth Sutton, i dderbyn chwe myfyriwr ar brofiad gwaith â thâl ym mis Medi 2021. Nod y rhaglen barhaus yma yw ehangu mynediad at y proffesiwn cyfreithiol, meithrin dyheadau myfyrwyr a'u galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gyrfa yn y dyfodol. Mae'n agored i fyfyrwyr sy'n mynd i ysgolion nad ydynt yn codi ffioedd, ac yn aml iawn y myfyrwyr hynny yw'r cyntaf yn y teulu i fynd i brifysgol.

Yn 2021 roeddem yn falch o gefnogi'r rhaglen 10,000 Black Interns, menter newydd yn y Deyrnas Unedig sy'n ceisio cynnig 10,000 o interniaethau i bobl ifanc ddu dros bum mlynedd, ar draws 24 sector, sy'n cynnwys dros 700 o gwmnïau.


Yn 2022 byddwn yn cymryd rhan yn y rhaglen interniaeth chwe wythnos, ar ôl cynnig profiad gwaith â thâl i 13 o fyfyrwyr ifanc du Affricanaidd, du Caribïaidd a Du Prydeinig (pump yn fwy na'r disgwyl, oherwydd bod y safon mor uchel).

# ADRODDIAD CYNALADWYEDD

## ADRODD AR EIN HALLYRIADAU AR GYFER 2021/22

**Mae Ofcom wedi cyrraedd targedau Ymrwymiadau 'Greening Government'[1] (Targed: 58% o ostyngiad), ac wedi gostwng yr allyriadau nwyon tŷ gwydr cyffredinol 80% o linell sylfaen 2017/18**

Mae llai o ddefnydd o drydan a llai o deithio at ddibenion busnes oherwydd y pandemig yn egluro'r gostyngiad hwn. Wrth i bobl ddychwelyd yn raddol i'r lefelau teithio a defnydd o adeiladau a oedd yn bodoli cyn y pandemig, rydym yn disgwyl gweld hyn yn cynyddu eto wrth i'n holl weithrediadau ddod yn ôl i drefn yn ystod y misoedd nesaf.




1 Newidiwyd y flwyddyn waelodlin darged newydd ar gyfer Ymrwymiadau 2021-25 'Greening Government' y llynedd o 2009-2010 i 2017-2018.

# PERFFORMIAD YN ERBYN YR YMRWYMIADAU 'GREENING GOVERNMENT'

Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cynnwys allyriadau cwmpas 1.2 (uniongyrchol) a chwmpas 3 (anuniongyrchol)

### Allyriadau nwyon tŷ gwydr

OFCOM 80%

Targed – lleihau 58%

**80%**

**WEDI'I GYFLAWNI – WEDI LLEIHAU**

### Fflyd Cerbydau

OFCOM 83%

Targed 25%

**83%**

**O GERBYDAU ALLYRIADAU ISEL IAWN (ULEV)**

### Teithiau Busnes

OFCOM 92%

Targed – lleihau 30%

**92%**

**YN LLAI O DEITHIAU HEDFAN DOMESTIG**

### Lleihau gwastraff (Cwmpas 3)

Targed 1 – gwastraff tirlenwi

OFCOM 0%

Targed <5%

**0%**

**GWASTRAFF TIRLENWI GO IAWN**

Targed 2 – defnyddio o bapur

OFCOM 99.6%

Targed – lleihau 50%

**99.6%**

**YN LLAI O BAPUR**

## Adrodd ar gynaladwyedd yn y dyfodol

Ers 2007, mae Ofcom wedi parhau i leihau ôl troed carbon y gweithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd. Rydym bellach yn gweithio i sefydlu fframwaith achredu ffurfiol, gan gynnwys polisi amgylcheddol, a fydd yn gwella ein gwaith adrodd ar draws ein saith safle, ac yn gwneud y gwaith cynaladwyedd ar draws y sefydliad yn fwy amlwg.

Fel sefydliad cyhoeddus, rydym am arwain drwy esiampl. Ym mis Ebrill 2021, cytunodd y Bwrdd a'r Uwch Reolwyr i weithio tuag at safon ISO14001 ar gyfer diwydiant (System Reoli Amgylcheddol) i'n helpu i fabwysiadu ymagwedd fwy systematig at gyfrifo ein hôl troed amgylcheddol, ac edrych am gyfleoedd i wella.



Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi:

- cytuno ar Bolisi Amgylcheddol cyntaf Ofcom[1], gan ddangos ein hymrwymiad i wella perfformiad amgylcheddol Ofcom;
- dilyn y cylch Cynllunio-Gwneud-Gwirio-Gweithredu, sydd wrth wraidd holl safonau system reoli ISO, i adolygu ein holl systemau, gweithdrefnau a phrosesau a'u cymharu â gofynion IO14001;
- nodi'r agweddau amgylcheddol[2] ar ein gweithgareddau y gallwn eu rheoli a dylanwadu arnynt, a'u heffeithiau posib ar yr amgylchedd;
- penderfynu sut mae'r holl ddeddfwriaethau a gofynion perthnasol yn berthnasol i'r agweddau hyn. Drwy weithio o fewn y fframwaith hwn, roeddem wedi asesu'r pethau a oedd yn gweithio'n dda, gan fireinio'r rhai y mae angen i ni eu gwella;
- sefydlu amcanion mesuradwy a thargedau sy'n gyson ag amcanion ein polisi newydd; ac,
- wedi pennu camau cynllunio clir i gyflawni ein hamcanion[3] a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n holl rwymedigaethau.

Mae ymgysylltu â chydweithwyr yn hanfodol i lwyddiant y System Reoli Amgylcheddol. Rydym yn gweithio tuag at greu rhaglen Hyrwyddwyr Gwyrdd, i sicrhau bod cydweithwyr yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu at gynnydd Ofcom o ran effaith carbon a dal y sefydliad yn atebol, yn ogystal ag awgrymu syniadau creadigol i helpu i sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus.

1 https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/policies-and-guidelines/environmental-policy.

2 Mae'r safon yn diffinio agweddau fel gweithgareddau'r sefydliad sy'n rhyngweithio â'r amgylchedd.

3 Mae rhai o'r camau cynllunio hyn yn cynnwys, er enghraifft: cynnal archwiliad gwastraff ar draws ein holl ystad er mwyn deall yn well y gwastraff rydym yn ei gynhyrchu, a'i fesur yn fwy cywir; sefydlu strategaeth lleihau gwastraff (gan gynnwys cael gwared ar blastig untro yn ein gweithrediadau); cynnal archwiliad bioamrywiaeth o'n safle yn Baldock gyda chynllun gwella bioamrywiaeth i ddilyn.

**Crynodeb o'r perfformiad o ran cynaladwyedd dros bum mlynedd**

| | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Olew, Nwy a Thanwydd (Cwmpas 1) | $tCO_2e$ | 400 | 327 | 185 | 108 | 115 |
| | Gwariant | £118,905 | £117,133 | £96,121 | £54,969 | £61,817 |
| Trydan (Cwmpas 2) | $tCO_2e$ | 809 | 528 | 308 | 189 | 172 |
| | Gwariant | £340,333 | £287,074 | £158,351 | £127,929 | £146,021 |
| Teithiau busnes (Cwmpas 3) | $tCO_2e$ | 519 | 555 | 594 | 7 | 57 |
| | Gwariant | £705,602 | £742,876 | £837,982 | £5,458 | £139,275 |
| Cyfanswm Allyriadau nwyon tŷ gwydr | $tCO_2e$ | **1,728** | **1,410** | **1,087** | **304** | **344** |
| | Gwariant | **£1,164,840** | **£1,147,082** | **£1,092,454** | **£188,356** | **£347,112** |

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

*Melanie Dawes*

15 Gorffennaf 2021

ADRAN B

# ATEBOLRWYDD

Mae'r adran hon yn egluro ein trefniadau llywodraethu a'r llinellau atebolrwydd, i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion a'n dyletswyddau.



# LLYWODRAETHU

## MAGGIE CARVER, CADEIRYDD DROS DRO



Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae Ofcom wedi dangos ei gadernid gweithredol er gwaethaf yr heriau parhaus sy'n wynebu Ofcom a'r sector cyfathrebiadau yn fwy cyffredinol.

Rydym yn cydnabod bod ein sector yn newid yn gynt ac yn gynt, ac rydym yn sicrhau ein bod ni'n ymateb yn effeithiol.

### Trosolwg o lywodraethu gan y Cadeirydd Dros Dro

**Fel y Cadeirydd Dros Dro yn ystod y cyfnod adrodd mae'n bleser gennyf gyflwyno, ar ran Bwrdd Ofcom, yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.**

Mae Llywodraethu Corfforaethol yn dal yn flaenoriaeth bwysig i Ofcom ac mae'n golygu mwy na chymhwyso set o reolau a chanllawiau penodedig. Mae'n hanfodol i'r ffordd rydym yn gweithredu, ac mae'n gosod naws y sefydliad. Bwrdd Ofcom sy'n pennu'r cyfeiriad strategol a'r archwaeth risg, a dyma'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol ynghylch materion sydd o arwyddocâd i Ofcom o safbwynt strategol, ariannol neu enw da. Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol pwrpasol yn amlinellu'r materion hynny sydd wedi'u dal yn ôl ar gyfer pŵer gwneud penderfyniadau'r Bwrdd yn unig. Dros y flwyddyn diwethaf, mae parhad a datblygiad y pandemig Covid wedi pwysleisio i'r Bwrdd pa mor bwysig yw ein nod o sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Rydym yn cydnabod bod ein sectorau cyfathrebiadau'n newid yn gyflym. Er mwyn i ni gynnal ein heffeithiolrwydd, rydym yn cydnabod bod hyn yn galw am ffocws strategol tymor hir ac ystwythder yn ein ffordd o weithredu. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod y sefydliad yn ymateb yn briodol i'r amgylchedd sy'n newid.

Mae'r Bwrdd wedi bod yn ymwybodol iawn o effaith y pandemig Covid ar ein cydweithwyr, gan oruchwylio'n agos y cymorth a roddir iddynt, gan gynnal uniondeb gweithredol Ofcom ar yr un pryd. Mae'r Bwrdd wedi bod yn awyddus i sicrhau ymagwedd gytbwys a hyblyg at weithio yn y dyfodol ac, o ganlyniad, mae'r cyfle i weithio mewn patrwm hybrid wedi cael ei ymestyn i'r rhan fwyaf o gydweithwyr.

Mae'r tudalennau nesaf yn egluro sut mae Ofcom yn mynd ati i lywodraethu, gan gynnwys sut mae'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd yn gweithredu. Ym mis Rhagfyr 2021/Ionawr 2022, bu i ni drefnu gwerthusiad allanol i'w gynnal ar effeithiolrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd. Canfu'r adolygiad fod angen i'r Bwrdd fod yn fwy amrywiol o ran ei gyfansoddiad. Mae angen iddo hefyd barhau i wella ei ddealltwriaeth o dechnoleg a'r datblygiadau rheoleiddio/yn y farchnad y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Nododd yr Adolygiad hefyd y bydd dyletswyddau newydd Ofcom ar Ddiogelwch Ar-lein yn galw am ystyried blaenoriaethau. Roedd yr adolygiad yn cydnabod bod trefniadau llywodraethu Ofcom yn parhau i weithio'n dda; roedd y Bwrdd wedi ystyried materion strategol ym mhob un o'i gyfarfodydd drwy gydol blwyddyn 2021/22. Dywedodd yr adolygiad hefyd fod y Bwrdd wedi parhau i wella ei ddealltwriaeth o'r sector cyfathrebiadau, gyda chyfres wedi'i blaenoriaethu o Weithdai Bwrdd a oedd yn galluogi Aelodau'r Bwrdd i archwilio materion strategol a thymor hwy yn ddyfnach. Roedd pynciau'r archwiliad manwl yn cynnwys diogelwch ar-lein, datblygiad y sectorau symudol (gan gynnwys 5G) a sain, safbwyntiau buddsoddi mewn telathrebu, agweddau ac ymddygiad / tegwch defnyddwyr, risg seiber, cynaladwyedd a newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â

niwtraliaeth y rhyngrwyd. Hefyd, cafodd y Bwrdd ddiweddariadau gan feysydd busnes unigol a swyddogaethau allweddol Grŵp Ofcom.

Rydym hefyd wedi adolygu a gwella ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol; rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ein harferion fel ein bod yn parhau ar flaen y gad o ran arferion gorau ym maes llywodraethu ac yn gallu rhagweld heriau newydd yn y sectorau cyfathrebu rydym yn eu rheoleiddio.

Mae ein trefniadau llywodraethu corfforaethol yn parhau i gael eu cyfeirio gan God Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig.

Bob blwyddyn, mae ein Pwyllgor Pobl yn adolygu strwythur, maint a chyfansoddiad (gan gynnwys sgiliau, gwybodaeth, profiad ac amrywiaeth) ein Bwrdd, er mwyn i ni allu gwneud argymhellion am y gwelliannau y gellid eu gwneud i'r Bwrdd. Mae hyn yn dal yn bwysig, gan gofio ein dyletswyddau ar-lein newydd.

Ym mis Mai 2021, ffarweliwyd â Tim Suter. Hoffem ddiolch o galon i Tim am ei gyfraniad sylweddol a gwerthfawr i Ofcom. Mae Llywodraeth y DU yn recriwtio Aelod Bwrdd newydd sydd â phrofiad o ddarlledu, a chredir y bydd Aelod wedi'i benodi erbyn yr haf. Rydym hefyd wedi gweithio gyda chydweithwyr yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar benodi Aelod Bwrdd newydd ar gyfer Gogledd Iwerddon, ac rydym yn falch iawn o groesawu Karen Baxter fel ein Haelod cyntaf o Fwrdd Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon a ymunodd â'r Bwrdd ar 28 Mawrth 2022. Mae gan Karen brofiad a gwybodaeth sylweddol o'i swyddi blaenorol ym maes plismona a seiberddiogelwch, sy'n arbennig o berthnasol i gyfrifoldebau rheoleiddio cynyddol Ofcom. Rwyf hefyd yn falch o groesawu Michael Grade sydd wedi cael ei benodi gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel Cadeirydd newydd Ofcom – fe ddechreuodd yn ei swydd ar 1 Mai 2022, ac mae ganddo brofiad helaeth ym maes darlledu.

Wrth i ni aros am y penodiadau newydd hyn, ymgymerodd ein Haelodau Bwrdd presennol â chyfrifoldebau newydd. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Bob Downes fu'n Gadeirydd Dros Dro y Bwrdd Cynnwys, David Jones, a ymunodd â'r Bwrdd Cynnwys ac Angela Dean a ddaeth yn Gyfarwyddwr newydd i Loegr.

Roedd 2021/22 yn flwyddyn bwysig a heriol i Ofcom ac i Fwrdd Ofcom. Er i effaith y pandemig Covid barhau, rwy'n falch o'r cynnydd rydym wedi ei wneud i gyflawni nifer o'n prif amcanion, gan gynnwys y canlynol:

- **Ebrill 2021:** Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol.
- **Ebrill 2021:** Cyhoeddiad terfynol am ganlyniad arwerthiant y sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz.
- **Mehefin 2021:** Cyhoeddi argymhellion i Lywodraeth y DU ar ôl cwblhau adolygiad manwl o ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.
- **Medi 2021:** Cyhoeddi proses newid newydd i'w gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i ddefnyddwyr newid eu darparwr ffôn cartref neu fand eang.
- **Tachwedd 2021:** Y Bwrdd yn cymeradwyo egwyddorion ein strategaeth newydd ar gyfer cyflawni ein cyfrifoldebau arfaethedig fel rheoleiddiwr Diogelwch Ar-lein.
- **Ionawr 2022:** Cyhoeddi ymgynghoriad ar y Galw am Ddarpariaeth Symudol gyda chais am dystiolaeth ar y Strategaeth Symudol.

Hoffwn ddiolch hefyd i Jacqui Gregory a'n gadawodd ym mis Mai 2022 am ei gwaith caled a'i hymroddiad fel Ysgrifennydd y Gorfforaeth. Rwyf yn hynod ddiolchgar i'r Fonesig Melanie Dawes, y Bwrdd, yr Uwch Reolwyr a'r holl staff am eu teyrngarwch a'u cefnogaeth gyson i mi ac i Ofcom, yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd Dros Dro. Mae wedi bod yn fraint ac yn bleser i weithio gyda chynifer o bobl ddawnus.

**Maggie Carver**
Cadeirydd Dros Dro

# DATGANIAD LLYWODRAETHU

Mae'r Adroddiad Llywodraethu hwn yn crynhoi trefniadau llywodraethu Ofcom, gan gynnwys cyfansoddiad ein Bwrdd, sut mae ein fframwaith llywodraethu'n gweithredu'n ymarferol (gan gynnwys ein strwythur llywodraethu a rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd) a'n prif feysydd ffocws yn 2021/22.

**Mae hefyd yn egluro sut rydym yn sicrhau bod ein Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf, ac yn crynhoi canlyniad ein Hadolygiad diwethaf o Effeithiolrwydd y Bwrdd. Mae'r ffordd rydym yn rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau a phrif swyddogaethau ein Pwyllgorau Bwrdd a'n Byrddau Statudol wedi cael eu nodi tua diwedd yr Adroddiad.**

## Ein Trefn Lywodraethu

Fel corfforaeth statudol, mae prif ofynion cydymffurfio Ofcom o ran llywodraethu yn cael eu rheoli gan y ddeddfwriaeth berthnasol (sef Deddf Ofcom (2002), Deddf Cyfathrebiadau (2003), Deddf Gwasanaethau Post (2011), Deddf yr Economi Ddigidol (2010), Deddf yr Economi Ddigidol (2017) ac unrhyw ddeddfwriaethau atodol eraill, neu Orchmynion ynddynt, y maent yn berthnasol) sy'n pennu materion fel dibenion y sefydliad a phenodi ein Haelodau. Mae Ofcom hefyd yn rhwym wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus.[7] Mae ein hymagwedd llywodraethu corfforaethol cyffredinol yn seiliedig ar God Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig 2018 ("Cod y Deyrnas Unedig") a'i arweiniad cysylltiedig[8], yn amodol ar lle ystyrir bod rhai egwyddorion yn anghymesur neu'n llai perthnasol yn achos Ofcom a/neu mae gofynion eraill yn cael eu gosod ar Ofcom drwy statud.

### Sut mae cod llywodraethu corfforaethol y Deyrnas Unedig 2018 yn cyfrannu at ein hymagwedd

Dyma enghreifftiau o sut mae rhai o egwyddorion Cod y Deyrnas Unedig wedi cyfrannu at ein hymagwedd:

- **Arweinyddiaeth a Phwrpas y Bwrdd –** mae gan ein Bwrdd bwrpas, strategaeth a gwerthoedd clir, ac mae'n gallu bodloni ei hun bod y rhain a'i ddiwylliant yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae ein Bwrdd, sy'n cynnwys mwyafrif o Aelodau Anweithredol, yn cynnig syniadau a her wrthrychol annibynnol ar gyfer ein nodau strategol.
- **Rhannu Cyfrifoldebau –** mae Cadeirydd ein Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth strategol i'r Bwrdd. Ystyrir bod ein Haelodau Anweithredol yn annibynnol ar y tîm rheoli ac yn rhydd rhag unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu i raddau helaeth arnynt wrth iddynt wneud penderfyniadau. Ond, os bydd amgylchiadau arbennig yn codi, cymerir camau priodol i sicrhau eu bod yn dal yn annibynnol.
- **Cyfansoddiad, Olyniaeth a Gwerthuso –** dilynir proses drylwyr a thryloyw wrth benodi i'r Bwrdd, gyda'n Cadeirydd a'n Haelodau Anweithredol yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Wrth i Aelodau newydd gael eu penodi i'r Bwrdd, byddwn yn mynd ati i geisio gwella amrywiaeth ein Bwrdd. Mae ein Pwyllgor Pobl yn ceisio sicrhau bod gennym gynlluniau olyniaeth effeithiol, a'n bod yn nodi ac yn rheoli ein llif o dalentau yn briodol.
- **Archwilio Risg a Rheolaeth Fewnol –** mae ein Pwyllgor Risg ac Archwilio yn goruchwylio'r strwythurau a'r prosesau sydd ar waith i reoli ein risgiau, ac yn sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith.
- **Taliadau –** mae ein Hadroddiad Taliadau'n egluro sut rydym yn sicrhau bod ein harferion a'n polisïau taliadau yn cefnogi ein nodau strategol, a bod ein taliadau i'n cydweithwyr yn hybu llwyddiant Ofcom.

7 Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus yn berthnasol i bob aelod anweithredol ar Fyrddau adrannau'r llywodraeth, adrannau anweinidogol, asiantaethau gweithredol, cyrff cyhoeddus anadrannol a chorfforaethau cyhoeddus cenedlaethol.

8 Mae Cod y Deyrnas Unedig yn amlinellu'r rheolau llywodraethu sy'n berthnasol i bob cwmni yn y Deyrnas Unedig sydd wedi'u rhestru yn y categori Premiwm o gyfranddaliadau ecwiti ar Gyfnewidfa Stoc Llundain.

## Ein Bwrdd: Gweithgareddau a Phwrpas

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol ac archwaeth risg y sefydliad, a dyma'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol ar faterion sydd o arwyddocâd i Ofcom o safbwynt strategol, rheoleiddio neu enw da. Mae llywodraethu effeithiol yn hwyluso'r broses o gyflawni diben a strategaeth Ofcom, yn enwedig mewn cyfnod heriol.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo, drwy ei fframwaith llywodraethu, i wneud penderfyniadau priodol ar y lefel gywir yn Ofcom gan sicrhau atebolrwydd, gwerth hirdymor a chyflawni ein pwrpas o hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu a gweithredu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol pwrpasol sy'n cynnwys datganiad o egwyddorion llywodraethu sy'n cyfeirio gweithgareddau'r Bwrdd. Mae'r Fframwaith yn edrych ar gyfrifoldebau allweddol y Bwrdd a'r materion sydd wedi cael eu cadw i'r Bwrdd benderfynu arnynt, gan gynnwys y canlynol:

- cymeradwyo Cynllun Gwaith, amcanion tymor hir a fframwaith polisi strategol cyffredinol Ofcom;
- cymeradwyo cyllideb flynyddol, polisi ariannol cyffredinol a Fframwaith Awdurdodau Ariannol Ofcom;
- cymeradwyo adroddiad blynyddol a chyfrifon Ofcom;
- rheoli risg, mesurau rheoli mewnol a chydymffurfiaeth; a
- cynnal adolygiad ffurfiol rheolaidd o berfformiad y Bwrdd ei hun, a pherfformiad pwyllgorau'r Bwrdd ac Aelodau unigol.

## Penodiadau i'r Bwrdd

Mae Cadeirydd a'r mwyafrif o Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, am gyfnod o bedair blynedd. Caiff Aelod yr Alban, Aelod Cymru ac Aelod Gogledd Iwerddon eu penodi gan Weinidogion yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran yr Economi, ar ôl ymgynghori a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Caiff Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd eu penodi gan y Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom, ac mae'n rhaid cael sêl bendith yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth benodi'r Prif Weithredwr. Rydym yn cydnabod nad yw cyfansoddiad presennol y Bwrdd yn cynrychioli poblogaeth y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Llywodraethau datganoledig i sicrhau bod ein dulliau recriwtio yn y dyfodol yn cyd-fynd â'n hymrwymiad strategol i fod yn sefydliad amrywiol a chynhwysol. Bydd cael Bwrdd sy'n cynrychioli gwahanol safbwyntiau ein cymdeithas yn ein galluogi i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer holl ddefnyddwyr a dinasyddion y Deyrnas Unedig. Mae ymdrechion yn mynd rhagddynt i ategu ymhellach yr amrywiaeth bresennol o sgiliau sydd ar y Bwrdd i ystyried ein dyletswyddau rheoleiddio newydd. Mae cynyddu amrywiaeth y Bwrdd yn parhau i fod yn flaenllaw yn ein meddyliau yn ystod y gwaith recriwtio hwn.

# Rolau'r bwrdd

## Y Cadeirydd

Mae Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am gadeirio a rhoi arweiniad i'r Bwrdd. Mae'r cyfrifoldebau eraill yn cynnwys:

- arwain y Bwrdd i lunio strategaeth Ofcom ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau statudol;
- annog safonau uchel o ran priodoldeb;
- darparu asesiad o berfformiad Aelodau unigol o'r Bwrdd;
- sicrhau bod Ofcom yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, a bod cofnodion cyfarfodydd yn cofnodi penderfyniadau yn gywir; a
- chynrychioli barn Ofcom yn allanol.

## Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd

Mae gan ein Bwrdd fwyafrif o Aelodau Anweithredol, ac mae pob un ohonynt â phrofiad a sgiliau helaeth i'w cynnig i'r Bwrdd. Mae hyn yn sicrhau bod cydbwysedd da o sgiliau ar gael i Ofcom wrth iddo gyflawni ei dyletswyddau a'i chyfrifoldebau, ac wrth bennu'r polisi a'r cyfeiriad strategol – gan gynnwys y fframwaith adnoddau i weithredu Ofcom.

## Y Prif Weithredwr

Mae'r cyfrifoldeb dros redeg Ofcom o ddydd i ddydd wedi cael ei drosglwyddo gan y Bwrdd i'r Prif Weithredwr a'r Weithrediaeth, sef yr Uwch Dîm Rheoli, sy'n cynnwys Prif Weithredwr Ofcom, Cyfarwyddwyr Grŵp a'r Cwnsler Cyffredinol. Mae'r Uwch Dîm Rheoli, drwy'r Bwrdd Rheoli Polisi, yn sicrhau bod y strategaethau, y polisïau a'r ymddygiad a bennir ar lefel y Bwrdd yn cael eu cyfleu a'u rhoi ar waith yn effeithiol ar draws Ofcom.

Mae Ysgrifennydd Parhaol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofcom. Mae'r penodiad hwn yn cynnwys dyletswyddau i fod yn gyfrifol am reoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian a rheolaeth ariannol dda, a diogelu arian cyhoeddus. Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Ddogfen Fframwaith gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Rhaid iddi hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw, a rhaid iddi lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei chyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'i chyfrifoldebau fel Aelod Bwrdd. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Seneddol eraill alw ar y Prif Weithredwr i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei dyletswyddau.

# Aelodau'r Bwrdd



**Yr Arglwydd Grade, CBE**
Cadeirydd ac Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Wedi'i benodi i Fwrdd Ofcom fel Cadeirydd ar 1 Mai 2022

Cyfnod: <1
Aelodaeth: P

Mae Michael Grade wedi cael gyrfa hir ym maes darlledu, gan gynnwys gyda London Weekend Television, y BBC, ITV a Channel 4. Mae wedi bod yn gadeirydd ar Stiwdios Ffilm Shepperton/Pinewood, y BBC ac ITV. Mae'n gyd-sylfaenydd y cwmni GradeLinnit, sy'n cynhyrchu ar gyfer y theatr. Mae'n Gadeirydd ar Fwrdd Cynghori Grŵp Arora ar Ehangu Heathrow, ac mae hefyd wedi bod yn Gadeirydd ar Ocado, First Leisure Corporation, Camelot, y Rheoleiddiwr Codi Arian Elusennol ac Amgueddfa Cyfryngau Bradford, yn ogystal â bod yn aelod o gyn-Gomisiwn Cwynion y Wasg ac yn un o ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Wyddoniaeth. Mae Michael Grade yn eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi fel Arglwydd nad yw'n perthyn i unrhyw grŵp seneddol.



**Maggie Carver, CBE**
Dirprwy Gadeirydd ac Aelod Anweithredol o'r Bwrdd

Wedi'i phenodi i Fwrdd Ofcom fel Dirprwy Gadeirydd ar 30 Medi 2018, ac fel Cadeirydd dros dro o 1 Ionawr 2021 tan 30 Ebrill 2022

Cyfnod: 3
Aelodaeth: R P

Mae gan Maggie brofiad helaeth fel cyfarwyddwr anweithredol ar fyrddau 19 o gwmnïau cyhoeddus, preifat ac nid-er-elw. Mae'r rhain yn cynnwys cadeirio'r darparwr newyddion a rhaglenni ITN, y gweithredwr aml-blecs SDN, Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain a'r RCA, yn ogystal â bod yn gyfarwyddwr ar fyrddau Channel 5 Television, RDF Media plc, Satellite Information Services, darlledwr y lluoedd arfog BFBS, British Waterways ac Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain. Gyrfa weithredol Maggie oedd bancio buddsoddiadau, cynhyrchu teledu, darlledu a manwerthu.



**Dr Angela Dean**
Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd Pwyllgor Risg ac Archwilio'r Bwrdd

Wedi'i phenodi i Fwrdd Ofcom ar 30 Medi 2018

Cyfnod: 3
Aelodaeth: R P

Ar hyn o bryd, mae Angela yn un o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Caerefrog ac yn Gadeirydd ei Bwrdd Prosiectau Cyfalaf. Mae'n Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Bu'n gyfarwyddwr anweithredol nifer o sefydliadau nid-er-elw gan gynnwys Cadeirydd International House Trust, Is-gadeirydd Cyngor King's College Llundain, ymddiriedolwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac yn aelod o'r Cyngor Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd. Roedd gyrfa weithredol Angela ym maes cyllid rhyngwladol, yn bennaf fel Rheolwr Gyfarwyddwr Morgan Stanley lle bu'n arwain ei thîm ymchwil technoleg byd-eang. Roedd yn aelod o Weithgor Compact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig ar gyfer materion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol mewn buddsoddiad.



**Bob Downes**
Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Aelod Bwrdd ar ran yr Alban) a Chadeirydd Dros Dro Pwyllgor Etholiadau'r Bwrdd a'r Bwrdd Cynnwys

Wedi'i benodi i Fwrdd Ofcom ar 1 Chwefror 2018; Wedi'i ailbenodi ar 1 Chwefror 2022

Cyfnod: 4
Aelodaeth: P C E

Bob yw cadeirydd presennol Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban. Mae hefyd yn cadeirio Corff Goruchwylio Annibynnol y Comisiwn ar gyfer Rheoleiddio Cyfathrebiadau, a fydd yn goruchwylio'r gwaith o weithredu a rheoleiddio gwell Model Llywodraeth Rheoleiddio yn Iwerddon gan Eir. Mae Bob hefyd yn cadeirio Cryptic, cwmni cynhyrchu ym maes y celfyddydau, ac mae'n cynghori nifer o fusnesau technoleg bach, gan gynnwys Kube Networks. Roedd yn arfer bod yn uwch swyddog gweithredol gyda BT Group.

## Allwedd

**Cyfnod**

<1 — Cyfanswm blynyddoedd o ddaliadaeth

**Aelodaeth Bwrdd a Phwyllgor**

P — Pwyllgor Pobl
C — Bwrdd Cynnwys
E — Pwyllgor Etholiadau
R — Pwyllgor Archwilio a Risg

**David Jones**
Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Aelod Bwrdd ar ran Cymru)



Wedi'i benodi i Fwrdd Ofcom ar 8 Ebrill 2019

Cyfnod: 3

Aelodaeth: R P

Ar hyn o bryd, mae David yn aelod anweithredol o Fyrddau Ofwat a Chymwysterau Cymru. Ef oedd sylfaenydd Travelink Systems Limited tan 1995 a Chadeirydd Gweithredol TigerBay Software rhwng 2011 a 2015. Mae'n ddarlithydd gwadd achlysurol ar Seiberddiogelwch a Digidol ym Mhrifysgol Caerdydd.

**Karen Baxter**
Aelod Anweithredol o'r Bwrdd (Aelod Bwrdd ar ran Gogledd Iwerddon)



Wedi'i phenodi i Fwrdd Ofcom ar 28 Mawrth 2022

Cyfnod: >1

Aelodaeth: P

Mae gan Karen yrfa nodedig dros 30 mlynedd ym maes plismona, gan ymddeol fel Comander yn Heddlu Dinas Llundain yn 2020. Dechreuodd ei gwasanaeth fel swyddog yng Ngogledd Iwerddon, ac mae ganddi brofiad helaeth mewn ystod eang o ymchwiliadau cymhleth gan gynnwys diogelu, lladdiadau, gwrthderfysgaeth, troseddau difrifol a chyfundrefnol. Yn fwy diweddar, fel Comander a'r Cydlynydd Cenedlaethol ar gyfer Troseddau Economaidd, bu'n goruchwylio'r ymchwiliadau ariannol mwyaf difrifol yn y Deyrnas Unedig. Karen hefyd oedd arweinydd gweithredol yr Heddlu ar gyfer Atal Seiberdroseddau, a bu'n gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol a'r trydydd sector i fynd i'r afael â risgiau sy'n dod i'r amlwg yn y byd ar-lein.

Yn 2020 ymunodd Karen ag UK Finance fel Rheolwr Gyfarwyddwr y Strategaeth Wybodaeth, gan weithio ar draws y sector bancio i adolygu a rheoli'r defnydd o wybodaeth. Yn fwy cyffredinol, roedd ei rôl yn golygu cydweithio â nifer o sectorau mewn perthynas â'r bygythiad o niwed ar-lein a newidiadau deddfwriaethol arfaethedig.

**Graham Mather, CBE**
Aelod Anweithredol o'r Bwrdd



Wedi'i benodi i Fwrdd Ofcom ar 1 Mehefin 2014; Wedi'i ailbenodi ar 1 Mehefin 2018

Cyfnod: 8

Aelodaeth: P

Roedd Graham yn aelod o Banel Defnyddwyr Ofcom rhwng 2004 a 2008. Bu'n aelod o'r Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau a, rhwng 2000 a 2012, roedd yn aelod o'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth, y corff sy'n delio ag apeliadau gan reoleiddwyr y Deyrnas Unedig. Mae Graham ar hyn o bryd yn Llywydd y Fforwm Polisi Ewropeaidd ac yn Gadeirydd ei Grŵp Arferion Gorau Rheoleiddio. Mae'n aelod o Fwrdd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd.

**Ben Verwaayen**
Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd Pwyllgor Pobl y Bwrdd



Wedi'i benodi i Fwrdd Ofcom ar 1 Ionawr 2016, Wedi'i ailbenodi ar 1 Ionawr 2020

Cyfnod: 6

Aelodaeth: P

Ar hyn o bryd mae Ben yn Bartner Cyffredinol gyda chronfa fuddsoddi Keen Venture Partners, ac mae'n aelod o sawl Bwrdd, gan gynnwys Akami yn yr Unol Daleithiau a Renewi Ltd, cwmni blaenllaw yn yr economi gylchol yn y BeNeLux ac yn y Deyrnas Unedig. Mae'n gyn-Brif Weithredwr BT, KPN yn yr Iseldiroedd ac Alcatel Lucent. Mae hefyd wedi bod yn Gadeirydd Endemol ac yn Aelod o Fwrdd AkzoNobel yn yr Iseldiroedd a Bharti Airtel, gweithredwr gwasanaethau symudol, yn India.

## Allwedd

**Daliadaeth**

<1 — Cyfanswm blynyddoedd o ddaliadaeth

**Aelodaeth Bwrdd a Phwyllgor**

P — Pwyllgor Pobl

E — Pwyllgor Etholiadau

C — Bwrdd Cynnwys

R — Pwyllgor Archwilio a Risg

# Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd

**Y Fonesig Melanie Dawes**
Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr



Wedi'i phenodi i Fwrdd Ofcom ym mis Mawrth 2020

Cyfnod

2

Cyn ymuno ag Ofcom, Melanie oedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae wedi dal amrywiaeth o swyddi uwch ar draws y Gwasanaeth Sifil, gan weithio mewn partneriaeth ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys fel Hyrwyddwr Amrywiaeth a Chynhwysiad y Gwasanaeth Sifil. Dechreuodd ar ei gyrfa fel economegydd, a threuliodd 15 mlynedd yn y Trysorlys, lle bu'n Gyfarwyddwr Materion Ewropeaidd rhwng 2002 a 2006. Roedd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Ysgrifenyddiaeth Materion Economaidd a Domestig yn Swyddfa'r Cabinet rhwng 2011 a 2015. Cyn hynny, bu'n gwasanaethu ar Fwrdd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Fel Cyfarwyddwr Cyffredinol Treth Busnes, roedd yn gyfrifol am yr holl drethi a thollau busnes ochr yn ochr ag arwain perthynas yr adran â'r cwmnïau mwyaf. Mae Melanie wedi ysgwyddo amryw o rolau anweithredol, gan gynnwys gyda'r corff defnyddwyr Which?, ac mae'n un o ymddiriedolwyr y Patchwork Foundation sy'n helpu pobl ifanc sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i fod yn rhan o ddemocratiaeth.

**Lindsey Fussell**
Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Rhwydweithiau a Chyfathrebiadau



Wedi'i phenodi i Fwrdd Ofcom ym mis Rhagfyr 2020

Cyfnod

2

Ymunodd Lindsey Fussell ag Ofcom yn 2016, ac mae'n Gyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Rhwydweithiau a Chyfathrebiadau, gan arwain gwaith Ofcom yn y sectorau telathrebu, post a rhwydwaith. Cyn ymuno ag Ofcom, bu Lindsey yn gweithio mewn amrywiaeth o uwch swyddi arweinyddiaeth yn y gwasanaeth sifil. Roedd yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus yn Nhrysorlys EM, lle bu'n arwain ar ddatganoli, addysg a diwylliant, amddiffyn a chyfiawnder troseddol, ac roedd yn gyfrifol am gyflawni agweddau allweddol ar Adolygiadau Gwariant 2013 a 2015. Mae Lindsey hefyd yn aelod lleyg o Gyngor llywodraethu Prifysgol Caerefrog.

**Kevin Bakhurst**
Aelod Gweithredol o'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Darlledu a Chynnwys Ar-lein



Wedi'i benodi i Fwrdd Ofcom ym mis Ebrill 2020

Cyfnod: 2

Aelodaeth: C E

Ymunodd Kevin ag Ofcom ym mis Hydref 2016, ac mae'n Gyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Darlledu a Chynnwys Ar-lein, gan oruchwylio ein polisïau a'n rheoliadau ar faterion darlledu ac ar-lein. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd Kevin yn Rheolwr Gyfarwyddwr, Newyddion a Materion Cyfoes, yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, ac wedyn yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro gyda darlledwr cenedlaethol Iwerddon, RTÉ. Ar ôl graddio o Brifysgol Caergrawnt, bu Kevin yn gweithio yn Price Waterhouse cyn ymuno â'r BBC fel ymchwilydd yn 1989. Aeth ymlaen i olygu'r rhaglen Ten O'Clock News, gan ddod yn Ddirprwy Bennaeth Ystafell Newyddion y BBC ac yn Rheolydd sianel BBC News a BBC News at One. Yn ystod ei gyfnod yn golygu bwletinau newyddion y BBC, enillodd y rhaglenni wobrau gan sefydliadau gan gynnwys BAFTA a'r Gymdeithas Deledu Frenhinol.

Y tu allan i'r gwaith, roedd Kevin yn Ynad rhwng 2000 a 2006.

## Allwedd

**Daliadaeth**


- <1 — Cyfanswm blynyddoedd o ddaliadaeth

**Aelodaeth Bwrdd a Phwyllgor**

- P — Pwyllgor Pobl
- C — Bwrdd Cynnwys
- E — Pwyllgor Etholiadau
- R — Pwyllgor Archwilio a Risg

# LLYWODRAETHU AR GIP

## CYFNOD
yn y swydd




**Allwedd**

Lla na 3 blynedd · 3-5 mlynedd · 5+ mlynedd

## AMRYWIAETH
Bwrdd Ofcom

Rhywedd

| | |
|---|---|
| 50% Dyn | 50% Menyw |

Ethnigrwydd

100% Gwyn Ethnig

Anabledd

100% Ddim yn Anabl

## GWEITHGAREDDAU EIN BWRDD


| | |
|---|---|
| Diweddariadau'r Cadeirydd, Cyfarwyddwyr Anweithredol, y Prif Weithredwr ac Aelodau'r Bwrdd Gweithredol | 36% |
| Cefnogi darlledu yn y DU | 15% |
| Paratoi i reoleiddio Diogelwch Ar-lein | 8% |
| Rheoleiddio, Cyllid, Risg a Chyfreithiol | 8% |
| Cael Cysylltiad i Bawb | 7% |
| Cryfhau Ofcom ar gyfer y Dyfodol | 7% |
| Llywodraethu Corfforaethol | 6% |
| Parhau i arloesi mewn rheoleiddio | 4% |
| Tegwch i gwsmeriaid | 3% |
| Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol | 2% |
| Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel | 2% |
| Arall (gan gynnwys y pandemig COVID-19, ymchwil farchnad a briffiau) | 2% |

## Ein Bwrdd: Gweithgareddau

Caiff gweithgareddau craidd y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd eu cofnodi a'u cynllunio drwy ein rhaglen waith a'n blaen-agendâu. Mae agenda flynyddol y Bwrdd yn dilyn y meysydd blaenoriaeth strategol y cytunwyd arnynt yn ein Cynllun Gwaith blynyddol, ynghyd â'r meysydd ychwanegol sydd eu hangen i gyflawni prif gyfrifoldebau'r Bwrdd. Roedd y pandemig yn golygu bod angen i'r Bwrdd ystyried sut mae cydbwyso penderfyniadau mewn ffordd a oedd yn parhau i gyflawni ein prif bwrpas, gan ystyried yr heriau roedd ein rhanddeiliaid, ein defnyddwyr, ein dinasyddion a'n cydweithwyr yn eu hwynebu. Mae'r siart ganlynol yn dangos sut mae'r Bwrdd wedi neilltuo ei agenda yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae enghreifftiau o rai o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan y Bwrdd ym mhob un o'r meysydd hyn yn y cyfnod adrodd wedi'u hamlinellu ar dudalen 81.

### PWYLLGORAU'R BWRDD



## Gwybodaeth Reoli

Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael gwybodaeth reoli yn rheolaidd er mwyn gallu adolygu perfformiad a gallu Ofcom. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau perfformiad a chyllid rheolaidd, adolygu'r gwaith sydd wedi'i gyflawni o ran Cyllideb a Chynllun Ofcom, adolygu'r broses o gyflawni Strategaeth a Chynllun Gwaith Ofcom, y gofrestr risgiau strategol, statws canlyniadau'r Adolygiad o Effeithiolrwydd Pwyllgorau'r Bwrdd / y Bwrdd, a data corfforaethol arall.

## Gweinyddu'r Bwrdd

Ysgrifennydd y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am weinyddu'r Bwrdd, ac yn cadw ac yn diweddaru gweithdrefnau a pholisïau allweddol y Bwrdd, cofnodion corfforaethol a chylch gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd a materion sy'n cael eu cadw ar gyfer y Bwrdd. Ysgrifennydd y Gorfforaeth sydd hefyd yn cynnal ac yn adolygu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom (gan gynnwys Dirprwyaethau Awdurdod a chylch gorchwyl Pwyllgor y Bwrdd) ac, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyllid, y Fframwaith Awdurdodau Ariannol.

Cafodd y Bwrdd ddeg cyfarfod wedi eu trefnu yn ystod y flwyddyn ac un cyfarfod ad-hoc. Roedd cyfarfodydd a drefnwyd yn cael eu cynnal bob mis, heblaw am fis Awst a mis Ionawr. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal Sesiwn Strategaeth ym mis Hydref bob blwyddyn, lle mae strategaethau tymor canolig-tymor hir yn cael eu hystyried, a thrafodaethau'n cael eu cynnal ar faterion strategol a pherthnasol. Oherwydd y mesurau a'r cyfyngiadau parhaus a roddwyd ar waith mewn ymateb i'r pandemig, cafodd ychydig dros hanner ein cyfarfodydd Bwrdd eu cynnal o bell yn ystod y flwyddyn adrodd, gyda phump yn cynnwys y Sesiwn Strategaeth wyneb yn wyneb. Mae papurau'r Bwrdd sy'n berthnasol i agenda holl gyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, fel y bo'n briodol, tua wythnos cyn y cyfarfod drwy borth digidol diogel.

**Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn ystod Blwyddyn Ariannol 2021/22**

| | Ofcom Board |
|---|---|
| **Nifer y cyfarfodydd** | **11** |
| Maggie Carver CBE | 11 |
| Dr Angela Dean | 11 |
| Bob Downes | 11 |
| Graham Mather CBE | 11 |
| Tim Suter* | 1 |
| Ben Verwaayen | 9 |
| David Jones | 11 |
| Y Fonesig Melanie Dawes DCB | 11 |
| Kevin Bakhurst | 11 |
| Lindsey Fussell | 11 |

*Camodd Tim Suter i lawr o Fwrdd Ofcom ym mis Mai 2021.

Daeth penodiadau Michael Grade a Karen Baxter i rym ar ôl y cyfarfod diwethaf yn 2021/22.

# ENGHREIFFTIAU O RAI O'R GWEITHGAREDDAU A GYFLAWNIR GAN Y BWRDD

### Llywodraethu Corfforaethol

- Wedi adolygu a diweddaru ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol
- Wedi cymeradwyo a monitro'r gwaith sydd wedi'i gyflawni o ran Cyllideb a Chynllun Ofcom
- Wedi gwerthuso effeithiolrwydd y Bwrdd, y Pwyllgorau, ein Haelodau Bwrdd a'r Cadeirydd
- Wedi cymeradwyo/argymell penodiadau anweithredol i Fwrdd Ofcom, Panelau a Phwyllgorau Ofcom, y Bwrdd Cynnwys a 6 penodiad anweithredol i Fwrdd Corfforaeth Channel 4

### Rheoleiddio, Cyllid, Risg a Chyfreithiol

- Wedi adolygu Risgiau Strategol Ofcom bob chwarter
- Wedi adolygu a chymeradwyo Datganiadau Agwedd at Risg Ofcom
- Wedi cymeradwyo Cyllideb Ofcom ar gyfer 2022/23.

### Cael Cysylltiad i Bawb: Gwell Darpariaeth Symudol a Band Eang

- Wedi adolygu effaith gweithredu'r Adolygiad o Fand Eang Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol
- Wedi adolygu gweithrediad Uned Fonitro Openreach
- Wedi adolygu'r Strategaeth Symudol a'r Strategaeth Galw am Ddarpariaeth Symudol cyn ymgynghori
- Wedi monitro'r ffordd mae diwydiant yn mynd ati i symud i wasanaethau IP

### Cefnogi a datblygu darlledu yn y Deyrnas Unedig

- Wedi adolygu'r Adolygiad Blynyddol o Berfformiad y BBC
- Wedi cymeradwyo'r datganiad ar ddyfodol gwasanaeth cyhoeddus yn y cyfryngau yn y Deyrnas Unedig – "Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr" sy'n edrych ar ddyfodol gwasanaethau Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus a'u cynaladwyedd, wrth ystyried bod technegau digidol yn cael eu defnyddio fwy a mwy
- Wedi adolygu'r Rheolau Perchnogaeth ar y Cyfryngau

### Paratoi i reoleiddio diogelwch ar-lein

- Goruchwylio Rhaglen Waith Ar-lein Ofcom
- Wedi cymeradwyo'r ynagwedd reoleiddio ar gyfer cyfrifoldebau newydd Ofcom yng nghyswllt diogelwch ar-lein

### Tegwch i Gwsmeriaid

- Wedi adolygu Strategaeth Defnyddwyr Ofcom
- Wedi adolygu'r ffordd mae Ofcom yn ymdrin â galwadau niwsans
- Wedi adolygu'r diweddariadau ar Ymrwymiadau Tegwch ac Adroddiadau Cymharu Gwasanaeth i Gwsmeriaid

### Galluogi Rhwydweithiau Cryf a Diogel

- Wedi adolygu diweddariadau ar raglen waith Ofcom ar gyfer diogelwch a chadernid rhwydweithiau
- Wedi adolygu'r diweddariadau ar ddatblygiad y Fframwaith Diogelwch Telathrebu

### Cynnal y Gwasanaeth Post Cyffredinol

- Parhau i ystyried strategaeth y Post Brenhinol ac, yn sgil hynny, cynaladwyedd y rhwymedigaeth gwasanaeth post cyffredinol

### Parhau i reoleiddio mewn ffordd arloesol

- Wedi adolygu rôl Ofcom yn y Drefn Marchnadoedd Digidol
- Wedi adolygu cynnydd y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol a chytuno ar y Cynllun Gwaith ar gyfer 2022-23

### Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol

- Wedi adolygu Strategaeth Cyfathrebiadau Ofcom
- Wedi cymeradwyo'r contract ar gyfer caffael Gwasanaethau TGCh
- Wedi adolygu cynnydd y rhaglen One Ofcom

### Arall

- Ymateb i'r pandemig Covid-19 gan gynnwys diweddariadau ar gyflwr y farchnad; yr effaith ar randdeiliaid a defnyddwyr ac ymateb Ofcom fel cyflogwr

## Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd

Mae Ofcom wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygiad parhaus ei Aelodau Bwrdd, ac rydym yn cydnabod yr angen i barhau i ddatblygu eu gwybodaeth er mwyn iddyn nhw allu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae pob Aelod Bwrdd sydd newydd gael ei benodi yn cael rhaglen gynefino gynhwysfawr a phwrpasol wrth ymuno ag Ofcom. Mae'r broses gynefino hefyd yn cynnwys dyletswyddau Aelodau a gweithdrefnau'r Bwrdd, prosesau rheoli mewnol, strategaethau a chynlluniau, mesurau a ddefnyddir i fonitro perfformiad a'r Polisi Rheoli Risg ynghyd â'r Archwiliad Mewnol ac Allanol.

Hefyd, mae'r Bwrdd yn cael cyflwyniadau a gweithdai rhyngweithiol ar wahanol agweddau ar Gynllun Gwaith Ofcom yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r rhain yn cael eu hwyluso gan gydweithwyr Ofcom gyda chynghorwyr proffesiynol a/neu randdeiliaid allanol.

## Adolygiad o Berfformiad ac Effeithiolrwydd y Bwrdd

Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad effeithiolrwydd i werthuso perfformiad y Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd ac Aelodau unigol o'r Bwrdd. Ym mis Rhagfyr 2021 / Ionawr 2022, comisiynwyd adolygiad allanol.

Ystyriodd y Bwrdd ganlyniadau'r adolygiad a'i argymhellion yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror 2022, a chytunodd ar Gynllun Gweithredu i roi sylw i'r argymhellion yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu Ofcom yn dal i weithio'n dda, ond fel y nodwyd yn y Trosolwg Llywodraethu gan y Cadeirydd Dros Dro ac yn adran nesaf yr Adroddiad Llywodraethu hwn, roedd rhai ymatebwyr yn credu bod angen i'r Bwrdd wella ei ddealltwriaeth o dechnoleg a datblygiadau rheoleiddio/yn y farchnad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, yn ogystal â dyletswyddau newydd Ofcom mewn perthynas â Diogelwch Ar-lein sy'n galw am bwyso a mesur blaenoriaethau. I fynd i'r afael â hyn, mae cyfres o archwiliadau dwfn i'r meysydd hyn wedi cael eu cynnwys yn ein gwaith blaengynllunio agendâu, sy'n galluogi'r Bwrdd i dreulio mwy o'i amser yn meddwl yn fwy hirdymor am y meysydd hyn.

Argymhellwyd newid mewn rhai meysydd, a oedd yn ymwneud â'r elfennau hyn:

- **Cyfansoddiad y Bwrdd –** byddai'r Bwrdd yn elwa o gael mwy o amrywiaeth ac arbenigedd mewn darlledu / cyfryngau ac ar-lein i gryfhau lefel y gefnogaeth a'r her yn y meysydd hyn;
- **Deinameg y Bwrdd –** dylai'r Bwrdd chwilio am gyfleoedd ychwanegol i ymgysylltu'n anffurfiol wyneb yn wyneb;
- **Pecynnau Bwrdd –** dylai papurau ganolbwyntio ar gyfleu'r materion a'r negeseuon pwysicaf a chefnogi dadleuon strategol yn fwy parod, gan alluogi Aelodau'r Bwrdd i ddeall gwybodaeth hanfodol yn gyflym (ee, opsiynau, rhagdybiaethau, niferoedd, risgiau), gyda thrafodaethau'n canolbwyntio ar bwyntiau allweddol;
- **Cymorth i'r Bwrdd –** dylai deunyddiau briffio yn y dyfodol gynnwys datblygiadau technolegol a chymariaethau rhyngwladol;
- **Pwyllgorau'r Bwrdd –** dylai'r Pwyllgor Pobl ganolbwyntio mwy ar ddatblygu dull mwy strategol o reoli talent, a datblygu mwy o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer talent ac olyniaeth;
- **Monitro Diwylliant / Teimladau Gweithwyr –** dylai'r Bwrdd dderbyn adborth mwy rheolaidd ar ganlyniadau'r arolwg staff;
- **Ymateb i Covid –** dylai'r Bwrdd gael diweddariadau rheolaidd ar reoli'r broses o ddychwelyd i weithio mewn swyddfa;
- **Cyfarfodydd y Bwrdd –** dylid ystyried cynnwys trafodaethau ymylol ar bynciau strategol yng nghylch cyfarfodydd. O amgylch cylch gwaith Ofcom (ee, cyflymder cynyddol newid technolegol) ac Ofcom ei hun. Wrth i gyfyngiadau covid gael eu llacio, dylai'r Bwrdd gwrdd yn swyddfeydd eraill Ofcom y tu allan i Lundain;
- **Deall Materion Digidol / Technoleg a Rheoleiddio Rhyngwladol –** gwell dealltwriaeth o'r cynnydd tuag at nodau a datblygiadau ar-lein yn y sector technoleg, a diweddariadau i'r Bwrdd ar ddatblygiadau rheoleiddio tramor a datblygiadau yn y farchnad;

- **Goruchwylio Risg –** dylai'r Bwrdd gael mwy o ran yn y broses o oruchwylio risg (hynny yw, trosolwg deinamig o'r prif risgiau sy'n wynebu Ofcom);
- **Amcanion Ofcom –** parhau i ystyried a fydd strwythur a gweithrediad presennol y Bwrdd Cynnwys ar ei orau o dan y drefn diogelwch ar-lein newydd;
- **Y Prif Heriau o ran Cyflawni Amcanion –** cadw annibyniaeth, recriwtio ar gyfer diogelwch ar-lein / telegyfathrebiadau, rheoli cyfathrebu ac argraffiadau allanol, cyd-fynd â datblygiadau technolegol; a
- Newid i gyfnod Cadeirydd newydd Bwrdd Ofcom wrth y llyw.

Mae'r Bwrdd wedi nodi cyfres o gamau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion, a bydd y Bwrdd yn adolygu diweddariadau statws yn gyson.

## Adolygiad Rhanddeiliaid

Un o'r blaenoriaethau a argymhellwyd ar gyfer newid yn Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd 2020 oedd bod Ofcom yn ennyn hygrededd ymysg ei randdeiliaid ar gyfer ei ystod newydd o gyfrifoldebau, ac yn cynyddu "gwerth y brand" fel bod Ofcom yn parhau'n rheoleiddiwr dibynadwy. Mae hyn yn dal yn flaenoriaeth i Ofcom, a chytunodd y Bwrdd i gynnal arolwg dienw wedi ei hwyluso'n allanol yn 2020 gyda 30 o uwch randdeiliaid Ofcom, yn bennaf o gwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom. Byddwn yn parhau i gasglu safbwyntiau gan randdeiliaid allanol ynghylch sut gall dull rheoleiddio Ofcom gael ei gryfhau ymhellach mewn ffordd strwythuredig a thryloyw.

## Gwrthdaro rhwng buddiannau

Mae'n hanfodol bod Ofcom yn cadw ei enw da o ran didueddrwydd, gonestrwydd a safonau proffesiynol uchel yn ei holl waith. Mae Ofcom yn rhwym wrth y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus ac, i gefnogi hyn, mae Ofcom wedi sefydlu Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch buddiannau Aelodau.

Mae Ofcom yn mynd ati, mewn ffordd synhwyrol a phriodol, i reoli gwrthdaro posib rhwng buddiannau sydd gan Aelodau Anweithredol, neu a all godi o bryd i'w gilydd, i sicrhau nad yw gweithredoedd Aelodau yn bwrw amheuaeth dros ddidueddrwydd a gwrthrychedd Ofcom. Rhaid i Aelodau hefyd sicrhau bod eu hymddygiad yn cyd-fynd â 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus'.

Mae Ofcom yn cadw cofrestr o fuddiannau'r Aelodau a chaiff ei diweddaru'n flynyddol. Mae hyn yn sicrhau bod gan Ofcom gofnod cyfredol o fuddiannau Aelodau, a chyhoeddir gwybodaeth berthnasol ar wefan Ofcom. Rhwng datganiadau blynyddol, mae'n rhaid i Aelodau roi gwybod i Ysgrifennydd y Gorfforaeth pan fydd eu buddiannau'n newid er mwyn i'r Gofrestr gael ei newid yn unol â hynny a, phan fydd angen, er mwyn gallu codi unrhyw wrthdaro posibl gyda'r Cadeirydd a/neu Fwrdd llawn Ofcom.

## Pwyllgorau'r Bwrdd a Byrddau Statudol

Wrth arfer dyletswyddau Ofcom o dan y ddeddfwriaeth berthnasol, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai cyfrifoldebau i'r Rheolwyr Gweithredol yn Ofcom a rhai i Bwyllgorau'r Bwrdd, yn unol ag awdurdodaeth a chylch gorchwyl sydd wedi ei ddiffinio'n glir.

Mae gan Ofcom hefyd nifer o gyrff eraill sy'n cyflawni rôl lywodraethu neu gynghori i'r Bwrdd. Mae gweithgareddau a phrif swyddogaethau'r pwyllgorau a'r cyrff hyn yn cael eu disgrifio ar dudalennau 87-89.

**Y Pwyllgor Archwilio a Risg**

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys tri o Aelodau Anweithredol y Bwrdd:  Angela Dean (Cadeirydd), Maggie Carver a David Jones. Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Rheoleiddiwr Ariannol a'r Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant i gyfarfodydd y Pwyllgor, yn yr un modd ag Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

Mae rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ynghyd â gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd, wedi'u nodi yn Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Risg ac Archwilio ar dudalennau 94-98.

**Y Pwyllgor Pobl**

Mae'r Pwyllgor Pobl yn cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Prif bwrpas y Pwyllgor Pobl yw darparu safbwynt cynnar, tymor hir a strategol ar feysydd sy'n ymwneud â Phobl a Gweithlu Ofcom, a gwerthuso (drwy ymgynghori â'r Prif Weithredwr) a herio o bryd i'w gilydd (pan ystyrir bod hynny'n briodol) y cynnydd a wnaed ar Strategaeth Pobl a Thrawsnewid Ofcom. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd gan Reolwyr Ofcom bod mesurau a chynlluniau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli doniau, datblygu doniau a chynllunio ar gyfer olyniaeth, rheoli perfformiad, diwylliant a gwerthoedd, ac ymgysylltu â chydweithwyr, ynghyd â meysydd eraill yn ymwneud â phobl i ategu perfformiad, sgiliau ac arbenigedd Ofcom. Mae'r Pwyllgor Pobl hefyd yn pennu'r egwyddorion cyffredinol a'r paramedrau perfformiad ynghyd â'r polisi taliadau ar draws Ofcom, ac mae'n ystyried ac yn cymeradwyo telerau ac amodau gwasanaeth unigolion, gan gynnwys trefniadau taliadau'r Prif Weithredwr, yr Uwch Dîm Rheoli a chydweithwyr "allweddol" eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio'r broses o benodi Aelodau Gweithredol y Bwrdd a Chyfarwyddwyr Grŵp eraill yr Uwch Dîm Rheoli, ac mae'n cymeradwyo'r cynlluniau olyniaeth ar gyfer Bwrdd Ofcom, yr Uwch Dîm Rheoli a chydweithwyr allweddol eraill.

Cyfarfu'r Pwyllgor Pobl chwe gwaith yn ystod 2021/22.

**Y Pwyllgor Etholiadau**

Mae Adran 333 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sicrhau bod darllediadau pleidiau gwleidyddol (gan gynnwys darllediadau etholiadol gan bleidiau) a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm yn cael eu cynnwys ar bob sianel deledu gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, pob gwasanaeth rhaglenni teledu digidol lleol, a phob gwasanaeth radio analog cenedlaethol (h.y. masnachol ar draws y Deyrnas Unedig), a'u gwasanaethau cyd-ddarlledu digidol.

Os bydd unrhyw anghydfod heb ei ddatrys rhwng unrhyw un sy'n dal trwydded ac unrhyw blaid wleidyddol ynghylch hyd, amlder, dyraniad neu amseriad darllediadau, caiff yr anghydfod hwnnw ei gyflwyno i Ofcom i'w ddatrys. Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo'r gwaith o ddyfarnu ynghylch unrhyw anghydfod o'r fath i'r Pwyllgor Etholiadau. Mae gan y Pwyllgor Etholiadau awdurdod dirprwyedig hefyd i wneud penderfyniadau ar gwynion sy'n ymwneud â'r safonau a osodwyd gan Ofcom mewn perthynas â didueddrwydd dyladwy mewn rhaglenni a ddarlledir yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys hyd at bum aelod. Penodir Cadeirydd y Pwyllgor Etholiadau gan Fwrdd Ofcom. Y Cadeirydd presennol yw Bob Downes, aelod o Fwrdd Ofcom a Chadeirydd Dros Dro y Bwrdd Cynnwys.  Dewisir gweddill yr aelodau o'r Bwrdd Cynnwys a/neu gydweithwyr Ofcom, yn ôl penderfyniad Cadeirydd y Pwyllgor, gyda chworwm o dri aelod (mae angen i ddau ohonynt fod yn Aelodau o'r Bwrdd Cynnwys).

**Y Bwrdd Cynnwys**

Mae'r Bwrdd Cynnwys wedi ei sefydlu o dan Adran 12(1) Deddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r Bwrdd Cynnwys yn cyflawni rôl gynghori i Fwrdd Ofcom ar agweddau sy'n ymwneud â chynnwys mewn penderfyniadau neu faterion sydd wedi eu cadw ar gyfer y Bwrdd.

Y Bwrdd Cynnwys yw prif fforwm Ofcom ar gyfer rheoleiddio ansawdd a safonau teledu a radio. Ei rôl yw deall, dadansoddi a hyrwyddo lleisiau a buddiannau'r gwylwyr, y gwrandawyr a dinasyddion.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys yr Aelodau Anweithredol a ganlyn: Bob Downes, (Cadeirydd Dros Dro), Dekan Apajee, Jonathan Baker, Rachel Coldicutt, Maggie Cunningham, Peter Horrocks, Tobin Ireland, David Jones, Ruth McElroy, Stephen Nuttall, Monisha Shah a Kim Shillinglaw ac Aelodau Gweithredol: Kevin Bakhurst ac Ali Marsden.

Cyfarfu'r Bwrdd chwe gwaith yn 2021/22.

### Pwyllgorau Cynghori'r Gwledydd

Mae Adran 20 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgorau Cynghori ar gyfer pob un o wledydd y Deyrnas Unedig. Swyddogaeth pob Pwyllgor yw rhoi cyngor i Ofcom am fuddiannau a safbwyntiau pobl sy'n byw yn y rhan o'r Deyrnas Unedig a wasanaethir gan y Pwyllgor, mewn perthynas â materion cyfathrebu a materion post. Yn ychwanegol at Aelodau penodedig y Pwyllgorau Cynghori, mae'r Aelod o'r Bwrdd Cynnwys a'r Aelod o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ar gyfer y gwledydd yn gwylio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori fel sylwedyddion.

Mae rôl y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, ynghyd â rôl Aelodau Gwledydd y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn hynod werthfawr o ran helpu Ofcom i ystyried materion penodol yng ngwledydd datganoledig y Deyrnas Unedig wrth lunio a gweithredu polisïau.

Cyfarfu pob un o'r Pwyllgorau Cynghori bedair gwaith yn 2021/22. Dyma Aelodau penodedig a sylwedyddion y Pwyllgor Cynghori ar hyn o bryd:

### Pwyllgor Cynghori Lloegr

**Aelodau: Paula Carter (Cadeirydd), Aadil Ahmed, Emma Davison, Matthew Littleford, Alan Nunn a Mark Smith.**

Sylwedyddion: Angela Dean (Bwrdd Ofcom), Monisha Shah (Bwrdd Cynnwys) a Richard Spencer (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau).

### Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon

(mae'r broses recriwtio'n mynd rhagddi ar hyn o bryd ar gyfer Aelod ychwanegol)

**Aelodau: Carrie Matchett (Cadeirydd), John Ellison, Angelina Fusco, Alan Meban a Michael Wilson.**

Sylwedyddion: Karen Baxter (Bwrdd Ofcom), Bob Downes (Bwrdd Cynnwys) a Rick Hill (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau).

### Pwyllgor Cynghori'r Alban

**Aelodau: Elizabeth Partyka (Cadeirydd), Laura Anderson, Gerry Crawley, Ashe Hussein, Jessica McBeath a Stephen Speirs (nid yw Stephen yn cael unrhyw dâl am y rôl yma).**

Sylwedyddion: Bob Downes (Bwrdd Ofcom), Maggie Cunningham (Bwrdd Cynnwys) ac Amanda Britain (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau).

### Pwyllgor Cynghori Cymru

**Aelodau: Hywel Wiliam (Cadeirydd), Robert Andrews, Tom Crick, Aled Eirug, Angharad Evans a Rem Noormohamed.**

Sylwedyddion: David Jones (Bwrdd Ofcom), Ruth McElroy (Bwrdd Cynnwys) a Dr Sian Phipps (Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau).

### Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori Pobl Hŷn ac Anabl

Mae Adran 16 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Panel Defnyddwyr. Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr, dinasyddion a microfusnesau mewn cyfathrebiadau. Mae'n rhoi cyngor cadarn ac annibynnol, ond sydd hefyd yn adeiladol ac yn ymarferol. Mae Ofcom yn rhannu gwybodaeth a syniadau â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn ystod y camau cynnar o ddatblygu polisi, er mwyn iddi allu rhoi cyngor i sicrhau bod llais defnyddwyr yn cael ei ystyried o'r cychwyn.

Mae'r Pwyllgor Cynghori Pobl Hŷn ac Anabl yn rhoi cyngor i Ofcom ar faterion sy'n ymwneud â'r sectorau cyfathrebiadau sy'n berthnasol i bobl hŷn a phobl anabl.

Er mwyn manteisio ar y synergedd rhwng Pwyllgor Cynghori Pobl Hŷn ac Anabl a Phanel Defnyddwyr Cyfathrebiadau Ofcom, ac er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu posib, pennwyd bod aelodau'n perthyn i'r naill gorff a'r llall yn ystod 2012. Ond, nid yw cylchoedd gwaith y cyrff wedi newid.

Mae'r Panel yn annibynnol ar Ofcom, ac mae'n cynnwys hyd at 12 o arbenigwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, sydd â phrofiad mewn amryw o wahanol feysydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.communicationsconsumerpanel.org.uk. Dyma Aelodau presennol y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori Pobl Hŷn ac Anabl: Rick Hill (Cadeirydd ac Aelod ar ran Gogledd Iwerddon), Kay Allen, Amanda Britain (Aelod ar ran yr Alban), Helen Froud, Clifford Harkness, Dr Sian Phipps (Aelod ar ran Cymru), Richard Spencer (Aelod ar ran Lloegr), Michael Wardlow a Rick Williams. Daeth cyfnod Dr David Holden i ben ar 28 Chwefror 2022. Rydym wrthi'n penodi Aelodau ychwanegol ar gyfer y Panel a'r Pwyllgor Cynghori Pobl Hŷn ac Anabl.


Cyfarfu'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori Pobl Hŷn ac Anabl yn ffurfiol 11 gwaith yn 2021/22.

**Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm**
Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn 2004 i roi cyngor annibynnol i Ofcom ar faterion strategol sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn: www.osab.org.uk

Aelodau'r Bwrdd yw Gavin Young (Cadeirydd), Greg Bensberg, Wassim Chourbaji, Yr Athro Mischa Dohler, Peter Hadinger, Alastair Macpherson, David Meyer, Niall Murphy, Robert Pepper, Peter Pitsch, Ros Singleton, Holly Creek (yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon) (Aelod ex officio) a Cristina Data (Aelod ex officio).

Cyfarfu'r Bwrdd hwn bedair gwaith yn 2021/22.


Roedd amrywiaeth ein haelodau anweithredol yn y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, a'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/y Pwyllgor Cynghori Pobl Hŷn ac Anabl ar ddiwedd y cyfnod adrodd fel a ganlyn:




Dyma amrywiaeth Bwrdd Ofcom ar 31 Mawrth 2022:

**Yr Uwch Dîm Rheoli**
Mae ein Huwch Dîm Rheoli yn cynnwys yr unigolion canlynol:

| Enw | Rôl |
|---|---|
| **Y Fonesig Melanie Dawes DCB** | Prif Weithredwr |
| **Luisa Affuso** | Prif Economegydd a Chyfarwyddwr Grŵp, Economeg |
| **Kevin Bakhurst** | Cyfarwyddwr Grŵp, Darlledu a Chynnwys Ar-lein |
| **Martin Ballantyne** | Cwnsler Cyffredinol a Chyfarwyddwr Grŵp, Cyfreithiol |
| **Lindsey Fussell** | Cyfarwyddwr Grŵp, Rhwydweithiau a Chyfathrebiadau |
| **Helen Hearn** | Cyfarwyddwr Grŵp Dros Dro, Sbectrwm |
| **Kerri-Ann O'Neill** | Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid |
| **Melissa Tatton CBE** | Prif Swyddog Gweithredol, Corfforaethol |
| **Yih-Choung Teh** | Cyfarwyddwr Grŵp, Strategaeth ac Ymchwil |
| **Sachin Jogia** | Prif Swyddog Technoleg |




Cyfrifir ystadegau amrywiaeth fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2022

**Y Bwrdd Rheoli Polisi**
Y Bwrdd Rheoli Polisi yw'r prif fforwm y mae'r Prif Weithredwr yn ei ddefnyddio i arfer yr awdurdod sydd wedi cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr gan Fwrdd Ofcom. Mae'r Bwrdd Rheoli Polisi yn goruchwylio'r broses o weithredu a rheoli Ofcom, yn ogystal â dyletswyddau rheoleiddio Ofcom.

Mae'r Prif Weithredwr yn cadeirio'r Bwrdd Rheoli Perfformiad, ac mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cyfarwyddwr Pobl, Gallu a Newid, a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae uwch swyddogion gweithredol eraill yn mynychu drwy wahoddiad.

Cyfarfu'r Bwrdd Rheoli Polisi 11 gwaith yn 2021/22.

## Atebolrwydd

O dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn gweddu i'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad Cyfrifon at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol, yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), ac ar sail gronnus. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofcom fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o'i hincwm a'i gwariant, ei henillion a'i cholledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Hefyd, anfonir Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ofcom at yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n gosod copïau ohono gerbron dau Dŷ'r Senedd Brydeinig ac yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw, sy'n datgelu'n gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cyfathrebiadau 2003. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r ffordd y mae Ofcom yn rheoli'r arian cyhoeddus y mae'n ei dderbyn, a'i pherthynas â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn y cyswllt hwn, yn cael eu disgrifio yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r datganiad cyfrifon ar sail busnes byw.

**Tryloywder**
Mae Ofcom yn parhau i adolygu ei chynllun cyhoeddiadau ac yn darparu ystod eang o wybodaeth sydd ar gael yn hwylus ar ei wefan. Lle bo modd, mae'r data mae Ofcom yn ei greu a'i gywain yn cael ei rannu â'r cyhoedd, gan ddilyn egwyddorion data agored. Mae data agored Ofcom ar gael ar un porth cyhoeddus ar wefan Ofcom ac ar y porth data.gov.uk, ochr yn ochr â setiau data gan holl adrannau'r llywodraeth ganolog a llawer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol.

Yn ystod 2021/22, roedd Ofcom wedi delio â / ymateb i 431 o geisiadau (541 o geisiadau yn 2020/21) am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Pan oedd gennym wybodaeth berthnasol, roeddem wedi darparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, neu ran ohoni, mewn 75% o achosion. Cedwir gwybodaeth yn ôl dim ond os yw wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu gan ddeddfwriaeth.

Yn ystod 2021/22, roedd Ofcom hefyd wedi cael 31 o Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (41 o geisiadau yn 2020/21). Pan oedd gan Ofcom wybodaeth berthnasol, fe ddarparwyd yr wybodaeth honno.

**Ymgysylltu**
Mae Ofcom yn ceisio ystyried safbwyntiau amrywiaeth eang o bartïon sydd â buddiant wrth wneud penderfyniadau polisi. Yn ogystal ag ymgysylltu â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau/Pwyllgor Cynghori Pobl Hŷn ac Anabl, y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol, mae Ofcom hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol eraill (gan gynnwys drwy gymryd rhan yn Rhwydwaith Rheoleiddwyr y

Deyrnas Unedig), Sefydliadau Ewropeaidd a chyrff byd-eang. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau a wneir mewn fforymau rhyngwladol yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig.

Mae ymgynghori hefyd yn rhan bwysig o broses Ofcom o wneud penderfyniadau. Mae'n rhoi cyfle i'r rheini y gallai mater penodol effeithio arnynt, neu sy'n pryderu am fater penodol, gyflwyno eu safbwyntiau i ni cyn y byddwn yn penderfynu sut byddwn yn gweithredu. O ganlyniad, bydd Ofcom yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ei holl brif flaenoriaethau strategol cyn gwneud penderfyniadau. Mae manylion am ymagwedd ymgynghori Ofcom, a'r ymgyngoriadau a gynhaliwyd yn ystod 2021/22, ar gael ar dudalennau 159-163 yn Adran A2.

**Trefniadau diogelwch ffisegol a phersonol**
Ym mis Chwefror 2022, israddiwyd lefel y bygythiad terfysgaeth yn y Deyrnas Unedig o'r lefel "Difrifol" (mae ymosodiad yn debygol iawn) i "Sylweddol" (mae ymosodiad yn debygol). Mae datganiad archwaeth risg Bwrdd Ofcom ar gyfer Iechyd a Diogelwch a Diogelwch Corfforol wedi newid o "Gwrth Risg" i "Minimol".

Cafodd y rhaglen ar gyfer rhoi gwelliannau diogelwch ffisegol ar waith ym mhob un o'n swyddfeydd ei chwblhau yn 2020. Mae asesiadau bygythiadau yn digwydd drwy'r amser gan ddefnyddio ymgynghoriaeth allanol ac archwilio mewnol. Mae hyn yn cynnal ymagwedd gyson a sefydlog at reoli diogelwch ffisegol. Mae proses ar gyfer asesu diogelwch personol "Risg yn ôl Rôl" wedi cael ei chwblhau ar draws holl Grwpiau Ofcom ac mae'r gwaith yn parhau i gofnodi'r rheolaethau lliniaru y gellir eu rhoi ar waith. Mae'r mesurau hyn yn cyd-fynd ag agwedd Bwrdd Ofcom at risg ar gyfer diogelwch ffisegol a phersonol.

**Cynllunio ar gyfer digwyddiadau andwyol/adfer ar ôl argyfwng/parhad busnes**
Mae gweithio o bell, yn unol â chanllawiau pandemig Llywodraeth y DU, wedi parhau dros y cyfnod adrodd. Roedd Ofcom yn gweithredu'n effeithiol heb fawr o effaith ar weithrediadau.

**Diogelu Gwybodaeth**
Mae rheoli risg diogelwch Gwybodaeth/Seiber yn broses barhaus sy'n cyd-fynd ag archwaeth risg Bwrdd Ofcom o "Gwrth Risg/Minimol". Mae diogelu systemau gwybodaeth Ofcom yn erbyn risgiau mewnol ac allanol yn dal yn flaenoriaeth. Mae ymdrechion gan bartïon allanol i dorri amddiffynfeydd diogelwch Ofcom yn parhau, ond llwyddwyd i ddelio â´r rhain, o ganlyniad i'r mesurau rheoli cadernid sydd ar waith. Gallai'r cyfrifoldebau newydd ar gyfer diogelwch ar-lein, llwyfannau rhannu fideos ac mewn perthynas â diogelwch rhwydwaith, ennyn diddordeb gwladwriaethau a hacwyr ymgyrchu yn y gwledydd a fyddai'n hoffi creu newid cymdeithasol, gwleidyddol neu ideolegol, ac rydym yn parhau i wella'r gwaith monitro i ganfod ymosodiadau neu wendidau posib. Mae'r profion wedi cynnwys defnyddio ymosodiadau potsian ffug i wella ymwybyddiaeth defnyddwyr a phrofiad treiddiad technegol yn erbyn y seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a ffisegol. Gallai cenedl-wladwriaeth ymosod ar ein systemau, ac felly rydym wedi cynyddu ein ffocws ar brofi a gwella ein gallu i adfer petai ymosodiad o'r fath yn digwydd.

Fe wnaethom ymchwilio i 49 achos o dorri rheolau diogelu data yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd angen rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am yr un ohonynt. O safbwynt llywodraethu, bu ail-ardystio llwyddiannus yn erbyn Cynllun Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol y Deyrnas Unedig (NCSC). Ym mis Mawrth 2021 cawsom ein hardystio i'r safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelu gwybodaeth (ISO27001).

**Polisi datgelu camarfer a llinell gymorth**
Ar ôl adolygu ein polisi mewnol ar chwythu'r chwiban, rydym wedi'i gwneud hi'n haws i gydweithwyr ddatgelu materion o dan y polisi, ac i symud ymlaen drwy'r broses. Rydym yn defnyddio llinell gymorth datgelu camarfer, a gynhelir ac a weinyddir yn allanol, sy'n caniatáu i gydweithwyr ddatgelu'n ddienw.

**Datgelu er lles y cyhoedd**
Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 yn rhoi amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwyr am ddatgelu gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn wybodaeth sydd er lles y cyhoedd. Mae Ofcom yn 'berson rhagnodedig' fel y'i diffinnir o dan Orchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014. Felly, gall unigolion sy'n gweithio y tu allan i Ofcom, ond yn y sector cyfathrebiadau, gysylltu ag Ofcom os oes ganddynt bryderon bod rhywbeth o'i le yn eu sefydliad eu hunain. Yn ystod 2021/22 derbyniodd Ofcom 10 ddatgeliad o dan Ddeddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998.

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

Fel y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'r Cyfarwyddwyr Grŵp yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Y fframwaith hwn yw sail gwaith y drefn archwilio mewnol a sylwadau a wneir gan archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd wedi parhau i adolygu ac i oruchwylio'n strategol y trefniadau rheolaeth fewnol a rheoli risg drwy adroddiadau rheolaidd gan Gyfarwyddwyr ar eu meysydd cyfrifoldeb, a drwy adroddiadau penodol i'w trafod gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ac yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ystyried:

- adroddiadau archwilio mewnol unigol, ymatebion rheolwyr a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yng nghyswllt unrhyw gamau a nodwyd;
- adroddiad blynyddol yr archwilydd mewnol a'i farn ar ddigonolrwydd ein system rheolaeth fewnol;
- adroddiadau ac argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- adroddiadau rheolaidd ar gofrestr risgiau strategol Ofcom, gan gynnwys pennu'r risgiau i system rheolaeth fewnol y sefydliad a gwybodaeth am y mesurau rheoli sydd wedi cael eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau hyn; ac
- unrhyw adroddiadau ychwanegol am sicrwydd y mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi gofyn amdanynt.

Rwy'n cadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwyf hefyd wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn bod yn ymwybodol o'r holl wybodaeth berthnasol, ac rwyf wedi cadarnhau bod yr archwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Rwy'n hyderus y bydd Ofcom yn parhau i weithredu fel sefydliad hyfyw a llwyddiannus sy'n cael ei reoli'n dda. Yn fy marn i, mae'r trefniadau llywodraethu sydd gennym ar waith yn gadarn ac yn ddigon i reoli'r gwaith o ehangu cylch gwaith Ofcom a'r risgiau y byddwn yn eu hwynebu yn y blynyddoedd i ddod.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg ac yn gytbwys.

**Y Fonesig Dame Melanie Dawes DCB**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu




15 Gorffennaf 2022

# ADRODDIAD CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i ganolbwyntio yn 2021/22 ar ein hadroddiadau risg, yn enwedig ar risgiau strategol y sefydliad. Rydym wedi cadarnhau bod ein targedau risg yn cael eu sgorio'n briodol, ac yn cyd-fynd â'n parodrwydd i dderbyn risg, ac rydym wedi gwerthuso'r mesurau lliniaru a'r camau gweithredu cysylltiedig. Mae hyn yn sicrhau bod Ofcom yn dal yn gadarn gyda rheolaethau cymesur ac effeithiol.

## Presenoldeb Aelodau yn ystod 2021/22

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn ystod 2021/22 wedi gwasanaethu am y cyfnodau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Angela Dean | 3 blynedd, 6 mis (fel Cadeirydd) |
| Maggie Carver | 3 blynedd, 4 mis |
| David Jones | 2 flynedd, 9 mis |

Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn 2021/22, gyda'r tri Aelod yn bresennol.

## Trosolwg

Ar ran y Bwrdd, mae'n bleser gennyf roi crynodeb o waith a chwmpas y Pwyllgor Archwilio a Risg ar gyfer y cyfnod ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol, ar ran Bwrdd Ofcom, am oruchwylio priodoldeb ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, llywodraethu risg, mesurau rheoli a systemau mewnol, a datganiadau ariannol Ofcom. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal y berthynas â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), archwilwyr allanol Ofcom, gan gynnwys adolygu eu ffioedd a hyd a lled eu harchwiliad o ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae hyn yn cynnwys eu hasesiad o risgiau camddatganiadau o bwys ac afreoleidd-dra o bwys, eu hannibyniaeth, eu hadnoddau ac effeithiolrwydd y broses archwilio. Yn 2021/22 bu'r Pwyllgor yn adolygu'n ofalus y cynnydd un-tro mewn ffioedd y mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei gynnig o ganlyniad i Ofcom yn rhoi system Gyllid newydd ar waith. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithio gyda darparwr archwilio mewnol Ofcom i sefydlu Cynllun Blynyddol i archwilio elfennau penodol o Ofcom, ac wedyn yn monitro cynnydd a chanlyniadau'r adolygiadau hynny.

Mae tri Aelod Anweithredol y Pwyllgor yn annibynnol ac ystyrir bod ganddynt y sgiliau a'r profiad perthnasol ar lefel uwch. Mae gan fwy nag un Aelod o'r Pwyllgor brofiad ariannol diweddar a pherthnasol, ac mae gan y Pwyllgor cyfan allu sy'n berthnasol i'r sector cyfathrebiadau y mae Ofcom yn gweithredu ynddo. Yn ogystal â'm profiad fel dadansoddwr ariannol, roeddwn yn Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, ac rwyf yn aelod o Bwyllgorau Archwilio Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Caerefrog ac Amgueddfa'r Post.

Mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiynau preifat bob blwyddyn gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, yn ogystal â'r darparwr archwilio mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Fel rhan o fy rôl i fel Cadeirydd y Pwyllgor, bûm yn cwrdd â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r darparwr archwilio mewnol yn rheolaidd yn ystod y cyfnod adrodd, heb fod Rheolwyr Ofcom yn bresennol. Gall y darparwr archwilio mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gysylltu â mi yn uniongyrchol os ydyn nhw'n dymuno codi unrhyw beth maen nhw'n teimlo na fyddai'n briodol ei godi'n uniongyrchol gyda Rheolwyr Ofcom.

## Gweithgareddau'r Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o dan gylch gorchwyl ffurfiol, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol a'i amlinellu yn Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Ofcom. Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor er mwyn:

- Adolygu agwedd Ofcom at risg, ac argymell hynny i'r Bwrdd. Hefyd, sicrhau bod gan Ofcom brosesau priodol ar waith i nodi'r prif Risgiau Strategol, gan gynnwys unrhyw risgiau gweithredol, ariannol a risgiau i enw da, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny;
- Monitro prosesau adrodd ariannol, gan gynnwys y broses adrodd ariannol a chyfrifyddu ar gyfer datganiadau ariannol Ofcom;
- Sicrhau bod fframwaith rheolaeth fewnol Ofcom, a'i systemau a'i bolisïau rheoli risg, yn effeithiol;
- Adolygu a monitro'r trefniadau chwythu'r chwiban, cynllunio parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb, trefniadau atal llwgrwobrwyo a thwyll, ac unrhyw wrthdaro sylweddol rhwng buddiannau ar draws Ofcom;
- Goruchwylio'r broses o benodi'r Archwilwyr Mewnol, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer tendro, ffioedd archwilio mewnol, effeithiolrwydd, gallu a pherfformiad Archwiliadau Mewnol;
- Adolygu annibyniaeth yr Archwilwyr Allanol, a chytuno ar natur a chwmpas yr archwiliad mewnol o ddatganiadau ariannol Ofcom.

Mae gwaith y Pwyllgor yn dilyn rhaglen waith flynyddol y cytunwyd arni, gyda'r Pwyllgor yn neilltuo ei amser yn 2020/21 fel hyn:

- Adrodd Ariannol a Materion Cysylltiedig
- Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol
- Llywodraethu a Rheoli Risg
- Internal Audit
- Archwilio Allanol
- Seiberddiogelwch a Diogelwch Personol, Ffisegol a TGChGoruchwylio'r Prosiect Newid Systemau Pobl a Chyllid
- Craffu ar y broses o ddyfarnu'r Contract Gwasanaethau TGCh
- Pethau eraill (ee, ymgyfreitha, llwgrwobrwyo a thwyll ac ati)

## Sut mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig yn cyfrannu at ein hymagwedd

Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i gyflawni ei gyfrifoldebau yn dryloyw ac yn onest. Yn ogystal ag Aelodau penodedig y Pwyllgor, mae gan y canlynol wahoddiadau parhaol i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor:

- Ofcom – Y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Rheolydd Ariannol, Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: cynrychiolwyr Tîm Archwilio Allanol Ofcom
- Cynrychiolwyr Archwilydd Mewnol Ofcom

**Datganiadau Ariannol a Pholisïau Cyfrifyddu**

Ar y cyd â Rheolwyr Ofcom a'r darparwr archwilio mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, adolygodd y Pwyllgor y Datganiadau Ariannol a'r dogfennau cysylltiedig i weld a oedd y rhain yn cynnwys camddatganiad o bwys, ac wedi cael eu paratoi yn unol â'r fframwaith perthnasol ar gyfer adrodd ariannol. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi herio penderfyniadau Rheolwyr Ofcom, a'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon a oedd yn sail i'r penderfyniadau hynny. Roedd y Pwyllgor yn rhoi pwyslais arbennig ar gyflwyniad teg a rhesymoldeb wrth benderfynu ar ffactorau a phriodoldeb y polisïau cyfrifyddu pwysig a ddefnyddiwyd i'w paratoi.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Pwyllgor yn ystyried y ffordd mae gwahanol asedau yn cael eu trin yng nghyfrifon y Grŵp, a'r rhagdybiaethau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd gyda'r canlyniadau, gan gynnwys yr asesiad a gynhaliwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

## Archwiliadau Manwl o'r Risg Strategol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn 2021/22

- Risg Seiber
- Diogelwch Ar-lein, Llwyfannau Rhannu Fideos a Chyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus
- Sganio'r Gorwel, Dealltwriaeth Fasnachol o'r Farchnad
- Diogelwch Rhwydweithiau – Parodrwydd ar gyfer Gofynion Diogelwch Telathrebu

**Y Fframwaith Risg a Rheolaeth, a Rheoli Risg**
Mae rheoli risg yn rhan bwysig o fframwaith rheolaeth fewnol Ofcom, ac mae'n cynnwys risgiau strategol a risgiau gweithredol mewn polisi rheoli risg, sy'n cael ei adolygu a'i gymeradwyo'n flynyddol gan y Pwyllgor a'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu. I sicrhau bod ein fframwaith rheoli risg yn effeithiol ac yn gydnaws â'n gofynion, mae adolygiad o'n fframwaith rheoli risg yn cael ei gynnal yn rheolaidd. Yn ystod 2021/22, bu'r Pwyllgor yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu Cofrestr Risgiau Strategol fwy penodol. Ym mis Mawrth 2022, cynhaliodd Bwrdd Ofcom adolygiad o Ddatganiadau Archwaeth Risg Ofcom. Mae Cofrestr Risgiau Strategol Ofcom yn cael ei hadolygu bob tri mis gan Fwrdd Rheoli a Pholisi Ofcom a gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a Bwrdd Ofcom. Yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Ofcom, rhoddir diweddariad ar lafar am y materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn ymchwilio'n ddwfn i risg strategol benodol ym mhob cyfarfod:

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gydweithio ag Uwch Reolwyr ynghylch unrhyw elfennau risg a nodwyd, ac mae'r Pwyllgor wedi adolygu'r mesurau rheoli a'r camau lliniaru. Mae'r lefel uchel o ymgysylltu a dealltwriaeth o risgiau strategol ar ran Uwch Reolwyr wedi calonogi'r Pwyllgor yn ystod 2021/22. Mae hyn wedi arwain at drafodaeth fwy effeithiol ac asesiad mwy realistig o risg.

Ar ddechrau'r pandemig, creodd Pennaeth Rheoli Risg ac Yswiriant Ofcom Gofrestr Risg benodol i COVID-19, ac mae diweddariadau rheolaidd wedi cael eu rhoi i'r Pwyllgor ar y camau mae Ofcom wedi eu cymryd i sicrhau gweithredu parhaus.

**Mesurau Rheoli Mewnol**
Caiff y cyfrifoldeb dros weithredu a monitro'r system rheolaeth fewnol ei dirprwyo gan Fwrdd Ofcom i unigolion a phwyllgorau penodol. Bu'r Pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol Ofcom, ac yn annog gwelliannau i'r systemau hynny er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol, pan fo'n briodol. Mae disgrifiad o system rheolaeth fewnol y sefydliad wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ar dudalennau 73-74.

Yn 2021/22 cynhaliodd y Pwyllgor ddau gyfarfod ar wahân gyda'r tîm Cyllid i asesu'r rhagdybiaethau a'r mesurau rheoli sydd wrth wraidd y broses o gynllunio'r gyllideb ac i sicrhau gwerth am arian.

Ar ben hynny, daw sicrwydd drwy waith timau arbenigol ar draws Ofcom, gan gynnwys y Pwyllgor Gwarchodaeth, y Grŵp Llywio Diogelu Data, y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a'r Grŵp Parhad Busnes.

**Cadernid Rhwydweithiau a Seiber**
Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod y dyletswyddau newydd ynghylch Diogelwch Ar-lein a Diogelwch Telathrebu wedi gwneud Ofcom yn darged mwy atyniadol i weithredwyr maleisus. Yn ystod 2021/22, bu'r Pwyllgor yn monitro gwaith y Grŵp Risg, TGCh a Thechnoleg i reoli risgiau seiber a chadernid rhwydweithiau. O ganlyniad i'r gwaith hwn, gwnaed argymhellion i gryfhau ymhellach brosesau TG, systemau eraill a chynlluniau ymateb Ofcom. Bydd camau pellach yn cael eu cymryd yn yr elfen hon yn ystod 2022/23, a bydd y Pwyllgor yn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch y cynnydd.

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi adolygu diogelwch ffisegol a phersonol yn Ofcom – gan ganolbwyntio ar gynllun gwaith cynhwysfawr i'n gwneud ni yn fwy diogel a sicrhau bod y sefydliad yn cyd-fynd â gofynion ISO27001, safon Diogelu Gwybodaeth yr ydym eisoes wedi llwyddo i gael ardystiad ar ei chyfer yn yr elfen hon.

**Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol a Phwyslais Adolygiadau yn 2021/22**
O ystyried yr heriau parhaus a ddaeth yn sgil y pandemig, a'r pwysau mae wedi'i roi ar Ofcom, roedd y darparwr archwilio mewnol wedi parhau i gyflwyno'r Cynllun Archwilio Mewnol bob chwe mis i gefnogi dull gweithredu mwy ystwyth. Cytunodd y Pwyllgor a'r darparwr archwilio mewnol ar y Cynllun Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer hanner cyntaf 2021/22 ar 11 Mai 2021, ac ar gyfer ail hanner 2021/22 ar 6 Hydref 2021.

Yn ystod 2021/22 cynhaliodd ein darparwyr archwilio mewnol, yr Uwch Reolwyr a'r Pwyllgor raglen helaeth i fapio ein sefyllfa archwilio o ran ein Cofrestr Risgiau a'n blaenoriaethau strategol, a'n gweithgareddau sicrwydd ers 2014/15. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn i dynnu sylw at feysydd lle mae'r ddarpariaeth archwilio mewnol yn gyfyngedig, ac i helpu i bennu ein cynllun archwilio mewnol.

## Meysydd Archwilio Mewnol y rhoddwyd sylw iddynt yn ystod 2021/22

- Seiberddiogelwch
- Rheoli Prosiect Newid Systemau Pobl a Chyllid
- Gweithredu'r System Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau
- Prosiect Newid Systemau Pobl a Chyllid: Rheolaethau
- Llywodraethu Corfforaethol
- Trwyddedu Sbectrwm
- Rheolaeth Ariannol.
- Trwyddedu Sbectrwm.
- Rheolaeth Ariannol.

Roedd yr adolygiadau a gynhaliwyd fel rhan o'r Archwiliadau Mewnol yn cynnwys rhaglen waith yn seiliedig ar risg ar draws ystod o elfennau rheoli allweddol – roedd y rheolwyr wedi cytuno ar y rhaglen, ac roedd wedi cael sêl bendith y Pwyllgor. Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol gan y darparwr archwilio mewnol ar gynnydd ei archwiliadau, ymateb Rheolwyr Ofcom i'r canfyddiadau (lle bo'n briodol) a'r cynnydd a wnaed i roi sylw i unrhyw faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliadau.

**Elfennau eraill i'w hadolygu**
Mae Polisïau Ofcom ar Ddatgelu Camarfer, Atal Llwgrwobrwyo a Thwyll yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor ym mis Rhagfyr bob blwyddyn. Mae'r polisi Datgelu Camarfer yn rhoi sylw i'r holl faterion sy'n angenrheidiol o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998. Mae'r polisi hwn wedi cael ei gyfleu i'r holl gydweithwyr er mwyn eu hatgoffa y gallant godi materion yn ddienw gyda darparwr llinell gymorth chwythu'r chwiban Ofcom. Er bod nifer o achosion wedi cael eu cyfeirio drwy'r llinell gymorth datgelu camarfer allanol yn 2021/22, nid oedd unrhyw un o'r rhain yn ymwneud â chamymarfer fel y mae'n cael ei ddiffinio o dan Bolisi Datgelu Camarfer Ofcom.

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau hefyd ar Fframwaith Awdurdodau Ariannol Ofcom (cyn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd ar newidiadau i'r Fframwaith), polisïau cyfrifyddu Ofcom, gwrth-dwyll a gwrth-lwgrwobrwyo, gwrthdaro sylweddol rhwng buddiannau a chydymffurfio â'r ddeddf diogelu data. Cynhaliwyd adolygiad blynyddol o Gynllun Parhad Busnes, Adfer ar ôl Trychineb a Rheoli Argyfwng Ofcom, gyda'r Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo Polisi Cadernid newydd Ofcom ym mis Rhagfyr 2021.

**Adrodd i'r Bwrdd**
Fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, rwyf yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd ar y materion allweddol a drafodir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi dangos diddordeb arbennig yn risg strategol Seiberddiogelwch Ofcom a'r ffordd y byddai unrhyw ymosodiad seiber posibl yn cael ei reoli. Mewn ymateb i hyn, trefnwyd sesiwn ddysgu ar gyfer y Bwrdd ar barhad busnes a rheoli digwyddiadau mawr, gan gyfeirio'n benodol at faterion seiberddiogelwch posib.

Roedd y Pwyllgor wedi adolygu a diweddaru ei gylch gorchwyl yn 2021, gan argymell y rhain i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

**Perfformiad ac Effeithiolrwydd y Pwyllgor**
Cynhaliwyd adolygiad wedi ei hwyluso'n allanol o berfformiad ac effeithiolrwydd y Pwyllgor fel rhan o Adolygiad Gwerthuso'r Bwrdd. Roedd y canlyniad yn gadarnhaol iawn, gydag effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael sgôr uchel gan Aelodau ac, yn benodol, gwaith goruchwylio a herio trylwyr y Pwyllgor a oedd yn cael ei ystyried yn addas i anghenion Ofcom. Un o'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd oedd parhau i fonitro adborth yr Archwiliad Mewnol.

**Angela Dean**
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg



27 Mehefin 2022

# EIN GWEITHWYR

Mae Ofcom yn tyfu, wrth i ni ysgwyddo dyletswyddau a rheoliadau newydd sy'n gysylltiedig â diogelwch telathrebu a diogelwch ar-lein, ac mae angen i ni drawsnewid ein galluoedd ar gyfer y dyfodol.

Mae ymuno â ni yn gyfle cyffrous i ddatblygu sgiliau a llwybrau gyrfa newydd. Mae ein rhaglen fewnol o newid, Un Ofcom, yn ein helpu i gydlynu hyn yn effeithiol ac i fanteisio i'r eithaf ar ein twf.

Rydym yn gwneud cynnydd o ran meithrin arbenigedd mewn marchnadoedd digidol, technolegau datblygol a rhai ar-lein a dadansoddi data, yn ogystal â thechnegau datblygedig fel dylunio algorithmig, dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial. Rydym hefyd eisiau sicrhau bod ein pobl yn dal i gael profiad cadarn yn y byd masnachol ac mewn diwydiant i sicrhau rheoleiddio effeithiol. Fel rhan o'n strategaeth ehangach i ddod yn sefydliad mwy amrywiol, rydym yn recriwtio pobl o bob cwr o'r Deyrnas Unedig.

Roeddem wedi agor swyddfa newydd ym Manceinion yn ystod hydref 2021. Mae'r swyddfa'n ehangu, ac yn ganolfan ar gyfer ein gwaith ar ddiogelwch rhwydweithiau telegyfathrebiadau a diogelwch ar-lein.

Wrth i ni ddatblygu, rydym hefyd yn moderneiddio ein systemau Pobl a Chyllid i roi mwy o gefnogaeth i'r staff. Gyda meddalwedd newydd, Workday, mae'r staff bellach mewn gwell sefyllfa i reoli elfennau gweinyddol y broses o reoli pobl, eu data a'u gwybodaeth bersonol eu hunain a'u tasgau ariannol, yn ogystal â'u gweithgareddau recriwtio. Mae cael yr wybodaeth a'r data diweddaraf ar flaen ein bysedd yn golygu y gallwn gael gafael ar wybodaeth hanfodol yn gyflymach, sy'n ein galluogi i wneud penderfyniadau'n gyflymach.

## Amrywiaeth, cynhwysiad a llesiant

Mae ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad yn adlewyrchu ein huchelgais i werthfawrogi sgiliau a chyfraniadau pob aelod o gymdeithas, gan roi cyfleoedd i bobl o bob nodwedd a chefndir lwyddo yn eu gyrfa yn Ofcom.

Mae'r strategaeth yn amlinellu ein cynlluniau i greu:

- gweithlu amrywiol
- diwylliant cynhwysol
- prosesau, systemau a pholisïau teg
- cydweithwyr sy'n cymryd cyfrifoldeb personol dros amrywiaeth a chynhwysiad
- arweinwyr sy'n dangos esiampl
- cysylltiadau cryfach â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu

Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar ein pum gwerth, sef rhagoriaeth, cydweithio, ystwythder, grymuso a pharch.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, rydym wedi trawsnewid ein dull recriwtio i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i amrywio ein sefydliad wrth i ni dyfu. Rydym wedi ffurfio partneriaeth â recriwtiwr sy'n darparu gwybodaeth gyfredol am ein canlyniadau recriwtio o ran amrywiaeth, ac sy'n cynorthwyo ein rheolwyr penodi. I sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar gyflawni ein targedau gweithlu ar gyfer 2026 (gweler tabl A) roeddem wedi gosod targedau o un pwynt canran o gynnydd o leiaf ar gyfer pob un ohonynt ym mlwyddyn gyntaf ein strategaeth. Rydym wedi cyrraedd pob un ohonynt: 45% ar gyfer menywod mewn swyddi uwch (o fan cychwyn o 44%); 13% ar gyfer lleiafrifoedd ethnig mewn swyddi uwch (o 11%), ac 13% ar gyfer pobl anabl ar draws Ofcom (o 12%).

Roeddem hefyd wedi cynnal adolygiad llawn o'n ymagwedd rheoli perfformiad a'i lansio ym mis Mawrth 2022. Cafodd strwythur rheoli symlach, a buddsoddiad sylweddol i greu swyddi Rheolwr Perfformiad a Gyrfaoedd newydd, eu lansio ym mis Mawrth 2022. Bydd yn cryfhau gallu arweinyddiaeth o safon ac yn ein helpu i ddatblygu, cadw a denu'r doniau sydd eu hangen arnom i gyflawni ein cyfrifoldebau. Bydd ein Rheolwyr Perfformiad a Gyrfaoedd yn cael cefnogaeth gan raglen ddysgu a datblygu gynhwysfawr drwy gydol 2022/23. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi ailwampio ein hymagwedd at wobrwyo.

Rydym yn ceisio meithrin diwylliant lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu bod yn nhw eu hunain yn y gwaith. Nid yw hyn yn golygu ein bod ni'n cytuno â'n gilydd bob tro. Mae'n golygu ein bod yn gwrando ar ein gilydd, yn chwilio am her ac yn cynnig her, ac yn trin ein gilydd â phroffesiynoldeb, parch a charedigrwydd. Rydym yn mesur cynhwysiant drwy Fynegai Cynhwysiad, a llesiant drwy arolygon llesiant misol. Mae'r canlyniadau hyn yn cael eu rhannu ag uwch arweinwyr i siapio diwylliant a gweithle Ofcom.

## Cymorth ar gyfer llesiant

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, roeddem wedi buddsoddi mwy o adnoddau ac wedi cynyddu ein buddsoddiad drwy ein rhaglen llesiant Thrive@Ofcom. Roeddem wedi sefydlu negeseuon atgoffa rheolaidd am systemau cymorth fel y Gwasanaeth Cymorth i Weithwyr, sydd ar gael 24 awr y dydd; gwasanaeth meddygon teulu ar-lein, sydd ar gael 365 diwrnod y flwyddyn; gwasanaeth meddygol preifat sy'n darparu mynediad at gwnselwyr a therapyddion hyfforddedig; ac ap Headspace, sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth ofalgar a myfyrio, sydd ar gael i bawb. Roeddem wedi cynyddu nifer y swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig ar gyfer iechyd meddwl sydd ar gael, i 95 o swyddogion, ac wedi parhau i ddarparu gwybodaeth ac awgrymiadau ar sut i reoli iechyd corfforol a lles meddyliol.

## Monitro ac adrodd

Rydym yn monitro ein polisïau, ein harferion a'n prosesau drwy ddadansoddi data ac adroddiadau mewnol, ac arolygon blynyddol a chyson o gydweithwyr. Rydym hefyd yn ymgynghori â rhwydweithiau cydweithwyr, undeb Prospect a'n fforwm cydweithwyr etholedig. Rydym yn darparu meincnodau allanol ar amrywiaeth a chynhwysiad, ac adroddiad rheolaidd ar y bwlch cyflog ac archwiliad cyflog cyfartal.

Yn 2021, cawsom ein cydnabod ymysg y 50 Cyflogwr Gorau ar gyfer Menywod gan The Times. Roeddem wedi llwyddo i gyrraedd safle 86 ym Mynegai'r Sefydliad Symudedd Cymdeithasol yn yr hydref, gan godi dros 19 safle. Roeddem wedi camu'n ôl o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall, ond wedi aros yn rhan o'i Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle, ac rydym yn dal i gyrraedd lefel uchel. Rydym yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd (Lefel 2), ac mae gennym achrediad Hyder mewn Gofal (Lefel 2).

Yn ystod gwanwyn a haf 2021 cyhoeddwyd ein bylchau cyflog o ran rhyw, ethnigrwydd ac anabledd ar gyfer 2020 a 2021. Roedd y dadansoddiad cyflog yn dangos bod ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi ehangu ychydig o ran y cymedr (i 10.9%), ac wedi aros yn gymharol gyson o ran y canolrif (o 12.1% i 12.3%). Yn yr ail flwyddyn o adolygu ein cyflogau anabledd, mae'r data'n dangos bod bylchau'r cyflogau cymedrig a chanolrifol wedi cynyddu. Ar gyfer ethnigrwydd, gostyngodd y bwlch cyflog ar gyfer y cymedr a'r canolrif. Rydym wedi cynyddu ein niferoedd yn y chwartel tâl canol ac uchaf, ond wrth i'n sefydliad gynyddu rydym hefyd wedi cynyddu ein cynrychiolaeth yn ein chwartel tâl isaf wrth i ni gyflogi mwy o raddedigion a phrentisiaid a chydweithwyr gweinyddol yn ein swyddogaethau corfforaethol. Bydd ein targedau newydd ar gyfer y gweithlu, yn enwedig o ran cynyddu'r gynrychiolaeth uwch ar gyfer rhyw, ethnigrwydd ac anabledd ar draws y sefydliad, yn ein helpu gyda'n nod i leihau ein bylchau cyflog.

Bydd ein diweddariad cynnydd cyntaf ar ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022, ynghyd â'n ffigurau ar gyfer y bwlch cyflog yn 2022.

**Tabl A: Targedau amrywiaeth**

| | Man cychwyn (Mawrth 2021) | Targed ar gyfer y flwyddyn gyntaf | Y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf (Mawrth 2022) | Uchelgais derfynol Mawrth 2026 |
|---|---|---|---|---|
| Rhywedd ar lefelau uwch | 44% | 45% | 45% (wedi cyrraedd y targed) | cytbwys |
| Cynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig ar lefelau uwch | 11% | 12% | 13% (wedi rhagori ar y targed) | 16% |
| Cynrychiolaeth o bobl anabl ar draws Ofcom | 12% | 12% | 13% | 15% |

Sail: Pob cydweithiwr ar ddiwedd Mawrth 2021. Mae rhyw yn golygu rhyw cyfreithiol.

Lefelau uwch = Prif ac uwch reolwyr ac arbenigwyr (SMS)

## Ymgynghori â chydweithwyr a'u cynnwys

Mae cydweithwyr Ofcom yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod gan y sefydliad safbwyntiau amrywiol yn ei waith a'i ffordd o weithredu yn y gweithle. Mae ein hymagweddau ffurfiol ac anffurfiol arferol at hysbysu ac ymgynghori â chydweithwyr yn cynnwys:

- fforwm Cydweithwyr Ofcom, sef fforwm gwybodaeth ac ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr etholedig o blith cydweithwyr ar draws Ofcom, sy'n cwrdd yn rheolaidd gyda'r uwch reolwyr yng nghyfarfodydd y Grŵp Ymgynghori ar y Cyd (sy'n cynnwys aelodau o undeb Prospect)
- arolygon cydweithwyr, sy'n gwahodd cydweithwyr i rannu eu safbwyntiau'n ddienw ar amrywiaeth eang o bynciau ac sydd â chysylltiad uniongyrchol â'n strategaeth amrywiaeth a chynhwysiad. Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn rhoi sylfaen i waith a datblygiad ein sefydliad
- ein rhwydweithiau amrywiaeth cydweithwyr, ac mae gennym wyth ohonynt sy'n ymwneud â nifer o faterion a chymunedau
- fforymau agored gyda'r Prif Weithredwr a'r uwch dîm rheoli
- mewnrwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr ym mhob un o swyddfeydd Ofcom
- cyfarfodydd grŵp rheolaidd, i siarad â chydweithwyr, ac i glywed ganddynt.

## Polisïau a phrosesau cyflogaeth

Yn Ofcom, rydym ni'n credu y dylai arweinwyr a chydweithwyr weithio gyda'i gilydd i greu amgylchedd gwaith cynhwysol a grymusol. I gefnogi hyn, rydym wedi sefydlu polisïau sy'n gwneud Ofcom yn gyflogwr croesawgar, hyblyg ac ystyriol o deuluoedd. Mae ein prosesau a'n polisïau pobl yn cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion y gyfraith cyflogaeth, ac yn adlewyrchu arferion gorau a'n gwerthoedd.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n ystyriol o deuluoedd. I gefnogi hyn, rydym wedi cyflwyno polisi colli beichiogrwydd, absenoldeb â thâl ar gyfer gofal newyddenedigol o un wythnos i hyd at 16 wythnos i rieni newydd y mae angen gofal newyddenedigol ar eu babi ar ôl yr enedigaeth. Rydym hefyd wedi dyblu ein habsenoldeb tadolaeth â thâl o bedair wythnos i wyth wythnos, gan ychwanegu at ein hystod eang o bolisïau teulu, gan gynnwys cymorth mabwysiadu a benthyg croth, absenoldeb triniaeth ffrwythlondeb, a pholisïau gofalwyr a cholli beichiogrwydd. Er mwyn cefnogi llesiant cyffredinol ein cydweithwyr a'u teuluoedd, mae Ofcom wedi ffurfio partneriaeth â Parent Cloud Hub, sy'n darparu cymorth i rieni sy'n ailgychwyn gweithio.

## Absenoldeb

Ein nod yw trin pobl sy'n sâl yn deg a gyda thosturi gan roi cefnogaeth iddynt, lle bo modd, i'w galluogi i wella, i gryfhau ac i fynychu'r gwaith yn rheolaidd. Yn ystod 2021/22, gyda Covid-19 yn gefndir i'r cyfan, nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd oedd 4.6 diwrnod y flwyddyn fesul gweithiwr (2020/21 = 3.1 diwrnod) yn Ofcom. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd yn y sector cyhoeddus, sef 6.6 diwrnod y flwyddyn yn 2021.

## Trefniadau oddi ar y gyflogres

Yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a'r arweiniad ar gyfer y System Gwariant Cyhoeddus gan Drysorlys EM, rydym wedi datgelu pob ymrwymiad oddi ar y gyflogres ym mlwyddyn ariannol 2021/22 i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

# ADRODDIAD TALIADAU

**Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi i gydymffurfio cymaint ag y bo modd ac i'r graddau sy'n briodol ag Atodlen 8 Rheoliadau'r Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, er nad oes yn rhaid i Ofcom gydymffurfio â'r rheoliadau.**

Mae ymagwedd y Bwrdd yn seiliedig ar egwyddorion penodol a nodir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig, ac mae'n diwallu gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth y DU, dim ond lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol.

## Cyfansoddiad y Pwyllgor Pobl

Mae'r Pwyllgor Pobl yn cynnwys holl aelodau anweithredol Bwrdd Ofcom, fel y pennir gan Fwrdd Ofcom, ac mae'r manylion wedi'u nodi ar dudalen 87.

Byddai'r Pwyllgor hefyd fel arfer yn disgwyl i'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr Pobl a Thrawsnewid ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth fynychu cyfarfodydd. Pan fo angen a phan fo'n briodol, bydd y Pwyllgor Pobl hefyd yn cael cyngor a/neu wasanaethau gan gydweithwyr yn Ofcom neu gan sefydliadau allanol arbenigol. Ni fydd yr un unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

## Polisi Taliadau

Wrth bennu polisi taliadau Ofcom, cred y Pwyllgor Pobl y dylai Ofcom, gan ystyried ei bod yn gorff cyhoeddus, gynnig fframwaith gwobrau sefydlog a fydd yn denu ac yn cadw pobl o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei blaenoriaethau strategol ac i gyflawni ei chyfrifoldebau a'i chylch gwaith statudol.

## Elfennau tâl

Mae prif elfennau tâl yr Uwch Dîm Rheoli yn cyd-fynd â'n dull o ymdrin â thâl pob cydweithiwr, sy'n cynnwys cyflog sylfaenol, cynllun pensiwn a'r cyfraniadau wedi'u diffinio ar gyfer pob cydweithiwr ac amrywiaeth o fuddion hyblyg sy'n cynnwys yswiriant bywyd, yswiriant incwm grŵp, yswiriant meddygol preifat ac archwiliad iechyd blynyddol fel elfennau safonol.

1 **Cyflog Sylfaenol**

2 **Buddion hyblyg**
- Yswiriant Meddygol Preifat
- Yswiriant bywyd
- Amddiffyniad incwm grŵp
- Archwiliad iechyd blynyddol

3 **Cynllun Bonws Blynyddol**

4 **Pensiwn**
- Cynllun cyfraniad wedi ei ddiffinio i holl staff
- Lwfans pensiwn, % o'r cyflog sylfaenol

**Cyflog Sylfaenol**
Pennir cyflog sylfaenol pob gweithiwr drwy ystyried cyfrifoldebau, perfformiad a phrofiad pob cydweithiwr, ynghyd â dadansoddiad meincnodi o dueddiadau'r farchnad berthnasol. Caiff pob cyflog sylfaenol ei ystyried yn flynyddol, a daw unrhyw newid i rym ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn. Rydym yn cynnal archwiliad cyflog cyfartal blynyddol o ran rhyw, ethnigrwydd ac anabledd.

**Buddion Hyblyg**
Mae Ofcom yn cynnig lwfans buddion hyblyg i gydweithwyr ar sail eu graddfa. At ddibenion y tablau taliadau, dim ond gwerth yswiriant Meddygol Preifat sydd wedi'i gynnwys. Nid yw cyfanswm gwerth yr amddiffyniad incwm grŵp, yr yswiriant bywyd na'r archwiliadau iechyd blynyddol yn cael eu datgelu o dan fuddion o fath arall gan nad yw Cyllid a Thollau EM yn eu trin fel enillion trethadwy

**Cynllun Bonws Blynyddol**
Nid yw Ofcom yn darparu cynllun cymhelliant tymor hir ar gyfer ei weithwyr o gwbl. Ystyrir pob cydweithiwr o dan gylch gwaith cynllun bonws perfformiad blynyddol dewisol. Yn 2021/22 ni chafodd taliadau bonws eu talu i gydweithwyr o dan y cynllun oherwydd y pandemig COVID, a chafodd yr arbedion a ddeilliodd o hynny eu trosglwyddo'n ôl i'n rhanddeiliaid drwy daliadau is. Ar gyfer 2022/23 rydym wedi diwygio ein strwythur bonws blynyddol, gan leihau'r swm sydd ar gael i'w ddosbarthu o 2.5% i 2.1% o'n bil cyflogau. Mae pob dyfarniad yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Pobl. Bydd cydweithwyr cymwys yn cael dyfarniad fel swm penodol fesul gradd. Ni fydd cydweithwyr yn gymwys os ydynt yn mynd drwy broses gwella perfformiad, neu gosb ddisgyblu weithredol.

**Pensiwn**
Mae Ofcom yn cynnig pensiwn cyfranddeiliaid (cyfraniad wedi ei ddiffinio) i bawb. Mae holl gydweithwyr Ofcom yn cael lwfans pensiwn, sy'n cael ei bennu fel % o'r cyflog sylfaenol. Gellir buddsoddi hyn mewn un o ddau gynllun pensiwn – y Brif Ymddiriedolaeth a'r Cynllun Pensiwn Grŵp, sy'n caniatáu i unrhyw ddidyniadau gael eu gwneud drwy ildio cyflog, neu eu cymryd fel cyflog ychwanegol. Ni chafodd yr un Aelod Anweithredol cyfredol fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw.

## Datgeliad cyflog teg

Mae Ofcom yn credu mewn Cyflog Teg. Rydym yn cadw golwg ar hyn drwy fonitro cymhareb cyflog teg, sy'n cymharu'r unigolyn â'r cyflog uchaf yn y sefydliad a thâl canolrif gweddill y sefydliad. Mae'r data'n cael ei gyfrifo a'i gyflwyno yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Er mwyn gallu cymharu, defnyddir y ffigur taliadau fel y mae ar 31 Mawrth bob blwyddyn ac mae'n cynnwys cyflog sylfaenol, tâl perfformiad, lwfans buddion hyblyg a buddion trethadwy o fath arall.

**Nodir isod ddata'r datgeliad cyflog teg archwiliedig diweddaraf:**

| | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl yr unigolyn sy'n cael y tâl uchaf (£000) | 330-335 | 330-335 | 330-335 | 390-395 |
| Tâl canolrif (£) | 56,665 | 58,439 | 59,031 | 57,548 |
| Cymhareb tâl | 5.88 | 5.69 | 5.64 | 6.80 |

Bu cynnydd bach yn y gymhareb tâl ers y llynedd oherwydd gostyngiad yn y tâl canolrif. Recriwtio cyfran uwch o gydweithwyr o chwarteli tâl is sy'n gyfrifol am hynny.

Nid yw'r tâl canolrif yn cynnwys yr unigolyn sy'n cael y tâl uchaf ac mae'n seiliedig ar dâl blynyddol cyfwerth ag amser llawn fel y mae ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Y Prif Weithredwr oedd yr unigolyn â'r cyflog uchaf ar 31 Mawrth 2022. Ar y dyddiad hwn, roedd y tâl yn amrywio o £18,272 i £332,920 (ystod 2020/21: £18,272 i £332,663).

Y newid canrannol cyfartalog o'r flwyddyn arian flaenorol o ran gweithwyr yr endid wedi'i ystyried yn gyffredinol yw -1.86%. Y rheswm dros hyn yw recriwtio mwy o weithwyr yn y cwarteli is yn ogystal â pheidio â chynnig codiad cyflog na bonws.

| Blwyddyn | Cymhareb tâl y 25ain canradd | Cymhareb tâl canolrif | Cymhareb tâl y 75ain canradd |
|---|---|---|---|
| 2021/22 | 8.25 | 5.88 | 4.08 |

## Tablau taliadau

Mae manylion y taliadau a dderbyniodd aelodau'r Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Uwch Dîm Rheoli wedi eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, ac maent wedi eu nodi yn y tablau a'r nodiadau a ganlyn.

Mae'r tablau'n adlewyrchu'r taliadau am y rhan o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n aelodau parhaol o'r Bwrdd neu'r Bwrdd Cynnwys yn unig, neu'n aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli.

Roedd yr unigolion hynny sydd â '+' wrth eu henw yn eu rolau am ran yn unig o flwyddyn ariannol 2021/22 neu 2020/2021.

Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd neu Bwyllgor (fel y nodir ar dudalen 78-80) dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y tablau taliadau.

Ni chafodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys unrhyw dâl ychwanegol y tu hwnt i'w ffioedd. Mae Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom hefyd yn cael offer TG os oes angen.

**Tabl 1: Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom:**

| Enw | Cyfeirnod y nodyn arweiniad | Ffioedd 2021/22 £ | Ffioedd 2020/21 £ |
|---|---|---|---|
| Karen Baxter + | 1,2 | 616 | – |
| Maggie Carver + | 1,2 | 120,000 | 82,500 |
| Angela Dean | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Bob Downes | 1 | 42,519 | 42,519 |
| David Jones | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Graham Mather | 1 | 42,519 | 42,519 |
| Tim Suter + | 1,2 | 7,087 | 42,519 |
| Ben Verwaayen | 1 | 42,519 | 42,519 |
| **Cyfanswm** | | **340,298** | **337,614** |

**Nodyn Arweiniad 1:**
Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am gyfnod llawn eu penodiad.

Mae'r ffioedd a ddangosir yn Nhabl 1 yn cynrychioli'r swm a dalwyd yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu. Mae'r ffi ar gyfer Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd) wedi aros ar £42,519 y flwyddyn ers 1 Ebrill 2008.

**Nodyn arweiniad 2:**
Gadawodd Terry Burns (yr Arglwydd Burns) swydd Cadeirydd Ofcom ar 31 Rhagfyr 2020. Penodwyd Maggie Carver yn Gadeirydd Dros Dro ym mis Ionawr 2021, a chafodd ffioedd o £120,000 y flwyddyn ar sail 3 diwrnod yr wythnos. Cyn hyn, £70,000 oedd ffioedd blwyddyn lawn ei rôl fel Dirprwy Gadeirydd.

Cafodd Michael Grade (yr Arglwydd Grade o Yarmouth) ei benodi gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel Cadeirydd newydd Ofcom, a dechreuodd ar ei swydd ar 1 Mai 2022.

Ymunodd Karen Baxter fel Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ym mis Mawrth 2022, ac roedd Tim Suter wedi camu i lawr a gadael Ofcom ym mis Mai 2021.

**Tabl 2: Taliadau Aelodau Anweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom:**

| Enw | Cyfeirnod y nodyn arweiniad | Ffioedd 2021/22 £ | Ffioedd 2020/21 £ |
|---|---|---|---|
| Dekan Apajee + | 3 | 16,800 | 7,000 |
| Jonathan Baker | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Rachel Coldicutt + | 3 | 16,800 | 7,000 |
| Maggie Cunningham | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Aled Eirug + | 3 | 11,200 | 16,800 |
| Robin Foster + | 3 | 12,600 | 16,800 |
| Angelina Fusco + | 3 | 2,800 | 16,800 |
| Anna-Sophie Harling + | 3 | 5,600 | 7,000 |
| Peter Horrocks + | 3 | 16,800 | 7,000 |
| Tobin Ireland | 3 | 16,800 | 7,000 |
| Ruth McElroy + | 3 | 1,400 | – |
| Sophie Morgan + | 3 | 9,800 | 16,800 |
| Stephen Nuttall | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Monisha Shah | 3 | 16,800 | 16,800 |
| Kim Shillinglaw + | 3 | 16,800 | 7,000 |
| Janey Walker + | 3 | 2,013 | 24,150 |
| **Cyfanswm** | | **196,613** | **200,550** |

**Nodyn Arweiniad 3:**
Ofcom sy'n pennu ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys.

Y ffi sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Cynnwys yw £16,800 y flwyddyn.

Mae'r gwerthoedd a ddangosir yn cynrychioli'r swm blwyddyn lawn a dalwyd neu, os yw'n briodol, rhan o'r flwyddyn, pan ymunodd yr Aelod Anweithredol â'r Bwrdd Cynnwys.

**Tabl 3: Taliadau Aelodau Gweithredol Bwrdd Ofcom:**

| Enw | Cyfeirnod y nodyn arweiniad | Misoedd y cyfnod adrodd pan oedd yr aelod wedi'i gyflogi yn yr Uwch Dîm Rheoli | Cyfanswm y cyflog a dalwyd £ | Hawl / lwfans pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws perfformiad blynyddol £ | 2021/22 Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ | 2020/21 Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Melanie Dawes | 4 | 12 | 315,000 | 63,000 | 15,000 | 2,727 | – | 395,727 | 395,663 |
| Kevin Bakhurst | 4 | 12 | 248,300 | 37,245 | 15,000 | 2,727 | – | 303,272 | 301,109 |
| Lindsey Fussell | 4 | 12 | 248,300 | 37,245 | 15,000 | 2,727 | – | 303,272 | 300,132 |

**Tabl 4: Taliadau Aelodau Gweithredol Bwrdd Cynnwys Ofcom:**

| Enw | Cyfeirnod y Nodyn Arweiniad | Misoedd y cyfnod adrodd pan oedd yr aelod wedi ei gyflogi | Cyfanswm y cyflog a dalwyd (cyfwerth â blwyddyn lawn mewn cromfachau lle gweithiwyd am ran o'r flwyddyn) £ | Hawl / lwfans pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws perfformiad blynyddol £ | 2021/22 Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ | 2020/21 Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Alison Marsden +[1] | 4 | 12 | 140,453 (150,000) | 22,500 | 14,093 | 2,727 | - | 179,773 | 154,126 |

**Tabl 5: Taliadau'r Uwch Dîm Rheoli:**

| Enw | Cyfeirnod y Nodyn Arweiniad | Misoedd y cyfnod adrodd pan oedd yr aelod wedi ei gyflogi | Cyfanswm y cyflog a dalwyd (cyfwerth â blwyddyn lawn mewn cromfachau lle gweithiwyd am ran o'r flwyddyn) £ | Hawl / lwfans pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws perfformiad blynyddol £ | 2021/22 Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ | 2020/21 Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Luisa Affuso | 4 | 12 | 232,750 | 34,912 | 15,000 | 2,727 | – | 285,389 | 283,528 |
| Martin Ballantyne + | 4 | 12 | 225,000 | 33,750 | 15,000 | 2,727 | – | 276,477 | 206,865 |
| Sachin Jogia + | 4,5 | 6 | 131,448 (265,000) | 19,717 | 7,441 | 996 | – | 159,602 | – |
| Kerri–Ann O'Neill | 4 | 12 | 144,200 | 21,630 | 15,000 | 2,727 | – | 183,557 | 182,286 |
| Melissa Tatton + | 4,5 | 12 | 225,000 | 33,750 | 15,000 | 2,182 | – | 275,932 | 153,338 |
| Yih–Choung Teh | 4 | 12 | 225,000 | 33,750 | 15,000 | 2,727 | – | 276,477 | 257,725 |

1 Dechreuodd Alison Marsden ar benodiad fel Cyfarwyddwr Anweithredol yng nghorff rheoleiddio statudol y Deyrnas Unedig ar gyfer triniaethau ffrwythlondeb ac ymchwil embryonau, yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (HFEA), ar 1 Ebrill 2021. Gan fod Alison wedi rhoi sicrwydd y byddai'n ymgymryd â'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r rôl hon, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd Bwrdd/cyfarfodydd eraill, yn ei hamser ei hun, cytunodd y Pwyllgor Pobl y byddai'n cael cadw'r ffi o £7,883 y flwyddyn gan HFEA.
Nid oedd rôl Alison yn un amser llawn o ganlyniad i drefniadau absenoldeb.

**Nodyn arweiniad 4:**
Dangosir cyfanswm y taliadau blynyddol ar gyfer swyddogion gweithredol Ofcom sydd, neu a oedd, wedi eu cadarnhau yn aelodau o Uwch Dîm Rheoli Ofcom yn ystod cyfnod adrodd 2021/22. Y ffigur hwn yw'r tâl yr oedd ganddynt hawl iddo am y cyfnod adrodd, felly bydd yn llai na'r cyfwerth â blwyddyn lawn os na weithiwyd blwyddyn lawn fel aelod o'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae cyfanswm y taliadau blynyddol yn cynnwys cyflog sylfaenol, bonws perfformiad blynyddol, lwfans buddion hyblyg, canran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn a buddion trethadwy o fath arall, sy'n adlewyrchu'r gost i Ofcom o ddarparu yswiriant meddygol preifat i bob swyddog gweithredol.

**Nodyn arweiniad 5:**
Ymunodd Sachin Jogia â'r Uwch Dîm Rheoli fel Prif Swyddog Technoleg ym mis Hydref 2021.

Ymunodd Melissa Tatton â'r Uwch Dîm Rheoli fel Cyfarwyddwr Grŵp, Corfforaethol dros dro ym mis Medi 2020 a chafodd ei chadarnhau yn ei swydd fel Prif Swyddog Gweithredol ym mis Ebrill 2021.

**Tabl 6: Aelodau interim a'r rhai a ymadawodd â'r Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd Cynnwys Gweithredol yn ystod y cyfnod adrodd:**

| Enw | Cyfeirnod y Nodyn Arweiniad | Misoedd y cyfnod adrodd pan oedd yr aelod wedi ei gyflogi | Cyfanswm y cyflog a dalwyd (cyfwerth â blwyddyn lawn mewn cromfachau lle gweithiwyd am ran o'r flwyddyn) £ | Hawl / lwfans pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws perfformiad blynyddol £ | 2021/22 Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ | 2020/21 Cyfanswm y taliadau a dalwyd £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Helen Hearn + | 6 | 3 | 37,500 (150,000) | 5,625 | 3,750 | 730 | – | 47,605 | – |
| Phillip Marnick + | 6 | 10 | 193,500 (232,200) | 29,025 | 12,500 | 1,792 | – | 236,817 | 282,921 |
| Jonathan Oxley + | 6 | 1 | 22,917 (275,000) | 3,438 | 1,250 | 222 | – | 27,827 | 332,332 |

**Nodyn arweiniad 6:**
Ymunodd Helen Hearn â'r Uwch Dîm Rheoli fel Cyfarwyddwr Grŵp Dros Dro, Sbectrwm am chwe mis yn dilyn ymadawiad Phillip Marnick ym mis Ionawr 2022.

Gadawodd Jonathan Oxley Ofcom ym mis Ebrill 2021 ar ôl cyfnod o absenoldeb garddio dan gontract.

**Tabl 7: Cyfanswm Costau Taliadau Blynyddol holl Aelodau'r Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd Cynnwys Gweithredol yn ystod y cyfnod adrodd:**

| Cyfanswm y cyflog gwirioneddol a dalwyd £ | Hawl / lwfans pensiwn £ | Lwfans buddion hyblyg £ | Buddion o fath arall £ | Bonws perfformiad blynyddol £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2021/22 £ | Cyfanswm y taliadau a dalwyd 2020/21 £ |
|---:|---:|---:|---:|---:|---:|---:|
| 2,389,368 | 375,587 | 159,034 | 27,738 | – | 2,951,727 | 3,274,445 |

## Contract cyflogaeth

Mae gan y Prif Weithredwr gyfnod rhybudd o 12 mis. Nid oes gan yr un Aelod Gweithredol arall o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gontract cyflogaeth sy'n cynnwys cyfnod rhybudd o fwy na naw mis.

Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi eu penodi am dymor penodol i neilltuo amser penodol i Ofcom o tua dau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am y Cadeirydd sy'n neilltuo hyd at dri diwrnod yr wythnos a'r Dirprwy Gadeirydd sy'n neilltuo hyd at ddeuddydd a hanner yr wythnos).

## Iawndal terfynu'n gynnar

Yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys neu aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Pobl sy'n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract cyflogaeth yn gynnar, ac fe'u gwneir yn unol â chontract cyflogaeth yr Aelod Gweithredol neu'r aelod o'r Uwch Dîm Rheoli. Nid oes unrhyw daliad ex Gratia mewn perthynas â therfynu'n gynnar yn fwy na £95,000. Mae pob contract cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar yn ôl disgresiwn Ofcom. Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os caiff contract ei derfynu'n gynnar.

## Ymgymryd â swyddogaeth cyfarwyddwr allanol

Cyfeirir at fanylion ein hymagwedd o ran y Cod Ymddygiad gan gynnwys buddiannau allanol ar gyfer Aelodau Anweithredol a Chydweithwyr yn adran Lywodraethu'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol.

Ar ran Ofcom,

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

15 Mehefin 2022

**Ben Verwaayen**
Cadeirydd y Pwyllgor Pobl

15 Mehefin 2022

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I SENEDD Y DU, SENEDD YR ALBAN, SENEDD CYMRU A CHYNULLIAD GOGLEDD IWERDDON

## Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y dogfennau canlynol ar gyfer y Swyddfa Gyfathrebiadau

- Datganiadau am y Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022;
- Datganiad Incwm a Gwariant, Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr, Datganiad Llifoedd Arian Parod a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- Adroddiad Taliadau; a'r
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adroddiadau ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y Deyrnas Unedig.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Swyddfa Gyfathrebiadau ar 31 Mawrth 2022, a'i gwarged ar ôl treth am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan y Senedd Brydeinig, ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Bu i mi gynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig), cyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd er mwyn archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adroddiadau Ariannol. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau a restrir. Rwyf yn annibynnol ar y Swyddfa Gyfathrebiadau yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a finnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes byw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y Swyddfa Gyfathrebiadau wedi defnyddio'r sail busnes byw cyfrifyddu yn briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Swyddfa Gyfathrebiadau i barhau fel busnes byw am gyfnod o 12 mis o leiaf ar ôl awdurdodi'r datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Mae adrannau perthnasol y dystysgrif hon yn disgrifio fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes byw.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sy'n rhan o'r Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na'm tystysgrif archwilydd ac adroddiad. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, ar wahân i'r hyn a nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos bod yr wybodaeth arall yn cynnwys camddatganiad o bwys fel arall.

Os byddaf yn dod o hyd i anghysondebau o bwys o'r fath neu gamddatganiadau o bwys ymddangosiadol, mae'n rhaid i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan mewn ffordd o bwys, mae'n rhaid i mi roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002:

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaethpwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gydnaws â'r datganiadau ariannol, ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion rwyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o'r Swyddfa Gyfathrebiadau a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad ar Berfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- na chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw gan y Swyddfa Gyfathrebiadau neu na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan y canghennau nad oedd fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- yw defnydd rheolwyr o'r sail busnes byw yn briodol ac os yw ansicrwydd materol yn bodoli mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a allai fwrw amheuaeth ar allu Ofcom i barhau fel busnes byw am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chyfarwyddyd Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adroddiadau ariannol perthnasol, ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- dulliau rheoli mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiad ariannol heb unrhyw gamddatganiad o bwys, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu'r Swyddfa Gyfathrebiadau i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes byw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes byw oni bai fod y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu naill ai'n bwriadu diddymu'r endid neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (y Deyrnas Unedig) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac ystyrir eu bod yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### Graddau yr ystyrid y gall yr archwiliad ddod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Dyluniaf weithdrefnau'n unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys yng nghyswllt diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau mae fy ngweithdrefnau'n gallu dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

### Canfod ac asesu risgiau posib sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth ganfod ac asesu risgiau o gamddatgan o bwys yng nghyswllt diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, ystyriais y canlynol:

- natur y sector, yr amgylchedd rheoli a'r perfformiad gweithredol, gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu'r Swyddfa Gyfathrebiadau.
- ymholiadau i reolwyr, y Swyddfa Gyfathrebiadau, Pennaeth Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Swyddfa Gyfathrebiadau mewn perthynas â'r canlynol:
    - canfod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig; ac
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys rheolaethau'r Swyddfa Gyfathrebiadau sy'n ymwneud â chydymffurfedd y Swyddfa Gyfathrebiadau.
- trafodaethau ymysg y tîm ymgysylltu a chynnwys arbenigwyr mewnol perthnasol, gan gynnwys Arbenigwyr Pensiwn ynghylch sut a ble gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw arwyddion posib o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion posib i gyflawni twyll yn y Swyddfa Gyfathrebiadau, a gwelais fod y posibilrwydd mwyaf o dwyll yn yr elfennau canlynol: cydnabod refeniw, postio siwrnalau anarferol, trafodiadau cymhleth, tuedd yn amcangyfrifon y rheolwyr. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU), mae'n ofynnol i mi hefyd ddilyn gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg bod rheolwyr yn diystyru mesurau rheoli.

Roeddwn hefyd wedi dod i ddeall fframwaith awdurdod y Swyddfa Gyfathrebiadau yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio eraill y mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau yn gweithredu'n unol â nhw, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar ddatgeliadau a symiau o bwys yn y datganiadau ariannol, neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Swyddfa Gyfathrebiadau. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddf Gwasanaethau Post 2011, Deddf yr Economi Ddigidol 2010 a Deddf yr Economi Ddigidol 2017, y Gyfraith Cyflogaeth, deddfwriaeth treth a Deddfwriaeth Pensiwn.

Hefyd, roeddwn wedi ystyried y risg sy'n gysylltiedig â gweithredu proses TG sylweddol yn ystod y flwyddyn.

### Ymateb yr archwiliad i risg a nodwyd

O ganlyniad i berfformio'r uchod, roedd y gweithdrefnau roeddwn wedi'u rhoi ar waith i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a'r gwaith profi dogfennau ategol i asesu cydymffurfedd â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifiwyd uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a chwnsleriaid cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosib;
- darllen ac adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- wrth ymdrin â'r risg o dwyll o ganlyniad i reolwyr ddiystyru mesurau rheoli, profi priodoldeb cofnodion siwrnalau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn dangos tuedd bosib; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu hwnt i gwrs arferol y busnes; a
- gweithdrefnau archwilio penodol a gyflawnwyd mewn perthynas â'r risg sy'n gysylltiedig â gweithredu proses TG sylweddol yn ystod y flwyddyn

Bu i mi hefyd gyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posib o ran twyll i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol, ac roeddwn yn effro i unrhyw arwydd o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

### Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n rhaid bod gennyf dystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd Brydeinig, a bod y trafodiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Gorffennaf 2022

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

ADRAN C

# DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r adran hon yn disgrifio ein datganiadau ariannol a'n nodiadau i'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.



# DATGANIAD INCWM A GWARIANT

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

| | Nodiadau | 2021/22 £'000 | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | 149,675 | 132,468 |
| Incwm clirio sbectrwm | 3 | 8,752 | 22,689 |
| Cyllid setliad cyfreithiol | 3 | – | 919 |
| **Cyfanswm incwm** | | **158,427** | **156,076** |
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau staff | 4 | (89,993) | (83,044) |
| Gwariant gweithredu arall | 6 | (55,796) | (50,444) |
| Gwariant clirio sbectrwm | 4,6 | (8,752) | (22,689) |
| Cost gyfreithiol yn ystod y flwyddyn | 6 | – | 2,081 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **(154,541)** | **(154,096)** |
| **Gwarged gweithredol** | | **3,886** | **1,980** |
| Costau cyllid | 16,17 | (873) | (970) |
| Incwm llog pensiwn | 19 | 254 | 516 |
| **Gwarged cyn treth am y flwyddyn** | | **3,267** | **1,526** |
| Trethiant | 7 | – | – |
| **Gwarged ar ôl treth am y flwyddyn** | | **3,267** | **1,526** |

Mae'r nodiadau a'r polisïau cyfrifyddu ar dudalennau 118 i 156 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# DATGANIAD INCWM CYNHWYSFAWR NET

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

| | Nodiadau | 2021/22 £'000 | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwarged ar ôl treth am y flwyddyn** | | **3,267** | **1,526** |
| **Incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall** | | | |
| Ailfesur pensiynau | 19 | 3,712 | (8,674) |
| **Cyfanswm incwm/(gwariant) cynhwysfawr** | | **6,979** | **(7,148)** |

Mae'r nodiadau a'r polisïau cyfrifyddu ar dudalennau 118 i 156 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# DATGANIAD O'R SEFYLLFA ARIANNOL

Ar 31 Mawrth 2022

| | Nodiadau | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | 12,186 | 10,637 |
| Asedau hawl i ddefnyddio | 9 | 39,623 | 43,073 |
| Asedau anniriaethol | 10 | 35 | 166 |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol | 12 | 542 | 1,069 |
| Asedau buddion ymddeol | 19 | 19,688 | 14,876 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **72,074** | **69,821** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol | 11 | 20,672 | 19,627 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 13 | 20,920 | 14,185 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **41,592** | **33,812** |
| **Cyfanswm asedau** | | **113,666** | **103,633** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol | 14 | 36,514 | 27,875 |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau cyfredol | 16 | 4,766 | 4,079 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau: rhwymedigaethau cyfredol | 17 | 12 | 12 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **41,292** | **31,966** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol | 15 | 5,547 | 7,100 |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau anghyfredol | 16 | 36,009 | 40,653 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau: rhwymedigaethau anghyfredol | 17 | 143 | 149 |
| Rhwymedigaethau buddion ymddeol | 19 | 1,084 | 1,153 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **42,783** | **49,055** |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | **84,075** | **81,021** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **29,591** | **22,612** |
| **Ecwiti** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn | | 29,591 | 22,612 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **29,591** | **22,612** |

Mae'r nodiadau a'r polisïau cyfrifyddu ar dudalennau 118 i 156 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.
Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan y Bwrdd ar 15 Mehefin 2022.

**Yr Arglwydd Michael Grade**
Y Cadeirydd

**Y Fonesig Melanie Dawes DCB**
Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu

# DATGANIAD O NEWIDIADAU MEWN ECWITI

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

| | Nodiadau | Cronfa wrth gefn £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2020** | | **29,760** |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2020/21** | | |
| Ailfesur pensiynau | 19 | (8,674) |
| Gwarged am y flwyddyn | | 1,526 |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer 2020/21** | | **(7,148)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | **22,612** |
| **Newidiadau mewn ecwiti ar gyfer 2021/22** | | |
| Ailfesur pensiynau | 19 | 3,712 |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | 3,267 |
| **Cyfanswm gwariant cynhwysfawr ar gyfer 2021/22** | | **6,979** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | **29,591** |

Mae'r nodiadau a'r polisïau cyfrifyddu ar dudalennau 118 i 156 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# DATGANIAD O'R LLIFOEDD ARIAN PAROD

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

| | Nodiadau | 2021/22 £'000 | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged gweithredol | | 3,886 | 1,980 |
| **Addasiadau ar gyfer trafodiadau nad ydynt yn rhai arian parod** | | | |
| Dibrisiant | 8 | 2,128 | 2,033 |
| Dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio | 9 | 4,993 | 4,742 |
| Amorteiddiad | 10 | 135 | 211 |
| Colledion/(Enillion) ar waredu asedau anghyfredol | 6 | 1 | (175) |
| Amhariad | 6 | – | 250 |
| Cynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 11,12 | (518) | (631) |
| Lleihad mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 14,15 | 7,086 | 1,653 |
| (Lleihad)/Cynnydd mewn rhwymedigaethau lesoedd | 16 | (1,118) | 139 |
| Lleihad mewn darpariaethau | 17 | (11) | (3,014) |
| Cynnydd mewn pensiwn ymddeol | 19 | (915) | (540) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **15,667** | **6,648** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 8 | (3,678) | (1,366) |
| Prynu asedau hawl i ddefnyddio | 9 | (58) | (165) |
| Prynu asedau anniriaethol | 10 | (4) | – |
| Enillion o werthu asedau anghyfredol | 6 | – | 183 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(3,740)** | **(1,348)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| Taliadau rhwymedigaethau lesoedd | 16 | (5,192) | (4,942) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **(5,192)** | **(4,942)** |
| **Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **6,735** | **358** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | | 14,185 | 13,827 |
| Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn | | 6,735 | 358 |
| **Cronfeydd net terfynol** | 13 | **20,920** | **14,185** |

Mae'r nodiadau a'r polisïau cyfrifyddu ar dudalennau 118-156 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 1. Y SAIL DROS GYFLWYNO A'R PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) yn gorfforaeth statudol sydd wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n darparu amrediad eang o wasanaethau rheoleiddio. Mae datganiadau ariannol Ofcom ar gyfer 31 Mawrth 2022 wedi cael eu paratoi'n unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB), yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) i gydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes byw o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio ar gyfer ailbrisio rhai asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol sy'n cael eu mesur yn ôl symiau wedi eu hailbrisio neu werth teg, os oes o gwbl, o dan gyfarwyddyd cyfrifon yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae'r Adroddiad Taliadau a'r ffurflen datgelu Ffioedd a Thaliadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Mae Ofcom yn rhoi ystyriaeth i Lawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth y DU lle bo'n berthnasol, ond nid yw'n ofynnol iddi gydymffurfio ag ef.

Caiff symiau yn y Datganiadau Ariannol eu datgan mewn punnoedd sterling, i'r fil agosaf, sef yr arian y mae Ofcom yn ei ddefnyddio.

### a) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig

Mae rhai safonau newydd, dehongliadau a diwygiadau i safonau cyfredol, a restrir isod, wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Ofcom. Mae'r safonau a'r datganiadau isod yn berthnasol i'r cyfnod cyfrifyddu cyfredol.

- Diwygiadau i IFRS 9 Offerynnau Ariannol, IFRS 7 Offerynnau Ariannol: Datgeliadau, IFRS 4 Contractau Yswiriant, ac IFRS 16 Lesoedd sy'n berthnasol i gyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2021 neu ar ôl hynny. Bydd meincnodau cyfradd llog fel LIBOR (y gyfradd a gynigir rhwng banciau Llundain) yn dod i ben, ac yn cael eu disodli gan gyfraddau meincnod eraill. Ar gyfer Ofcom, y dyddiad trosglwyddo oedd dechrau'r flwyddyn ariannol ar 1 Ebrill 2021. Nid yw hyn yn effeithio ar ein ffigurau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, oherwydd rydym yn defnyddio cyfraddau Trysorlys EM ar lesoedd ac offerynnau ariannol.

- Diwygiadau i IFRS 16 – Consesiynau Rhent sy'n gysylltiedig â Covid19

  Mae IFRS 16 Lesoedd yn cynnwys gofynion cyfrifyddu ar gyfer addasiadau i lesoedd, gan gynnwys consesiynau rhent. Rhaid i Ofcom, fel lesddeiliad, benderfynu a ddylid trin yr addasiad fel les ar wahân neu addasu'r rhwymedigaeth lesoedd bresennol a'r ased hawl i ddefnyddio.

  Mae'r cyfleuster yn caniatáu i gwmni ddewis peidio ag asesu a yw consesiwn rhent yn addasiad les, pan fydd yr amodau hyn yn cael eu bodloni:

  a. mae'r newid yn y taliadau les yn arwain at gydnabyddiaeth ddiwygiedig ar gyfer y les sydd i raddau helaeth yr un fath â'r gydnabyddiaeth ar gyfer y les yn union cyn y newid, neu'n llai na'r gydnabyddiaeth ar gyfer y les;

  b. dim ond i daliadau a oedd yn ddyledus yn wreiddiol ar 30 Mehefin 2021 neu cyn hynny y mae unrhyw ostyngiad mewn taliadau les yn berthnasol; ac

  c. nid oes unrhyw newid sylweddol i delerau ac amodau eraill y les

  Mae'r cyfnod y mae'r cyfleuster ymarferol ar gael wedi cael ei ymestyn i 30 Mehefin 2022. Ni ofynnodd Ofcom am gonsesiynau rhent sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Nid oes safon, diwygiad na dehongliad newydd i safon gyfredol wedi cael eu cyhoeddi sy'n effeithio ar ddatganiadau ariannol Ofcom mewn perthynas â chyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## b) Cydnabod incwm

Mae incwm yn cynnwys gwerth teg y taliadau sydd wedi'u derbyn neu sydd i'w derbyn yn ystod gweithgareddau arferol Ofcom. Dangosir incwm yn net o dreth ar werth, enillion, ad-daliadau a gostyngiadau. Mae Ofcom yn cydnabod incwm pan fydd y swm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy, a'i bod yn debygol y daw buddion economaidd i'r endid yn y dyfodol.

Mae IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid yn cynnwys model pum cam ar gyfer cydnabod incwm sy'n deillio o gontractau gyda chwsmeriaid. Yr egwyddor graidd oedd cydnabod incwm er mwyn iddo ddangos trosglwyddo'r nwyddau neu'r gwasanaethau sydd wedi cael eu haddo i gwsmeriaid mewn swm sy'n adlewyrchu'r gydnabyddiaeth y mae'r endid yn disgwyl cael hawl iddi yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Roedd Ofcom wedi ystyried y broses pum cam ac wedi penderfynu peidio â newid y ffordd mae incwm yn cael ei gydnabod:

- Ym mhob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Ofcom gydbwyso ei wariant gyda'i incwm. Mae'r statud yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm o bob un o'r sectorau mae'n eu rheoleiddio er mwyn talu am y costau a gaiff Ofcom wrth reoleiddio'r sector hwnnw ynghyd â chyfran briodol o 'gostau cyffredin' Ofcom ar gyfer pob un o'r sectorau hynny. Felly, mae Deddfwriaeth yn darparu'r gorfodadwyedd ar y naill barti a'r llall er mwyn galluogi Ofcom i adennill ei gostau gan drydydd partïon.

- Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn ymwneud â'r gwaith sylfaenol a wneir gan Ofcom fel rheoleiddiwr y sector Cyfathrebiadau, ac fel y nodir yn y Cynllun Blynyddol a gyhoeddir.

- Mae'r ffioedd yn cael eu cyfrifo ar sail adennill costau fel y nodir yng nghyllideb Ofcom, a'u haddasu ar gyfer adennill gormod neu ddim digon yn y flwyddyn flaenorol. Bydd yr holl ffioedd yn cael eu cyhoeddi yn y Tablau Tariff ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

- Caiff costau eu dyrannu i drydydd partïon yn unol â Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl Ofcom. Mae hyn yn sicrhau bod y taliadau'n adlewyrchu'r costau a ddyrennir i'r sector priodol ac yn unol â throsiant perthnasol.

- Caiff incwm ei gydnabod yn y flwyddyn y ceir y rhwymedigaeth perfformiad (cost). Os bydd gormod neu ddim digon o incwm yn cael ei adennill, bydd yr incwm hwnnw'n cael ei gronni neu ei ohirio a bydd taliadau yn y dyfodol yn cael eu haddasu yn unol â hynny.

- Mae incwm hefyd yn cael ei gydnabod ar gyfer y costau hynny lle nad oes modd codi ffioedd na thaliadau ar randdeiliaid, yn bennaf am gost rheoli sbectrwm drwy gadw ffioedd trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA) yn unol ag adran 401 Deddf Cyfathrebiadau 2003 a'r Datganiad o Egwyddorion Cyllido.

**Cymorth Grant DCMS**
Darperir cymorth grant gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ariannu rhaglen clirio'r band 700MHz. Mae'r rhaglen hon yn goruchwylio'r gwaith o glirio'r band UHF 700MHz (gan gynnwys lleihau unrhyw ymyriant posib). Caiff y gwaith clirio ei wneud gan drydydd partïon sy'n cael eu talu drwy grantiau cyfalaf sydd wedi cael eu hystyried a'u cymeradwyo mewn egwyddor gan Fwrdd Rheoli'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm, cyn cael eu cymeradwyo'n derfynol gan Drysorlys EM.

Mae'r rheini sy'n cael grantiau ar gyfer y rhaglen yn gofyn am gyllid gan Ofcom ar ôl i amodau'r grant gael eu bodloni. O ran y grantiau a ddyfarnwyd, dim ond am y costau gwirioneddol sydd wedi codi y bydd Ofcom yn talu, a bydd yn cydnabod y costau wrth gytuno i dalu'r arian y gofynnwyd amdano i'r derbynnydd.

**Cadw Derbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-Wifr (WTA)**
Telir ffioedd i Ofcom mewn perthynas â'n swyddogaeth rheoli sbectrwm. Yn dilyn gweithredu Deddf yr Economi Ddigidol 2017, caiff Ofcom gadw'r cyfryw symiau i ariannu ei swyddogaethau rheoli sbectrwm cyffredinol, ac i dalu'r costau o gyflawni ei swyddogaethau eraill na all godi ffioedd a thaliadau ar eu cyfer fel arall. Fel y cytunwyd â Thrysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, bydd derbyniadau WTA hefyd yn cael eu defnyddio i gyllido gwaith paratoi ar gyfer dyletswyddau newydd fel Llwyfannau Rhannu Fideos a Niwed Ar-lein. Mae'r swm misol a gedwir yn dibynnu ar y gwariant a gynlluniwyd ar gyfer y swyddogaethau hyn. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar sail gronnus, a bydd y swm a gedwir ar gyfer y mis canlynol yn cael ei addasu os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

**Incwm rhanddeiliaid**

### Ffioedd gweinyddu gwasanaethau post, rhwydweithiau a gwasanaethau

Caiff y ffioedd hyn eu codi ar randdeiliaid yn y rhwydweithiau a'r gwasanaethau ynghyd â'r gwasanaethau post sy'n gweithredu o dan gyfundrefn heb drwydded, ond sy'n dod o dan bwerau rheoleiddio Ofcom. Mae'r costau hyn yn gyfuniad o wariant a gynlluniwyd ar gyfer ein gwaith rheoleiddio, fel y nodir yn y Cynllun Blynyddol, ac addasiadau i'r flwyddyn flaenorol. Rhoddir cyfrif am yr incwm hwn ar sail gronnus Ar ôl penderfynu'n derfynol ar y costau ar ddiwedd y flwyddyn, bydd incwm sy'n fwy na'r arian parod a wariwyd yn cael ei drin fel incwm gohiriedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n daladwy. Yn groes i hynny, os bydd yr arian parod sydd wedi'i wario yn fwy na'r incwm a gafwyd, bydd yn cael ei drin fel incwm cronedig a'i gyflwyno yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghostau'r flwyddyn ariannol ganlynol.

### Ffioedd trwyddedau darlledu

Mae incwm o ffioedd trwyddedau darlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebir i ddeiliaid trwyddedau darlledu ar gyfer ein gwaith rheoleiddio arfaethedig, gan gynnwys unrhyw addasiadau i'r flwyddyn flaenorol.  Rhoddir cyfrif am yr incwm hwn ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n fwy na'r arian parod sydd wedi'i wario yn y sector darlledu ei drin fel incwm gohiriedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n daladwy. Os bydd yr arian parod sydd wedi'i wario yn fwy na'r incwm a gafwyd, bydd yn cael ei drin fel incwm cronedig a'i gyflwyno yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.  Os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng nghostau'r flwyddyn ariannol ganlynol.

### Ffioedd ymgeisio

Am resymau ymarferol, rydym yn codi ffioedd penodedig ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio ar wahân sydd o dan reolaeth rhanddeiliaid unigol (er enghraifft, cais am drwydded darlledu), neu lle nad yw'r trosiant perthnasol yn sail briodol dros godi ffi (er enghraifft, radio cymunedol). Ni ellir ad-dalu'r ffioedd hyn, ac felly fe'u cofnodir fel refeniw pan ddaw cais y rhanddeiliad i law. Fodd bynnag, os oes gormod o incwm wedi cael ei adennill, neu os nad oes digon o incwm wedi cael ei adennill, caiff hynny ei wrthbwyso yn erbyn cyfanswm costau'r sector yn y flwyddyn ganlynol.  Er enghraifft, os yw cyfanswm y gwariant ar gyfer ceisiadau radio yn fwy na'r refeniw o'r ceisiadau, bydd yr incwm annigonol sydd wedi'i adennill yn cael ei gynnwys yng nghyfanswm y costau rheoleiddio radio sydd i'w hadennill gan dalwyr ffi'r drwydded radio.

### Systemau gwybodaeth a rhwydweithiau

Mae incwm gan randdeiliaid systemau Gwybodaeth a Rhwydweithiau (NIS) yn cynrychioli'r symiau sy'n ddyledus gan weithredwyr dynodedig gwasanaethau hanfodol ar gyfer ein gwaith rheoleiddio.  Rhoddir cyfrif am yr incwm hwn ar sail gronnus. Yn unol â rheoliadau NIS, mae'r incwm hwn yn cael ei adennill mewn ôl-daliadau; felly bydd yr arian parod sydd wedi'i wario yn cael ei drin fel incwm cronedig, a'i gyflwyno yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel swm sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

**Incwm arall**

Rhoddir cyfrif am incwm anstatudol ar sail gronnus, a chaiff ei gyfateb i'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

## c) MG Alba

Yn unol ag Adran 210 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 Deddf Darlledu 1990, mae'r symiau mae Gweinidogion yr Alban yn eu talu i Ofcom yn cael eu talu wedyn gan Ofcom i'r Gronfa Darlledu Gaeleg a reolir gan MG Alba. O ganlyniad, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn natganiadau ariannol Ofcom.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## d) Derbyniadau a gesglir gan Ofcom o fewn cwmpas Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003

O dan Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003, mae'n rhaid i Ofcom gasglu ffioedd a thaliadau. Cesglir yr incwm o bum prif ffynhonnell:

- Ffioedd trwydded WTA
- Ffioedd sbectrwm Adrannau Llywodraeth y DU
- Cosbau Ariannol
- Taliadau Ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau ar gyfer teledu a radio; a
- Rhifau daearyddol

Trosglwyddwyd yr incwm a gasglwyd (ac eithrio'r incwm a gadwyd o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017) i Gronfa Gyfunol y DU yn Nhrysorlys EM, yr Adran Cyllid a Phersonél – Gogledd Iwerddon (DFPNI) ac i Drysorlysoedd Ynys Manaw, Beilïaeth Jersey, a Beilïaeth Guernsey o dan Offeryn Statudol 1991, Rhifau 998, 1710 ac 1709 yn y drefn honno, yn uniongyrchol neu drwy'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) fel y corff sy'n noddi Ofcom.

Mae Ofcom yn paratoi set o ddatganiadau ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron Senedd Prydain.

Felly ni wneir unrhyw dderbyniadau, taliadau nac eitemau sy'n gysylltiedig â'r Datganiad am y Sefyllfa Ariannol yn Natganiadau Ariannol Ofcom o ran trafodiadau sy'n gysylltiedig ag Adran 400, oni bai bod y taliadau a'r ffioedd wedi'u casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

## e) Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, datblygu neu ddisodli'r asedau presennol.

Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500 a chaiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cofnodi ar sail cost neu gost dybiedig, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol. Er enghraifft, mae caledwedd cyfrifiadurol sefydlog fel gweinyddion, muriau cadarn a switshis rhwydwaith a ddefnyddir mewn swyddfeydd yn cael eu cyfalafu. Ar y llaw arall, mae cyfarpar TG symudol ag oes fer ac yn isel ei werth yn cael ei gofnodi fel gwariant, oherwydd nad oes gan Ofcom reolaeth dros yr amgylchedd ffisegol na'r ffordd mae'n cael ei ddefnyddio.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn dod i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yn swm cario ymlaen yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff swm cario ymlaen y darn a ddisodlir ei ddatgydnabod.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio fel a ganlyn, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu llyfrwerth dros eu hamcan oes ddefnyddiol:

| Gosodiadau a Ffitiadau – Gwelliannau Prydles | Cyfnod y les |
|---|---|
| Gosodiadau a Ffitiadau – Dodrefn | 7 mlynedd |
| Cyfarpar Swyddfa a Maes | 4 i 7 mlynedd |
| Caledwedd Cyfrifiadurol | 3 i 5 mlynedd |
| Cerbydau Modur | 5 mlynedd |

Caiff dibrisiant ei ddyrannu i'r Datganiad Incwm a Gwariant, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cynrychioli'r costau a wynebwyd yn datblygu asedau diriaethol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u dibrisio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a werthir yn cael eu cydnabod yn '(Enillion)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol' yn yr adran 'Gwariant gweithredu arall' yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

## f) Rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth lesoedd

Ar gyfer unrhyw gontract newydd, mae Ofcom yn ystyried a yw contract yn les, neu'n cynnwys les. Diffinnir les fel contract, neu ran o gontract, sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased (yr ased sylfaenol) am gyfnod yn gyfnewid am dâl cydnabyddiaeth. I gymhwyso'r diffiniad hwn, mae Ofcom yn asesu a yw'r contract yn bodloni tri gwerthusiad allweddol, sef:

- a yw'r contract yn cynnwys ased dynodedig, sydd naill ai wedi'i nodi'n benodol yn y contract neu wedi'i nodi'n ymhlyg drwy gael ei nodi ar yr adeg y daw'r ased ar gael i Ofcom.
- a oes gan Ofcom yr hawl i gael yr holl fanteision economaidd o ddefnyddio'r ased dynodedig drwy gydol y cyfnod defnyddio, wrth ystyried ei hawliau o fewn cwmpas diffiniedig y contract.
- a oes gan Ofcom yr hawl i fynnu sut mae'r ased dynodedig yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod defnyddio. Mae Ofcom yn asesu a oes ganddo'r hawl i fynnu 'sut ac at ba ddiben' y mae'r ased yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y cyfnod defnyddio.

Ar ddyddiad cychwyn y les, mae Ofcom yn cydnabod y rhwymedigaeth asedau hawl i ddefnyddio a'r rhwymedigaeth lesoedd, heb gynnwys TAW, ar y fantolen. Caiff asedau hawl i ddefnyddio eu mesur yn ôl cost, sy'n cynnwys y mesuriad cychwynnol o'r rhwymedigaeth lesoedd, amcangyfrif o unrhyw gostau i ddatgymalu a thynnu'r ased ar ddiwedd y les, ac unrhyw daliadau les a wnaed cyn dyddiad cychwyn y les (net o unrhyw gymelliadau a dderbyniwyd) hyd at ddiwedd y les neu'r cyfnod ymestyn, pa un bynnag yw'r hwyraf, neu hyd at derfynu'r les os yw'n berthnasol.

Mae Ofcom yn dibrisio'r asedau hawl i ddefnyddio ar sail llinell syth ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu llyfrwerth o'r mis y mae ased yn cael ei roi ar waith, hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol ased hawl i ddefnyddio neu ddiwedd cyfnod y les – pa un bynnag yw'r cynharaf. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Mae Ofcom hefyd yn asesu'r ased hawl i ddefnyddio am amhariad pan fydd dangosyddion o'r fath yn bodoli.

Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500, a chofnodir asedau hawl i ddefnyddio ar sail cyfanswm costau contract y les, llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol.

Ar ôl gwneud y mesuriadau cychwynnol, caiff swm cario ymlaen yr ased hawl i ddefnyddio ei addasu yn ôl yr un swm â'r addasiad i werth cario ymlaen y rhwymedigaeth lesoedd. Nid oes enillion na cholledion yn syth, ond bydd y llifoedd arian parod diwygiedig yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant dros weddill cyfnod y les. Mae eithriadau i'r egwyddor hon: pan fydd gostyngiad yng ngwerth cario ymlaen y rhwymedigaeth lesoedd yn fwy na gwerth cario ymlaen yr ased hawl i ddefnyddio perthnasol ar adeg yr ailfesur – os felly caiff yr ased ei ostwng i ddim, a bydd y swm dros ben yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant – ac mewn sawl achos lle mae addasiad i les yn lleihau cwmpas les bresennol. Bydd ailbrisiadau o asedau hawl i ddefnyddio, os oes rhai, yn cael eu cydnabod yn y gronfa ailbrisio.

Mae Ofcom yn mesur y rhwymedigaeth lesoedd ar werth presennol y taliadau les sydd heb eu talu ar y dyddiad cychwyn, wedi'i disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd yn y les os yw'r gyfradd honno ar gael yn hwylus, neu yn unol â chyfradd Trysorlys EM o 0.95% ar gyfer blwyddyn galendr 2022 (0.91% ar gyfer blwyddyn galendr 2021).

Mae taliadau lesoedd sy'n cael eu cynnwys wrth fesur y rhwymedigaeth lesoedd yn cynnwys taliadau sefydlog (gan gynnwys rhai sefydlog yn y bôn) ac, os oes rhai, y taliadau amrywiol ar sail mynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol, a thaliadau sy'n codi o opsiynau sy'n eithaf sicr o gael eu harfer.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Yn dilyn y mesur cychwynnol, bydd y rhwymedigaeth yn cael ei lleihau ar gyfer taliadau a wneir a'i chynyddu ar gyfer llog. Caiff ei hailfesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, neu os oes newidiadau mewn taliadau sefydlog yn y bôn. Pan gaiff y rhwymedigaeth lesoedd ei hailfesur, adlewyrchir yr addasiad cyfatebol yn yr ased hawl i ddefnyddio, neu'r Datganiad Incwm a Gwariant os yw'r ased hawl i ddefnyddio eisoes wedi'i leihau i sero.

Mae Ofcom wedi dewis rhoi cyfrif am lesoedd tymor byr ac am lesoedd asedau isel eu gwerth gan ddefnyddio'r dulliau ymarferol. Yn hytrach na chydnabod rhwymedigaeth lesoedd ac ased hawl i ddefnyddio, mae'r taliadau mewn perthynas â'r rhain yn cael eu cydnabod fel gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

**Cost uniongyrchol gychwynnol**
Mae hyn yn golygu'r costau cynyddrannol o gael les na fyddent wedi codi oni bai am y les. Gall gynnwys costau fel ffioedd canfyddwr, comisiynau i asiantau ar gyfer sefydlu'r les, a ffioedd ymlaen llaw. Mae Ofcom wedi wynebu costau o'r fath o ganlyniad i lofnodi lesoedd newydd yn ystod y flwyddyn, ac mae'r rhain wedi cael eu hychwanegu at yr asedau hawl i ddefnyddio yn y datganiadau ariannol.

**Defnyddio ôl-ddoethineb**
Gall cwmni ddefnyddio ôl-ddoethineb wrth bennu cyfnod y les os bydd y contract yn cynnwys opsiynau i ymestyn y les neu i ddod â hi i ben. Dim ond pan fydd cwmni'n dilyn dull ôl-weithredol wedi ei addasu y bydd modd gwneud hynny. Un o fanteision allweddol dull ôl-weithredol wedi ei addasu yw y gall cwmni drosglwyddo ei lesoedd gweithredol gan ddefnyddio gwybodaeth ar y dyddiad y mae'n dechrau ei ddefnyddio.

## g) Asedau anniriaethol

Ar ôl ei gydnabod i gychwyn, mae ased anniriaethol yn cael ei gario ar ei union gost llai unrhyw amorteiddiad cronedig ac unrhyw golledion amhariad sydd wedi cronni yn unol ag IAS 38 Asedau Anniriaethol. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau rhaglenni meddalwedd, ffioedd trwyddedau cysylltiedig, a'r dechnoleg gwybodaeth sy'n ymwneud â datblygu ein systemau craidd. Y trothwy cyfalafu lleiaf yw £2,500. Defnyddir trothwyon cyfalafu ar gyfer eitemau unigol oni bai ei bod yn fwy priodol cymhwyso'r meini prawf i werth cyfunol.

Caiff asedau anghyfredol, anniriaethol, a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd cyfrifiadurol, eu cydnabod dim ond os caiff ased ei greu y gellir ei ddynodi. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff costau datblygu eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y wynebwyd y gwariant.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn dod i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yn swm cario ymlaen yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff swm cario ymlaen y darn a ddisodlir ei ddatgydnabod.

Caiff amorteiddiad ar asedau anniriaethol a gyfalafwyd ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased o 3 i 5 mlynedd. Caiff oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yr asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae systemau sy'n cael eu datblygu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu meddalwedd a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr asedau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r dosbarth perthnasol o ased a'u hamorteiddio yn unol â'r polisi cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion ar yr hyn a werthir yn cael eu cydnabod yn '(Enillion)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol' yn yr adran 'Gwariant gweithredu arall' yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## h) Amhariad ar Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar, Asedau Anniriaethol ac Asedau Hawl i Ddefnyddio

Ar bob dyddiad adrodd, caiff gwerth cario ymlaen asedau anghyfredol ei adolygu i weld a oes unrhyw arwydd bod amhariad wedi digwydd i werth cario ymlaen yr asedau, yn unol ag IAS 36 Amhariad ar Asedau.

Caiff swm cario ymlaen ased ei briodoli'n syth, fel colled amhariad, i'w swm adenilladwy os yw swm cario ymlaen yr ased yn fwy na'r amcangyfrif o'r swm adenilladwy.

Wrth fabwysiadu IFRS 16, cafodd yr holl lesoedd beichus ac amhariadau ar draws eiddo sydd eisoes yn cael ei lesio eu hailfesur er mwyn ystyried effaith newid y safonau cyfrifyddu ar gyfer lesoedd ar y broses o fesur amhariadau. Ni wnaed newidiadau yn y rhagdybiaethau sylfaenol yn ystod yr ailfesuriad hwn.

Caiff amhariadau sylweddol eu datgelu ar wahân yn y nodiadau i'r Datganiad Incwm a Gwariant a'r Datganiad am y Sefyllfa Ariannol.  Caiff asedau sydd wedi bod yn destun amhariad eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i weld a ellir gwrthdroi'r amhariad.

## i) Offerynnau Ariannol

**Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill**
Symiau masnach derbyniadwy yw'r arian sy'n ddyledus gan randdeiliaid am drwyddedau, ffioedd a thaliadau. Os disgwylir i'r arian gael ei gasglu mewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy), cânt eu trin fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Nid oes llog ar symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill, ac maen nhw'n cael eu cydnabod i gychwyn ar sail eu gwerth teg llai unrhyw ddiddymiad ar gyfer amhariad. Mae enillion a cholledion ar fesur dilynol yn cael eu cydnabod fel gwerth teg yn llwyr yn y Datganiad Incwm a Gwariant.

Nid yw'r ansicrwydd ariannol byd-eang sy'n deillio o'r pandemig wedi cael fawr o effaith ar y gallu i adennill dyledion yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, ac felly nid yw'r risg credyd wedi cynyddu'n sylweddol. Yn ystod y flwyddyn, lle mae rhanddeiliaid wedi cael anawsterau ariannol, mae Ofcom wedi darparu cyfleoedd ar gyfer cynlluniau talu ac wedi gohirio amseriad y taliadau.

Mae rhagdaliadau'n daliadau sydd wedi cael eu gwneud, ond nad yw'r buddion ohonynt wedi cael eu defnyddio.

Incwm cronedig - gweler Nodyn 1(b) Cydnabod Incwm

**Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod**
Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, arian ar gadw mewn banciau a symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol. Caiff incwm llog sydd i'w dderbyn ar arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

**Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill**
Ystyr symiau masnach taladwy yw dyletswyddau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan gyflenwyr fel rhan o drefniadau busnes arferol. Caiff cyfrifon taladwy eu trin fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy). Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

Nid oes llog ar symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill, ac maen nhw'n cael eu cydnabod i gychwyn ar sail eu gwerth teg.

Mae symiau taladwy eraill yn cynrychioli arian sy'n ddyledus i drydydd partïon ar y dyddiad adrodd.

Incwm gohiriedig - gweler Nodyn 1(b) Cydnabod Incwm.

**Risgiau Ariannol ac Amhariad ar Offerynnau Ariannol**
Mae IAS 32 Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad yn gofyn bod endid yn datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau a wynebir ganddo wrth gyflawni ei weithgareddau. Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg wrth gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu i fuddsoddi arian dros ben. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei gweithgareddau.

Nid yw mabwysiadu IFRS 9 Offerynnau Ariannol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ganlyniadau Ofcom. Nid oes gan symiau masnach derbyniadwy nac asedau contract Ofcom unrhyw elfen gyllido sylweddol, ac nid ydynt yn agored chwaith i risgiau credyd, oherwydd os na fydd digon o ffioedd rhanddeiliaid wedi cael eu hadennill mewn blwyddyn, byddant yn cael eu hadennill drwy dariffau'r blynyddoedd dilynol. Mae Ofcom wedi asesu'r lwfans colledion ar gydnabyddiaeth gychwynnol yn unol â swm sy'n cyfateb i'r colledion credyd a ddisgwylir dros eu hoes, ac roedd y canlyniad yn amherthnasol. Felly, er mwyn sicrhau bod hyn yn aros yr un fath drwy gydol oes y swm derbyniadwy, mae Ofcom yn parhau i werthuso cadernid ei rheolaeth credyd fisol a'r amhariad ar asedau ariannol, os o gwbl, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

## j) Buddion gweithwyr

**Pensiynau**
Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, dau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio, a chynllun nad yw'n cael ei ariannu.

**Cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio**
Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae Ofcom yn talu cyfraniadau i endid ar wahân ac nid oes ganddo rwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu symiau ychwanegol.

Mae'r rhwymedigaethau o dan gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio Ofcom yn cael eu cydnabod o fewn costau staff fel gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant fel y'u hwynebwyd. Gall staff newydd ymuno â'r cynllun pensiwn cyfranddeiliaid, sy'n gynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio.

**Cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio**
Cynllun buddion ôl-gyflogaeth yw cynllun â'r buddion wedi'u diffinio, lle mae'r buddion y bydd gan aelodau hawl iddynt yn cael eu pennu ymlaen llaw gan fformiwla. Mae rhwymedigaeth net Ofcom yng nghyswllt cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio yn cael ei chyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif faint o fudd ar gyfer y dyfodol y mae gweithwyr wedi'i ennill tra oeddent yn aelodau o'r cynllun. Mae'r budd hwnnw'n cael ei ddisgowntio i bennu ei werth presennol ac mae gwerth teg asedau'r cynllun yn cael ei ddidynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r arenillion ar y dyddiad adrodd ar y bondiau ansawdd uchel sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau rhwymedigaethau Ofcom ac sydd wedi'u trosi i'r un math o arian cyfred y disgwylir talu'r buddion ynddo. Gwneir y cyfrifiad yn flynyddol gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd.

Pan fydd y cyfrifo yn dwyn budd i Ofcom, mae'r ased cydnabyddedig yn cael ei gyfyngu i werth presennol unrhyw ad-daliadau yn y dyfodol. Mae colledion ac enillion actiwaraidd yn cael eu cydnabod yn llawn o dan incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall yn y Datganiad o Incwm/(Gwariant) Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y byddant yn codi. Mae costau ac incwm llog, a chostau gweinyddu'r cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant yn y cyfnod cyfredol.

Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio sy'n gysylltiedig â staff a symudodd i Ofcom o reoleiddiwr blaenorol. Mae'r cynlluniau hyn wedi cael eu cau i aelodau newydd, ac ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cynllun mae wedi cael ei gau ar gyfer croniadau i'r dyfodol er 1 Mehefin 2011.

Mae Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom yn darparu buddion sy'n gyfwerth fwy neu lai â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt). Mae hwn yn gynllun ar gyfer sawl cyflogwr, a'r cyflogwyr sy'n cyfrannu yw Ofcom, ASA ac S4C. Caiff asedau'r ddau gynllun eu dal mewn ymddiriedolaethau a weinyddir ar wahân.

Mae'n ofynnol o dan IAS 19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl rhagdybiaethau IAS 19, na ellir cydnabod y gwarged ar y Datganiad am Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd "ar gael" iddo yn sgil y gwarged.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

**Cynlluniau nad ydynt yn cael eu hariannu**
Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i ddau gyn-Gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, dau gyn-Gadeirydd yr Awdurdod Radio a dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Telegyfathrebiadau. Rhoddir cyfrif am y buddion hyn nad ydynt yn cael eu hariannu o dan IAS 19 Buddion Gweithwyr drwy ddarpariaeth yn y Datganiad am Sefyllfa Ariannol Ofcom sydd yr un fath â gwerth actiwaraidd y rhwymedigaethau hyn.

**Rhwymedigaeth yng nghyswllt gwyliau gweithwyr**
Dan IAS 19 Buddion Gweithwyr, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel gwariant cyn gynted ag y bydd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr yn codi. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan weithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor hawl i gael cyfnod sabothol â thâl o hyd at bum wythnos ac wedyn cronni un wythnos ar gyfer pob blwyddyn ychwanegol o wasanaeth hyd at uchafswm o ddeg wythnos.

Caiff croniad, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflogau, ei gynnwys fel rhan o groniadau. O 1 Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer gweithwyr newydd.

## k) Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar a darpariaethau cyfreithiol eu cydnabod:

Pan fydd y pecyn diswyddo ar gyfer rhai gweithwyr a symudodd i Ofcom ar hen delerau ac amodau cyflogaeth y Gwasanaeth Sifil yn cael ei ddarparu o'r dyddiad ymddeol yn gynnar tan yr oedran ymddeol. Bydd y gweithiwr yn cael taliad iawndal blynyddol sy'n hafal i'r pensiwn a gedwir, sy'n cael ei dalu drwy randaliadau misol mewn ôl-daliadau fel pensiwn. Mae'n dechrau cronni ar y diwrnod ar ôl y dyddiad ymddeol, ac yn parhau i gronni nes bydd y pensiwn sydd wedi'i gadw yn cael ei dalu, a bydd yn dod i ben bryd hynny.

Mae gan Ofcom rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol ac ar gyfer amcangyfrif o iawndal a chostau cyfreithiol trydydd parti mewn perthynas â heriau yn erbyn penderfyniadau rheoleiddio Ofcom pan fernir ei bod yn debygol y bydd yn rhaid talu'r rhain; mae'n debygol y bydd angen rhoi adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; ac mae'r amcangyfrif o'r swm yn un dibynadwy. Ni chaiff darpariaethau eu cydnabod ar gyfer colledion gweithredol yn y dyfodol.

Pan geir amryw o rwymedigaethau tebyg, penderfynir a yw'n debygol y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried y dosbarth rhwymedigaethau yn ei gyfanrwydd. Caiff darpariaeth ei chydnabod hyd yn oed os yw'n bur annhebygol y caiff all-lif yng nghyswllt unrhyw un eitem ei chynnwys yn yr un dosbarth rhwymedigaethau.

## l) Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodiadau a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n bunnoedd yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd a chydnabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn.

## m) Y dreth gyfredol

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu. Gan hynny, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant a wynebir ganddo fel rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Mae modd asesu Treth Gorfforaeth ar y llog sy'n cael ei dderbyn, ac o ran incwm rhent.

## n) Dadansoddiad fesul segment

Ystyr segment yw elfen amlwg yn y sefydliad sy'n ymwneud â naill ai darparu cynnyrch neu wasanaethau (segment busnes), neu ddarparu cynnyrch neu wasanaethau mewn amgylchedd economaidd penodol (segment daearyddol), ac mae'n agored i risgiau a buddion gwahanol i segmentau eraill. Ni chyflwynwyd dadansoddiad o drosiant Ofcom o weithgareddau mewn segment daearyddol na segment busnes, gan y cynhelir holl weithgareddau Ofcom yn y DU ac yn y sector rheoleiddio. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 2 y datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## o) Meysydd y rhoddir barn arnynt a phrif ffynonellau ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd, datgeliadau o ran rhwymedigaethau ac asedau wrth gefn, a'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r canlyniadau go iawn fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am farnau ac amcangyfrifon o'r fath yn y polisïau cyfrifyddu neu'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, a cheir crynodeb o'r prif feysydd isod.

Dyma'r meysydd y rhoddir barn arnynt sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Darpariaethau cyfreithiol – polisi cyfrifyddu (k)
- Cydnabod incwm ac asesu incwm heb ei filio – polisi cyfrifyddu (b)

Dyma'r meysydd lle ceir ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon a allai achosi addasiad sylweddol i swm cario ymlaen asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf:

- Amcangyfrifon o rwymedigaethau ar gyfer pensiynau a buddion eraill ar ôl ymddeol – polisi cyfrifyddu (j)
- Barn ynghylch a yw contract yn cynnwys les (f)

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 2. DADANSODDIAD SECTORAIDD

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, ynghyd â'r costau a briodolir iddynt. Mae'r dadansoddiad hwn yn cael ei baratoi yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Gwasanaethau Post 2011 ac nid yng nghyswllt IFRS 8 Segmentau Gweithredu, yn unol â pholisi cyfrifyddu 1 (n).

| | Rheoli sbectrwm £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Ffeiliau lloeren £'000 | Gwybodaeth a gwasanaethau rhwydwaith £'000 | Rhwydweithiau a gwasanaethau £'000 | Darlledu £'000 | Rheoleiddio post £'000 | Gweithgareddau rheoleiddio eraill £'000 | Cyfanswm 2021/22 £'000 | Cyfanswm 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm | | | | | | | | | | |
| Ffioedd trwyddedu, rheoleiddio a gweinyddu | – | – | 126 | 7 | 48,295 | 21,097 | 4,793 | 4,569 | 78,887 | 75,366 |
| Ffioedd ymgeisio | – | – | – | – | 365 | 208 | – | – | 573 | 564 |
| Cymorth Grant (GIA) | – | 10,050 | – | – | – | – | – | – | 10,050 | 26,500 |
| Derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw | 52,671 | – | – | – | – | – | – | 23,863 | 76,534 | 61,084 |
| Incwm Cronedig/ (Gohiriedig) | 2,974 | (1,298) | 634 | 109 | (10,851) | 2,428 | 697 | (2,428) | (7,735) | (7,584) |
| **Incwm gweithredu** | **55,645** | **8,752** | **760** | **116** | **37,809** | **23,733** | **5,490** | **26,004** | **158,309** | **155,930** |
| Incwm arall | 43 | – | 1 | – | 30 | 19 | 4 | 21 | 118 | 121 |
| Llog sydd i'w dderbyn | – | – | – | – | – | – | – | – | – | 25 |
| **Cyfanswm incwm** | **55,688** | **8,752** | **761** | **116** | **37,839** | **23,752** | **5,494** | **26,025** | **158,427** | **156,076** |
| Incwm rhent cronedig | – | – | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Incwm ar ffurf arian parod** | **55,688** | **8,752** | **761** | **116** | **37,839** | **23,752** | **5,494** | **26,025** | **158,427** | **156,076** |
| Addasiadau i'r gwariant gweithredu | (43) | – | (1) | – | (30) | (19) | (4) | (21) | (118) | (146) |
| Costau eraill | (55,645) | (8,752) | (760) | (116) | (37,809) | (23,733) | (5,490) | (26,004) | (158,309) | (155,011) |
| **Gwariant gweithredu - arian parod** | **(55,688)** | **(8,752)** | **(761)** | **(116)** | **(37,839)** | **(23,752)** | **(5,494)** | **(26,025)** | **(158,427)** | **(155,157)** |
| Setliad cyfreithiol | – | – | – | – | – | – | – | – | – | (919) |
| **Cyfanswm** | **(55,688)** | **(8,752)** | **(761)** | **(116)** | **(37,839)** | **(23,752)** | **(5,494)** | **(26,025)** | **(158,427)** | **(156,076)** |
| **Gwarged ar sail costau arian parod** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** |
| Costau cymharol fesul sector | | | | | | | | | | |
| **Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022** | **(55,688)** | **(8,752)** | **(761)** | **(116)** | **(37,839)** | **(23,752)** | **(5,494)** | **(26,025)** | **(158,427)** | **–** |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 | (52,657) | (22,689) | (702) | (110) | (39,169) | (25,609) | (5,600) | (8,621) | (155,157) | – |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Mae gweithgareddau rheoleiddio eraill yn cynnwys:

- gwariant yng nghyswllt dyletswyddau ar gyfer ymholiadau cystadleuaeth, gweithgarwch prawf budd cyhoeddus, galwadau niwsans, diogelu defnyddwyr, gwaith paratoi ar gyfer dyletswyddau niwed ar-lein a llwyfannau rhannu fideos, a chostau ein dyletswyddau diogelwch telathrebu; defnyddir derbyniadau mewn perthynas â'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i gyllido'r categorïau cost hyn;incwm dyfarnwyr;

- gweithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymyriant ar gyfer sbectrwm; ac

- incwm rhent o is-osod gofod dros ben mewn adeiladau.

Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y nodir yn nodyn 1(b) y cyfrifon hyn, mae cymorth grant a derbyniadau mewn perthynas â'r Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn cael eu dyrannu a'u cyfateb i gostau yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi. Caiff y tabl ar dudalen 128 ei baratoi ar sail ariannol wedi'i addasu, sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol at gynlluniau pensiwn, ond ddim yn cynnwys dibrisiant ac amorteiddiad.

Mae ffioedd trwyddedu a gweinyddol Ofcom yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau arian parod. Pan fydd mwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, bydd y gwarged yn cael ei ad-dalu i'r rhanddeiliaid perthnasol. Fel arall, pan fydd mwy o wariant nag incwm yn y flwyddyn gyfredol, bydd y diffyg yn cael ei gasglu gan y rhanddeiliaid perthnasol, yn unol â Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

Mae darlledu yn cynnwys y tâl a godir ar y BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau i reoleiddio'r BBC.

Mae Incwm a Gwariant yn y broses Clirio Sbectrwm yn llai yn 2021/22 wrth i'r rhaglen ddod i ben.

Mae Incwm a Gwariant ar gyfer Gweithgareddau Rheoleiddio Eraill wedi cynyddu yn 2021/22 o ganlyniad i'r gwaith paratoi ar gyfer ein dyletswyddau newydd o ran Diogelwch Ar-lein.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## Cysoni'r gwariant gweithredu â'r alldro costau gweithredu terfynol

| | Nodiadau | 2021/22 £'000 | 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredu - Datganiad Incwm a Gwariant** | | **154,541** | 154,096 |
| Addasiadau o ran rhwymedigaethau ac asedau pensiwn | | 844 | 470 |
| Gwariant cyfalaf llai dibrisiant ac amorteiddiad | 8,10 | 1,419 | (878) |
| Dibrisiant asedau hawl i ddefnyddio | 9 | (4,993) | (4,742) |
| Taliadau lesoedd | 16 | 5,192 | 4,942 |
| Addasiadau eraill | | 1,424 | 1,269 |
| **Gwariant gweithredu - arian parod** | | **158,427** | 155,157 |
| Clirio sbectrwm | 4,6 | (8,752) | (22,689) |
| Tanysgrifiad ITU | | (2,617) | (2,553) |
| Incwm Anweithredol | | (118) | (146) |
| **Alldro costau gweithredu terfynol** | | **146,940** | **129,769** |

Mae addasiadau eraill yn adlewyrchu symudiadau mewn materion nad ydynt yn ymwneud ag arian parod yn ystod y flwyddyn.

Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Cyfathrebu a Gwasanaethau Post, mae'r tabl isod yn dangos yr arian parod a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol a'r swm sy'n ddyledus ar gyfer y sectorau Rhwydweithiau a gwasanaethau, Darlledu a'r Post. Mae arian parod a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys incwm cronedig o flynyddoedd blaenorol.

| | Arian parod a dderbyniwyd yn 2021/22 £'000 | Swm sy'n ddyledus £'000 |
|---|---|---|
| **Sectorau** | | |
| Rhwydweithiau a gwasanaethau | 39,542 | 1,593 |
| Darlledu | 22,863 | 501 |
| Post | 5,967 | – |
| **Cyfanswm** | **68,372** | **2,094** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 3. INCWM

| | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfreitha trydydd parti £'000 | Cyfanswm 2021/22 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfreitha trydydd parti £'000 | Cyfanswm 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Grant Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon** | | | | | | | | |
| Clirio Sbectrwm | – | 8,752 | – | 8,752 | – | 22,689 | – | 22,689 |
| **Cyfanswm cymorth grant gan lywodraeth y DU** | **–** | **8,752** | **–** | **8,752** | **–** | **22,689** | **–** | **22,689** |
| **Derbyniadau WTA sydd wedi'u Cadw** | | | | | | | | |
| Rheoli Sbectrwm | 55,645 | – | – | 55,645 | 52,601 | – | – | 52,601 |
| Ôl-gystadleuaeth | 1,092 | – | – | 1,092 | – | – | – | – |
| Galwadau niwsans | 147 | – | – | 147 | 817 | – | – | 817 |
| Diogelu Defnyddwyr | 8 | – | – | 8 | 14 | – | – | 14 |
| Llwyfannau rhannu fideos | 5,696 | – | – | 5,696 | 3,385 | – | – | 3,385 |
| Prawf Budd y Cyhoedd | 100 | – | – | 100 | – | – | – | – |
| Diogelwch Ar-lein | 15,975 | – | – | 15,975 | 2,722 | – | – | 2,722 |
| Dyletswyddau diogelwch telathrebu | 2,808 | – | – | 2,808 | 1,616 | – | – | 1,616 |
| Systemau gwybodaeth a rhwydweithiau | 38 | – | – | 38 | 53 | – | – | 53 |
| HFSS | 140 | – | – | 140 | – | – | – | – |
| Setliad Cyfreithiol | – | – | – | – | – | – | 919 | 919 |
| **Cyfanswm derbyniadau WTA sydd wedi'u cadw** | **81,649** | **–** | **–** | **81,649** | **61,208** | **–** | **919** | **62,127** |
| **Incwm rhanddeiliaid** | | | | | | | | |
| Ffioedd gweinyddol a ffioedd gwneud cais ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau | 37,809 | – | – | 37,809 | 39,129 | – | – | 39,129 |
| Ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu | 23,733 | – | – | 23,733 | 25,580 | – | – | 25,580 |
| Rheoleiddio'r Post | 5,490 | – | – | 5,490 | 5,594 | – | – | 5,594 |
| Systemau gwybodaeth a rhwydweithiau | 116 | – | – | 116 | 110 | – | – | 110 |
| Incwm arall | 878 | – | – | 878 | 847 | – | – | 847 |
| **Cyfanswm incwm rhanddeiliaid** | **68,026** | **–** | **–** | **68,026** | **71,260** | **–** | **–** | **71,260** |
| **Cyfanswm incwm** | **149,675** | **8,752** | **–** | **158,427** | **132,468** | **22,689** | **919** | **156,076** |

Mae rheoli sbectrwm yn cynnwys y tanysgrifiad blynyddol i'r Undeb Telathrebu Rhyngwladol (ITU) a delir ar ran Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu yn cynnwys y tâl a godir ar y BBC mewn perthynas â'r cyfrifoldebau dros reoleiddio'r BBC.

Mae incwm Clirio Sbectrwm wedi'i gyflwyno ar wahân i incwm craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 4. COSTAU STAFF

| | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2021/22 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfanswm 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyma'r costau staff, gan gynnwys y ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Bwrdd:** | | | | | | |
| Cyflogau a buddion | 73,439 | 212 | 73,651 | 68,024 | 351 | 68,375 |
| Costau Yswiriant Gwladol | 8,657 | 25 | 8,682 | 7,831 | 38 | 7,869 |
| Costau pensiwn | 7,857 | 17 | 7,874 | 7,037 | 33 | 7,070 |
| Costau ailstrwythuro | 40 | 60 | 100 | 152 | – | 152 |
| **Cyfanswm costau staff** | **89,993** | **314** | **90,307** | **83,044** | **422** | **83,466** |

Nid oedd unrhyw gostau cyflogau a buddion yng nghostau craidd Ofcom a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu mesurau Covid-19 (2020/21: £384k), nac unrhyw gostau yn ymwneud â gadael yr Undeb Ewropeaidd chwaith (2020/21: £54k).

Mae'r costau Clirio Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau staff craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy pwrpasol rhwng y blynyddoedd.

Yn ystod y flwyddyn, secondiwyd 24 (2020/21: 24) o weithwyr i sefydliadau eraill, felly mae'r credyd hwn wedi'i gynnwys ar y llinell costau staff yn y tabl uchod.

Nid oedd unrhyw groniadau ar gyfer costau ailstrwythuro yn 2021/22 gan fod yr holl daliadau wedi cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn (2020/21: 2).

Mae gwybodaeth fanylach yng nghyswllt taliadau a hawliau pensiwn y cyfarwyddwyr a'r uwch swyddogion gweithredol ar gael yn yr adroddiad taliadau ar dudalennau 102 i 108.

## 5. NIFER Y GWEITHWYR

| | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) | 1,102 | 992 |

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan Ofcom 1,189 o weithwyr (cyfwerth ag amser llawn) (2020/21: 1,031), sy'n fwy na'r llynedd – yn bennaf oherwydd y gwaith paratoi ar gyfer ein dyletswyddau newydd yn ymwneud â Diogelwch Ar-lein.

Nid yw nifer y gweithwyr yn cynnwys Aelodau Anweithredol o Fwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgorau Cynghori na gweithwyr sydd wedi cael secondiad i Ofcom.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 6. GWARIANT GWEITHREDU ARALL

| | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfreitha trydydd parti £'000 | Cyfanswm 2021/22 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfreitha trydydd parti £'000 | Cyfanswm 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Talu archwilwyr – ffioedd archwilio statudol | 127 | – | – | 127 | 89 | – | – | 89 |
| Talu archwilwyr – Adran 400 | 16 | – | – | 16 | 16 | – | – | 16 |
| Ffioedd proffesiynol | 6,627 | 191 | – | 6,818 | 4,815 | 1,324 | – | 6,139 |
| Gwasanaethau a ddarperir yn allanol | 10,423 | – | – | 10,423 | 9,791 | – | – | 9,791 |
| Ymchwil i'r gynulleidfa a'r defnyddwyr | 5,183 | – | – | 5,183 | 5,322 | – | – | 5,322 |
| Ymchwil dechnolegol a phrosiectau effeithlonrwydd sbectrwm | 281 | – | – | 281 | 1,018 | – | – | 1,018 |
| Cynllun clirio sbectrwm | – | 8,243 | – | 8,243 | – | 20,937 | – | 20,937 |
| Staff dros dro a recriwtio | 5,405 | – | – | 5,405 | 3,038 | – | – | 3,038 |
| Teithio a chynhaliaeth | 327 | – | – | 327 | 17 | 2 | – | 19 |
| Costau eiddo | 5,635 | – | – | 5,635 | 5,565 | – | – | 5,565 |
| Costau gweinyddol a chostau swyddfa | 7,365 | – | – | 7,365 | 7,525 | – | – | 7,525 |
| Costau technoleg a gwybodaeth | 6,972 | 4 | – | 6,976 | 6,062 | 4 | – | 6,066 |
| Cerbydau | 179 | – | – | 179 | 103 | – | – | 103 |
| Drwgddyledion a dyledion amheus | (1) | – | – | (1) | 22 | – | – | 22 |
| Amorteiddiad | 135 | – | – | 135 | 211 | – | – | 211 |
| Dibrisiant | 2,128 | – | – | 2,128 | 2,033 | – | – | 2,033 |
| Dibrisiant asedau Ies Hawl i Ddefnyddio | 4,993 | – | – | 4,993 | 4,742 | – | – | 4,742 |
| (Enillion)/Colledion ar waredu asedau anghyfredol | 1 | – | – | 1 | (175) | – | – | (175) |
| Amhariad | – | – | – | – | 250 | – | – | 250 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu arall** | **55,796** | **8,438** | **–** | **64,234** | **50,444** | **22,267** | **–** | **72,711** |

Mae'r costau Clirio Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i wariant gweithredu arall Ofcom, sy'n gostau craidd, er mwyn bod yn dryloyw a rhoi cymhariaeth fwy pwrpasol rhwng y blynyddoedd.

Roedd yr enillion wrth waredu asedau anghyfredol yn y flwyddyn flaenorol yn deillio'n bennaf o enillion o hawliad yswiriant o £170k a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, ac yn ogystal cafwyd enillion pellach o £13k drwy werthu asedau anghyfredol y llynedd.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Gwelir isod gyfanswm y gwariant sydd wedi deillio'n uniongyrchol o weithredu mesurau Covid-19 a Gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r rhain wedi cael eu cyflwyno fel rhan o gyfanswm y gwariant gweithredu arall ar gyfer y flwyddyn.

| | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfreitha trydydd parti £'000 | Cyfanswm 2021/22 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfreitha trydydd parti £'000 | Cyfanswm 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Covid-19 | 281 | – | – | 281 | 1,901 | 1,372 | – | 3,273 |
| Gadael yr Undeb Ewropeaidd | – | – | – | – | 73 | – | – | 73 |

| | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfreitha trydydd parti £'000 | Cyfanswm 2021/22 £'000 | Ofcom £'000 | Clirio sbectrwm £'000 | Cyfreitha trydydd parti £'000 | Cyfanswm 2020/21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau cyfreithiol yn ystod y flwyddyn** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **(2,081)** | **(2,081)** |

Mae'r symudiad o fewn costau cyfreithiol yn ystod y flwyddyn, ers y flwyddyn ariannol flaenorol, yn deillio o wrthdroi cyfran o'r ddarpariaeth gyfreithiol a wnaed yn y flwyddyn flaenorol nad oedd ei hangen pan setlwyd y mater yn 2020/21.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 7. TRETHIANT

| | 2021/22<br>£'000 | 2020/21<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Cysoni'r tâl treth** | | |
| Gwarged cyn treth | 3,267 | 1,526 |
| Treth ar elw ar gyfradd safonol Treth Gorfforaeth y DU, sef 19% (2020/21: 19%) | 621 | 290 |
| **Effaith treth:** | | |
| Incwm na thelir treth arno | (30,093) | (29,645) |
| Costau na thelir treth arnynt | 29,480 | 29,365 |
| Lleihad yn y colledion treth a ddygwyd ymlaen | (8) | (10) |
| **Costau treth** | **–** | **–** |

Ar y dyddiad adrodd, roedd gan Ofcom golledion treth heb eu defnyddio i'w gosod yn erbyn incwm trethadwy yn y dyfodol o £11,285k (2020/21: £11,325k). Nid oes unrhyw asedau treth gohiriedig cydnabyddedig yng nghyswllt y colledion hyn, gan nad yw'n debygol y bydd digon o incwm trethadwy'n codi y gellir defnyddio'r colledion yn ei erbyn.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 8. EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR

| | Gwelliannau prydles £'000 | Gosodiadau a ffitiadau £'000 | Cyfarpar swyddfa a maes £'000 | Caledwedd cyfrifiadurol £'000 | Cerbydau modur £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | **8,161** | **1,822** | **12,791** | **1,859** | **736** | **335** | **25,704** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 319 | 56 | 500 | 82 | – | 409 | 1,366 |
| Gwarediadau | (151) | (14) | (83) | (262) | – | – | (510) |
| Trosglwyddiadau | – | 26 | 302 | 7 | – | (335) | – |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **8,329** | **1,890** | **13,510** | **1,686** | **736** | **409** | **26,560** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | – | 114 | 29 | 546 | – | 2,989 | 3,678 |
| Gwarediadau | (5) | (13) | (2,972) | (25) | – | – | (3,015) |
| Trosglwyddiadau | – | – | 323 | 94 | – | (417) | – |
| **Cost ar 31 Mawrth 2022** | **8,324** | **1,991** | **10,890** | **2,301** | **736** | **2,981** | **27,223** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | **1,550** | **541** | **10,395** | **1,421** | **485** | **–** | **14,392** |
| Dibrisiant am y flwyddyn | 767 | 251 | 675 | 226 | 114 | – | 2,033 |
| Gwarediadau | (144) | (14) | (82) | (262) | – | – | (502) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **2,173** | **778** | **10,988** | **1,385** | **599** | **–** | **15,923** |
| Dibrisiant am y flwyddyn | 716 | 266 | 761 | 306 | 79 | – | 2,128 |
| Gwarediadau | (5) | (11) | (2,973) | (25) | – | – | (3,014) |
| **Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2022** | **2,884** | **1,033** | **8,776** | **1,666** | **678** | **–** | **15,037** |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2022** | **5,440** | **958** | **2,114** | **635** | **58** | **2,981** | **12,186** |
| Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2021 | 6,156 | 1,112 | 2,522 | 301 | 137 | 409 | 10,637 |

Mae cyfarpar a brynwyd ar gyfer y rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm wedi'u cynnwys yng nghofrestri asedau Ofcom o dan Cyfarpar Maes.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 9. ASEDAU HAWL I DDEFNYDDIO

Mae Ofcom yn lesio asedau, gan gynnwys adeiladau, cerbydau a chyfarpar swyddfa. Cyflwynir isod wybodaeth am lesoedd y mae Ofcom yn lesddeiliad arnynt.

| | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | **51,895** | **292** | **238** | **52,425** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 243 | – | – | 243 |
| Gwarediadau | (22) | (51) | (5) | (78) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **52,116** | **241** | **233** | **52,590** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 1,020 | 516 | 7 | 1,543 |
| **Cost ar 31 Mawrth 2022** | **53,136** | **757** | **240** | **54,133** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | **4,605** | **118** | **52** | **4,775** |
| Dibrisiant am y flwyddyn | 4,619 | 61 | 62 | 4,742 |
| **Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2021** | **9,224** | **179** | **114** | **9,517** |
| Dibrisiant am y flwyddyn | 4,861 | 87 | 45 | 4,993 |
| **Dibrisiant cronedig ar 31 Mawrth 2022** | **14,085** | **266** | **159** | **14,510** |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2022** | **39,051** | **491** | **81** | **39,623** |
| Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2021 | 42,892 | 62 | 119 | 43,073 |

Ymrwymodd Ofcom i dair les newydd ar gyfer llogi cerbydau a swyddfeydd ym Manceinion a Chaeredin yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 10. ASEDAU ANNIRIAETHOL

| | Trwyddedau meddalwedd £'000 | Technoleg Gwybodaeth £'000 | Systemau sy'n cael eu datblygu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | **5,451** | **17,973** | **317** | **23,741** |
| Amhariad | – | – | (250) | (250) |
| Gwarediadau | (34) | (97) | – | (131) |
| Trosglwyddiadau | – | 67 | (67) | – |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **5,417** | **17,943** | **–** | **23,360** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | – | – | 4 | 4 |
| Gwarediadau | (305) | (268) | – | (573) |
| **Cost ar 31 Mawrth 2022** | **5,112** | **17,675** | **4** | **22,791** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2020** | **5,193** | **17,921** | **–** | **23,114** |
| Dibrisiant am y flwyddyn | 147 | 64 | – | 211 |
| Gwarediadau | (34) | (97) | – | (131) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **5,306** | **17,888** | **–** | **23,194** |
| Dibrisiant am y flwyddyn | 111 | 24 | – | 135 |
| Gwarediadau | (305) | (268) | – | (573) |
| **Amorteiddiad cronedig ar 31 Mawrth 2022** | **5,112** | **17,644** | **–** | **22,756** |
| | | | | |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2022** | **–** | **31** | **4** | **35** |
| Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2021 | 111 | 55 | – | 166 |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 11. SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL: ASEDAU CYFREDOL

| | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach derbyniadwy | 2,992 | 858 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 640 | 501 |
| Rhagdaliadau | 5,930 | 7,444 |
| Benthyciadau a blaendaliadau staff | 48 | 23 |
| Incwm Cronedig - Rhanddeiliad < Blwyddyn | 4,865 | 4,061 |
| Incwm cronedig - Cymorth grant | 134 | 134 |
| Incwm cronedig - Derbyniadau WTA | 6,063 | 6,606 |
| **Cyfanswm symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau cyfredol** | **20,672** | **19,627** |

Roedd y cynnydd mewn Symiau masnach derbyniadwy yn deillio o oedi cyn cyflwyno anfonebau gwerthiant ar ôl symud o SAP i Workday yn chwarter olaf y flwyddyn.

Roedd y gostyngiad mewn Rhagdaliadau yn deillio o newid yn y polisi cyfrifyddu mewnol ar gyfer cydnabod rhent ar ôl symud o SAP i Workday. Nid yw rhent yn cael ei drin fel rhagdaliad mwyach, ac mae'n cael ei gydnabod yn llawn yn y mis y mae'r rhent yn cael ei dalu.

## 12. SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL: ASEDAU ANGHYFREDOL

| | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm Cronedig - Rhanddeiliad > Blwyddyn | 542 | 1,069 |
| **Cyfanswm symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill: asedau anghyfredol** | **542** | **1,069** |

Llai o incwm cronedig yn y sector teledu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon (£263k yn 2021/22 o'i gymharu â £735k yn 2020/21) sy'n bennaf gyfrifol am hyn, a hynny oherwydd bod y costau alldro ar gyfer y sector yn fwy cyson â'r rhagolygon.

## 13. ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

| | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 20,920 | 14,185 |
| **Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | **20,920** | **14,185** |

Mae'r holl weithgareddau a'r balansau arian parod sy'n gysylltiedig â Chosbau a Ffioedd Trwyddedu ar wahân i gyfrifon Ofcom, ac yn cael eu datgelu yng nghyfrifon Adran 400.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 14. SYMIAU MASNACH TALADWY A SYMIAU TALADWY ERAILL: RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL

| | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy | 5,894 | 78 |
| Symiau taladwy eraill | 1,103 | 1,575 |
| Treth ar Werth sy'n daladwy | 128 | 204 |
| Croniadau | 8,854 | 11,079 |
| Incwm Gohiriedig – Arall | 852 | – |
| Incwm Gohiriedig - Rhanddeiliad < Blwyddyn | 13,508 | 7,900 |
| Incwm Gohiriedig - Cymorth grant | 1,292 | 3,811 |
| Incwm Gohiriedig - Derbyniadau WTA | 4,883 | 3,228 |
| **Cyfanswm symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau cyfredol** | **36,514** | **27,875** |

Targed Llywodraeth y DU ar gyfer talu cyflenwyr yw pum diwrnod ar gyfer 80 y cant o anfonebau diamheuol. Yn ogystal â chyflenwyr bach a chanolig, mae Ofcom hefyd yn cynnwys cyflenwyr mawr yn y cynllun hwn er mwyn eu hannog i gadw at y cyfnod llai wrth dalu'r busnesau bach sy'n eu cyflenwi.

Mae'r symudiad o fewn symiau masnach taladwy yn deillio o amseriad y set derfynol o daliadau cyflenwyr a wnaed ddechrau Ebrill 2022.

Mae incwm gohiriedig gan randdeiliaid yn dod o'r newidiadau cyllid ar gyfer ein gwaith diogelwch nad yw mwyach, o dan y Ddeddf Diogelwch Telegyfathrebiadau, yn cael ei ariannu gan y Rhwydweithiau a'r Gwasanaethau.

## 15. SYMIAU MASNACH TALADWY A SYMIAU TALADWY ERAILL: RHWYMEDIGAETHAU ANGHYFREDOL

| | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm Gohiriedig - Rhanddeiliad > Blwyddyn | 5,547 | 7,100 |
| **Cyfanswm symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill: rhwymedigaethau anghyfredol** | **5,547** | **7,100** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 16. RHWYMEDIGAETHAU LESOEDD

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad aeddfedrwydd o'r rhwymedigaethau lesoedd ar sail llifoedd arian parod gros heb eu disgowntio:

| | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Arall £'000 | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad Aeddfedrwydd – llifoedd arian parod contractiol: heb eu disgowntio** | | | | | |
| Llai na blwyddyn | 5,418 | 119 | 27 | 5,564 | 4,966 |
| Rhwng un a phum mlynedd | 20,688 | 331 | 54 | 21,073 | 20,405 |
| Mwy na phum mlynedd | 18,050 | – | – | 18,050 | 24,331 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd: heb eu disgowntio** | **44,156** | **450** | **81** | **44,687** | **49,702** |

Nid yw Ofcom yn wynebu risg sylweddol o ran hylifedd yng nghyswllt ei rwymedigaethau lesoedd.

| | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau a gydnabyddir yn y datganiad am y sefyllfa ariannol** | | |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau cyfredol | 4,766 | 4,079 |
| Rhwymedigaethau lesoedd: rhwymedigaethau anghyfredol | 36,009 | 40,653 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau lesoedd: wedi eu disgowntio** | **40,775** | **44,732** |

Mae lesoedd yn cael eu disgowntio ar sail un gyfradd nominal ar gyfer lesoedd, sef 0.95 y cant ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2022 (2021: 0.91 y cant, 2020: 1.27 y cant). Mae lesoedd sy'n newid i IFRS 16 cyn Ionawr 2020 ac yn ystod blwyddyn galendr 2019 yn cael eu disgowntio ar gyfradd ddisgownt y flwyddyn flaenorol, sef 1.99 y cant, yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Yn gyffredinol, mae pob les yn gosod cyfyngiad – oni bai fod gan Ofcom hawl gontractiol i is-osod yr ased i barti arall, dim ond Ofcom all ddefnyddio'r ased hawl i ddefnyddio. Ni ellir canslo lesoedd, neu ni ellir eu canslo heb dalu ffi terfynu sylweddol. Mae rhai lesoedd yn cynnwys opsiwn i brynu'r ased sylfaenol sy'n cael ei lesio ar ddiwedd y les, neu i ymestyn y les am gyfnod arall. Mae Ofcom wedi'i wahardd rhag gwerthu nac ymrwymo'r asedau sylfaenol sy'n cael eu lesio fel gwarant. O ran lesoedd adeiladau, rhaid i Ofcom gadw'r eiddo hwnnw mewn cyflwr da a dychwelyd yr eiddo yn ei gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd y les. Ar ben hynny, rhaid i Ofcom yswirio asedau hawl i ddefnyddio a thalu ffioedd cynnal a chadw ar asedau o'r fath, yn unol â chontract y les.

| | **Ar 31 Mawrth 2022 £'000** | **Ar 31 Mawrth 2021 £'000** |
|---|---|---|
| **Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant** | | |
| Llog ar rwymedigaethau lesoedd (wedi ei gynnwys o dan gostau cyllid) | 868 | 961 |
| Gwariant sy'n ymwneud â lesoedd tymor byr (wedi'i gynnwys o dan wariant gweithredu arall) | 3 | 21 |
| Gwariant sy'n ymwneud â lesoedd asedau isel eu gwerth (wedi'i gynnwys o dan wariant gweithredu arall) | 23 | 21 |
| **Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Llifoedd Arian Parod** | | |
| Cyfanswm y llif arian parod allan ar gyfer lesoedd | (5,192) | (4,942) |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 17. DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU A THALIADAU

| | Ymddeol yn gynnar £'000 | Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2020** | **166** | **3,000** | **3,166** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd (wedi'u cynnwys o dan gostau cyllid) | 9 | – | 9 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (14) | (940) | (954) |
| Darpariaeth wedi'i chynyddu | – | (2,060) | (2,060) |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **161** | **–** | **161** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn a newidiadau yn y gyfradd (wedi'u cynnwys o dan gostau cyllid) | 5 | – | 5 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (11) | – | (11) |
| **Cyfanswm y darpariaethau ar 31 Mawrth 2022** | **155** | **–** | **155** |

| **Dadansoddiad o pryd y disgwylir y llifoedd arian parod** | Ymddeol yn gynnar £'000 | Cyfreithiol £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfredol** | | | |
| Llai na blwyddyn | 12 | – | 12 |
| **Cyfanswm cyfredol** | **12** | **–** | **12** |
| **Anghyfredol** | | | |
| Rhwng un a phum mlynedd | 50 | – | 50 |
| Mwy na phum mlynedd | 93 | – | 93 |
| **Cyfanswm anghyfredol** | **143** | **–** | **143** |
| **Cyfanswm y darpariaethau ar 31 Mawrth 2022** | **155** | **–** | **155** |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymddeol yn gynnar, sef £155k (2020/21: £161k), yn ymwneud â Thaliadau Iawndal Blynyddol, sy'n rhan o'r pecyn diswyddo ar gyfer rhai cydweithwyr a symudodd i Ofcom ar eu hen delerau ac amodau cyflogaeth fel rhan o'r Gwasanaeth Sifil.

Cyfrifir y darpariaethau yn unol â gofynion IAS 37. Bydd disgownt o -1.30 y cant ar y darpariaethau ymddeol yn gynnar (2020/21: -0.95 y cant) y flwyddyn yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi; bydd pob darpariaeth arall sydd â therfyn amser o 1 i 5 mlynedd yn destun disgownt yn ôl y gyfradd ddisgownt tymor byr o 0.47 y cant (2020/21: -0.02 y cant), a bydd gan ddarpariaethau sydd â therfyn amser o 5 i 10 mlynedd gyfradd tymor canolig o 0.70 y cant (2020/21: 0.18 y cant).

Mae modd apelio yn erbyn penderfyniadau rheoleiddio Ofcom. Gallai apeliadau yn erbyn penderfyniadau Ofcom arwain at rwymedigaethau ar gyfer costau cyfreithiol. Bydd Ofcom yn gwneud darpariaeth yn y datganiadau ariannol am gostau i'r graddau eu bod yn debygol ac yn fesuradwy.

Yn dilyn canlyniad apêl Ffi'r Drwydded Flynyddol ym mis Chwefror 2020, roedd gan un trydydd parti apêl barhaus i'r Llys Apêl, gan geisio rhagor o log cosbi ar swm ad-daliad gwreiddiol ar gyfer Ffi'r Drwydded Flynyddol. Cafodd y mater hwn ei ddatrys yn y flwyddyn ariannol hon gyda thaliad terfynol o £940k yn cael ei ddyfarnu. O ganlyniad, cafodd cydbwysedd y ddarpariaeth o ddiwedd y flwyddyn 2019/20 ei ryddhau yn unol â hynny.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 18. MG ALBA

Yn unol ag Adran 210 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 Deddf Darlledu 1990, talodd Gweinidogion yr Alban £13,530k (2020/21: £13,580k) i Ofcom. Nid yw'r symiau wedi'u hadlewyrchu yn natganiadau ariannol Ofcom, gan fod Ofcom wedyn yn eu talu i'r Gronfa Darlledu Gaeleg o dan reolaeth Seirbheis nam Meadhanan Gàidhlig (MG Alba). Mae MG Alba yn paratoi adroddiadau a datganiadau ariannol ar wahân ar gyfer hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd Ofcom yn anfon y rhain at Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac at Weinidogion yr Alban i'w cyflwyno gerbron Senedd yr Alban.

## 19. RHWYMEDIGAETHAU BUDDION YMDDEOL

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau heb eu hariannu.

### A) Cynllun â'r cyfraniadau wedi'u diffinio - cynllun pensiwn cyfranddeiliaid

Prif ffordd Ofcom o ddarparu buddion pensiwn i'w gydweithwyr yw drwy gyfrannu at gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Cyfrannodd y cyflogwr £7,104k yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 (2020/21: £6,447k). Mae'r Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio hefyd yn cynnwys adran cyfraniadau wedi'u diffinio.  Ond, mae wedi cau bellach ac nid oes dim mwy o gyfraniadau'n cael eu gwneud i'r trefniant hwn.

### B) Cynlluniau pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio

Mae gan Ofcom ddau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio, er i'r ddau gau i groniadau yn y dyfodol ar 1 Mehefin 2011:

- Sefydlwyd Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Cyfraniad y cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi eu Diffinio am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 oedd £3k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2020/21: £3k). Trosglwyddwyd cyfraniadau'r cyflogwr o £360k o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i'r Cynllun Buddion wedi'u Diffinio yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 (2020/21: £1,560k); a
- Chynllun Pensiwn Ofcom (cynllun ITC gynt), y mae Ofcom yn rhan ohono ar y cyd â thri sefydliad arall, sef S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 oedd £10k yng nghyswllt costau'r Cynllun (2020/21: £10k).  Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £180k eu trosglwyddo o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo i Gynllun Pensiwn Ofcom (cynllun ITC gynt) yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 (2020/21: £180k).

Rheolir y ddau Gynllun hyn gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n annibynnol ar Ofcom.

Pennir cyfraniadau arian parod Ofcom at y ddau gynllun hyn yn unol â Deddf Pensiynau 2004. O dan y ddeddf rhaid bod yn llawer mwy darbodus wrth fesur y rhwymedigaethau nag o dan IFRS. Cafodd prisiadau ariannu o dan y Ddeddf Pensiynau, gyda dyddiad dod i rym o 31 Mawrth 2018, eu cwblhau ar gyfer y ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio ac, yn wahanol i IFRS, roeddent yn dangos gwarged cyfun o £5.3m. Mae prisiad ariannu, gyda dyddiad dod i rym o 31 Mawrth 2021, yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Cytunwyd ar amserlenni cyfraniadau gydag Ymddiriedolwr y ddau gynllun o ganlyniad i'r prisiadau hyn. O dan yr amserlenni presennol, mae disgwyl i Ofcom gyfrannu £540k at y ddau gynllun â'r buddion wedi eu diffinio dros y 12 mis nesaf ar gyfer talu costau'r Cynlluniau. Mae'r cyfraniadau hyn i'w talu o'r Ymddiriedolaeth Bwydo (rhagor o fanylion isod). Mae Ofcom hefyd yn ad-dalu'r Cynlluniau ar gyfer ardollau sy'n gysylltiedig â phensiwn.

Mae gan Ofcom gyfrif Ymddiriedolaeth Bwydo sydd wedi'i ymgorffori yn Asedau'r Cynllun Pensiwn. Dim ond i un o'r ddau Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio y ceir talu arian a drosglwyddir i'r cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo, ac ni cheir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Ymddiriedolaeth Bwydo Ofcom ydy'r mecanwaith mae Ofcom yn ei ddefnyddio i roi arian o'r neilltu er mwyn gwneud cyfraniadau yn y dyfodol ac i dalu am gostau rhedeg ei ddau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, Cynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom a Chynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt).

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Mae arian sy'n cael ei drosglwyddo i Ymddiriedolaeth Bwydo Ofcom yn cael ei gydnabod yn y flwyddyn ariannol pan gaiff y trosglwyddiad ei wneud, ond wedyn mae modd defnyddio'r arian hwn mewn cyfnodau sydd i ddod. Fydd dim ond modd defnyddio'r arian sy'n cael ei gadw yn y Cyfrif Bwydo er mwyn talu am y cynlluniau pensiwn yn unol â'r atodlen gyfraniadau ar gyfer pob Cynllun neu drwy daliad ad hoc a fydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom mewn perthynas â phrosiect penodol (fel ymarfer i leihau risg) yn ogystal ag i dalu am gostau rhedeg y cynlluniau.

Ddiwedd mis Mai 2020, prynodd yr Ymddiriedolwr gontract blwydd-dal swmp gyda Legal and General i dalu am fuddion holl aelodau heb yswiriant Cynllun Buddion wedi eu Diffinio Ofcom a oedd yn cael pensiwn ar 30 Tachwedd 2019. I ategu hyn, talodd y cwmni £1.2m o'r Ymddiriedolaeth Bwydo.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, cyfrannodd Ofcom £1,600k at yr Ymddiriedolaeth Bwydo (2020/21: £1,080k), ac mae'r cyllid ychwanegol a dalwyd eleni yn gyfle i leihau'r risg ymhellach o ran rhwymedigaethau'r Cynlluniau. Balans yr Ymddiriedolaeth Bwydo ar 31 Mawrth 2022 oedd £8,797k (2020/21: £7,737k).

Mae Ofcom hefyd yn gyfrifol am fodloni rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu ar ran cyn-Gadeiryddion y Comisiwn Teledu Annibynnol a'r Awdurdod Radio, ynghyd â chyn-Gyfarwyddwyr Cyffredinol Telegyfathrebiadau. Ni chaiff y ddarpariaeth pensiynau ei hariannu, ac mae'r buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a chael eu gwarantu gan Ofcom. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Ceisiwyd cyngor actiwari er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phennu ar lefel realistig.

## Cydraddoli Pensiynau Sylfaenol Wedi eu Gwarantu

Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys yn achos Lloyds Bank ar 26 Hydref 2018, a ddyfarnodd ei bod yn rhaid i gynlluniau addasu buddion er mwyn cydraddoli Pensiynau Sylfaenol Wedi'u Gwarantu (GMPs) rhwng dynion a menywod, roedd Ofcom wedi gwneud lwfans ar gyfer effaith bosibl hyn ar 31 Mawrth 2019. Gwnaed lwfans ar gyfer hyn fel cost gwasanaeth blaenorol yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Roedd lwfans o £284,000 wedi cael ei wneud mewn perthynas â (Hen Gynllun ITC) Ofcom, ac roedd lwfans o £14k wedi cael ei wneud mewn perthynas â Chynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom. Mae Ymddiriedolwyr y Cynlluniau'n dal i wneud cynnydd i gydraddoli Pensiynau Sylfaenol wedi eu Gwarantu. Ni fyddwn yn gwybod faint fydd hyn yn ei gostio i gyd nes byddant wedi cael eu cydraddoli'n llawn (ac mae'n siŵr na fydd hynny'n digwydd am flynyddoedd lawer).

## Cydraddoli Pensiynau Sylfaenol Wedi eu Gwarantu ar Werthoedd Hanesyddol

Ar 20 Tachwedd 2020, gwnaeth yr Uchel Lys ei ddyfarniad diweddaraf ar gydraddoli Pensiynau Sylfaenol Wedi eu Gwarantu mewn perthynas â thaliadau gwerth trosglwyddo. Daeth i'r casgliad y bydd yn rhaid i drosglwyddiadau hanesyddol ers 17 Mai 1990, a oedd yn cynnwys Pensiynau Sylfaenol Wedi eu Gwarantu a gronnwyd ar ôl y dyddiad hwn, gael eu cydraddoli. Nid oes dadansoddiad wedi ei wneud i sefydlu'r atebolrwydd posibl am y Cynlluniau o ganlyniad i'r dyfarniad diweddaraf gan mai cymharol gyfyngedig fu'r gweithgarwch gwerth trosglwyddo yn y gorffennol, ac felly ni ddisgwylir i'r atebolrwydd ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw werth trosglwyddo hanesyddol fod yn sylweddol.

## Gweithred Diwygio 2018

Gwnaed lwfans o £377k ar gyfer cost gwasanaeth blaenorol ychwanegol yn y Cynllun Buddion wedi eu Diffinio ar ddiwedd y flwyddyn, sef 31 Mawrth 2019. Roedd hyn o ganlyniad i Weithred Diwygio a gafodd ei gweithredu mewn perthynas â Chynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ar 28 Gorffennaf 2018. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn i reolau, roedd yn rhaid ailgyfrifo buddion rhai aelodau sy'n bensiynwyr, a oedd wedi arwain at gynnydd yn eu buddion. O ganlyniad i gyfrifiadau diwygiedig fel rhan o'r ymarfer hwn, mae cyfanswm yr addasiad wedi codi ac mae £100k ychwanegol wedi cael ei gydnabod yn yr Incwm Cynhwysfawr Arall ar 31 Mawrth 2022. Disgwylir y bydd yr ymarfer hwn yn cael ei roi ar waith yn ystod haf 2022.

## Newidiadau posib i'r Mynegai Prisiau Manwerthu

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU (UKSA) wedi dweud ei fod yn bwriadu newid y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), erbyn 2030 fan hwyraf, er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r CPIH (y Mynegai Prisiau Manwerthu gan gynnwys costau tai perchnogion-feddianwyr).

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater yn ystod 2020, a oedd yn edrych ar yr amseru a'r fethodoleg i'w defnyddio mewn unrhyw newid. Cyhoeddwyd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn ar 25 Tachwedd 2020. Daeth i'r casgliad y bydd RPI yn cael ei ddiwygio i gyd-fynd â'r CPIH gyda'r trawsnewid yn digwydd yn ystod 2030, ac na fyddai iawndal yn cael ei dalu i ddeiliaid giltiau mynegrifol. Mewn ymateb i'r cyhoeddiad hwn, cafodd tarddiad rhagdybiaethau RPI a CPI eu hadolygu ar 31 Mawrth 2021. Bydd Ofcom yn parhau i ystyried canlyniad yr ymgynghoriad i bennu'r rhagdybiaethau chwyddiant a ddefnyddir i bennu'r DBO at ddibenion cyfrifyddu ar 31 Mawrth 2022.

Mae Ofcom wedi penderfynu bod cromlin chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), sy'n seiliedig ar y farchnad, yn dal yn sail resymol ar gyfer amcangyfrif cynnydd tymor hir mewn pensiynau sy'n gysylltiedig ag RPI ar 31 Mawrth 2022, gan gynnwys y newidiadau yn RPI i CPIH, ac mae tarddiad rhagdybiaethau chwyddiant RPI ar 31 Mawrth 2022 wedi aros yn gyson â blynyddoedd blaenorol. O ran tarddiad y rhagdybiaeth CPI, mae Ofcom wedi penderfynu ei bod yn briodol cynnal y dull a fabwysiadwyd ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol, sydd wedi arwain at wahaniaeth o 0.85% rhwng RPI a CPI ar 31 Mawrth 2022, gan ystyried nodweddion a phroffiliau aelodaeth y cynlluniau Buddion wedi'u Diffinio.

## CRYNODEB O RWYMEDIGAETHAU PENSIYNAU Â'R BUDDION WEDI'U DIFFINIO OFCOM

Dyma'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir 31 Mawrth 2022 £'000 | Rhwymedigaethau pensiynau nas ariennir 31 Mawrth 2022 £'000 | Cyfanswm buddion ymddeol 31 Mawrth 2022 £'000 | Pensiynau â'r buddion wedi'u diffinio a ariennir 31 Mawrth 2021 £'000 | Rhwymedigaethau pensiynau nas ariennir 31 Mawrth 2021 £'000 | Cyfanswm buddion ymddeol 31 Mawrth 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Statws ariannu, diwedd y flwyddyn | | | | | | |
| – Rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau gohiriedig | (64,977) | – | (64,977) | (85,476) | – | (85,476) |
| – - Rhwymedigaeth o ran buddion yng nghyswllt aelodau sy'n bensiynwyr | (188,273) | (1,084) | (189,357) | (186,341) | (1,153) | (187,494) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau buddion** | **(253,250)** | **(1,084)** | **(254,334)** | **(271,817)** | **(1,153)** | **(272,970)** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 272,938 | – | 272,938 | 286,693 | – | 286,693 |
| **Statws ariannu** | **19,688** | **(1,084)** | **18,604** | **14,876** | **(1,153)** | **13,723** |

Mae'n ofynnol o dan IAS19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl rhagdybiaethau IAS19, na ellir cydnabod y gwarged ar Ddatganiad Sefyllfa Ariannol Ofcom oni bai fod budd economaidd ar gael i Ofcom yn sgil hynny. Gellir priodoli'r holl warged i'r Cynllun Buddion wedi'u Diffinio a'r Cyfrif Bwydo, sy'n cynnig gwerth economaidd gan fod modd i Ofcom ei adennill.

### Covid-19

Mae Covid-19 a digwyddiadau yn nwyrain Ewrop yn dal i greu sefyllfa anwadal iawn yn y farchnad, sy'n effeithio ar werthoedd asedau a chynnyrch y farchnad. Mae hyn, yn ei dro, wedi effeithio ar y pensiynau yn y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol. Yn benodol, ar gyfer y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio, dydy'r newid mewn rhwymedigaethau ddim yn cyfateb i'r symudiad yn asedau'r cynllun dros y flwyddyn. Cynnydd mewn cynnyrch bondiau corfforaethol a disgwyliadau o gynnydd mewn chwyddiant yn ystod blwyddyn ariannol 21/22 sydd wedi sbarduno hyn yn bennaf, ac effaith net hynny yw bod y rhwymedigaethau wedi gostwng mwy na'r asedau ar 31 Mawrth 2022.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## Newidiadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022

| | Rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Cynllun pensiwn a ariennir £'000 | Pensiynau nas ariennir £'000 | Cyfanswm pensiwn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2021** | **(271,817)** | **286,693** | **14,876** | **(1,153)** | **13,723** |
| **Costau gweinyddu** | **–** | **(769)** | **(769)** | **–** | **(769)** |
| **Incwm/(cost) llog** | **(4,935)** | **5,212** | **277** | **(23)** | **254** |
| **Cyfraniadau cyflogwr** | **–** | **1,613** | **1,613** | **–** | **1,613** |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 12,079 | (12,079) | – | – | – |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | – | – | – | 71 | 71 |
| **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | **12,079** | **(12,079)** | **–** | **71** | **71** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | |
| **Enillion/(colledion) actiwaraidd** | **11,423** | **(7,732)** | **3,691** | **21** | **3,712** |
| **Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2022** | **(253,250)** | **272,938** | **19,688** | **(1,084)** | **18,604** |

## Newidiadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021

| | Rhwymedigaeth o ran buddion wedi'u diffinio £'000 | Asedau £'000 | Cynllun pensiwn a ariennir £'000 | Pensiynau nas ariennir £'000 | Cyfanswm pensiwn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth agoriadol ar 1 Ebrill 2020** | **(237,376)** | **259,802** | **22,426** | **(1,085)** | **21,341** |
| **Costau gweinyddu** | **–** | **(623)** | **(623)** | **–** | **(623)** |
| **Incwm/(cost) llog** | **(5,668)** | **6,210** | **542** | **(26)** | **516** |
| **Cyfraniadau cyflogwr** | **–** | **1,093** | **1,093** | **–** | **1,093** |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun | 12,120 | (12,120) | – | – | – |
| Buddion a dalwyd yn uniongyrchol gan Ofcom | – | – | – | 70 | 70 |
| **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | **12,120** | **(12,120)** | **–** | **70** | **70** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | |
| **Enillion/(colledion) actiwaraidd** | **(40,893)** | **32,331** | **(8,562)** | **(112)** | **(8,674)** |
| **Gwerth terfynol ar 31 Mawrth 2021** | **(271,817)** | **286,693** | **14,876** | **(1,153)** | **13,723** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant:

| 31 Mawrth 2022 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nas ariennir £'000 | Cyfanswm pensiwn £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm/(cost) llog | 277 | (23) | 254 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **277** | **(23)** | **254** |
| Costau gweinyddu | (769) | – | (769) |
| **Incwm/(cost) net a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **(492)** | **(23)** | **(515)** |

## Dyma'r symiau sy'n cael eu cydnabod fel Incwm Cynhwysfawr Arall:

| 31 Mawrth 2022 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nas ariennir £'000 | Cyfanswm pensiwn £'000 |
|---|---|---|---|
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | 21,337 | 21 | 21,358 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | 201 | – | 201 |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | (10,115) | – | (10,115) |
| **Cyfanswm enillon/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **11,423** | **21** | **11,444** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | (7,732) | – | (7,732) |
| **Enillion/(colledion) net** | **3,691** | **21** | **3,712** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## Dyma'r symiau sy'n cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant:

| 31 Mawrth 2021 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nas ariennir £'000 | Cyfanswm pensiwn £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm/(cost) llog | 542 | (26) | 516 |
| **Credyd/(cost) y buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **542** | **(26)** | **516** |
| Costau gweinyddu | (623) | – | (623) |
| **Incwm/(cost) net a gydnabyddir o dan incwm a gwariant** | **(81)** | **(26)** | **(107)** |

## Dyma'r symiau sy'n cael eu cydnabod fel Gwariant Cynhwysfawr Arall:

| 31 Mawrth 2021 | Pensiwn a ariennir £'000 | Pensiwn nas ariennir £'000 | Cyfanswm pensiwn £'000 |
|---|---|---|---|
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol | (42,556) | (112) | (42,668) |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig | (1,066) | – | (1,066) |
| Enillion/(colledion) ar rwymedigaethau buddion oherwydd profiad aelodau | 2,729 | – | 2,729 |
| **Cyfanswm enillon/(colledion) ar rwymedigaethau buddion** | **(40,893)** | **(112)** | **(41,005)** |
| Enillion/(colledion) ar asedau'r cynlluniau | 32,331 | – | 32,331 |
| **Enillion/(colledion) net** | **(8,562)** | **(112)** | **(8,674)** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith er mwyn gwarchod rhag digwyddiadau sy'n cael effaith negyddol ar sefyllfaoedd ariannol. Yn benodol, mae polisïau blwydd-dal yn diwallu taliadau buddion aelodau'r ddau Gynllun sy'n bensiynwyr a'r holl aelodau nad ydynt yn bensiynwyr yn y Cynllun ITC. Fodd bynnag, mae newidiadau yn amodau'r farchnad yn dal yn gallu effeithio ar y sefyllfaoedd ariannol, yn enwedig y Cynllun Buddion wedi'u Diffinio.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun Dyfynbrisiau Lefel 1:

| | 31 Mawrth 2022 £'000 Cyfanswm | 31 Mawrth 2021 £'000 Cyfanswm |
|---|---|---|
| Ecwitïau byd-eang (ddim yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd) | 6,429 | 5,766 |
| Ecwitïau byd-eang (yn cael eu gwarchod ar hyn o bryd) | 6,225 | 5,854 |
| Cronfa dwf wedi'i harallgyfeirio | 7,640 | 12,468 |
| Portffolio buddsoddiadau a ysgogir gan rwymedigaethau | 29,092 | 23,151 |
| Blwydd-daliadau | 214,333 | 231,533 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 9,219 | 7,921 |
| **Cyfanswm** | **272,938** | **286,693** |

Mae Ofcom ac Ymddiriedolwyr y Cynlluniau wedi rhoi nifer o gamau ar waith i leihau lefel y risg buddsoddi. Yn benodol, mae gan y ddau brif gynllun â'r buddion wedi'u diffinio bolisïau blwydd-dal sy'n dileu'r risg fwy neu lai yng nghyswllt y rhan fwyaf o'r aelodau, ac mae gan Gynllun Pensiwn â'r Buddion wedi'u Diffinio Ofcom strategaeth ar waith a fydd yn cynyddu'r hyn a ddyrennir i asedau risg is sy'n fwy cydnaws â'r rhwymedigaethau, megis giltiau a bondiau, pan ellir fforddio gwneud hynny.

## Y prif ragdybiaethau economaidd ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | 31 Mawrth 2022 (%) Y Cynllun DB | 31 Mawrth 2022 (%) Y Cynllun ITC | 31 Mawrth 2021 (%) Y Cynllun DB | 31 Mawrth 2021 (%) Y Cynllun ITC |
|---|---|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt | 2.85 | 2.80 | 2.00 | 1.80 |
| Chwyddiant Prisiau Manwerthu | 3.65 | 3.85 | 3.35 | 3.35 |
| – Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (RPI uchafswm 5%) | 3.50 | 3.65 | 3.25 | 3.25 |
| – Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (CPI uchafswm 3%) | 2.30 | 2.40 | 2.15 | 2.15 |

## Mae gan gynllun pensiwn Ofcom ddau gynllun ar wahân, a dyma'r prif ragdybiaethau demograffig ar ddyddiad y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol:

| | Y Cynllun DB | | Y Cynllun ITC | |
|---|---|---|---|---|
| **Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed sy'n...** | 40 oed ar hyn o bryd | 60 oed ar hyn o bryd | 40 oed ar hyn o bryd | 60 oed ar hyn o bryd |
| – Dyn | 29 | 28 | 29 | 28 |
| – Menyw | 31 | 30 | 32 | 30 |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## Sensitifrwydd i newidiadau yn y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd

| | Effaith ar | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y Cynllun DB | | | Y Cynllun ITC | | |
| Newid mewn rhagdybiaethau | Rhwymedigaeth buddion diffiniedig £'000 | Asedau £'000 | Gwarged statws a ariennir £'000 | Rhwymedigaeth buddion diffiniedig £'000 | Asedau £'000 | Gwarged statws a ariennir £'000 |
| **Cyfradd ddisgownt** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | gostyngiad o £5,811 | gostyngiad o £7,468 | gostyngiad o £1,657 | gostyngiad o £10,721 | gostyngiad o £10,721 | Dim newid |
| Yn gostwng 0.50% | cynnydd o £6,615 | cynnydd o £8,578 | cynnydd o £1,963 | cynnydd o £11,901 | cynnydd o £11,901 | Dim newid |
| **Chwyddiant Prisiau Adwerthu** | | | | | | |
| Yn codi 0.50% | cynnydd o £6,509 | cynnydd o £8,186 | cynnydd o £1,677 | cynnydd o £10,199 | cynnydd o £10,199 | Dim newid |
| Yn gostwng 0.50% | gostyngiad o £5,784 | gostyngiad o £7,210 | gostyngiad o £1,426 | gostyngiad o £9,366 | gostyngiad o £9,366 | Dim newid |
| **Oes ddisgwyliedig aelod 60 oed** | | | | | | |
| Yn codi - blwyddyn | cynnydd o £2,761 | cynnydd o £1,444 | gostyngiad o £1,317 | cynnydd o £10,045 | cynnydd o £10,045 | Dim newid |
| Yn gostwng - blwyddyn | gostyngiad o £2,721 | gostyngiad o £1,420 | cynnydd o £1,301 | gostyngiad o £9,752 | gostyngiad o £9,752 | Dim newid |

## Proffil rhwymedigaethau cynlluniau â'r buddion wedi'u diffinio

Mae'r siartiau'n dangos y buddion disgwyliedig sy'n daladwy gan y Cynlluniau perthnasol ar 31 Mawrth 2022.


Cyfrifir y taliadau buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ar sail nifer o ragdybiaethau gan gynnwys chwyddiant yn y dyfodol, oedrannau ymddeol, yr opsiynau a ddewisir yng nghyswllt y buddion a disgwyliad oes, ac felly maent yn siŵr o fod yn ansicr.

Gall y gwir daliadau o ran y buddion mewn blwyddyn benodol fod yn uwch neu'n is, er enghraifft, os bydd aelodau'n ymddeol yn gynt neu'n hwyrach na'r hyn a ragdybiwyd, neu'n cymryd mwy neu lai o gyfandaliad arian parod wrth ymddeol.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## CYNLLUN PENSIWN Â'R BUDDION WEDI'U DIFFINIO OFCOM




**Allwedd**

Gohiriedig


Pensiynwyr a Dibynyddion

Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 18 mlynedd

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## CYNLLUN PENSIWN OFCOM (ITC GYNT)




**Key**

Gohiriedig

Pensiynwyr a Dibynyddion

Hyd rhwymedigaethau'r Cynllun (y cyfnod cyfartalog i dalu) yw 13 mlynedd

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 20. OFFERYNNAU ARIANNOL

Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog ac arian cyfred. Mae IAS 32 Offerynnau Ariannol yn egluro sut dylid cyflwyno offerynnau ariannol, ac yn mynnu ei bod yn rhaid datgelu'r rôl maen nhw wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg wrth gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu i fuddsoddi arian dros ben. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth teg a gwerth cario ymlaen y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol ar y dyddiad adrodd.

Fel y caniateir gan IAS 32, mae symiau derbyniadwy a thaladwy sy'n aeddfedu neu sy'n dod yn daladwy cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad adrodd wedi cael eu hepgor o'r asesiad hwn.

## 21. PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Nid yw Ofcom yn ystyried bod ei swyddogaeth reoleiddio a thrwyddedu'n creu perthynas parti cysylltiedig rhyngddo ef ei hun a deiliaid trwyddedau, fel y caiff ei ddiffinio gan IAS 24, Datgeliadau Partïon Cysylltiedig.

Nid yw Aelodau'r Bwrdd wedi datgan bod ganddynt fuddiannau a fyddai'n dylanwadu ar eu swyddogaethau fel Aelod o Ofcom. Ni chafwyd trafodiadau rhwng Ofcom a'i Aelodau heblaw am daliadau a gafodd eu datgelu ar wahân yn yr adroddiad taliadau.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Ystyrir mai Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yw'r partïon cysylltiedig sy'n rheoli Ofcom o dan delerau Deddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Darperir manylion yr holl refeniw cymorth grant gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Nodyn 2, 3, 11 ac 14 y datganiadau ariannol hyn.

Gweithredir cynllun pensiwn â'r cyfraniadau wedi'u diffinio a dau gynllun pensiwn â'r buddion wedi'u diffinio. Mae gan un o'r ddau gynllun â'r buddion wedi'u diffinio (y ddau wedi cau i groniadau yn y dyfodol) barti cysylltiedig, sef S4C. Dylid cyfeirio at Nodyn 19 am ddatgeliad pellach.

Gwariodd Ofcom £8,752k ond fe hawliodd gyfanswm o £10,050k mewn taliadau cymorth grant gan DCSMS ar gyfer y rhaglen clirio sbectrwm 700Mhz. Mae derbynyddion grant y rhaglen clirio sbectrwm yn gofyn am gyllid gan Ofcom unwaith y bydd amodau'r grant wedi'u bodloni. Ar gyfer grantiau a ddyfernir, ni fydd Ofcom ond yn talu arian ar gyfer costau gwirioneddol a dalwyd, a bydd yn cydnabod y costau wrth gytuno i dalu'r derbynnydd am yr arian y gofynnwyd amdano. Ar 31 Mawrth 2022, y balans sy'n daladwy a ddelir mewn perthynas â chymorth grant yw £1,298k ar gyfer clirio sbectrwm (2020/21: £3,811k yn daladwy). Bydd y balans gohiriedig hwn yn gwrthbwyso rhai o'r costau roeddem wedi cyllidebau ar eu cyfer yn 2022/23.

Ni chafwyd dim trafodiadau partïon cysylltiedig eraill yn ystod y flwyddyn ariannol.

# NODIADAU I'R CYFRIFON

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

## 22. YMRWYMIADAU CYFALAF

Ar 31 Mawrth 2022, roedd ymrwymiadau cyfalaf o £515k ar gyfer uwchraddio ystafell y gweinydd ym mhrif swyddfa Ofcom (2020/21: £136k ar gyfer prynu gwahanol gyfarpar swyddfa a maes).

## 23. DERBYNIADAU A DROSGLWYDDWYD I'R/O'R GRONFA GYFUNOL

Yn unol ag Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003, anfonodd Ofcom £2,691k (2020/21: £20,648k) o Daliadau ychwanegol yn ymwneud â'r Ddeddf Darlledu, Rhifau Daearyddol a Dirwyon i'r Gronfa Gyfunol.

Yn unol ag Adran 401 Deddf Cyfathrebiadau 2003, cadwodd Ofcom £84,481k (2020/21: £63,840k) o dderbyniadau'n ymwneud â'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i dalu am ei wariant perthnasol, sy'n cynnwys Rheoli Sbectrwm.

Cafodd ffioedd trwyddedu'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr o £331,273k (2020/21: £328,321k) eu hanfon i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'w trosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol.

## 24. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Yn unol â gofynion IAS 10 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd, bydd digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn yn cael eu hystyried hyd at ddyddiad awdurdodi'r cyfrifon i'w cyhoeddi. Dehonglir hyn fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

## 25. BUSNES BYW

Bydd rhwymedigaethau Ofcom yn y dyfodol yn cael eu hariannu drwy dariffau sector blynyddol gan randdeiliaid sy'n cael eu rheoleiddio a drwy gadw derbyniadau sy'n ymwneud â'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr a gesglir drwy'r cyfrifon Adran 400 ac a gedwir gan Ofcom i dalu am weithgareddau sy'n ymwneud â sbectrwm ynghyd â gweithgareddau eraill nad ydynt yn cael eu hariannu drwy dariffau, fel y nodir yn Adran 401 y Ddeddf Cyfathrebiadau. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cytuno ar gap gwariant Ofcom, ac mae'r symiau sydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn 2022/23 eisoes wedi cael eu cymeradwyo. Felly ystyriwyd ei bod hi'n briodol mabwysiadu dull busnes byw er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

ADRAN D

# ATODIADAU



# A1. CYFRIFON ADRAN 400

O dan Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003, mae'n rhaid i Ofcom gasglu ffioedd a thaliadau gan gynnwys ffioedd trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr (WTA). Nid yw'r derbyniadau hyn yn rhan o'r refeniw sy'n cael ei gofnodi gan Ofcom ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y refeniw yn Natganiadau Ariannol Ofcom.

Cyflwynodd Deddf yr Economi Ddigidol 2017 welliannau deddfwriaethol sy'n caniatáu i Ofcom gadw symiau a geir mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan WTA i dalu am ei swyddogaethau cyffredinol i reoli sbectrwm, ac i dalu am gostau gwaith ei swyddogaethau eraill na chaiff godi ffioedd na thaliadau ar eu cyfer.

Mae gweddill y refeniw a gesglir yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Gyfunol y DU yn Nhrysorlys EM, yr Adran Cyllid a Phersonél - Gogledd Iwerddon (DFPNI), Trysorlysoedd Ynys Manaw, Beilïaeth Jersey a Beilïaeth Guernsey, yn uniongyrchol neu drwy'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel y corff sy'n noddi Ofcom.

Yn ystod 2021/22 roedd Ofcom wedi derbyn £1,800.5m (2020/21: £415.5m). Mae'r cynnydd mewn derbyniadau'n deillio o arwerthu sbectrwm y bandiau amledd 700 MHz a 3.6-3.8 GHz (£1,379.4m) a gwblhawyd ym mis Ebrill 2021. O blith y derbyniadau hyn cafodd £84.5m (2020/21: £63.8m) ei gadw i ariannu gwariant perthnasol Ofcom, sy'n cynnwys Rheoli Sbectrwm a'n dyletswyddau newydd sy'n ymwneud â Llwyfannau Rhannu Fideos a Diogelwch Ar-lein.

Talodd Ofcom £1,710.7m (2020/21: £328m) sy'n ymwneud â derbyniadau arwerthu sbectrwm, ffioedd trwyddedau WTA, ffioedd sbectrwm gan adrannau Llywodraeth y DU a'r llog a gafwyd ar falansau arian parod i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n cael eu talu i gronfeydd cyfunol. Cafodd balans o £11m a dderbyniwyd ym mis Mawrth 2022 ei drosglwyddo i'r Trysorlys ym mis Ebrill 2022.

Ar ben hynny, roedd Ofcom wedi trosglwyddo £2.7m (2020/21: £20.6m) yn uniongyrchol i'r Cronfeydd Cyfunol a oedd yn ymwneud â derbyniadau a oedd yn deillio o daliadau ychwanegol, cosbau ariannol a thaliadau am rifau ffôn daearyddol.

# A2. DATGANIADAU RHEOLEIDDIO

## Rhestr o'r datganiadau a gyhoeddwyd yn 2021/22, gan gynnwys yr effaith reoleiddio ar randdeiliaid.

| | |
|---|---|
| A | Datganiad: Adolygiad Ofcom o'r sianel deledu BBC Three arfaethedig |
| A | Datganiad: Cais am newid i amodau'r drwydded sy'n ymwneud â darparu cynnwys newyddion ar Channel 5 |
| A | Datganiad: Lyca Dilse Radio – Cais i newid Fformat |
| B | Datganiad: Hysbysebu trwydded Gwasanaethau Ychwanegol radio cenedlaethol |
| B | Datganiad: canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS) ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol |
| B | Datganiad: Lleoliad BBC Sounds yn y Farchnad |
| B | Datganiad: Adolygiad o'r rheolau ar gyfer amlygrwydd BBC Three |
| B | Datganiad: dyfodol plwraliaeth y cyfryngau yn y Deyrnas Unedig |
| B | Datganiad: Gwasanaethau rhaglenni ar-alw – pwy sydd angen hysbysu Ofcom? |
| B | Datganiad: Llinellau busnes BBC Studios |
| B | Datganiad: Gwneud gwasanaethau ar-alw yn hygyrch |
| B | Datganiad: Digwyddiadau Rhestredig – Euro 2020 |

**Post**

| | |
|---|---|
| C | Datganiad: Adennill costau eiriolaeth defnyddwyr |
| D | Datganiad: Cynnig i ganiatáu eithriad i rwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol y Post Brenhinol |

**Sbectrwm**

| | |
|---|---|
| A | Datganiad: Systemau lloeren nad ydynt yn ddaearsefydlog – diweddariadau trwyddedu |
| B | Datganiad: Ffioedd trwydded blynyddol ar gyfer y sbectrwm 2100 MHz |
| B | Datganiad: Cynigion Ofcom i ddiweddaru amodau technegol trwyddedau symudol yn y band 800 MHz |
| B | Datganiad: Penderfyniad ar newidiadau i'r eithriad trwyddedu ar gyfer Dyfeisiau Telegraffiaeth Ddi-wifr, ac ar drwyddedu cyfarpar 57 i 71 GHz |
| B | Datganiad: Cynnig i ddefnyddio Prisiau Anogaeth Weinyddol ar gyfer bandiau amledd 412–414 MHz, wedi'i baru â 422–424 MHz |
| B | Datganiad: Cefnogi dyfodol di-wifr y Deyrnas Unedig – Ein strategaeth rheoli sbectrwm ar gyfer y 2020au |
| D | Datganiad: Troswyr symudol |

# A2. DATGANIADAU RHEOLEIDDIO

### Telathrebu

| | |
|---|---|
| A | Datganiad: Cyfnewid fideo brys |
| A | Datganiad ar wneud rheoliadau diwygio o dan adran 71 Deddf Cyfathrebiadau 2003 |
| A | Datganiad: Dull gweithredu ar gyfer costau ychwanegol uchel o dan y gwasanaeth cyffredinol band eang |
| B | Datganiad: Newid darparwr yn gyflym, yn hawdd ac mewn modd dibynadwy |
| B | Datganiad: Cyfnewid fideo brys – cymeradwyo gwasanaeth Sign Language Interactions |
| B | Datganiad: Darpariaeth FTTP a gynigir gan Openreach i ddechrau ar 1 Hydref 2021 |
| B | Datganiad: Cymeradwyo Cod Ymarfer yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn (pymthegfed argraffiad) |
| B | Datganiad: Cyfathrebu Agored – Galluogi pobl i rannu data â gwasanaethau arloesol |
| B | Datganiad: Cynigion FTTP presennol Openreach gyda phrisiau daearyddol |
| D | Datganiad: Hyrwyddo cystadleuaeth mewn rhwydweithiau ffeibr – Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol yn ardal Hull, 2021-26 |
| D | Datganiad: Dyfodol rhifau ffôn |

### Diogelwch Ar-lein

| | |
|---|---|
| A | Datganiad: Rheoleiddio hysbysebion ar lwyfannau rhannu fideos |
| A | Datganiad: Canllawiau i ddarparwyr llwyfannau rhannu fideos ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol |

### Allwedd i'r datganiadau rheoleiddio

| | |
|---|---|
| A | Mwy o reoleiddio/rheoleiddio newydd |
| B | Cymysg/dim newid/parhaus |
| C | Wedi symleiddio/cyd-reoleiddio |
| D | Llai o reoleiddio |

# A2. DATGANIADAU RHEOLEIDDIO

| Datganiadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2021/22 lle'r oedd yr ymgynghoriad cynharach yn cynnwys asesiad o effaith |
|---|
| Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso Pwerau Cod i Stix Internet Limited |
| Cyfarwyddyd terfynol yn cymhwyso Pwerau Cod i Briant Broadband Ltd |
| Adennill costau eiriolaeth defnyddwyr |
| Hysbysebu trwydded Gwasanaethau Ychwanegol radio cenedlaethol |
| Newid darparwr yn gyflym, yn hawdd ac mewn modd dibynadwy |
| Cyfnewid fideo brys – cymeradwyo gwasanaeth Sign Language Interactions |
| Cynnig i addasu'r telerau i gymhwyso'r Cod i Jurassic Fibre Limited |
| Cyfarwyddyd terfynol i gymhwyso Pwerau Cod i Suez Advanced Solutions UK Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Radius BTS Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i APC Communications Solutions Ltd |
| Troswyr symudol |
| Cynnig i ganiatáu eithriad i rwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol y Post Brenhinol |
| Ffioedd trwyddedau blynyddol ar gyfer y sbectrwm 2100 MHz |
| Rheoleiddio hysbysebion ar lwyfannau rhannu fideos |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i WhyFibre Limited |
| Datganiad ar wneud rheoliadau diwygio o dan adran 71 Deddf Cyfathrebiadau 2003 |
| Adolygiad o'r rheolau ar gyfer amlygrwydd BBC Three |
| Adolygiad Ofcom o sianel deledu arfaethedig BBC Three |
| Darpariaeth FTTP a gynigiwyd gan Openreach i ddechrau ar 1 Hydref 2021 |
| Dull gweithredu ar gyfer costau ychwanegol uchel o dan y gwasanaeth cyffredinol band eang |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i AJ Technology Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i BAI Communications Ltd |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Affinity Systems Limited (yn masnachu fel Rymote) |
| Hyrwyddo cystadleuaeth mewn rhwydweithiau ffeibr – Adolygiad o'r Farchnad Telathrebu Sefydlog Gyfanwerthol yn ardal Hull, 2021-26 |
| Cynigion Ofcom i ddiweddaru amodau technegol trwyddedau symudol yn y band 800 MHz |
| Cymeradwyo Cod Ymarfer yr Awdurdod Gwasanaethau Talu dros y Ffôn (pymthegfed argraffiad) |
| Penderfyniad ar newidiadau i'r eithriad trwyddedu ar gyfer Dyfeisiau Di-wifr, ac ar drwyddedu cyfarpar 57 i 71 GHz |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Hampstead Fibre Ltd |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Ociusnet UK Ltd |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Alnwick Computerware Ltd |
| Cynnig i gymhwyso pwerau Cod i Simwood Networks Limited |
| Cynnig i ddefnyddio Prisiau Anogaeth Weinyddol ar gyfer bandiau amledd 412–414 MHz, wedi'i baru â 422–424 MHz |
| Canllawiau i ddarparwyr llwyfannau rhannu fideos ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol |

# A2. DATGANIADAU RHEOLEIDDIO

| |
|---|
| Cais am newid i amodau'r drwydded sy'n ymwneud â darparu cynnwys newyddion ar Channel 5 |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i euNetworks The Loop Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Tewdric Energy Ltd |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Scotnet.co.uk Ltd |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i NGE Contracting Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Virgin Media National Networks Limited |
| Cefnogi dyfodol di-wifr y Deyrnas Unedig – Ein strategaeth rheoli sbectrwm ar gyfer y 2020au |
| Llinellau busnes BBC Studios |
| Gwneud gwasanaethau ar-alw yn hygyrch |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Freedom Fibre Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Zoom Internet Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Pine Media Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Tiger Fibre Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Grayshott Gigabit Limited |
| Cyfarwyddyd terfynol i gymhwyso Pwerau Cod i Ark Data Centres Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Borderlink Broadband Limited |
| Cyfarwyddyd terfynol i gymhwyso Pwerau Cod i Converged Communication Solutions Limited |
| Cyfarwyddyd terfynol i gymhwyso Pwerau Cod i Allpoints Fibre Limited |
| Cyfarwyddyd terfynol i gymhwyso Pwerau Cod i Spring Fibre Limited |
| Dyfodol rhifau ffôn |
| Cyfarwyddyd terfynol i gymhwyso Pwerau Cod i Axione Fibre Limited |
| Cyfarwyddyd terfynol i gymhwyso Pwerau Cod i Solway Communications Limited |
| Cyfarwyddyd terfynol i gymhwyso Pwerau Cod i Liberty Property Co II Limited |
| Cyfarwyddyd terfynol i gymhwyso Pwerau Cod i RunFibre Ltd |
| Cyfarwyddyd terfynol i gymhwyso Pwerau Cod i Go Internet Ltd |
| Cyfarwyddyd terfynol i gymhwyso Pwerau Cod i Global Reach Networks Limited |

# A2. DATGANIADAU RHEOLEIDDIO

**Ymgyngoriadau Ofcom a gyhoeddwyd yn 2021/22 a fu'n cynnwys asesiad o effaith, na chyhoeddwyd datganiad terfynol arnynt erbyn 31 Mawrth 2022**

| |
|---|
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Gigaair Ltd |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i 1310 Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i 3itee Limited |
| Cynnig i ddirymu Pwerau Cod |
| Adolygu rheoliadau'r gwasanaeth post |
| Diogelu gwasanaethau goddefol ar 23.6-24 GHz rhag defnydd yn y dyfodol o 26 GHz |
| Adolygiad o'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol teleffoni |
| Hysbysiad o newidiadau Ofcom i ddeddfwriaeth eithriad trwyddedu Dyfeisiau Telegraffiaeth Ddi-wifr |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Urbanfibre Limited |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Brightstar Limited |
| Cynigion i gynyddu'r sbectrwm sydd ar gael a symleiddio ein hymagwedd at drwyddedu |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Nile UK Service Company Limited |
| Ei gwneud yn bosibl i rannu sbectrwm yn y band 6 GHz uchaf |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i 4th Utility Holdings Limited |
| Cynnig i addasu'r telerau i gymhwyso'r Cod i Community Fibre Limited |
| Gwella cywirdeb data Adnabod Llinell y Galwr (CLI) |
| Canllaw arferion da i helpu i atal camddefnydd o rifau sydd wedi'u hail-neilltuo a'u dyrannu |
| Cynnig i gymhwyso Pwerau Cod i Open Infra Limited |

# A3. RHAGLEN YMCHWILIADAU

Mae rhaglen ymchwiliadau Ofcom yn ymwneud â chwynion am ymddygiad gwrth-gystadleuol, torri rheolau rheoleiddio penodol ac anghydfodau ynghylch rheoleiddio. Mae'r tabl canlynol yn dangos gweithgareddau Ofcom yn cynnal asesiadau cychwynnol ac ymchwiliadau yn ystod 2021/22. Mae'n adlewyrchu'r darlun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022.

Mae rhagor o fanylion am achosion yr ymchwiliwyd iddynt o dan y rhaglen ymchwiliadau wedi'u nodi ym Mwletin Cystadlu a Gorfodi Ofcom sydd ar gael yn:

https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/bulletins/competition-bulletins

Mae'r data yn y tabl isod yn ymwneud ag asesiad cychwynnol

| | Cyfanswm yr ymdriniwyd â hwy | Cyfanswm sydd wedi'u derbyn i'w harchwilio | Cyfanswm heb eu derbyn | Gweithgarwch parhaus (ar 31/3/2022) |
|---|---|---|---|---|
| Anghydfodau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraith cystadleuaeth | 4 | 1 | 1 | 2 |
| Cwynion | 15 | 0 | 12 | 3 |
| Liwt ein hunain | 13 | 1 | 9 | 3 |

Mae'r tabl canlynol yn ymwneud ag achosion a agorwyd yn ffurfiol:

| | Cyfanswm yr ymdriniwyd â hwy | Cyfanswm a agorwyd | Cyfanswm sy'n parhau | Cyfanswm wedi'u dirwyn i ben | Gweithgarwch parhaus (ar 31/3/2022) |
|---|---|---|---|---|---|
| Anghydfodau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraith Cystadleuaeth | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Ymchwiliadau eraill | 9 | 1 | 2 | 7 | 2 |
| Rhaglenni gorfodi | 2 | 0 | 2 | 0 | 2 |

# A4. CWYNION, ACHOSION A SANCSIYNAU DARLLEDU

## Safonau a Diogelu Cynulleidfaoedd

Ers y cynnydd sylweddol mewn cwynion darlledu yn 2020/21, gwelwyd eto y llynedd lefel uchel o ymgysylltu gan gynulleidfaoedd y DU ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â safonau cynnwys. Rydym wedi parhau i roi blaenoriaeth i ddiogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol, drwy orfodi'r Cod Darlledu.

Mae hyn wedi cynnwys sancsiynau'n cael eu gosod ar drwyddedeion am ddarlledu iaith casineb a chynnwys sy'n debygol o gymell troseddu, yn ogystal â honiadau a allai fod yn niweidiol sy'n ymwneud â'r pandemig Covid-19 a'r brechlyn Covid-19.

Mae cwynion am safonau o ran cynnwys yn cael sylw o dan Weithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar gyfer teledu a radio. Mae cwynion am safonau cynnwys y BBC yn cael sylw o dan Weithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau o ran cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC[8].

**Yn ystod y flwyddyn diwethaf, mae cwynion wedi parhau ar lefelau uchel**

Ers y cynnydd na welwyd ei debyg o'r blaen mewn cwynion darlledu yn y flwyddyn flaenorol, mae'r duedd hon wedi parhau, er bod y niferoedd yn gymharol is mewn perthynas â'r 'digwyddiadau darlledu'[9] unigol a gyfrannodd at y nifer mwyaf erioed yn 2020/21.

**Ffigur 1 – cwynion ac achosion a aseswyd yn ôl blwyddyn**

| Math | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwynion | 99,562 | 142,660 | 34,545 | 55,801 | 15,293 |
| Achosion | 11,932 | 11,778 | 7,829 | 6,206 | 5,774 |

Mewn sawl achos, efallai y byddwn yn cael mwy nag un gŵyn am raglen benodol neu fwy nag un mater o fewn rhaglen. Rydym yn asesu pob mater fel un achos, felly arweiniodd y 99,562 o gwynion a gawsom yn 2021/22 at 11,932 o achosion.

Er bod cwynion yn dal yn ffordd bwysig i Ofcom gael gwybod am faterion a allai fod angen ein hymyriad, nid yw lefel uchel barhaus o gwynion yn ystod y flwyddyn o reidrwydd yn arwain at gynnydd cyfatebol mewn ymchwiliadau, oni bai fod materion arwyddocaol yn codi o dan y Cod Darlledu. Rydym yn dal i roi'r pwys mwyaf ar yr hawl i ryddid mynegiant, gan gynnwys yr hawl i gael barn ac i dderbyn a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth ddiangen.

Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 9.75 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

8 Mae gwahanol setiau o weithdrefnau'n berthnasol i gwynion sy'n ymwneud â thegwch a phreifatrwydd, Deunydd Ar-lein y BBC a safonau ar wasanaethau rhaglenni ar-alw.

9 Er enghraifft yn 2020/21, fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol diwethaf, cawsom 54,453 o gwynion am un rhifyn o Good Morning Britain a ddarlledwyd ar 8 Mawrth 2021.

10 Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cwynion Tegwch a Phreifatrwydd na chwynion a gyfeiriwyd gennym i'r BBC o dan BBC yn Gyntaf am nad oeddent wedi cwblhau proses gwynion y BBC.

# A4. CWYNION, ACHOSION A SANCSIYNAU DARLLEDU

O'r 11,932 o achosion, roeddem wedi cyfeirio 96 achos ar gyfer ymchwiliad o dan ein rheolau, fel yr amlinellir yn Ffigur 2 isod. Mae hyn ddwywaith yn fwy na'r achosion a gafodd eu cyfeirio ar gyfer ymchwiliad yn 2020/21. Mae'r cynnydd wedi digwydd yn rhannol oherwydd y nifer uchel o ymchwiliadau[11] a agorwyd mewn perthynas â'r sianel deledu RT (Russia Today), ynghylch ei sylw i'r rhyfel yn Wcráin ym mis Chwefror a mis Mawrth 2022

**Ffigur 2: Canlyniadau cwynion ac achosion yn ôl mater allweddol y Cod Darlledu**

| Canlyniad | Heb eu dilyn | Y tu allan i'r cylch gwaith | Cyfeirio ar gyfer ymchwiliad |
|---|---|---|---|
| Nifer | 11,207 | 629 | 96 |

Yn y flwyddyn ariannol hon cwblhawyd 28 ymchwiliad gennym[12]. O'r 28 ymchwiliad a gwblhawyd gennym, cafodd 17 eu lansio cyn 2021/22. Cafodd yr 11 arall eu lansio a'u cwblhau yn 2021/22. Mae eu canlyniadau wedi'u hamlinellu yn ffigur 3 isod.

**Ffigur 3: Canlyniadau'r ymchwiliad**

| Canlyniad | Torri Amodau | Datryswyd[13] | Heb dorri amodau | Heb dorri amodau a Chanllawiau |
|---|---|---|---|---|
| Nifer | 17 | 3 | 7 | 1 |
| % | 61% | 11% | 25% | 3% |

Anelwn at gwblhau'r achosion hynny y penderfynwn ymchwilio iddynt cyn pen 50 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, cwblhaodd Ofcom ymchwiliadau cyn pen 89 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. Roedd hyn oherwydd y nifer uchel iawn o gwynion darlledu oedd yn cael sylw a'u hasesu gan y tîm; cymhlethdod llawer o'r achosion roeddem wedi ymchwilio iddynt; a'r ffaith ein bod wedi parhau i lansio llawer llai o ymchwiliadau ynghylch cynnwys a allai fod yn dramgwyddus (edrychwch ar ffigur 5 isod), sy'n tueddu i fod yn llai cymhleth nag achosion sy'n ymwneud â niwed posib.

11 Bu i ni agor 29 ymchwiliad i gyd yn ystod mis Chwefror-Mawrth 2022.

12 Gall ymchwiliad gael ei gwblhau dros fwy nag un flwyddyn ariannol, gan ddibynnu ar ffactorau fel pryd cafodd ei lansio a chymhlethdod yr ymchwiliad.

13 Gellir defnyddio canlyniad 'datryswyd' mewn achosion, er enghraifft, pan fydd darlledwr wedi cymryd camau priodol ar unwaith i unioni achos o dorri amodau'r Cod. Mewn achosion o'r fath, gall Ofcom ystyried ei bod yn briodol peidio â chofnodi torri'r amodau, a phenderfynu mai'r canlyniad priodol yw penderfynu bod yr achos wedi'i 'ddatrys'. Mae canfyddiad 'datryswyd' yn cael ei gadw ar gofnod ac mae'n bosib y bydd yn cael ei ystyried os bydd rhagor o bryderon ynghylch darlledwr penodol o ran cydymffurfio.

# A4. CWYNION, ACHOSION A SANCSIYNAU DARLLEDU

**Ffigur 4: Canlyniadau cwynion, achosion ac ymchwiliadau yn ôl mater allweddol y Cod Darlledu**

| Math | Cwynion | Achosion | Ymchwiliadau | Torri amodau |
|---|---|---|---|---|
| Trosedd | 89,124 | 7,165 | 13 | 8 |
| Niwed | 1,159 | 386 | 7 | 7 |
| Didueddrwydd Dyladwy | 2,709 | 1,045 | 3 | 2 |
| Amddiffyn pobl ifanc dan oed | 2,311 | 1,095 | 6 | 5 |
| Arall[14] | 4,259 | 2,241 | 6 | 2 |
| **Cyfanswm** | **99,562** | **11,932** | **28**[15] | **17**[16] |

Roedd nifer y cwynion yn ymwneud â chynnwys tramgwyddus yn dal yn uchel ac roedd llawer mwy ohonynt na chwynion am niwed, didueddrwydd dyladwy, amddiffyn plant a materion eraill. Fel y digwyddodd yn y flwyddyn flaenorol, mae nifer cyfatebol yr ymchwiliadau mewn perthynas â'r drosedd wedi parhau i ostwng, fel y mae ffigur 5 yn dangos isod. Yn 2021/22, asesodd Ofcom gyfanswm o 89,124 o gwynion am gynnwys tramgwyddus. Cafodd 1,668 yn rhagor o gwynion am gynnwys tramgwyddus ar y BBC eu cyfeirio'n ôl i'r BBC o dan y broses BBC First[17].

**Ffigur 5: Cwynion, achosion ac ymchwiliadau am droseddau, fesul blwyddyn**

| Math | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwynion | 89,124 | 128,825 | 25,834 | 48,180 | 9,265 |
| Achosion | 7,165 | 6,511 | 4,308 | 3,834 | 3,257 |
| Ymchwiliadau | 13 | 25 | 67 | 64 | 76 |
| Torri amodau | 8 | 10 | 40 | 40 | 44 |

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, roeddem wedi asesu 2,311 o gwynion am gynnwys a allai godi materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Ochr yn ochr â'n ffocws cyffredinol ar gynnwys niweidiol a thramgwyddus, mae Ofcom bob amser wedi blaenoriaethu'r elfen hon, o ran y warchodaeth arbennig a'r profiadau addas i oedran y dylai pobl ifanc o dan 18 oed eu cael wrth wylio a/neu wrando ar gynnwys radio a theledu a ddarlledir. O blith chwe ymchwiliad yn ystod y flwyddyn diwethaf, roeddem wedi cofnodi pum achos o dorri ein rheolau amddiffyn plant.

Mae'r gostyngiad sy'n parhau yn nifer yr ymchwiliadau a'r achosion o dorri amodau, er gwaethaf nifer uchel a pharhaus o gwynion yn ymwneud â throseddau, yn dangos efallai fod newid cymdeithasol mewn agweddau at gynnwys tramgwyddus a safonau sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol. Rydym yn ystyried pa gamau i'w cymryd i ymchwilio ymhellach i hyn, gan sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar warchod cynulleidfaoedd rhag y cynnwys mwyaf difrifol a niweidiol.

14 Mae mathau eraill o achosion yn cynnwys cyfeiriadau masnachol, cystadlaethau/apeliadau elusennau a munudau hysbysebu.

15 Mae rhai ymchwiliadau'n cynnwys materion sy'n ymwneud â niwed a thramgwydd, ac mae'r cyfanswm wedi cyfuno'r rheini. Dyna pam mae'r ffigur yn is na nifer yr ymchwiliadau gyda'i gilydd.

16 Mae rhai achosion o dorri amodau yn cynnwys materion sy'n ymwneud â niwed a thramgwydd, ac mae'r cyfanswm wedi cyfuno'r rheini. Dyna pam mae'r ffigur yn is na nifer yr ymchwiliadau gyda'i gilydd.

17 Fel arfer, dim ond cwyn sydd wedi cael ei hystyried gan y BBC yn gyntaf y bydd Ofcom yn ei derbyn (fel y nodir yn ein Gweithdrefnau ar gyfer y BBC). Mae'r BBC yn ystyried cwynion yng nghyd-destun ei Ganllawiau Golygyddol, sy'n adlewyrchu darpariaethau perthnasol y Cod Darlledu.

# A4. CWYNION, ACHOSION A SANCSIYNAU DARLLEDU

Er ei bod yn dal yn wir bod darllediadau unigol wedi arwain at gyflwyno nifer fawr o gwynion i Ofcom, nid yw'r flwyddyn diwethaf wedi gweld yr un lefel o gwynion torfol am 'ddigwyddiadau darlledu' unigol ag yn y flwyddyn flaenorol. O'r cyfanswm o 89,124 o gwynion a gawsom am gynnwys tramgwyddus, roedd 56,716 yn ymwneud â deg darllediad unigol, fel yr amlinellir yn Ffigur 6 isod.

**Ffigur 6: Y 10 prif gŵyn am raglen ddarlledu unigol yn ystod BA 2021/22**

| Rhaglen | Dyddiad darlledu | Disgrifiad o'r cwynion | Cwynion |
|---|---|---|---|
| Love Island | 06/08/2021 | Roedd gwylltineb Faye tuag at ei chariad, Teddy, a'i hymosodiad llafar arno yn cael eu hystyried yn ymddygiad tramgwyddus. | 24,921 |
| Celebrities: What's Happened to Your Face? | 22/04/2021 | Roedd sylwadau negyddol am wyneb Charlotte Crosby, seren teledu realaeth, ar ôl iddi gael llawdriniaeth gosmetig yn cael eu hystyried yn rhai tramgwyddus. | 7,125 |
| Oprah with Meghan and Harry | 08/03/2021 | Gwrthwynebiadau i sylwadau Dug a Duges Sussex am y Teulu Brenhinol, ar y sail bod y sylwadau a ddarlledwyd yn rhai tramgwyddus. | 6,484 |
| Love Island | 28/07/2021 | Gwrthwynebiadau i gerdyn post a oedd i'w weld wedi achosi trallod emosiynol ymysg y merched a oedd yn cymryd rhan, gan ei fod yn awgrymu'n anghywir bod eu partneriaid yn anffyddlon. | 4,337 |
| Lorraine | 06/12/2021 | Honiad Dr Hillary Jones nad oedd 90% o bobl a oedd yn yr ysbyty gyda Covid-19 wedi cael eu brechu. | 3,890 |
| Good Morning Britain | 09/03/2021 | Gwrthwynebiadau i Piers Morgan yn cyfweld â thad Duges Sussex, Thomas Markle, mewn modd a oedd yn dramgwyddus. | 3,256 |
| Good Morning Britain | 01/11/2021 | Gwrthwynebiadau i feirniadaeth Dr Hillary Jones a Richard Madeley o daflen a oedd yn honni ei bod yn wybodaeth gan y Llywodraeth am risgiau brechlynnau Covid-19. | 2,642 |
| Good Morning Britain | 01/06/2021 | Gwrthwynebiadau i ddadl rhwng Adil Ray a Dominique Samuels ynghylch a ddylai pobl sydd wedi'u brechu gymdeithasu â phobl sydd heb gael eu brechu. | 2,117 |
| This Morning | 26/02/2021 | Roedd trafodaeth Dr Michael Mosely am ddefnyddio deiet colli pwysau'n gyflym yn cael ei hystyried yn wybodaeth beryglus a chamarweiniol iawn. | 1,944 |
| Love Island | 17/08/2021 | Roedd yn ymddangos bod Faye a Teddy yn bwlio ac yn ymosod yn eiriol ar gystadleuwyr eraill. | 1,611 |

Mae cynulleidfaoedd wedi dangos cryn ddiddordeb yn ymddygiad ac iaith y cyfranwyr ar raglenni teledu byw, yn enwedig pan fydd iaith dramgwyddus neu ddifrïol wedi cael ei defnyddio i achosi gofid neu drallod emosiynol. Mae'r teimlad hwn yn adleisio rhai o ganfyddiadau ein cyhoeddiad ymchwil ym mis Medi 2021, Agweddau cyhoeddus at iaith dramgwyddus ar deledu a radio, lle dywedodd y cyfranogwyr wrthym eu bod yn dal eisiau i ddarlledwyr ystyried yn ofalus pryd a sut mae iaith dramgwyddus yn cael ei defnyddio.

# A4. CWYNION, ACHOSION A SANCSIYNAU DARLLEDU

Fodd bynnag, mae ein penderfyniad i beidio mynd ar ôl rhai o'r rhaglenni sy'n denu'r mwyaf o gwynion yn adlewyrchu'r farn fwy cynnil yn yr un ymchwil bod gan gynulleidfaoedd hefyd agwedd fwy ddi-daro tuag at ddefnyddio rhegfeydd cyffredinol, a'u bod yn cydnabod pwysigrwydd rhyddid mynegiant.

Roedd y drafodaeth ynghylch brechlynnau Covid-19 yn 2021/22 hefyd yn un o'r materion oedd wedi denu'r nifer mwyaf o gwynion yn ystod y flwyddyn, gan adlewyrchu newid yn y pwyslais – o gamwybodaeth niweidiol mewn perthynas â Covid-19 yn 2020/21, i fwy o ddiddordeb yn y math o wybodaeth ac agweddau sy'n cael eu darlledu am bobl sydd heb gael eu brechu yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn cydnabod bod gan y cyhoedd lawer iawn o ddiddordeb mewn gweld darlledwyr yn rhoi sylw i amrywiaeth o safbwyntiau, yn enwedig mewn perthynas â materion fel polisi iechyd y cyhoedd. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen dadl gyhoeddus gadarn ar fater mor bwysig, ac y dylai'r fath ddadl ystyried yr hawl i ryddid mynegiant.

Er gwaethaf nifer y cwynion, nid oedd unrhyw un o'r achosion uchod wedi codi materion arwyddocaol oedd yn galw am ymchwiliad o dan y Cod Darlledu.

## Roedd diogelu cynulleidfaoedd rhag niwed difrifol yn dal yn faes ffocws ar gyfer ein gwaith yn 2021/22

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, bu gostyngiad yn nifer y cwynion ar sail niwed. Mae hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad yn nifer y cwynion ynghylch Covid-19 wrth gymharu â dechrau'r pandemig yn 2020/21, a sbardunodd nifer eithriadol o gwynion am niwed yn y flwyddyn honno.

Fodd bynnag, fel y mae Ffigur 7 yn dangos isod, mae nifer y cwynion a'r achosion ar sail niwed rydym wedi delio â nhw yn ystod y flwyddyn diwethaf yn dal yn uwch nag yn y tair blynedd cyn i'r pandemig Covid-19 fynd yn un o'r prif ffactorau a oedd yn achosi cwynion yn 2020/21.

**Ffigur 7 – Achosion a chwynion am newid a aseswyd yn ôl blwyddyn**

| Math | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwynion am niwed | 1,159 | 3,375 | 498 | 139 | 485 |
| Achosion niwed | 386 | 791 | 72 | 102 | 105 |

Fel arfer, mae ymchwiliadau i niwed sy'n dangos bod amodau'r Cod Darlledu wedi cael eu torri yn gwneud i ni ystyried gosod sancsiwn statudol oherwydd difrifoldeb y tor-amod. Fel y mae Ffigur 8 yn dangos isod, yn 2021/22 roeddem wedi gosod 9 sancsiwn ynghylch niwed posibl a oedd yn deillio o dorri amodau'r Cod Darlledu yn ddifrifol, gan gynnwys cymell, iaith casineb a chamarwain y gynulleidfa'n sylweddol.

Roedd y sancsiynau roeddem wedi'u gosod ar ddarlledwyr cymunedol, a oedd wedi torri rheolau ynghylch ysgogi troseddu, iaith casineb, triniaeth ddifrïol a sarhaus a chynnwys niweidiol arall, yn tanlinellu i Ofcom pa mor bwysig yw diogelu'r cynulleidfaoedd mae'r darlledwyr hyn yn ceisio eu gwasanaethu. Yn ein hymchwil Deall disgwyliadau cynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig ym mis Tachwedd 2021, soniodd y cyfranogwyr am eu pryderon am gynnwys materion cyfoes lle gallai ymddygiad ymosodol a sarhaus gan gyflwynwyr ysgogi casineb rhwng grwpiau a niweidio cydlyniant cymunedol yn y DU.

# A4. CWYNION, ACHOSION A SANCSIYNAU DARLLEDU

**Ffigur 8: Manylion y sancsiynau statudol ar gyfer safonau cynnwys a roddwyd yn 2021/22**

| Trwyddedai | Gwasanaeth | Sancsiwn | Cosb[18] |
|---|---|---|---|
| Loveworld Limited | Loveworld | Cyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom | Amh |
| Abu Dhabi Media Company PJSC | Abu Dhabi Channel | Cosb ariannol | £125,000 |
| Abu Dhabi Media Company PJSC | Abu Dhabi Channel | Cosb ariannol | £125,000 |
| Star China Media Limited | CGTN | Cosb ariannol | £100,000 |
| Star China Media Limited | CGTN | Cosb ariannol | £100,000 |
| Loveworld Limited | Loveworld | Cosb ariannol | £25,000 |
| Rinse FM Limited | Rinse FM | Cyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom | Amh |
| The Pakistan Muslim Centre (Sheffield) Limited | Link FM | Cosb ariannol a chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad o ganfyddiadau Ofcom | £2,000 |
| Khalsa Television Limited | KTV | Hysbysiad Atal (a phenderfyniad Toramod) | Amh |

## Roedd digwyddiadau byd-eang wedi siapio ymateb cynulleidfaoedd y DU i ddidueddrwydd a chywirdeb dyladwy yn 2021/22

Roeddem wedi asesu nifer uwch o gwynion ynghylch didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy yng nghyswllt cynnwys, heblaw am gynnwys y BBC, nag oeddem wedi'u hasesu yn y flwyddyn flaenorol. Fel y mae Ffigur 9 yn dangos isod, roedd hyn yn deillio'n rhannol o nifer sylweddol (971) o gwynion a aseswyd gennym ym mis Chwefror a mis Mawrth 2022 ynghylch sylw RT i'r rhyfel yn Wcráin. Roedd nifer o'r cwynion hyn, yn ogystal â'n gwaith arferol o fonitro RT, wedi codi materion a arweiniodd at agor 29 ymchwiliad i ganfod a oedd RT wedi torri'r rheolau didueddrwydd dyladwy[19]. Cawsom hefyd nifer cymharol uchel o gwynion am gywirdeb dyladwy, yn benodol, cynnwys a ddarlledwyd ar GB News. Fodd bynnag, er gwaethaf yr enghreifftiau hyn o'r flwyddyn diwethaf, mae lefel cydymffurfedd darlledwyr yn yr elfen hon yn dal yn uchel. Mae Ffigur 9 isod yn rhoi dadansoddiad o'r cwynion ar gyfer sianeli heblaw rhai'r BBC.

18 Caiff yr holl gosbau ariannol a roddir gan Ofcom eu dal mewn cyfrif gyda Gwasanaethau Bancio Llywodraeth y DU (GBS) er budd y Trysorlys. Caiff cronfeydd eu trosglwyddo i gyfrif GBS Trysorlys EM i'w defnyddio'n uniongyrchol gan y Trysorlys, neu eu dosbarthu i Gronfeydd Cyfunol perthnasol. Nid yw Ofcom yn defnyddio nac yn cael buddion ariannol o unrhyw gosbau ariannol a geir.

19 Ar 18 Mawrth 2022, diddymodd Ofcom drwydded ANO TV Novosti i weithredu ei wasanaethau, gan gynnwys RT, ar y sail nad oeddem o'r farn ei fod yn gymwys ac yn briodol i ddal trwydded ddarlledu yn y DU: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0014/234023/revocation-notice-ano-tv-novosti.pdf

# A4. CWYNION, ACHOSION A SANCSIYNAU DARLLEDU

**Ffigur 9: Cyfanswm y cwynion am gywirdeb dyladwy/didueddrwydd dyladwy/etholiadau yn ôl blwyddyn (ddim yn ymwneud â'r BBC)**

| | 2021/22 | | | | 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math** | **Cwynion** | **Achosion** | **Ymchwiliadau** | **Torri Amod** | **Cwynion** | **Achosion** | **Ymchwiliadau** | **Torri Amod** |
| Channel 4 | 195 | 101 | – | – | 370 | 176 | 1 | – |
| Channel 5 | 52 | 38 | – | – | 57 | 40 | – | – |
| ITV | 3,941 | 424 | – | – | 4,059 | 668 | 1 | – |
| Sky News | 411 | 296 | – | – | 879 | 496 | 2 | – |
| GB News | 573 | 136 | – | – | n/a[20] | n/a | n/a | n/a |
| RT | 971 | 194 | 29 | – | 33 | 33 | – | – |
| **Cyfanswm** | **6,143** | **859** | **29** | **–** | **5,365** | **1,380** | **4** | **–** |

## Safonau cynnwys y BBC

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, rydym wedi derbyn ac asesu 3,094 o gwynion sy'n ymwneud ag amrywiaeth o faterion safonau o ran cynnwys y BBC. O'r ffigur hwn, roedd 2,926 wedi cael eu cyfeirio at y broses 'BBC First' a 168 wedi dilyn ein proses ar gyfer Safonau'r BBC. Roedd 1,932 o achosion i gyd, gyda 1,775 ohonynt yn rhai 'BBC First' a 157 wedi dilyn ein proses Safonau ar gyfer y BBC.

**Ffigur 10: Cyfanswm y cwynion ac achosion yn ymwneud â safonau cynnwys yn 2021/22 (BBC)**

Mae'r broses BBC First yn golygu bod cwynion yn cael eu trin yn y lle cyntaf gan y gorfforaeth ei hun. Mae'r tabl isod yn adlewyrchu cwynion a uwchgyfeiriwyd i Ofcom.

| **Math** | | **2021/22** |
|---|---|---|
| Cwynion | BBC First | 2,926 |
| | Safonau'r BBC | 168 |
| | **Cyfanswm** | **3,094** |
| Achosion | BBC First | 1,775 |
| | Safonau'r BBC | 157 |
| | **Cyfanswm** | **1,932** |

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, roedd nifer y cwynion a'r achosion a oedd yn ymwneud â didueddrwydd/cywirdeb dyladwy ar gyfer cynnwys y BBC wedi lleihau mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Mae Ffigur 11 isod yn dangos tueddiadau o'r pedair blynedd diwethaf, sy'n dangos bod nifer yr achosion a chwynion BBC First a Safonau'r BBC wedi dod yn nes at y lefelau a welwyd yn 2018/19.

20 Dechreuodd GB News ddarlledu ym mis Mehefin 2021.

# A4. CWYNION, ACHOSION A SANCSIYNAU DARLLEDU

**Ffigur 11: Cyfanswm y cwynion am gywirdeb dyladwy/didueddrwydd dyladwy/etholiadau yn ôl blwyddyn (BBC)**

| Math | | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwynion | BBC First | 744 | 1,609 | 1,421 | 445 |
| | Safonau'r BBC | 85 | 102 | 122 | 115 |
| | **Cyfanswm** | **829** | **1,711** | **1,543** | **560** |
| Achosion | BBC First | 533 | 819 | 811 | 435 |
| | Safonau'r BBC | 80 | 92 | 100 | 111 |
| | **Cyfanswm** | **613** | **911** | **911** | **546** |

Ym mis Chwefror 2022, bu i ni gyhoeddi ein penderfyniad bod y BBC wedi torri ein rheolau ar gywirdeb dyladwy, mewn perthynas â chynnwys datganiad anghywir ar News at Six na chafodd ei gydnabod na'i gywiro ar yr awyr.

Rydym hefyd wedi cyfrannu at adolygiad parhaus Ofcom o'r broses o reoleiddio'r BBC yn y dyfodol, ac wedi comisiynu ymchwil cynulleidfa i weld a yw system bresennol BBC First yn dal i wasanaethu cynulleidfaoedd, yn ogystal ag ymchwil i ganfyddiadau cynulleidfaoedd o ddidueddrwydd dyladwy y BBC.

## Deunydd ar-lein y BBC

O dan Siarter a Chytundeb y BBC, a osodir gan y Llywodraeth a'r Senedd Brydeinig, mae'r BBC yn gyfrifol am safonau golygyddol ei ddeunydd ar-lein. Mae gan Ofcom gyfrifoldeb i ystyried a rhoi barn ynghylch a wnaeth y BBC lynu at y canllawiau golygyddol perthnasol yn y deunydd ar-lein. Mae deunydd ar-lein yn golygu cynnwys ar wefannau ac apiau'r BBC, fel erthyglau, delweddau a fideos. Nid yw'n cynnwys rhaglenni ar BBC iPlayer sy'n gorfod cydymffurfio â rheolau Cod Darlledu Ofcom.

Rydym yn delio â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC o dan Weithdrefnau Ofcom ar gyfer delio â chwynion sy'n ymwneud â deunydd ar-lein y BBC.

Rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 roeddem wedi asesu a chau cyfanswm o 46 cwyn am ddeunydd ar-lein y BBC.

Roedd 311 o gwynion eraill am ddeunydd ar-lein y BBC wedi cael eu cyfeirio at y BBC o dan y drefn 'BBC First', neu y tu allan i'n cylch gwaith. Mae Ofcom yn ceisio gwneud asesiad cychwynnol o bob cwyn cyn pen 15 diwrnod gwaith. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, asesodd Ofcom gwynion cyn pen 20.1 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

## Tegwch a Phreifatrwydd

Mae Ofcom hefyd yn ystyried cwynion gan bobl sy'n credu iddynt gael eu trin yn annheg ar raglen, neu sydd o'r farn y tarfwyd ar eu preifatrwydd heb gyfiawnhad. Yn yr achosion hyn, mae Ofcom yn gweithredu fel dyfarnwr rhwng yr unigolyn a'r darlledwr.

Mae cwynion am degwch a phreifatrwydd yn cael sylw o dan Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ar gwynion Tegwch a Phreifatrwydd. Bydd cwynion am degwch a phreifatrwydd ar raglenni teledu, radio ac ar-alw y BBC yn cael sylw o dan Weithdrefnau Ofcom ar gyfer ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw y BBC, a dyfarnu yn eu cylch.

# A4. CWYNION, ACHOSION A SANCSIYNAU DARLLEDU

Yn 2021/22, fe wnaethom ystyried 157 o gwynion Tegwch a Phreifatrwydd (2020/21: 248). Ym mis Mai 2021, roeddem wedi rhoi dwy gosb ariannol o £125,000 yr un i Abu Dhabi Media Company PJSC a oedd yn dal y drwydded ar gyfer Abu Dhabi Channel, am dorri'r rheolau Tegwch a Phreifatrwydd yn ddifrifol. Ym mis Awst 2021, roeddem hefyd wedi rhoi dwy gosb ariannol o £100,000 yr un i Star China Media Limited a oedd yn dal[21] y drwydded ar gyfer gwasanaeth CGTN.

### Penderfyniadau i Ystyried

Mae Ofcom yn ceisio asesu a phenderfynu a yw am ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ai peidio cyn pen 25 diwrnod gwaith o gael y gŵyn, ac unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan y sawl sy'n cwyno. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, asesodd a phenderfynodd Ofcom cyn pen 16 diwrnod gwaith ar gyfartaledd a ddylid ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd.

### Dyfarniadau

Os caiff cwyn Tegwch a Phreifatrwydd ei hystyried gan Ofcom, byddwn yn ymchwilio i'r mater ymhellach i benderfynu a gafodd amodau'r Cod Darlledu eu torri. Byddwn wedyn yn gwneud ein dyfarniad terfynol. Dyfarnwyd ar gyfanswm o 26 cwyn yn y cyfnod dan sylw, gyda'r canlyniad yn cael ei amlinellu yn Ffigur 12 isod.

**Ffigur 12: Canlyniadau dyfarniadau Tegwch a Phreifatrwydd**

| Canlyniad | Cadarnhawyd | Cadarnhawyd yn rhannol | Heb eu cadarnhau | Datryswyd yn Briodol | Wedi eu terfynu |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 3 | 1 | 19 | 1 | 2 |
| % | 11% | 4% | 73% | 4% | 8% |

Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, o fewn 90 diwrnod gwaith i ystyried y gŵyn. Yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, cwblhaodd Ofcom y gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, cyn pen 116.5 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, mae ein tîm wedi parhau i asesu mwy nag erioed o gwynion darlledu. Rydym hefyd wedi rhoi nifer fawr o sancsiynau. Roedd llawer iawn o'r achosion Tegwch a Phreifatrwydd a gafodd eu cau eleni yn cynnwys rhai materion gweithdrefnol a chyfreithiol cymhleth iawn. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi cymryd mwy o amser nag arfer i gwblhau ein dyfarniadau.

## Gwasanaethau rhaglenni ar-alw

Rydym hefyd yn ystyried cwynion am safonau cynnwys ar wasanaethau rhaglenni ar-alw ("ODPS") hysbysedig[22] o dan under Weithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri'r rheolau ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw. Yn 2021/22, roeddem wedi cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer darparwyr ODPS ar hysbysu ac ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunyddiau niweidiol.

21 Fel y nodwyd y llynedd, ym mis Mawrth 2021 roeddem wedi diddymu'r drwydded ar gyfer gwasanaeth CGTN ar ôl i'n hymchwiliad ddod i'r casgliad nad oedd gan y trwyddedai, Star China Media Limited, gyfrifoldeb golygyddol dros allbwn CGTN, ac felly nad oedd yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol o gael rheolaeth dros y gwasanaeth trwyddedig.

22 Ac eithrio ODPS gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir gan y BBC, ac sy'n dod o dan y Cod Darlledu, mae'n rhaid i ODPS yr hysbysir Ofcom amdanynt gydymffurfio â set o Reolau Statudol sydd ar wahân i'r Cod Darlledu.

# A4. CWYNION, ACHOSION A SANCSIYNAU DARLLEDU

## Trwyddedau Darlledu:

**Cynnig cyfleoedd darlledu newydd ar y radio a'r teledu**
Mae ein pwyslais ar gyflwyno DAB graddfa fach wedi parhau drwy gydol y cyfnod, wrth i 25 o drwyddedau amlblecs gael eu dyfarnu. Rydym wedi cyhoeddi 42 o drwyddedau Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol (C-DSP)[23] i'w darlledu ar yr amlblecsau hyn, gyda dros 60% o'r gwasanaethau newydd hyn yn rhai newydd i'r farchnad (nid gwasanaethau radio cymunedol analog presennol). Rydym yn falch o weld nifer y trwyddedau C-DSP sydd wedi cael eu dyfarnu, gan nad yw'r rhan fwyaf o'r amlblecsau wedi cael eu lansio eto (mae gan amlblecsau hyd at 18 mis i lansio ar ôl y dyfarnu).

Bydd trwyddedu gwasanaethau Rhaglenni Sain Digidol (DSP)[24] ychwanegol yn ychwanegu at yr amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael ar bob amlblecs, ac rydym wedi cael 48 o geisiadau DSP yn ystod y flwyddyn diwethaf. Mae 318 o wasanaethau radio cymunedol analog yn darlledu hefyd, a bydd 13 arall yn cael eu lansio yn ystod y flwyddyn nesaf. Yn olaf, rydym hefyd wedi cael 19 o geisiadau am wasanaethau teledu newydd yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn dal i weld galw am wasanaethau cyfyngedig, gyda 155 o drwyddedau wedi cael eu dyfarnu yn 2021/22. Gwasanaethau radio sy'n gwasanaethu ardaloedd bach yw gwasanaethau cyfyngedig, a ddefnyddir i ddarlledu mewn digwyddiad (er enghraifft darparu sylwebaeth mewn sioe awyr) neu mewn sefydliadau (er enghraifft gwasanaeth radio ysbyty). Mae'r diddordeb yn y gwasanaethau hyn wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig i ddarparu gwasanaethau mewn digwyddiadau gyrru-i-mewn, fel ffilmiau gyrru-i-mewn. Er mwyn diwallu'r galw am y gwasanaethau hyn yn well, rydym wedi ymgynghori ar ddefnyddio bylchau bach mewn sbectrwm – sy'n cael eu galw'n 'sbectrwm darpariaeth gyfyngedig' – ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig, gan roi cyfleoedd i wasanaethau lleol iawn ddod ar yr awyr.

**Cadw gwasanaethau i fynd**

Rydym yn dal i helpu trwyddedeion wrth iddyn nhw ddod dros yr heriau a achoswyd gan bandemig y coronafeirws. Rydym yn dal yn hyblyg pan fydd trwyddedeion wedi cyfiawnhau ac wedi rhoi tystiolaeth o'r rhesymau dros fethu bodloni holl ofynion eu trwyddedau, ac rydym wedi cynnal ein sefyllfa o ganiatáu cyfnodau talu hyblyg, pan fydd angen.

Hefyd, rydym wedi parhau i weinyddu'r Gronfa Radio Cymunedol ar ran yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a oedd wedi darparu arian ychwanegol i gynorthwyo trwyddedeion radio cymunedol. Yn ystod y flwyddyn diwethaf ac ar draws dwy rownd gyllido, roedd Panel y Gronfa Radio Cymunedol wedi gwneud 49 o ddyfarniadau a oedd werth £612,156 i gyd.

23 Mae trwyddedau Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol (C-DSP) ar gael i orsafoedd radio cymunedol sy'n dymuno darlledu ar radio digidol DAB. Gall y trwyddedau hyn gael eu defnyddio gan y rheini sydd eisoes yn dal trwyddedau radio cymunedol analog neu ar gyfer gwasanaethau digidol cymunedol sy'n newydd i'r farchnad.

24 Mae angen i unrhyw un sy'n dymuno darlledu gwasanaeth rhaglenni sain ar amlblecs digidol gael trwydded rhaglenni sain digidol (DSP), boed y gwasanaeth hwn dim ond ar gael yn ddigidol neu'n ddarllediad ar yr un pryd ar wasanaeth radio analog, lloeren neu gebl sydd eisoes yn bodoli.

# A4. CWYNION, ACHOSION A SANCSIYNAU DARLLEDU

**Gorfodi amodau trwydded**

Yn ein gwaith i orfodi amodau trwydded, a ystyrir gennym o dan ein Gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu, roeddem wedi asesu 739 o gwynion yn ystod 2021/22. Roedd 591 ohonyn nhw'n ymwneud â'r amhariad ar wasanaethau isdeitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion ar gyfer gwasanaethau Channel 4, sydd o dan ymchwiliad gennym ar hyn o bryd. Mae'r 148 o gwynion eraill wedi'u nodi yn ffigur 14.

### Ffigur 14: Cwynion trwyddedu

| Disgrifiad o'r cwynion | Cwynion |
|---|---|
| Nid oedd darlledwyr wedi cadw at yr ymrwymiadau/cwotâu rhaglenni yn eu trwyddedau. | 69 |
| Roedd gorsafoedd radio cymunedol neu fasnachol wedi rhoi'r gorau i ddarlledu dros dro, ac felly nid oeddent yn darparu'r gwasanaeth sy'n ofynnol gan y drwydded. | 9 |
| Trwyddedeion ddim yn cydymffurfio â'r gofynion perchnogaeth ar gyfer dal trwydded ddarlledu. | 0 |
| Nid oedd y trwyddedai'n 'addas a phriodol' i ddal trwydded ddarlledu. | 5 |
| Amrywiaeth o faterion eraill, rhai ohonynt y tu allan i gylch gwaith Ofcom. | 65 |

Roeddem wedi cau 107 ymchwiliad, gyda 102 ohonyn nhw wedi'u cychwyn gan Ofcom. Mae Ffigur 15 yn egluro canlyniad y 107 ymchwiliad.

### Ffigur 15: Canlyniadau'r ymchwiliad

| Canlyniad | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Heb Dorri Amodau** | 21 | 20% |
| **Arall** | 36 | 34% |
| **Datryswyd** | 12 | 11% |
| **Torri amodau** (oherwydd) | 38 | 35% |
| Peidio â thalu ffioedd trwyddedau blynyddol | 6 | 5.5% |
| Methu darparu gwybodaeth ar gais (cyffredinol) | 6 | 5.5% |
| Methu darparu gwybodaeth ar gais (Data Gwybodaeth am y Farchnad) | 17 | 16% |
| Methu darparu recordiadau o allbwn darlledu | 3 | 3% |
| Methu cynnal cymeriad y gwasanaeth trwyddedig yn unol ag Ymrwymiadau Rhaglenni | 2 | 2% |
| Methu cyflawni'r gofynion a nodir yn ei Ymrwymiadau Allweddol | 3 | 3% |
| Arall | 1 | 1% |

# A4. CWYNION, ACHOSION A SANCSIYNAU DARLLEDU

Roedd hyn yn fwy na 2020/21, pan wnaethom gau 50 o ymchwiliadau, ac roedd 28 ohonynt wedi arwain at gofnodi bod amodau'r drwydded wedi cael eu torri. Mae'r nifer cymharol isel o ymchwiliadau yn 2020/21 yn deillio o'r hyblygrwydd rydym wedi ei gynnig i ddarlledwyr o ran cydymffurfio ag ymrwymiadau rhaglenni, ceisiadau am wybodaeth a ffioedd trwyddedau yn ystod pandemig y coronafeirws.

Mewn achosion lle mae trwyddedai wedi torri amodau ei drwydded yn ddifrifol, yn fwriadol, droeon neu'n ddi-hid, rydym yn rhoi sancsiwn statudol yn unol â'n Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau statudol mewn achosion o dorri amodau trwyddedau darlledu. Nid oeddem wedi rhoi unrhyw gosbau yn 2021/22, fel y nodir yn ffigur 16 isod.

**Ffigur 16: Cosbau trwyddedu a osodwyd fesul blwyddyn**

| Math | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| Peidio â thalu ffioedd blynyddol | – | 4 | 9 | – | – |
| Peidio â darparu gwybodaeth | – | 2 | 3 | – | – |
| Peidio â chydymffurfio ag ymrwymiadau rhaglenni | – | – | 1 | – | – |
| Y Trwyddedai wedi methu rhoi gwybod i Ofcom am newid rheolaeth | – | – | – | 1 | – |
| **Cyfanswm** | **–** | **6** | **13** | **1** | **0** |

Rydym hefyd yn dirymu trwyddedau am resymau ar wahân i dorri amodau trwydded yn ddifrifol - er enghraifft, pan nad yw trwyddedai bellach yn gymwys ac yn briodol i ddal trwydded, pan fydd yn cael ei wahardd rhag dal trwydded, neu pan nad yw bellach yn rheoli gwasanaeth neu y bydd wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth. Ym mis Mawrth 2022, roeddem wedi diddymu'r drwydded ar gyfer sianel deledu RT (Russia Today), ar y sail nad oeddem o'r farn bod trwyddedai RT, ANO TV Novosti, yn gymwys ac yn briodol i ddal trwydded ddarlledu yn y Deyrnas Unedig.

**Ffigur 17: Manylion dirymu trwyddedau nad ydynt yn gysylltiedig â thorri amodau trwydded yn ôl blwyddyn**

| Math | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nid y Trwyddedai yw darparwr cywir y gwasanaeth | – | 1 | 1 | – | 1 |
| Nid yw'r Trwyddedai bellach yn gymwys ac yn briodol i ddal trwydded | 1 | – | – | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **–** | **1** | **1** | **1** | **2** |

# A5. PEIRIANNEG A GORFODI SBECTRWM

## Dangosydd perfformiad allweddol

**Prif Weithgareddau**

| Gweithgarwch Rhaglen Waith/Digwyddiad | Ebrill 21 – Mawrth 22 | Ebrill 20 – Mawrth 21 |
|---|---|---|
| Cwynion a gafwyd am Ymyriant[25] | 1,694 | 1.923 |
| Gwirio cydymffurfiad â thrwyddedau systemau radio[26] | 988 | 1,130 |
| Nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd[27] | 0 | 0 |
| Erlyniadau am weithgarwch troseddol yng nghyswllt sbectrwm[28] | 1 | 1 |

**Targedau Ansawdd Gwasanaeth ar gyfer Cwynion a Dderbyniwyd am Ymyriant**

| Dangosydd Perfformiad Allweddol | Blaenoriaeth Achos | Targed | Targed wedi'i gyflawni: Ebrill 21 – Mawrth 22 | Targed wedi'i gyflawni: Ebrill 20 – Mawrth 21 |
|---|---|---|---|---|
| **Amser cyn yr ymweliad cyntaf:** | 1 | 8 awr | 100% | – |
| Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd ein peiriannwr yn cyrraedd ar y safle i ganfod y broblem (ar gyfer yr achosion hynny pan fydd angen ymweliad maes). | 2 | 18 awr | 100% | 100% |
| | 3 | 2 ddiwrnod gwaith | 100% | 96% |
| | 4 | 5 diwrnod gwaith | 100% | 99% |
| | 5 | 15 diwrnod gwaith | 100% | 99% |
| | 6 | Dim targed | | – |
| **Datrysiad:** | 1 | 2 ddiwrnod calendr | 100% | – |
| Yr amser rhwng rhoi gwybod am gŵyn ynghylch ymyriant a'r amser y bydd y cwsmer yn cael gwybod bod yr achos wedi'i ddatrys. | 2 | 3 diwrnod calendr | 100% | 100% |
| | 3 | 6 diwrnod gwaith | 98% | 100% |
| | 4 | 20 diwrnod gwaith | 94% | 95% |
| | 5 | 40 diwrnod gwaith | 99% | 99% |
| | 6 | 60 diwrnod gwaith | 99% | 99% |

25 Achosion ymyriant a nodwyd gan y cyhoedd a busnesau

26 Gwaith gan Ofcom i sicrhau y cydymffurfir ag amodau trwyddedau neu nad oes defnydd didrwydded yn digwydd

27 Fel arfer, defnyddir Hysbysiadau Cosb Benodedig yn hytrach nag achosion cyfreithiol. Gall peidio â thalu hysbysiad cosb benodedig arwain at gymryd camau cyfreithiol. Mae cyfyngiadau Covid-19 wedi lleihau gallu'r adran Sicrhau Sbectrwm i gynnal ymchwiliadau trwydded nad ydynt yn hanfodol. Yn yr un modd, mae'r cyfyngiadau hyn wedi effeithio ar fusnesau sy'n defnyddio offer telegraffiaeth ddi-wifr y mae'r rhan fwyaf o Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael eu rhoi iddynt. Yn 21/22 roedd gostyngiad o 49% mewn gwirio cydymffurfiad â thrwyddedau systemau radio, o'i gymharu â 2020/21 (gweler y prif dabl uchod) a arweiniodd at ostyngiad yn nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddwyd.

28 Erlyniadau yng nghyswllt gorsafoedd radio anghyfreithlon neu fethiant i dalu Hysbysiadau Cosb Benodedig.

# A6. TRWYDDEDU SBECTRWM

## Categori A

| Trwyddedau lle nad oes gofyn aseinio amledd, clirio safle na chydlynu rhyngwladol | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 22 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21 |
|---|---|---|---|---|
| Radio Busnes Ysgafn - Simple UK (dim gorsaf ganolog) | 1,879 | 1,492 | 15,886 | 15,570 |
| Radio Busnes – safle syml | 1,019 | 971 | 8,501 | 9,048 |
| Cyflenwyr Radio Busnes – ysgafn | 126 | 106 | 1,395 | 1,374 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog (5.8 GHz) | 24 | 44 | 358 | 404 |
| Troswr GNSS | 4 | 14 | 370 | 366 |
| Heddlu a Thân | 4 | 1 | 124 | 123 |
| **Is-gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **3,056** | **2,628** | **26,634** | **26,885** |
| Medrydd Lefel Radar | 0 | 0 | 124 | 124 |
| Amatur a Morol | 31,606 | 34,326 | 284,233 | 275,665 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori A** | **34,662** | **36,954** | **310,991** | **302,674** |
| Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer Categori A (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | – | – |
| DPA ar gyfer Categori A (Amatur a Morol) (100% mewn 10 diwrnod) | 100% | 100% | – | – |

# A6. TRWYDDEDU SBECTRWM

## Categori B

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, ond nad oes angen clirio safle na chydlynu rhyngwladol | | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 22 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21 |
|---|---|---|---|---|---|
| System Adnabod Awtomatig | | 33 | 19 | 412 | 398 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) | | 8 | 10 | 390 | 396 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) | | 7 | 13 | 317 | 324 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Marina) | | 10 | 7 | 392 | 389 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Ysgol Hyfforddi) | | 74 | 50 | 565 | 504 |
| Radio Morol (Cyflenwyr ac Arddangos) | | 3 | 4 | 76 | 87 |
| Radar a Chymhorthion Llywio Morol | | 6 | 4 | 119 | 117 |
| System Lleoli Byd-eang Wahaniaethol (DGPS) | | 0 | 0 | 4 | 6 |
| Rhannu Mynediad (Pŵer Isel) | | 287 | 63 | 1,080 | 829 |
| Rhannu Mynediad (Pŵer Canolig) | | 404 | 95 | 372 | 94 |
| **Is-gyfanswm - Dadreoleiddio a Chontractio Allan** | | **832** | **265** | **3,727** | **3,144** |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio'n Dechnegol | | 1,632 | 1,729 | 22,405 | 23,580 |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio fesul Ardal | | 116 | 35 | 446 | 324 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) Ardal wedi'i Diffinio | | 1 | 3 | 12 | 13 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) Ardal wedi ei Diffinio | | 0 | 0 | 4 | 4 |
| Radar Profi'r Tir | | 15 | 19 | 236 | 224 |
| Telemetreg Sganio | | 3 | 2 | 29 | 29 |
| Cysylltiadau hunangydlynol | | 16 | 21 | 148 | 173 |
| **Is-gyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | | **1,783** | **1,809** | **23,280** | **24,347** |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori B** | | **2,615** | **2,074** | **27,007** | **27,491** |
| DPA ar gyfer Categori B | 90% mewn 21 diwrnod | 85% | 87% | – | – |
| | 100% mewn 42 diwrnod | 94% | 97% | – | – |

# A6. TRWYDDEDU SBECTRWM

## Categori C

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, clirio safle a/neu gydlynu rhyngwladol | | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 22 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltiadau Sefydlog | | 1,897 | 1,397 | 19,002 | 18,925 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Barhaol) | | 9 | 44 | 147 | 141 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Gludadwy) | | 29 | 11 | 109 | 104 |
| Lloeren (Rhwydwaith Gorsaf Ddaearol) | | 4 | 14 | 56 | 68 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol heb fod yn sefydlog) | | 12 | 5 | 16 | 10 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol heb fod yn sefydlog) | | 5 | 2 | 6 | 2 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori C** | | **1,956** | **1,473** | **19,336** | **19,250** |
| DPA ar gyfer Categori C | 90% mewn 42 diwrnod | 1,956 | 1,473 | 19,336 | 19,250 |
| | 100% mewn 60 diwrnod | 100% | 99% | – | – |

## Trwyddedau awyrennol

| Trwyddedau ar gyfer gwasanaethau awyrennol | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 22 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21 |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedau Awyrennol | 2,074 | 1,648 | 19,214 | 16,128 |
| **Cyfanswm ar gyfer Awyrennol** | **2,074** | **1,648** | **19,214** | **16,128** |
| DPA ar gyfer Awyrennol (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | – | – |

## Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE)

| Rhoi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, a'u hawdurdodi | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 22 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21 |
|---|---|---|---|---|
| Trwyddedau PMSE | 28,958 | 14,113 | 6,851 | 5,669 |
| **Cyfanswm ar gyfer PMSE** | **28,958** | **14,113** | **6,851** | **5,669** |
| DPA ar gyfer PMSE (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | | – |

# A6. TRWYDDEDU SBECTRWM

## Trwyddedau Profi a Datblygu

| **Rhoi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, a'u hawdurdodi** | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22** | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21** | **Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 22** | **Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21** |
|---|---|---|---|---|
| Trwydded Ymchwil ac Arloesi | 518 | 413 | 1,127 | 352 |
| Trwydded Treialu ac Arddangos | 380 | 264 | 684 | 135 |
| **Cyfanswm ar gyfer Profi a Datblygu** | **898** | **677** | **1,811** | **487** |
| DPA ar gyfer Profi a Datblygu (100% mewn 60 diwrnod) | 100% | 100% | | – |

## Trwyddedau band eang di-wifr a symudol[29]

| **Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthiant o'r sbectrwm neu drwy ddyfarnu'r sbectrwm** | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22** | **Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21** | **Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 22** | **Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21** |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad i Sbectrwm: 412 – 414 MHz | | | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 700 MHz | 3[30] | | 3 | 0 |
| Mynediad i Sbectrwm: 800 MHz, 2.6 GHz | | 1[31] | 6 | 6 |
| Rhwydweithiau Di-wifr Cyhoeddus: 900, 1800 MHz | | | 4 | 4 |
| Mynediad i Sbectrwm: 1452 – 1492 MHz | | | 2 | 2 |
| Mynediad i Sbectrwm: 1785 MHz, Gogledd Iwerddon | | | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 2100 MHz | | | 4 | 4 |
| Mynediad i Sbectrwm: 2.3 GHz | | | 1 | 1 |
| Mynediad i Sbectrwm: 3.4-3.6, 3.5, 3.6, 3.6-3.8 GHz | 7[32] | | 13 | 6 |
| Mynediad i Sbectrwm: 10, 28, 32, 40 GHz | | | 18 | 18 |
| Mynediad i Sbectrwm ar y Môr | 1 | 2 | 12 | 11 |
| Mynediad Lleol i Sbectrwm | 16 | 9 | 26 | 10 |
| Mynediad i Sbectrwm: Twnnel y Sianel[33] | | | 2 | 2 |
| **Cyfanswm ar gyfer Band Eang Di-wifr a Symudol** | **27** | **12** | **93** | **66** |

29 Nid yw ffigurau'r trwyddedau a amrywiwyd a/neu a ailgyhoeddwyd, neu a fasnachwyd yn llawn o un cwmni i'r llall, wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau hyn.
30 Dyfarnu 700 MHz / 3.6-3.8 GHz, (27/04/21)
31 Masnachu'n rhannol 2600 MHz o sbectrwm heb ei baru o EE i Telefónica (03/11/20) gan greu 1 drwydded ychwanegol
32 Dyfarnu 700 MHz / 3.6-3.8 GHz, (27/04/21) yn ogystal â thrwyddedau pontio yn ystod y cyfnod dad-ddarnio (Vodafone & Telefónica)
33 Trwydded ar wahân ar gyfer y twnnel i gyfeiriad Ffrainc o'r DU.

# A6. TRWYDDEDU SBECTRWM

## Trwyddedau Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel

| Ceisiadau am drwyddedau a wnaed drwy Reoleiddwyr lleol | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 22 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21 |
|---|---|---|---|---|
| Rhwydwaith Di-wifr Cyhoeddus: 800, 900, 1800, 2100, 2600 MHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | | | | 33 |
| Mynediad Di-wifr / Sbectrwm: 3.4, 3.6, 10, 28 GHz, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw | | -1 | | 8 |
| **Y cyfanswm ar gyfer Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel** | **0** | **-1** | **41** | **41** |

## Trwyddedau Sbectrwm y Difidend Digidol

| Trwyddedau DDR GI a roddwyd drwy brosesau dyfarnu sbectrwm | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 21 – Mawrth 22 | Trwyddedau a roddwyd Ebrill 20 – Mawrth 21 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 22 | Y cyfanswm a roddwyd erbyn 31 Mawrth 21 |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad Sbectrwm 541 – 550 MHz (Caerdydd) | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 758 – 766 MHz (Manceinion) | 0 | 0 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm trwyddedau'r Difidend Digidol** | **0** | **0** | **2** | **2** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y trwyddedau - pob categori** | **71,190** | **56,951** | **385,344** | **371,808** |

# A7. CYNALADWYEDD

Mae'r adran hon yn rhoi data am gynaliadwyedd a'r costau ariannol yn fanylach.

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

| | | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (tunelli $CO_2e$)** | **Cwmpas 1** | Nwy | 187 | 148 | 22 | 18 | 27 |
| | | Olew | 22 | 11 | 0 | 0 | 0 |
| | | Tanwydd Fflyd | 192 | 168 | 163 | 90 | 88 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan | 809 | 528 | 308 | 189 | 172 |
| | **Cwmpas 3** | Hedfan Domestig | 156 | 160 | 185 | 0 | 12 |
| | | Hedfan Rhyngwladol | 255 | 289 | 292 | 0 | 15 |
| | | Trên/bws/tanddaearol | 66 | 67 | 73 | 1 | 17 |
| | | Car/Beic Modur/Beic | 41 | 36 | 41 | 6 | 12 |
| | | Tacsis | 2 | 2 | 3 | 0 | 0 |
| **Data defnydd cysylltiedig** | **Cwmpas 1** | Nwy (kWh) | 1,014,202 | 802,709 | 120,016 | 95,613 | 148,858 |
| | | Nwy fesul FTE (kWh) | 1,136 | 891 | 125 | 93 | 128 |
| | | Olew (litrau) | 8,500 | 4,501 | 0 | 0 | 0 |
| | | Tanwydd Fflyd (litrau) | 73,659 | 64,710 | 62,665 | 35,465 | 35,406 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan (kWh) | 2,103,652 | 1,720,333 | 1,112,349 | 747,108 | 809,159 |
| | | Trydan fesul FTE (kWh) | 2,356 | 1,910 | 1,162 | 725 | 698 |
| | **Cwmpas 3** | Hedfan – domestig (km) | 581,902 | 537,247 | 725,261 | 653 | 50,324 |
| | | Hedfan – rhyngwladol (km) | 1,617,386 | 1,776,192 | 1,680,572 | 0 | 108,509 |
| | | Trên/bws/tanddaearol (km) | 1,793,809 | 1,784,741 | 2,000,504 | 13,146 | 437,355 |
| | | Car/Beic Modur/Beic (km) | 230,062 | 205,379 | 236,795 | 31,913 | 66,510 |
| | | Tacsis (km) | 14,247 | 14,998 | 17,516 | 632 | 2,444 |
| **Dangosyddion Ariannol** | **Cwmpas 1** | Nwy | £19,465 | £23,494 | £10,852 | £11,803 | £12,385 |
| | | Olew | £5,530 | £3,347 | £0 | £0 | £0 |
| | | Tanwydd Fflyd | £93,911 | £90,292 | £85,269 | £43,166 | £49,432 |
| | **Cwmpas 2** | Trydan | £340,333 | £287,074 | £158,351 | £127,833 | £146,021 |
| | **Cwmpas 3** | Hedfan Domestig | £116,648 | £112,530 | £122,986 | (£956) | £6,204 |
| | | Hedfan Rhyngwladol | £217,075 | £255,314 | £279,959 | (£6,263) | £18,279 |
| | | Trên/bws/tanddaearol | £266,725 | £273,338 | £315,574 | £2,136 | £70,737 |
| | | Car/Beic Modur/Beic | £64,329 | £57,428 | £66,212 | £8,923 | £21,054 |
| | | Tacsis | £40,826 | £44,266 | £52,421 | £1,977 | £7,884 |

# A7. CYNALADWYEDD

**Cwmpas 1** – Mae hyn yn berthnasol i ddefnyddio nwy ac olew yn uniongyrchol, a defnyddio tanwydd yng ngheir fflyd Ofcom.

Mae'r data am y defnydd o nwy ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, a swyddfeyd, Belfast, Birmingham, Haydock (a wnaeth gau yn 2018) a Livingston (a wnaeth gau yn 2017). Caiff costau nwy ar gyfer swyddfeydd Caeredin, Warrington a Chaerdydd eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny. Mae'r defnydd o nwy yn dibynnu ar y tywydd.

Bydd Ofcom yn talu am danwydd diesel ar gyfer ei geir fflyd drwy ddefnyddio cardiau tanwydd, a chaiff y defnydd ei gofnodi a'i fonitro bob mis. Mae defnydd o danwydd yn ein ceir fflyd yn dibynnu i raddau helaeth ar y galw am ein gwasanaethau gorfodi.

**Cwmpas 2** – Mae hyn yn berthnasol i gyflenwadau trydan i swyddfeydd Ofcom. Mae'r data trydan ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Baldock, Belfast, Birmingham, Caerdydd, Caeredin, Haydock (wedi cau yn 2018), Warrington, Manceinion (newydd yn 2021) a rhai safleoedd monitro a chanfod cyfeiriad o bell ledled y DU. Mae'r defnydd o drydan yn dibynnu ar y tywydd.

**Cwmpas 3** – Mae data ariannol am deithiau busnes wedi dod o'n system cofnodi, ac mae'n cynnwys teithiau gan bob cydweithiwr ni waeth ble maent wedi'u lleoli. Rydym wedi trosi data ariannol teithiau mewn tacsis ac ar drenau i bellteroedd drwy ddefnyddio canllawiau o Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon, a data ariannol teithiau mewn ceir i bellteroedd drwy ddefnyddio data o hawliadau treuliau ar gyfer milltiroedd a deithir. Mae'r data am deithiau hedfan wedi dod yn uniongyrchol gan ein darparwr teithiau busnes, ac wedi'i gategoreiddio i deithiau domestig a rhyngwladol, yn unol â chanllawiau pellter hedfan Defra.

## Lleihau a rheoli gwastraff

Mae'r data am y defnydd o wastraff ar hyd y blynyddoedd yn ymwneud â phrif swyddfa Ofcom yn Llundain. Nid oes data cywir am y defnydd o wastraff ar gael ar gyfer swyddfeydd eraill Ofcom, ond mae'r costau sy'n gysylltiedig â chael gwared â gwastraff wedi'u cynnwys.

O fis Mehefin 2017 ymlaen, mae cost gwastraff wedi'i gynnwys yn ein tâl gwasanaeth. Mae ein hasiant rheoli'n gweithredu ar sail 'dim gwastraff i safleoedd tirlenwi', ac mae'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi gan adfer ynni.

| | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol (tunelli)** | | 76 | 198 | 189.21 | 69.00 | 160.59 |
| | Gwastraff wedi'i anfon i safle tirlenwi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwastraff TGCh wedi'i ailgylchu/ ailddefnyddio | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwastraff wedi'i ailgylchu/ ailddefnyddio | 91 | 52 | 71 | 91.69 | 79 |
| | Gwastraff wedi'i gompostio | 14 | 4 | 4 | 0 | 0 |
| | Gwastraff wedi'i losgi gan adfer ynni | 63 | 20 | 127 | 97.52 | 82 |
| | Gwastraff wedi'i losgi heb adfer ynni | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cyfanswm gwastraff fesul FTE | 0.086 | 0.220 | 0.198 | 0.067 | 0.139 |
| **Dangosyddion Ariannol** | | £7,004 | £43,805 | £35,000 | £12,470 | £28,576 |

# A7. CYNALADWYEDD


## Defnydd o adnoddau cyfyngedig

Mae'r data dŵr ar draws yr holl flynyddoedd yn berthnasol i brif swyddfa Ofcom yn Llundain, Baldock, Birmingham a Haydock (a wnaeth gau yn 2018). Caiff costau dŵr ar gyfer swyddfeydd eraill eu cynnwys yn y ffi gwasanaeth, ac felly nid oes modd dadansoddi hynny. Mae'r costau yn 2017/18 yn cynnwys nodiadau credyd gan gyflenwyr oherwydd biliau a oedd wedi codi gormod yn ystod blynyddoedd blaenorol. Caiff defnydd o ddŵr ei gyfyngu i ddefnydd gweithredol, gan gynnwys cyfleuster arlwyo ym mhrif swyddfa Ofcom yn Llundain.

Gwelwyd cynnydd o ran y defnydd o ddŵr yn ystod 2019/20 oherwydd bod dŵr wedi bod yn gollwng yn ein swyddfa yn Baldock, ac mae'r broblem wedi cael ei datrys erbyn hyn.

| | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol** | Defnydd dŵr ($m^3$) | 9,379 | 13,988 | 18,874 | 6,375 | 13,075 |
| | Defnydd dŵr fesul FTE | 10.50 | 15.53 | 19.71 | 6.19 | 11.28 |
| | Rimiau papur | 3,915 | 2,579 | 2,446 | 23 | 16 |
| | Rimiau A3 | 50 | 127 | 106 | 0 | 1 |
| | Rimiau A4 | 3,865 | 2,452 | 2,305 | 23 | 15 |
| | Rimiau A5 | 0 | 0 | 35 | 0 | 0 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Dŵr | £6,929 | £19,583 | £23,321 | £14,820 | £25,049 |

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**




**Ofcom**
Y Swyddfa Gyfathrebiadau
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

**Switsfwrdd**
+44 (0)300 123 3000
+44 (0)20 7981 3000

**Ffôn testun**
+44 (0)20 7981 3043

**Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Ofcom**
+44 (0)300 123 3333 neu
+44 (0)20 7981 3040

**Manceinion**
6ed Llawr
1 Circle Square
Oxford Road
Manceinion M1 7ED
+44 (0)289 026 5509

**Yr Alban**
125 Princes Street
Caeredin EH2 4AD
+44 (0)131 220 7300

**Cymru**
2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ
+44 (0)29 2046 7200

**Gogledd Iwerddon**
Landmark House
The Gasworks
Ormeau Road
Belfast BT7 2JD
+44 (0)28 9041 7500


ofcom.org.uk


**Of604 Gorffennaf 2022**
E02761634
978-1-5286-3497-7